# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 05/11/2013

Cynnwys Contents

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture and Sport

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Ymateb Cychwynnol Llywodraeth y DU i Adroddiad Comisiwn Silk ar Ddiwygio Trefniadau Ariannu Cymru
Statement: The UK Government's Initial Response to the Silk Commission's Report on Financial Reform for Wales

Datganiad: Cynnydd o ran Troi Tai'n Gartrefi
Statement: Progress on Houses into Homes

Datganiad: Teithio at Ddyfodol Gwell—Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
Statement: Travelling to a Better Future—Gypsy and Traveller Framework for Action and Delivery Plan

Datganiad: Creu Cymwysterau Cymru
Statement: The Establishment of Qualifications Wales

Datganiad: Y Cyfleoedd a'r Heriau y Mae'r Sector Coedwigaeth yng Nghymru yn eu Hwynebu
Statement: Opportunities and Challenges Facing the Forestry Sector in Wales

Cymorth i'r Lluoedd Arfog yng Nghymru
Support for the Armed Forces in Wales

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The National Assembly for Wales is now in session.

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

It gives me great pleasure to announce that, in accordance with Standing Order 26.75, the Mobile Homes (Wales) Act 2013 and the Active Travel (Wales) Act 2013 were given Royal Assent on 4 November 2013.

Mae'n rhoi pleser mawr i mi gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, bod Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 4 Tachwedd 2013.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### De-ddwyrain Cymru

### South-east Wales

13:30

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu eu cymryd i wella economi de-ddwyrain Cymru? OAQ(4)1308(FM)*

*1. What actions does the First Minister plan to take to improve the economy of south east Wales? OAQ(4)1308(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our priorities for improving the economy are encouraging jobs and growth, to provide support for businesses, and, of course, the development of the enterprise zones and the city regions.

Ein blaenoriaethau ar gyfer gwella'r economi yw annog swyddi a thwf, darparu cymorth i fusnesau, ac, wrth gwrs, datblygu'r ardaloedd menter a'r rhanbarthau dinas.

13:30 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for that response. Are you able to tell us what the timescale will be for the electrification, particularly of the Valleys lines, which is obviously very important to revitalise the south Wales Valleys, especially in view of the fact that the Office of Rail Regulation has recently stated that plans by Network Rail are not yet costed to a sufficiently high level of detail?

Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. A allwch chi ddweud wrthym beth fydd yr amserlen ar gyfer trydaneiddio, yn enwedig rheilffyrdd y Cymoedd, sydd yn amlwg yn bwysig iawn i adfywio cymoedd y de, yn enwedig o ystyried y ffaith fod Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd wedi datgan yn ddiweddar nad yw cynlluniau gan Network Rail wedi eu costio'n ddigon manwl eto?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Network Rail is required to deliver the electrification of the Valleys lines to ensure that the first services start from October 2018, with a full introduction of services by December 2019. I understand that the Office of Rail Regulation will be monitoring the delivery of this as a regulated output for control period 5, and I welcomed the recommitment by the Prime Minister last week of the UK Government's intention to pay the whole cost west of Cardiff and, of course, of the Valleys lines network in its full entirety.

Mae'n ofynnol i Network Rail drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd i sicrhau bod y gwasanaethau cyntaf yn dechrau o Hydref 2018, gan gyflwyno gwasanaethau'n llawn erbyn mis Rhagfyr 2019. Rwy'n deall y bydd Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd yn monitro cyflawniad hyn fel cynnyrch a reoleiddir ar gyfer cyfnod rheoli 5, ac roeddwn yn croesawu ailadrodd yr ymrwymiad gan y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf o fwriad Llywodraeth y DU i dalu'r gost gyfan i'r gorllewin o Gaerdydd ac, wrth gwrs, rhwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd yn eu cyfanrwydd.

13:31 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, will you commend, as you graciously did last week, the announcement by the Prime Minister that the NATO summit is to be held in south-east Wales? This is a remarkable achievement, as you will know, and will contribute over £130 million to the economy, with the possible creation of over 2,000 jobs, as happened in Chicago. Coupled with the M4 relief road, for which many of us have campaigned for at least 25 years, these are significant achievements and will certainly help the economy in south-east Wales.

Brif Weinidog, a wnewch chi gymeradwyo, fel y gwnaethoch yn haelionus yr wythnos diwethaf, y cyhoeddiad gan y Brif Weinidog y DU y bydd uwchgynhadledd NATO yn cael ei chynnal yn ne-ddwyrain Cymru? Mae hwn yn llwyddiant rhyfeddol, fel y gwyddoch, a bydd yn cyfrannu dros £130 miliwn at yr economi, ac mae'n bosibl y bydd dros 2,000 o swyddi yn cael eu creu, fel y digwyddodd yn Chicago. Ynghyd â ffordd liniaru'r M4, y mae llawer ohonom ni wedi ymgyrchu drosti ers o leiaf 25 mlynedd, mae'r rhain yn llwyddiannau sylweddol, a bydd yn sicr yn helpu'r economi yn ne-ddwyrain Cymru.

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Indeed so. The M4 relief road has been high on the list of Welsh Government priorities for some time, and the announcement last week will enable us to actually get on and do it if that is the final decision, otherwise it could not have been even considered in the first place. With regard to the NATO conference, that was something that I was in discussion with the UK Government about for some weeks. I very much welcome the fact that the UK Government has kept me informed of the intention to hold it in Wales, and very much welcome the announcement.

Bydd wir. Mae ffordd liniaru'r M4 wedi bod yn uchel ar restr flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ers cryn amser, a bydd y cyhoeddiad a wnaed yr wythnos diwethaf yn ein galluogi i fwrw ati i'w hadeiladu os mai dyna'r penderfyniad terfynol, fel arall, ni allai hyd yn oed fod wedi cael ei hystyried yn y lle cyntaf. O ran y gynhadledd NATO, roedd honno'n rhywbeth yr oeddwn i mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU yn ei chylch am rai wythnosau. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith fod Llywodraeth y DU wedi fy hysbysu am y bwriad i'w chynnal yng Nghymru, ac yn croesawu'r cyhoeddiad yn fawr iawn.

13:33 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, we received news yesterday that Sapa Extrusions aluminium plant in Bedwas was under threat of closure. Explicitly blamed by the company were the current market conditions in the United Kingdom and further afield. There are 132 skilled manufacturing jobs at this site, jobs, I am sure you will agree, that we can ill-afford to lose. Will you commit to ensuring that your Government makes every effort to engage with the company and the workforce to try to avoid closure, please?

Brif Weinidog, cawsom newyddion ddoe fod gwaith alwminiwm Sapa Extrusions ym Medwas dan fygythiad o gael ei gau. Rhoddodd y cwmni y bai yn benodol ar gyflwr y farchnad ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Ceir 132 o swyddi gweithgynhyrchu crefftus ar y safle hwn, swyddi, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno, na allwn ni fforddio eu colli. A wnewch chi ymrwymo i sicrhau y bydd eich Llywodraeth yn gwneud pob ymdrech i ymgysylltu â'r cwmni a'r gweithlu i geisio osgoi'r cau, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I can. Of course, it is very worrying news for those who work at the facility, and the Minister for Economy, Science and Transport, through her officials, will be liaising with the company to see what can be done in order to assist it.

Gwnaf, yn sicr. Wrth gwrs, mae'n newyddion pryderus iawn i'r rhai sy'n gweithio yn y cyfleuster, a bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, trwy ei swyddogion, yn cysylltu â'r cwmni i weld beth y gellir ei wneud i'w gynorthwyo.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

First Minister, thank you for those comments. I am sure that our thoughts are with staff and their families at Sapa aluminium as they face uncertainty going into Christmas. Can you tell us what assessment you have made of the potential impact on jobs for the supply-and-demand chains for Sapa aluminium?

Brif Weinidog, diolch i chi am y sylwadau yna. Rwy'n siŵr bod ein meddyliau gydag aelodau staff Sapa alwminiwm a'u teuluoedd wrth iddyn nhw wynebu ansicrwydd wrth i'r Nadolig nesáu. A allwch chi ddweud wrthym pa asesiad yr ydych chi wedi ei wneud o'r effaith bosibl ar swyddi yn y cadwyni cyflenwad a galw ar gyfer Sapa aliminium?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are all issues that are being examined by officials. The first objective is to see what might be done in order to assist those who work there. We would all, I am sure, wish to see a situation where potentially those jobs could continue where they are. Nobody can give that guarantee of course, but we will be working hard to make sure that those who work there are provided with a more certain future.

Mae'r rhain i gyd yn faterion sy'n cael eu harchwilio gan swyddogion. Yr amcan cyntaf yw gweld beth ellid ei wneud i helpu'r rhai sy'n gweithio yno. Byddem i gyd, rwy'n siŵr, yn dymuno gweld sefyllfa lle o bosibl y gallai'r swyddi hynny barhau yn yr un lle. Ni all unrhyw un roi'r sicrwydd hynny, wrth gwrs, ond byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yno yn derbyn dyfodol mwy sicr.

Senedd.tv Fideo Video

## Cyfraddau Llog

## Interest Rates

13:34 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

*2. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal cam-werthu cynnyrch gwarchod rhag risgiau cyfraddau llog i fusnesau bach? OAQ(4)1313(FM)*

*2. What action is the Welsh Government taking to prevent the misselling of interest rate hedging products to small business? OAQ(4)1313(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The regulation of banking products is not a devolved matter, but we do recognise the difficulty that interest rate swap agreements are causing to Welsh businesses. The Minister for Economy, Science and Transport is meeting with the organisation Bully-Banks tomorrow to discuss this issue.

Nid yw rheoleiddio cynhyrchion bancio yn fater datganoledig, ond rydym ni yn cydnabod yr anhawster y mae'r cytundebau cyfnewid cyfraddau llog yn ei achosi i fusnesau Cymru. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyfarfod â'r sefydliad Bully-Banks yfory i drafod y mater hwn.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. According to the campaign group, Bully-Banks, the misselling of interest rate swap agreements has cost around 400,000 jobs to our small and medium-sized enterprises and an enormous £1.7 billion in lost revenue to the Treasury. The businesses affected have been bound into paying interest rates that are 8% or 9% above the London interbank offered rate, and an exit fee of some 20% to 40% of the initial loan value. My MP and colleague, Guto Bebb, has worked tirelessly to support that campaign, and he will be speaking tomorrow night at the very meeting that you have mentioned. First Minister, will you commend and join this campaign, and will you take a stand against such bad financial practice?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Yn ôl y grŵp ymgyrchu, Bully-Banks, mae cam-werthu cytundebau cyfnewid cyfraddau llog wedi costio tua 400,000 o swyddi i'n busnesau bach a chanolig eu maint a'r swm enfawr o £1.7 biliwn mewn refeniw a gollwyd ar gyfer y Trysorlys. Mae'r busnesau yr effeithiwyd arnynt yn rhwymedig i dalu cyfraddau llog sydd 8% neu 9% yn uwch na chyfradd rhyng-fanciol Llundain, a ffi gadael o tua 20% i 40% o werth y benthyciad cychwynnol. Mae fy AS a'm cydweithiwr, Guto Bebb, wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi'r ymgyrch honno, a bydd yn siarad yn yr union gyfarfod yr ydych chi wedi sôn amdano. Brif Weinidog, a wnewch chi gymeradwyo ac ymuno â'r ymgyrch hon, ac a wnewch chi gymryd safiad yn erbyn arfer ariannol mor wael o'r fath?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not think that I can add to the answer that I gave previously. I understand that the Assembly Member for Ceredigion will also be at that meeting. Clearly, it is an important issue for our SMEs, but I do mention the fact that, of course, it is not a devolved matter. However, I note with pleasure that, on 24 October, the UK Government, in a House of Commons debate, committed to monitoring the interest rate swap agreement situation more closely. That, of course, is within its purview, and I certainly welcome its interest in this issue.

Nid wyf yn meddwl y gallaf ychwanegu at yr ateb a roddais yn flaenorol. Rwy'n deall y bydd yr Aelod Cynulliad dros Geredigion yn y cyfarfod hwnnw hefyd. Yn amlwg, mae'n fater pwysig i'n BBaChau, ond rwy'n crybwyll y ffaith nad yw hwn, wrth gwrs, yn fater datganoledig. Fodd bynnag, rwy'n nodi gyda phleser, ar 24 Hydref, bod Llywodraeth y DU, mewn dadl yn Nhŷ'r Cyffredin, wedi ymrwymo i fonitro'r sefyllfa o ran cytundebau cyfnewid cyfraddau llog yn agosach. Mae hynny, wrth gwrs, o fewn ei chylch gorchwyl, ac rwy'n sicr yn croesawu ei diddordeb yn y mater hwn.

13:35 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of my constituents is going to have to either mortgage their house or see their business go out of existence as a result of signing up to this misselling. What is the Financial Services Authority doing? Is it that it does not have sufficient presence in Wales, or is it the financial ombudsman who should be capturing these issues before they become such a huge problem?

Mae un o'm hetholwyr yn mynd i orfod morgeisio ei dŷ neu weld ei fusnes yn diflannu o ganlyniad i gytuno i'r cam-werthu hwn. Beth mae'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn ei wneud? Ai'r ffaith amdani yw nad oes ganddo ddigon o bresenoldeb yng Nghymru, neu ai'r ombwdsmon ariannol ddylai fod yn datrys y materion hyn cyn iddynt droi'n broblem mor fawr?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The FSA—now the FCA, of course—identified this issue back in June of last year. By the spring of this year, the high-street banks did commit to undertake reviews with their own customers to whom they sold these products, to see whether there is a case for compensation. I understand that that is now proceeding. However, as I said, the Minister will be meeting with Bully-Banks to see whether there is anything that we can do as a devolved Government to assist businesses that have been affected in this way.

Nodwyd y mater hwn gan yr FSA—yr FCA bellach, wrth gwrs—yn ôl ym mis Mehefin y llynedd. Erbyn gwanwyn eleni, roedd banciau'r stryd fawr wedi ymrwymo i gynnal adolygiadau gyda'u cwsmeriaid eu hunain y gwerthwyd y cynhyrchion hyn iddynt, i weld a oes achos dros iawndal. Rwy'n deall bod hynny'n digwydd bellach. Fodd bynnag, fel y dywedais, bydd y Gweinidog yn cyfarfod â Bully-Banks i weld a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud fel Llywodraeth ddatganoledig i gynorthwyo busnesau sydd wedi cael eu heffeithio yn y modd hwn.

13:36 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae effaith camwerthu benthyciadau o'r math hyn yn ddifrifol iawn ar y busnesau sy'n cael eu heffeithio, ac ar yr economi yn ehangach. Mae busnesau twristiaeth, busnesau ffermio, a busnesau sy'n rhedeg cartrefi gofal wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan hyn yn fy etholaeth i, ac mewn etholaethau eraill. Rwy'n ddiolchgar bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn mynd i gyfarfod â chynrychiolwyr nos yfory i drafod hyn ymhellach. Fodd bynnag, a wnewch chi a'ch Llywodraeth, ddefnyddio pob cyfle a ddaw, gyda'r Trysorlys a chyda Llywodraeth San Steffan, i bwyso arnynt i ddod i ben â'r trafodaethau hyn er mwyn sicrhau y gellir digolledu'r busnesau sydd wedi cael eu heffeithio mor ddifrifol gan y camwerthu hwn?

First Minister, the impact of this misselling of of loans is very serious indeed for those businesses affected and for the wider economy. Tourism businesses, agriculture businesses and businesses running care homes in my constituency have all been directly affected, as have businesses in other constituencies. I am grateful that the Minister for Economy, Science and Transport is to meet representatives tomorrow evening to discuss this further. However, will you and your Government take every opportunity, with the Treasury and with the Westminster Government, to put pressure on them to conclude these negotiations in order to ensure that businesses that have been so badly affected by this misselling are compensated?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fe wnawn ni hynny, wrth gwrs, ac rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn gwneud hynny ar ôl y cyfarfod y bydd hi'n ei gael yfory. Mae iawndal wedi cael ei dalu i rai busnesau, ond, wrth gwrs, mae sawl un—y mwyafrif, buaswn i'n meddwl—yn dal i aros am iawndal. Bydd y Gweinidog yn ystyried y sefyllfa o ran beth y gall Llywodraeth Cymru ei ddweud a'i wneud er mwyn sicrhau bod busnesau'n cael yr iawndal y maent yn ei haeddu yn y pen draw.

We will, of course, do that, and I am sure that the Minister will be doing just that following tomorrow's meeting. Compensation has been paid to some businesses, but a number of them—the majority, I would think—are still waiting for compensation. The Minister will consider the situation in terms of what the Welsh Government can say and do to ensure that businesses receive the compensation to which they are ultimately entitled.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon, we have the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinyddion y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:38 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, last week, the UK Government listened to Welsh business and agreed to the devolution of stamp duty to the Welsh Government. Given the importance of house building and construction to the Welsh economy, how many times in the last 12 months have you personally met with the leaders of the private sector firms that are building houses in Wales?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, gwrandawodd Llywodraeth y DU ar fusnesau Cymru a chytunodd i ddatganoli'r dreth stamp i Lywodraeth Cymru. O ystyried pwysigrwydd adeiladu tai ac adeiladu i economi Cymru, sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ydych chi wedi cyfarfod yn bersonol gydag arweinwyr y cwmnïau sector preifat sy'n adeiladu tai yng Nghymru?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, this will be a matter for the Minister, primarily. However, I have certainly met with Persimmon, and I have met with people from Redrow at various events, and others.

Wrth gwrs, mater i'r Gweinidog, yn bennaf, fydd hwn. Fodd bynnag, rwy'n sicr wedi cyfarfod â Persimmon, ac rwyf wedi cyfarfod â phobl o Redrow mewn gwahanol ddigwyddiadau, ac eraill.

13:38 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What we are looking for, First Minister, is leadership from you. The UK Government offers the Help to Buy equity loan scheme in England, and the mortgage guarantee scheme across the whole of the UK. As of today, there is still no scheme offered by the Welsh Government to help people secure a mortgage, to give people the opportunity to own their own home, and to provide a much-needed boost to the construction industry in Wales. Why does your Government not have the drive or commitment to help the housing sector?

Yr hyn rydym ni'n chwilio amdano, Brif Weinidog, yw arweinyddiaeth gennych chi. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig cynllun benthyciad ecwiti Cymorth i Brynu yn Lloegr, a'r cynllun gwarant morgais ar draws y DU gyfan. Y sefyllfa heddiw yw nad oes unrhyw gynllun a gynigir gan Lywodraeth Cymru i helpu pobl i sicrhau morgais, er mwyn rhoi'r cyfle i bobl fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, ac i roi hwb y mae wir ei angen i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru. Pam nad yw'r egni na'r ymrwymiad gan eich Llywodraeth chi i helpu'r sector tai?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Such a scheme is being taken forward, and there will be an announcement shortly. However, I was slightly taken aback by the leader of the Liberal Democrats saying that there is a lack of leadership. I said many, many, many, many times that I wanted to see stamp duty devolved—I said it forcefully at the joint ministerial council in London, and, hey presto, 10 days later, we did see the devolution of stamp duty. It is a very important tool that we can use in order to assist not just first-time buyers, but others. This Government has shown clear leadership on the issue, as well as clear leadership with regard to getting the Silk commission's recommendations actually implemented.

Mae cynllun o'r fath yn cael ei ddatblygu, a gwneir cyhoeddiad yn fuan. Fodd bynnag, roeddwn i'n synnu braidd o glywed arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn dweud bod diffyg arweinyddiaeth. Dywedais lawer, lawer, lawer, lawer gwaith fy mod i eisiau gweld y dreth stamp yn cael ei datganoli—dywedais hynny'n rymus yn y cydgyngor gweinidogol yn Llundain, a, hei presto, 10 diwrnod yn ddiweddarach, cafodd y dreth stamp ei datganoli. Mae'n offeryn pwysig iawn y gallwn ei ddefnyddio i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf yn ogystal â phobl eraill. Mae'r Llywodraeth hon wedi dangos arweinyddiaeth eglur ar y mater, yn ogystal ag arweinyddiaeth eglur o ran sicrhau bod argymhellion comisiwn Silk yn cael eu rhoi ar waith mewn gwirionedd.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wish the First Minister would turn his 'just-like-that' to help homebuyers here in Wales. After the collapse of your NewBuy Cymru scheme earlier this year, you told me that you would be hopeful of announcing the start date of a Welsh Government scheme to help homebuyers as quickly as possible. That was over six months ago, First Minister. Despite a letter from your Minister for Housing and Regeneration today, we are still left with no firm date for that help and no specific details. When will your Government help first-time buyers in Wales?

Hoffwn pe byddai'r Prif Weinidog yn troi ei 'just-like-that' i helpu prynwyr cartrefi yma yng Nghymru. Ar ôl methiant eich cynllun NewBuy Cymru yn gynharach eleni, dywedasoch wrthyf y byddech yn gobeithio cyhoeddi dyddiad cychwyn cynllun gan Lywodraeth Cymru i helpu prynwyr cartrefi cyn gynted â phosibl. Roedd hynny dros chwe mis yn ôl, Brif Weinidog. Er gwaethaf llythyr gan eich Gweinidog Tai ac Adfywio heddiw, nid oes gennym ni unrhyw ddyddiad pendant na manylion penodol ar gyfer y cymorth hwnnw o hyd. Pryd wnaiff eich Llywodraeth helpu prynwyr tro cyntaf yng Nghymru?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There will be an announcement in the very near future, certainly before Christmas. One of the reasons it has taken a little longer is that, of course, we need to ensure that financial institutions want to be part of such a scheme. It is a little easier for the UK Government because it owns banks in a way that we do not. As I said, I believe that the scheme will be a great success in Wales, as I believe that the devolution of stamp duty, so resisted by some on the benches opposite me, will make an enormous difference to first-time buyers and others in Wales. It took us 11 months to get a response, of course, in terms of the Silk commission's recommendations. I welcome the fact that we have now had that response, and I believe that we will be able to do even more to help first-time buyers once the Help to Buy scheme is launched and, of course, once we can get stamp duty properly devolved in order to assist those people who need it most.

Gwneir cyhoeddiad yn y dyfodol agos iawn, yn sicr cyn y Nadolig. Un o'r rhesymau pam mae wedi cymryd ychydig yn hwy, wrth gwrs, yw bod angen i ni sicrhau bod sefydliadau ariannol eisiau bod yn rhan o gynllun o'r fath. Mae ychydig yn haws i Lywodraeth y DU oherwydd ei bod yn berchen ar fanciau mewn ffordd nad ydym ni. Fel y dywedais, rwy'n credu y bydd y cynllun yn llwyddiant mawr yng Nghymru, ac rwyf hefyd yn credu y bydd datganoli'r dreth stamp, y bu cymaint o wrthwynebiad iddo gan rai ar y meinciau gyferbyn â mi, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i brynwyr tro cyntaf ac eraill yng Nghymru. Cymerodd 11 mis i ni gael ymateb, wrth gwrs, o ran argymhellion comisiwn Silk. Rwy'n croesawu'r ffaith ein bod ni wedi cael yr ymateb hwnnw bellach, ac rwy'n credu y byddwn yn gallu gwneud hyd yn oed mwy i helpu prynwyr tro cyntaf ar ôl i'r cynllun Cymorth i Brynu gael ei lansio ac, wrth gwrs, ar ôl i'r dreth stamp gael ei datganoli'n iawn er mwyn cynorthwyo'r bobl hynny sydd ei hangen fwyaf.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, last week, your Government announced an inquiry into practices in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board. This is a long-standing campaign from the Welsh Conservatives, and these benches in particular, about having a more general campaign—a general inquiry—across the whole of Wales based on the Keogh-style inquiry that was held in England. Why are you singling out Abertawe Bro Morgannwg instead of bringing one forward for the whole of the Welsh NHS?

Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd eich Llywodraeth ymchwiliad i arferion ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae hon yn ymgyrch hirhoedlog gan Geidwadwyr Cymru, a'r meinciau hyn yn benodol, ynglŷn â chael ymgyrch fwy cyffredinol—ymchwiliad cyffredinol—ar draws Cymru gyfan yn seiliedig ar yr ymchwiliad tebyg i ymchwiliad Keogh a gynhaliwyd yn Lloegr. Pam yr ydych chi'n pwyntio bys at Abertawe Bro Morgannwg yn hytrach na chyflwyno ymchwiliad ar gyfer y GIG cyfan yng Nghymru?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Was there ever a Freudian slip on the floor of this Chamber? [Laughter.] The Conservatives are running a general campaign, and that campaign involves trying to run down the Welsh NHS. I think he has let the cat out of the bag there, has he not? We have no proposals for a Keogh-style inquiry and we are certainly not going to assist him in a general campaign about the NHS.

A fu erioed y fath gamgymeriad Freudaidd ar lawr y Siambr hon? [Chwerthin.] Mae'r Ceidwadwyr yn rhedeg ymgyrch gyffredinol, a nod yr ymgyrch honno yw difetha'r GIG yng Nghymru. Rwy'n credu ei fod wedi gadael y gath o'r cwd yn y fan yna, onid yw? Nid oes gennym unrhyw gynigion ar gyfer ymchwiliad o fath Keogh ac yn sicr nid ydym yn mynd i'w gynorthwyo ef mewn ymgyrch gyffredinol ynglŷn â'r GIG.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no problem in saying that the Welsh Conservatives are running a campaign. I had the huge privilege and pleasure last night of meeting Ann Clwyd in the House of Commons. She congratulated me personally on the actions that we are taking. First Minister, the situations that people are raising with the likes of Ann Clwyd and us as elected Members—and elected Members across this Chamber—show you and your Government in a very bad light and show that you are not addressing those concerns and taking them seriously enough to bring forward an inquiry. Ann Clwyd identified the issues for the English NHS last week with her report. She also touched on the point that 25% of the correspondence that she received came from Wales. We have some very serious issues, which, in fairness, your Minister has identified in the Abertawe Bro Morgannwg health board area. So, I ask the simple question: why cannot the whole NHS benefit from such an inquiry that would root out bad practice, celebrate good practice and improve our Welsh NHS? It is a simple question and a simple formula.

Nid oes gennyf unrhyw broblem yn dweud bod Ceidwadwyr Cymru yn rhedeg ymgyrch. Cefais y fraint a'r pleser enfawr neithiwr o gyfarfod ag Ann Clwyd yn Nhŷ'r Cyffredin. Cefais fy llongyfarch ganddi'n bersonol ar y camau rydym ni'n eu cymryd. Brif Weinidog, mae'r sefyllfaoedd y mae pobl yn eu codi gyda phobl fel Ann Clwyd a ninnau fel Aelodau etholedig—ac Aelodau etholedig ar draws y Siambr hon—yn eich dangos chi a'ch Llywodraeth mewn golau gwael iawn ac yn dangos nad ydych yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny nac yn rhoi ystyriaeth ddigon difrifol iddynt i gyflwyno ymchwiliad. Nododd Ann Clwyd y problemau ar gyfer y GIG yn Lloegr yr wythnos diwethaf yn ei hadroddiad. Mae hi hefyd yn cyffwrdd ar y pwynt bod 25% o'r ohebiaeth iddi ei derbyn wedi dod o Gymru. Mae gennym ni rai problemau difrifol iawn, y mae eich Gweinidog, a bod yn deg, wedi eu nodi yn ardal bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg. Felly, rwy'n gofyn y cwestiwn syml: pam na all y GIG cyfan elwa o ymchwiliad o'r fath a fyddai'n cael gwared ar arferion gwael, canmol arferion da a gwella ein GIG yng Nghymru? Mae'n gwestiwn syml ac yn fformiwla syml.

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Health and Social Services has, of course, ordered an inquiry in relation to a particular matter. There are no particular matters within the NHS that deserve an inquiry to be held, generally. What the Minister for health has done is to hold an inquiry in relation to something that is specific to what happened to an individual. I do not accept that the situation exists in Wales where there is a need for a general inquiry. Yes, there is a need for one in England because the NHS in England is in crisis because of your Government. You only had to see the front page of 'The Observer' on Sunday to see the disaster that is awaiting people in England, sadly, because of the actions of his party. One thing that we will not do in Wales is impose the chaos in England on the people of Wales.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi, wrth gwrs, gorchymyn ymchwiliad yn ymwneud â mater penodol. Nid oes unrhyw faterion penodol o fewn y GIG sy'n cyfiawnhau cynnal ymchwiliad, yn gyffredinol. Yr hyn y mae'r Gweinidog iechyd wedi ei wneud yw cynnal ymchwiliad yn ymwneud â rhywbeth sy'n benodol i'r hyn a ddigwyddodd i unigolyn. Nid wyf yn derbyn bod sefyllfa yn bodoli yng Nghymru sy'n golygu bod angen ymchwiliad cyffredinol. Oes, mae angen un yn Lloegr oherwydd bod y GIG yn Lloegr yn wynebu argyfwng oherwydd eich Llywodraeth chi. Y cwbl yr oedd angen i chi ei wneud oedd darllen tudalen flaen 'The Observer' ddydd Sul i weld y trychineb sy'n wynebu pobl yn Lloegr oherwydd, yn anffodus, gweithredoedd ei blaid. Un peth na fyddwn ni'n ei wneud yng Nghymru yw gorfodi'r anhrefn sydd yn Lloegr ar bobl Cymru.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are better outcomes and shorter waiting times in England, First Minister. You are responsible for the NHS in Wales. It is up to you to look to your conscience to see whether you are doing the job that is expected of you. However, I will leave you with the simple quote that Ann Clwyd left in her report yesterday:

'You cannot bury your head in the sand and pretend everything is well because it isn't. I think Aneurin Bevan would be turning in his grave.'

That is from a member of your own party, First Minister. You stand to be corrected.

Ceir canlyniadau gwell ac amseroedd aros byrrach yn Lloegr, Brif Weinidog. Chi sy'n gyfrifol am y GIG yng Nghymru. Eich cyfrifoldeb chi yw holi eich cydwybod i weld a ydych chi'n gwneud y gwaith a ddisgwylir gennych. Fodd bynnag, hoffwn eich gadael â'r dyfyniad syml a wnaed gan Ann Clwyd yn ei hadroddiad ddoe:

Ni allwch gladdu eich pen yn y tywod ac esgus bod popeth yn iawn gan nad yw hynny'n wir. Rwy'n credu y byddai Aneurin Bevan yn troi yn ei fedd.

Daw hynny gan aelod o'ch plaid eich hun, Brif Weinidog. Mae'n rhaid eich cywiro.

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Was she talking about England? May I remind the leader of the opposition that Aneurin Bevan was cremated, as far as I am aware, but that is the phrase that he uses. It is completely fair to point out to the party opposite what would happen if it was in charge of the health service in Wales. It is completely legitimate to use the evidence that we see from the NHS in England to see the disaster that would befall the people of Wales if ever they were in power. Accident and emergency waiting times are spiralling in England, waiting times generally are spiralling—[Interruption.]

Oedd hi'n siarad am Loegr? A gaf i atgoffa arweinydd yr wrthblaid yr amlosgwyd corff Aneurin Bevan, hyd y gwn i, ond dyna'r ymadrodd y mae'n ei ddefnyddio. Mae'n hollol deg i dynnu sylw'r blaid gyferbyn at yr hyn a fyddai'n digwydd pe byddai hi'n gyfrifol am y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Mae'n gwbl ddilys defnyddio'r dystiolaeth a welwn o'r GIG yn Lloegr i weld y trychineb a fyddai'n dod i ran pobl Cymru pe bydden nhw byth mewn grym. Mae amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn Lloegr yn cynyddu ar garlam, mae amseroedd aros cyffredinol yn cynyddu ar garlam—[Torri ar draws.]

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I cannot hear what the First Minister is saying.

Trefn. Ni allaf glywed yr hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei ddweud.

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I will try to shout louder.

Byddaf yn ceisio gweiddi'n uwch.

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, do not shout.

Na, peidiwch â gweiddi.

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The figures are going in the wrong direction in England. We see the figures going in the right direction in Wales. Trusts are going bankrupt in England. Listen to the doctors in England. They will say that they have no faith in the health service in England; they do in Wales. Yes, we are responsible for the NHS in Wales and we point out what would happen if the party opposite ever got its hands on power here in Wales on the NHS: privatisation, disaster, crisis and cuts. That is what the Tories stand for.

Mae'r ffigurau yn symud i'r cyfeiriad anghywir yn Lloegr. Rydym yn gweld y ffigurau yn symud i'r cyfeiriad cywir yng Nghymru. Mae Ymddiriedolaethau yn mynd yn fethdalwr yn Lloegr. Gwrandewch ar y meddygon yn Lloegr. Byddant yn dweud nad oes ganddynt ffydd yn y gwasanaeth iechyd yn Lloegr; mae ganddyn nhw yng Nghymru. Ie, ni sy'n gyfrifol am y GIG yng Nghymru ac rydym ni'n tynnu sylw at yr hyn a fyddai'n digwydd pe byddai'r blaid gyferbyn byth yn cael ei dwylo ar bŵer ar y GIG yma yng Nghymru: preifateiddio, trychineb, argyfwng a thoriadau. Dyna'r hyn y mae'r Toriaid yn sefyll drosto.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Finally, I call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Yn olaf, galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, a few weeks ago, you said that devolution needs to be an event. Do you see last Friday's announcement on fiscal devolution as an opportunity to be that event?

Brif Weinidog, ychydig wythnosau yn ôl, dywedasoch fod angen i ddatganoli fod yn ddigwyddiad. A ydych chi'n ystyried bod cyfle i gyhoeddiad ddydd Gwener diwethaf ar ddatganoli ariannol fod y digwyddiad hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that it is an exceptionally important milestone in the history of devolution in Wales. For the first time, we will have the ability to vary our own taxes and be able to borrow. It represents a significant step forward. However, it would be augmented greatly with a positive response from the UK Government with regard to part 2 of the Silk commission's report.

Rwy'n meddwl ei bod yn garreg filltir eithriadol o bwysig yn hanes datganoli yng Nghymru. Am y tro cyntaf, bydd y gallu gennym i amrywio ein trethi ein hunain yn ogystal â'r gallu i fenthyg. Mae'n gam pwysig ymlaen. Fodd bynnag, byddai'n cael ei ategu'n helaeth drwy gael ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth y DU ar gyfer rhan 2 adroddiad comisiwn Silk.

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, First Minister. You have expressed your concerns in relation to further powers on income tax with regard to Barnett reform. I have some sympathy with what you say on Barnett reform, as Plaid Cymru has been outlining the case for Barnett reform since the 1990s. I am sure that there are many Members here who will remember the work of Phil Williams, who pressed that point time and again. In fact, Phil Williams was ridiculed here for pressing that point. So, we are glad, First Minister, that you now agree with us on that point of Barnett reform, which will again be in Plaid Cymru's 2015 election manifesto. Will you commit now to Barnett reform being in Labour's 2015 election manifesto?

Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Rydych chi wedi mynegi eich pryderon o ran pwerau ychwanegol ar dreth incwm o ran diwygio Barnett. Mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad â'r hyn a ddywedwch ar ddiwygio Barnett, gan fod Plaid Cymru wedi bod yn amlinellu'r achos dros ddiwygio Barnett ers y 1990au. Rwy'n siŵr bod llawer o Aelodau yma a fydd yn cofio gwaith Phil Williams, a bwysleisiodd y pwynt hwnnw dro ar ôl tro. Yn wir, cafodd Phil Williams ei wawdio yma am bwysleisio'r pwynt hwnnw. Felly, rydym yn falch, Brif Weinidog, eich bod bellach yn cytuno â ni ar y pwynt hwnnw o ddiwygio Barnett, a fydd ym maniffesto etholiadol Plaid Cymru unwaith eto yn 2015. A wnewch chi ymrwymo nawr i gynnwys diwygio Barnett ym maniffesto etholiad 2015 y Blaid Lafur?

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There have been extensive discussions within my own party about this and a recognition that fair funding is important for the future. That much is true. I do not think that Barnett is tenable in the longer term; I think that we all understand that. When it comes to income tax devolution, that is a matter for another Assembly. However, the Holtham commission's report makes it very clear that Wales is underfunded and that that underfunding needs to be addressed.

Bu trafodaethau helaeth am hyn o fewn fy mhlaid fy hun a chydnabyddiaeth bod ariannu teg yn bwysig ar gyfer y dyfodol. Mae cymaint â hynny'n wir. Nid wyf yn credu bod Barnett yn gynaliadwy yn yr hirdymor; rwy'n credu ein bod i gyd yn deall hynny. O ran datganoli treth incwm, mater i Gynulliad arall yw hwnnw. Fodd bynnag, mae adroddiad comisiwn Holtham yn ei gwneud yn eglur iawn bod Cymru'n cael ei thanariannu a bod angen mynd i'r afael â'r tanariannu hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It would be good to have that commitment from you, First Minister, because you had 13 years in Government to ensure a needs-based formula for Wales, yet nothing was done. You will not commit to reforming Barnett and you will not commit to pursuing income tax powers. First Minister, if Barnett is reformed, will you at least commit to holding a referendum and campaigning for a 'yes' vote on Welsh income tax?

Byddai'n dda cael yr ymrwymiad hwnnw gennych chi, Brif Weinidog, gan eich bod wedi cael 13 mlynedd mewn Llywodraeth i sicrhau fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion i Gymru, ac eto ni wnaethpwyd unrhyw beth. Nid ydych chi'n fodlon ymrwymo i ddiwygio Barnett ac nid ydych chi'n fodlon ymrwymo i geisio cael pwerau treth incwm. Brif Weinidog, os yw Barnett yn cael ei ddiwygio, a wnewch chi o leiaf ymrwymo i gynnal refferendwm ac ymgyrchu dros bleidlais 'ie' ar dreth incwm yng Nghymru?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is a very big 'if'. First, the leader of Plaid Cymru gives the impression that, somehow, I am lukewarm about Barnett reform, when I have been shouting it from the rooftops for many years. It certainly is my intention to see fair funding included in the 2015 Labour manifesto for the general election. That will be important for all parties in that election, I suspect. When it comes to income tax devolution, the funding formula is important, because three quarters of the money that we would receive as an Assembly would still come via the block grant. Unless that block grant is stabilised and is made fairer, income tax devolution is of no consequence, as far as we are concerned. What would we do with it? The situation would arise, no doubt, that, as we saw the shrinking of the block grant from the Tories in London, we would be in a position of having to increase income tax, potentially, to keep services exactly as they are. That is not an attractive option for the people of Wales. I have asked myself the question: in a referendum, what would we say to the people of Wales that would make income tax devolution attractive to them? At this moment in time, there are few arguments; that may change over time. For me, the absolute priority is to make sure that the funding formula is dealt with first. We need to deal with that £300 million underfunding before we say to the people of Wales, 'Actually, we want more money from you'. It is important that we get our fair share of money from Westminster first, before we even consider income tax devolution.

Mae hwnnw'n 'os' mawr iawn. Yn gyntaf, mae arweinydd Plaid Cymru yn rhoi'r argraff fy mod i, rywsut, yn llugoer am ddiwygio Barnett, pan rwyf wedi bod yn lleisio fy marn yn gryf ers blynyddoedd lawer. Fy mwriad yn sicr yw gweld ariannu teg yn cael ei gynnwys ym maniffesto Llafur yn 2015 ar gyfer yr etholiad cyffredinol. Bydd hynny'n bwysig i bob plaid yn yr etholiad hwnnw, rwy'n amau. Wrth ystyried datganoli treth incwm, mae'r fformiwla ariannu'n bwysig, gan y byddai tri chwarter yr arian y byddem yn ei dderbyn fel Cynulliad yn dal i ddod drwy'r grant bloc. Oni bai fod y grant bloc hwnnw'n cael ei sefydlogi a'i wneud yn decach, nid yw datganoli treth incwm o unrhyw bwys, hyd y gwelwn ni. Beth fyddem ni'n ei wneud â hynny? Byddai'r sefyllfa'n codi, yn ddiau, y byddem, fel y gwelsom o ostyngiad y grant bloc gan y Toriaid yn Llundain, mewn sefyllfa o orfod cynyddu treth incwm, o bosibl, i gadw gwasanaethau'n union fel y maent. Nid yw hwnnw'n opsiwn deniadol i bobl Cymru. Rwyf wedi gofyn y cwestiwn i mi fy hun: mewn refferendwm, beth fyddem ni'n ei ddweud wrth bobl Cymru a fyddai'n gwneud datganoli treth incwm yn ddeniadol iddynt? Ar hyn o bryd, prin yw'r dadleuon; efallai y bydd hynny'n newid dros amser. I mi, y brif flaenoriaeth yw gwneud yn siŵr yr ymdrinnir â'r fformiwla ariannu yn gyntaf. Mae angen i ni ymdrin â'r tanariannu hwnnw o £300 miliwn cyn i ni ddweud wrth bobl Cymru, 'A dweud y gwir, rydym ni eisiau mwy o arian oddi wrthych chi'. Mae'n bwysig ein bod yn cael ein cyfran deg o arian gan San Steffan yn gyntaf, cyn i ni hyd yn oed ystyried datganoli treth incwm.

## Diogelwch y Rhyngrwyd

## Internet Safety

13:49 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wersi ar ddiogelwch y rhyngrwyd mewn ysgolion? OAQ(4)1300(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on internet safety lessons in schools? OAQ(4)1300(FM)*

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. Schools have been required to teach children in key stages 2 and 3 about safe and responsible use of the internet since 2008. Internet safety is included in the programme of study for information and communications technology and in the personal and social education framework.

Gwnaf. Mae wedi bod yn ofynnol i ysgolion addysgu plant yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 am ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn gyfrifol ers 2008. Mae diogelwch ar y rhyngrwyd wedi ei gynnwys yn y rhaglen astudio ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac yn y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol.

13:50 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I am glad to hear that. You may be aware of the new campaign from the Internet Watch Foundation and ChildLine on raising awareness of online dangers for young people, in particular sex texting, and ChildLine's new Zipit app, which provides advice on safe chat and offers witty alternatives to requests to send explicit images. However, First Minister, many parents are unaware of the risks, or of how to handle the situation and are often less technology-savvy than their children are. What opportunities are there for parents to join in with lessons or to have some form of education about the potential dangers of the internet? What are you doing to promote the new NSPCC and ChildLine Zipit app that can be loaded onto young people's telephones?

Brif Weinidog, rwy'n falch o glywed hynny. Efallai eich bod yn ymwybodol o'r ymgyrch newydd gan Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd a ChildLine i godi ymwybyddiaeth o beryglon ar-lein i bobl ifanc, yn enwedig anfon negeseuon testun rhyw, ac ap Zitpit newydd ChildLine, sy'n cynnig cyngor ar sgwrsio diogel ac yn cynnig dewisiadau ffraeth yn hytrach na cheisiadau i anfon delweddau rhywiol. Fodd bynnag, Brif Weinidog, mae llawer o rieni nad ydynt yn ymwybodol o'r risgiau, na sut i ymdrin â'r sefyllfa ac maen nhw'n aml yn llai cyfarwydd â thechnoleg na'u plant. Pa gyfleoedd sydd ar gael i rieni ymuno â gwersi neu i gael rhyw fath o addysg am beryglon posibl y rhyngrwyd? Beth ydych chi'n ei wneud i hyrwyddo ap newydd yr NSPCC a ChildLine y gellir eu llwytho ar ffonau pobl ifanc?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have invited tenders for a partner organisation to work with us on a programme of e-safety education and awareness-raising activities. That will run from January 2014 to March 2015. We want to build on the existing expertise. A safer internet day will be held on 11 February next year and we are working with the National Digital Learning Council on a series of events in Wales to promote the day. We will be providing funding to support activities across Wales.

Rydym ni wedi gwahodd tendrau i sefydliad partner weithio gyda ni ar raglen o addysg e-ddiogelwch a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Bydd hynny'n rhedeg o fis Ionawr 2014 i fis Mawrth 2015. Rydym ni eisiau adeiladu ar yr arbenigedd sy'n bodoli eisoes. Bydd diwrnod rhyngrwyd mwy diogel yn cael ei gynnal ar 11 Chwefror y flwyddyn nesaf ac rydym yn gweithio gyda'r Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol ar gyfres o ddigwyddiadau yng Nghymru i hyrwyddo'r diwrnod. Byddwn yn darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau ledled Cymru.

13:51 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, mae digon o dystiolaeth bod defnydd o'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol yn gallu cryfhau gallu plentyn i ymwneud â llythrennedd a rhifedd. Ni ddylai gael ei weld fel bygythiad yn erbyn dulliau mwy traddodiadol. Os gofynnwch i blant am yr hyn sy'n eu poeni o ran ffonau symudol neu ar-lein, yr ateb yw bwlian. Dyna sy'n achosi'r mwyaf o bryder iddynt. Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau yr ymdrinnir â bwlian, yn enwedig ymysg merched, sy'n cwyno'n arbennig ynglŷn â bwlian ar-lein?

First Minister, there is a lot of evidence that the use of the internet and social media can improve a child's literacy and numeracy. It should not be seen as a threat to more traditional techniques. If you ask children what worries them about mobile phones and being online, it is bullying. That is the main cause of concern. What steps is the Government taking to tackle bullying, especially among girls, who are particularly concerned about online bullying?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae gennym ymgyrch i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod beth yw seibrfwlio i ddechrau, ac i sicrhau eu bod yn gwybod lle i gael cymorth. Mae'r ymgyrch honno'n parhau. Rydym yn gofyn i blant a phobl ifanc chwarae eu rhan er mwyn sicrhau bod eu hysgolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac i godi eu hymwybyddiaeth o'r hyn y dylent ei wneud os ydynt mewn sefyllfa lle maent yn cael eu seibrfwlio, a'u bod yn gwybod â phwy i siarad, a lle i fynd.

We have a campaign to ensure that children and young people know, first of all, what cyberbullying is, and to ensure that they know where to go for help. That campaign is ongoing. We are asking children and young people to play their part in order to ensure that their schools participate in activities and to raise their awareness of what they should do if they are cyberbullied, and so that they know who to talk to and where to go.

13:53 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi awgrymu os nad yw'r ymgyrch honno'n llwyddiannus, bod angen deddfwriaeth. Mae'n dweud bod rhyw 47% o blant wedi cael eu bwlio dros y rhyngrwyd. A oes unrhyw asesiad wedi cael ei wneud o ddatganiad y comisiynydd?

First Minister, the Children's Commissioner for Wales has suggested that, if that campaign is unsuccessful, legislation would be necessary. He says that some 47% of children have been bullied online. Has any assessment been made of the commissioner's statement?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n dibynnu pa fath o ddeddfwriaeth yr hoffai ei chael ac, wrth gwrs, a fyddai'n dod o dan bwerau'r Cynulliad. Bydd yn rhaid ystyried unrhyw syniadau ynglŷn â deddfwriaeth i weld beth y gallwn ni ei wneud yn y fan hon a'r hyn y byddai'n rhaid ei wneud ar lefel Brydeinig.

It depends what kind of legislation he would like to see and, of course, whether it would fall under the Assembly's powers. Any suggestions for legislation will have to be considered to see what we can do here and what would have to be done at a British level.

Senedd.tv Fideo Video

### Cofrestru Tir

### Land Registration

13:53 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

*4. Beth ydy pwerau Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud a chofrestru tir? OAQ(4)1309(FM)*

*4. What are the Welsh Government's powers on matters relating to land registration? OAQ(4)1309(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mater heb ei ddatganoli yw cofrestru tir.

Land registration is a non-devolved matter.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Mae 4,000 o gartrefi yn fy etholaeth i wedi derbyn llythyrau gan y Gofrestra Tir yn dweud bod dyn o'r enw Stephen Paul Hayes, a brynodd hawliau maenorol Treffos rai blynyddoedd yn ôl, wedi cofrestru'r hawliau maenorol hynny. Mae hyn wedi arwain at ddychryn, yn enwedig ymhlith y mwyaf bregus o'm hetholwyr. Er nad yw hwn yn fater sydd wedi ei ddatganoli, pa bwysau a all y Prif Weinidog ei roi ar y Gofrestra Tir i sicrhau bod unrhyw rym y tu ôl i'r hawliau hynafol hyn yng Nghymru yn cael ei ddileu yn y dyfodol, ac i sicrhau na all pobl gael eu dychryn wrth dderbyn llythyrau cyfreithiol fel hyn heb air o rybudd nac eglurhad?

Some 4,000 homes in my constituency have received letters from the Land Registry saying that a man called Stephen Paul Hayes, who bought the Treffos manorial rights, has registered those manorial rights. This has led to concern, particularly among the most vulnerable of my constituents. Although this is a non-devolved issue, what pressure can the First Minister bring to bear on the Land Registry to ensure that any power behind these ancient rights in Wales are done away with in future, and to ensure that people cannot be frightened in receiving legal letters of this sort without any warning or explanation?

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae llythyrau cyfreithiol yn codi ofn ar bobl, rydym yn gwybod hynny, yn enwedig mewn sefyllfa fel hon. Yn anffodus, nid dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd; mae wedi digwydd o'r blaen. Digwyddodd yr un peth, os cofiaf, yn ardal Casnewydd tua 12 mlynedd yn ôl. Roedd rhywun wedi prynu teitl ac eisiau arfer ei hawliau o achos y teitl hwnnw. Er nad yw hyn yn dod o dan bwerau Llywodraeth Cymru, ystyriaf y sefyllfa i weld beth y gallaf ei wneud ynglŷn ag ysgrifennu, efallai at y gofrestrfa. Yn y cyfamser, mae'n bwysig dros ben bod pobl yn cymryd cyngor cyfreithiol ynglŷn â'r sefyllfa maent ynddi fel unigolion. Nid yw hyn yn deg â phobl. Byddai wedi dod fel bollten ac ni fyddai pobl wedi ystyried y gallai hyn fod yn wir yn y ganrif hon. Fodd bynnag, ystyriaf y mater i weld beth y gallwn ei wneud fel Llywodraeth, ac ysgrifennaf at yr Aelod.

We know that legal letters scare people, especially in a situation like this. Unfortunately, this is not the first time that tjis has happened; it has happened before. If I remember rightly, it happened in the Newport area about 12 years ago. There was somebody who had bought a title and then wanted to exercise their rights to that title. Even though this does not come under the powers of the Welsh Government, I will consider the situation to see what I can do in terms of writing, perhaps to the registry. In the meantime, it is very important that people take legal advice about the situation that they face as individuals. This is not fair for people. It would have come as a bolt from the blue, and people would have been surprised that this could happen in this century. However, I will consider the issue to see what exactly we can do as a Government and I will write to the Member.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Russell George** Bywgraffiad Biography

As the First Minister will be aware, 20% of land in Wales and England still remains unregistered. I understand, of course, that this is not a devolved issue, but how is the Welsh Government proactively working with the Land Registry to encourage more voluntary registrations in Wales?

Fel y bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol, mae 20% o'r tir yng Nghymru a Lloegr yn dal i fod heb ei gofrestru. Rwy'n deall, wrth gwrs, nad yw hwn yn fater sydd wedi ei ddatganoli, ond sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Gofrestrfa Tir i annog mwy o gofrestriadau gwirfoddol yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

This is not something that we have done as a Government, but certainly it is far easier where people register land, otherwise, you end up in a situation where court cases rely on evidence going back many years; it is not easy to unravel the issues of ownership that go back many years. There are still some properties in Wales that are not registered. There are still some properties in Wales where there are no title deeds, and trying to trace those back is not easy. I would encourage all those who own land to consider whether their land is registered and, if they have not done so, to do so at the earliest opportunity.

Nid yw hyn yn rhywbeth yr ydym ni wedi ei wneud fel Llywodraeth, ond mae'n sicr yn gwneud pethau'n llawer haws pan fo pobl yn cofrestru tir, neu fel arall rydych chi'n mynd i sefyllfa lle mae achosion llys yn dibynnu ar dystiolaeth sy'n mynd yn ôl flynyddoedd lawer yn y pen draw; nid yw'n hawdd datrys y materion o berchnogaeth sy'n mynd yn ôl flynyddoedd lawer. Mae rhai safleoedd yng Nghymru sy'n parhau i fod heb eu cofrestru. Ceir rhai safleoedd yng Nghymru lle nad oes unrhyw weithredoedd eiddo, ac nid yw'n hawdd ceisio olrhain y rheini. Byddwn yn annog pawb sy'n berchen ar dir i ystyried a yw eu tir wedi ei gofrestru ac, os nad ydynt wedi gwneud hynny, i wneud hynny ar y cyfle cyntaf.

### Salwch Resbiradol

### Respiratory Illness

13:56 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau salwch resbiradol yng Nghymru? OAQ(4)1311(FM)*

*5. Will the First Minister outline what action the Welsh Government is taking to reduce respiratory illness in Wales? OAQ(4)1311(FM*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Our respiratory health delivery plan was issued for consultation on 21 October and sets out the actions that we will be taking to deliver improvements for patients with respiratory diseases.

Cyhoeddwyd ein cynllun cyflawni ar iechyd anadlol ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ar 21 Hydref ac mae'n nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni gwelliannau i gleifion â chlefydau anadlol.

13:57 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Respiratory disease causes one in seven of all deaths in Wales and is the third largest cause of death of both men and women. The biggest contributory cause remains smoking, and that must be a priority. We have the Fresh Start Wales programme as a major plank of the campaign to reduce the exposure to smoke by children, particularly in cars. Can you say what progress has been made on the campaign in the last 12 months?

Clefydau anadlol yw achos un o bob saith o'r holl farwolaethau yng Nghymru a dyma'r trydydd achos mwyaf o farwolaeth ar gyfer dynion a menywod. Ysmygu yw'r achos cyfrannol mwyaf o hyd, ac mae'n rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth. Mae gennym raglen Cychwyn Iach Cymru fel elfen bwysig o'r ymgyrch i leihau cysylltiad plant â mwg, yn enwedig mewn ceir. A allwch chi ddweud pa gynnydd sydd wedi ei wneud o ran yr ymgyrch hon yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I can say that the campaign has been moving forward very strongly. Evaluation has taken place. We had the 2010 health behaviour in school age children report. In February this year, Cardiff University was commissioned to carry out a study of primary school age children's exposure to second-hand smoke in cars and elsewhere. In November 2012, Beaufort Research Ltd was commissioned to include questions on attitudes to smoking in cars carrying children and awareness of the campaign in its omnibus surveys. When that evaluation process is complete, we will, as we have said before, consider pursuing legislative options if children's exposure to second-hand smoke does not start to fall by March next year. Therefore, there is a substantial amount of evaluation taking place and, as we have said, that date next year is important. After that, we then will need to consider whether legislation is needed or not

Gallaf, gallaf ddweud bod yr ymgyrch wedi bod yn symud ymlaen yn gryf iawn. Cynhaliwyd gwerthusiad. Cawsom adroddiad 2010 ar ymddygiad iechyd ymhlith plant oedran ysgol. Ym mis Chwefror eleni, comisiynwyd Prifysgol Caerdydd i gyflawni astudiaeth o gysylltiad plant oedran ysgol gynradd â mwg ail-law mewn ceir ac mewn mannau eraill. Ym mis Tachwedd 2012, comisiynwyd Beaufort Research Cyf i gynnwys cwestiynau am agweddau tuag at ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant ac ymwybyddiaeth o'r ymgyrch yn ei arolygon omnibws. Pan fydd y broses werthuso honno wedi ei chwblhau, byddwn, fel yr ydym ni wedi ei ddweud o'r blaen, yn ystyried dilyn opsiynau deddfwriaethol os nad yw cysylltiad plant â mwg ail-law yn dechrau gostwng erbyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Felly, mae llawer iawn o werthuso yn cael ei wneud ac, fel yr ydym ni wedi ei ddweud, mae'r dyddiad yna y flwyddyn nesaf yn bwysig. Ar ôl hynny, bydd angen i ni ystyried a oes angen deddfwriaeth ai peidio.

13:58 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, First Minister, for your answer. You know that there is a public health Wales Bill on your legislative programme. We know that second-hand smoke is a major problem for children in cars, can lead to developing a smoking habit later in life and can also lead to respiratory problems. When will you pull your finger out and get on with delivering a change in the law that prevents the harm that second-hand smoke can cause to children in small, enclosed places such as cars? This is a major issue that I think would send a powerful message to the people of Wales about smoking and the Government's intention and the National Assembly's intention to tackle it.

Diolch, Brif Weinidog, am eich ateb. Rydych chi'n gwybod bod Bil iechyd cyhoeddus Cymru yn eich rhaglen ddeddfwriaethol. Rydym ni'n gwybod bod mwg ail-law yn broblem fawr i blant mewn ceir, ac yn gallu arwain at ddatblygu arfer ysmygu yn ddiweddarach mewn bywyd, ac yn gallu arwain at broblemau anadlu hefyd. Pryd y byddwch chi'n tynnu'r ewinedd o'r blew a mynd ati i sicrhau newid yn y gyfraith sy'n atal y niwed y gall mwg ail-law ei achosi i blant mewn mannau bychain, caeedig fel ceir? Mae hwn yn fater pwysig a fyddai, yn fy marn i, yn anfon neges rymus i bobl Cymru am ysmygu a bwriad y Llywodraeth a bwriad y Cynulliad Cenedlaethol i fynd i'r afael ag ef.

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This from the party that has a number of Members who voted against the ban on smoking in public places, as we all remember. He was doing well at the beginning, in fairness, but lost his way a little towards the end. As we have said, many times, we wanted to take the voluntary approach first. If that was not as successful as we would want it to be, then we would look to legislate. This has been the case—for two years, at least, we have said this. We have had the campaign, we have had the evaluation and we have given a set date as to when we would want to consider whether legislation is needed or not. What we do not want, of course, is his party challenging competence in this field. We believe that this is a health issue, not a road traffic issue.

Mae hyn gan y blaid sydd â nifer o aelodau a bleidleisiodd yn erbyn y gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, fel yr ydym ni i gyd yn cofio. Roedd yn gwneud yn dda ar y dechrau, a bod yn deg, ond collodd ei ffordd braidd tua'r diwedd. Fel yr ydym ni wedi ei ddweud, lawer gwaith, rydym yn awyddus i ddilyn y dull gwirfoddol yn gyntaf. Pe na byddai hwnnw mor llwyddiannus ag y byddem yn dymuno iddo fod, yna byddem yn ystyried deddfu. Mae hyn wedi bod yn wir—ers dwy flynedd, o leiaf, rydym ni wedi dweud hyn. Rydym ni wedi cael yr ymgyrch, rydym ni wedi cael y gwerthusiad ac rydym ni wedi rhoi dyddiad penodol ar gyfer pryd y byddem eisiau ystyried pa un a oes angen deddfwriaeth ai peidio. Yr hyn nad ydym ei eisiau, wrth gwrs, yw ei blaid ef yn herio cymhwysedd yn y maes hwn. Rydym yn credu bod hwn yn fater iechyd, nid mater traffig ar y ffyrdd.

14:00 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I am sure that you would congratulate the Welsh Rugby Union on supporting the Quit for Wales campaign launched today by Action on Smoking and Health Wales. What efforts is the Welsh Government making to promote and support this campaign, please?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn llongyfarch Undeb Rygbi Cymru ar gefnogi ymgyrch Rhoi'r Gorau Dros Gymru a lansiwyd heddiw gan Weithredu ar Ysmygu ac Iechyd Cymru. Pa ymdrechion mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i hyrwyddo a chefnogi'r ymgyrch hon, os gwelwch yn dda?

14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We very much welcome the campaigns that are run by other organisations in order to encourage people to quit smoking. We have a number of campaigns in Wales, of course. Fresh Start Wales is just one of them. We know that anti-smoking campaigns have been successful over the years, but it is probably true to say that reducing the figure further can be quite a difficult nut to crack. Of course, that is all the more reason to look at using encouragement where that is needed, but also using legislation where that is also needed, evidenced, of course, by the ban that we imposed on smoking in public places, and evidenced potentially by any legislation that would be required to ban smoking in cars with children present.

Rydym yn croesawu'n fawr yr ymgyrchoedd sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau eraill er mwyn annog pobl i roi'r gorau i ysmygu. Mae gennym nifer o ymgyrchoedd yng Nghymru, wrth gwrs. Dim ond un ohonynt yw Cychwyn Iach Cymru. Rydym yn gwybod bod ymgyrchoedd gwrth-ysmygu wedi bod yn llwyddiannus dros y blynyddoedd, ond mae'n debyg ei bod yn wir i ddweud y gall gostwng y ffigur ymhellach fod yn fater anodd. Wrth gwrs, mae hynny'n fwy o reswm fyth i edrych ar ddefnyddio anogaeth pan fo angen hynny, ond hefyd ar ddefnyddio deddfwriaeth, pan fo angen hynny, fel y gwelwyd, wrth gwrs, gan y gwaharddiad a gyflwynwyd gennym ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, ac fel a welir o bosib drwy unrhyw ddeddfwriaeth a fyddai'n ofynnol i wahardd ysmygu mewn ceir pan fo plant yn bresennol.

14:01 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, from your time as Minister for Rural Affairs, you will recall that one sector in which respiratory disorders are particularly acute is the agricultural industry, where conditions such as farmers' lung arise from the inhalation of spores from mouldy fodder and so on. Currently, it is quite difficult to get hold of specific data on the health of farmers and growers, which makes it quite difficult for those organisations working in the sector to offer appropriate support. What level of consideration has the Government given to identifying ways that the health of farmers and growers can be better monitored so as to support the NHS in addressing these disorders?

Brif Weinidog, o'ch cyfnod fel y Gweinidog Materion Gwledig, byddwch yn cofio mai'r diwydiant amaethyddol yw un o'r sectorau lle mae anhwylderau anadlol yn arbennig o ddifrifol, lle mae cyflyrau fel clefyd y ffarmwr yn deillio o anadlu sborau o borthiant wedi llwydo ac yn y blaen. Ar hyn o bryd, mae'n eithaf anodd cael gafael ar ddata penodol ar iechyd ffermwyr a thyfwyr, sy'n ei gwneud yn eithaf anodd i'r sefydliadau hynny sy'n gweithio yn y sector gynnig cymorth priodol. Pa lefel o ystyriaeth mae'r Llywodraeth wedi ei roi i nodi ffyrdd y gellir monitro iechyd ffermwyr a thyfwyr yn well er mwyn helpu'r GIG i fynd i'r afael â'r anhwylderau hyn?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I will write to the Member on this, and I will seek to provide as much information as we hold with regard to the incidence of respiratory diseases among farmers as well as the nature of those diseases. As part of that correspondence, I will outline to the Member the steps that we are taking, as a Government, first to raise awareness and as a prevention, and, secondly, to treat those illnesses as they become apparent.

Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod am hyn, a byddaf yn ceisio darparu cymaint o wybodaeth ag sydd gennym o ran nifer yr achosion o glefydau anadlol ymhlith ffermwyr yn ogystal â natur y clefydau hynny. Yn rhan o'r ohebiaeth honno, byddaf yn amlinellu i'r Aelod y camau yr ydym ni'n eu cymryd, fel Llywodraeth, yn gyntaf i godi ymwybyddiaeth ac i atal, ac, yn ail, i drin yr afiechydon hynny wrth iddynt ddod i'r amlwg.

### Blaenoriaethau

### Priorities

14:02 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yng Nghymru am y deuddeg mis nesaf? OAQ(4)1296(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on his priorities for sport in Wales for the next twelve months? OAQ(4)1296(FM)*

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Indeed. They are in the programme for government.

Gwnaf. Maen nhw yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

14:02 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the short answer, First Minister. The Welsh Government's major event unit has as one of its objectives to develop effective relationships with UK and international major event owners. Will the First Minister advise us as to what progress has been made by the major events unit in developing such a relationship and attracting major sporting events to Wales?

Diolch i chi am yr ateb byr, Brif Weinidog. Un o amcanion uned digwyddiadau mawr Llywodraeth Cymru yw datblygu perthynas effeithiol gyda pherchnogion digwyddiadau mawr y DU a rhyngwladol. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym pa gynnydd a wnaed gan yr uned digwyddiadau mawr o ran datblygu perthynas o'r fath a denu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We had the Rugby League World Cup, which was launched a week last Saturday, and we also have some games in the Rugby Union World Cup in 2015. We have the Ashes coming. We have supported cricket in Wales. There are a number of events, of which the Member will be aware, that we have attracted to Wales over the years via the major events unit. I believe that we have a very good record. Where we can work with the UK Government, we will do that. Quite often, of course, we are in competition with other parts of the UK in terms of attracting events, and so that is not always possible. However, where that co-operation is possible, we will look to do that, as we did, for example, with the Olympics last year.

Cawsom Gwpan y Byd Rygbi'r Gynghrair, a lansiwyd wythnos i ddydd Sadwrn diwethaf, ac mae gennym rai gemau yng Nghwpan y Byd Rygbi'r Undeb yn 2015 hefyd. Mae'r Ashes yn dod. Rydym ni wedi cefnogi criced yng Nghymru. Ceir nifer o ddigwyddiadau, y bydd yr Aelod yn ymwybodol ohonynt, yr ydym ni wedi eu denu i Gymru dros y blynyddoedd drwy'r uned digwyddiadau mawr. Credaf fod gennym hanes da iawn yn hyn o beth. Pan fyddwn ni'n gallu gweithio gyda Llywodraeth y DU, byddwn yn gwneud hynny. Yn aml iawn, wrth gwrs, rydym ni mewn cystadleuaeth â rhannau eraill o'r DU o ran denu digwyddiadau, ac felly nid yw hynny'n bosibl bob amser. Fodd bynnag, pan fydd y cydweithrediad hwnnw'n bosibl, byddwn yn ceisio gwneud hynny, fel y gwnaethom, er enghraifft, gyda'r Gemau Olympaidd y flwyddyn diwethaf.

Senedd.tv
Fideo Video

14:03 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Prif Weinidog, ces i llythyr yn ôl gan David Sparkes, prif weithredwr Nofio Prydain ynghylch adleoli cyfleusterau hyfforddi 'elite' Paralympaidd o Abertawe i Fanceinion. Yn y llythyr, mae'n gyfaddef nad oedd digon o ymgynghori wedi bod â Sport Wales ynghylch adleoli'r cyfleusterau hyn. Hefyd, gwnaeth ddweud nad oedd cael y hyfforddiant yno yn dangos gwerth am arian—rhywbeth yr wyf i, fel Aelod Cynulliad lleol, yn eithaf ddig yn ei gylch yng nghyd-destun y cyfleusterau gwerthfawr ac effeithiol iawn sydd yn Abertawe. Felly, pa drafodaethau pellach yr ydych, fel Llywodraeth, wedi eu cael er mwyn ceisio tynnu sylw at y ffaith bod angen cyfleusterau i'r dyfodol ym mhwll cenedlaethol Cymru yn Abertawe?

First Minister, yesterday I received a letter back from David Sparkes, the chief executive for British Swimming regarding the relocation of the elite Paralympic training facilities from Swansea to Manchester. In the letter, he admits that insufficient consultation had taken place with Sport Wales on the relocation of these facilities. He also said that having the coaching there did not demonstrate value for money—something that I, as a local Assembly Member, am quite angry about in terms of the very effective and valuable facilities in Swansea. Therefore, what further discussions have you, as a Government, had in order to highlight the fact that we need facilities for the future at the Welsh national swimming pool in Swansea?

Senedd.tv
Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs, penderfyniad y corff llywodraethol oedd hyn; nid oedd yn benderfyniad gan y Llywodraeth. Gwnaf ysgrifennu at yr Aelod er mwyn sicrhau ei bod yn gwybod beth yw ein sefyllfa fel Llywodraeth, ac i ystyried yr hyn y gallem ei wneud er mwyn sicrhau bod y pwll yn Abertawe yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd y dylai yn y dyfodol.

Of course, this was the decision of the governing body, not a decision made by the Government. I will write to the Member to ensure that she knows what our position is as a Government, and also to consider what we can do to ensure that the pool in Swansea is used in the way that it should be in the future.

Senedd.tv
Fideo Video

14:04 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, I would be grateful if I could have a copy of that letter, because I raised with your Minister for culture, back in August, the possibility that this would happen when the question of the elite centre was up for grabs, along with the possibility that it would move to Manchester. As Bethan has outlined, we have now seen the Paralympic swimmers move to Manchester, and Swansea's national pool has, effectively, had its status threatened by the fact that we no longer have those swimmers and that training facility there. So, can you say what engagement your Government had in that period between the beginning of August and the middle of October, when the decision was taken, in terms of talking to the relevant bodies to try to prevent that move from taking place?

Brif Weinidog, byddwn yn ddiolchgar pe gallwn gael copi o'r llythyr hwnnw, gan imi godi'r posibilrwydd y byddai hyn yn digwydd gyda'ch Gweinidog diwylliant, yn ôl ym mis Awst, pan nad oedd penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â'r ganolfan i'r elît, yn ogystal â'r posibilrwydd y byddai'n symud i Fanceinion. Fel y mae Bethan wedi ei amlinellu, rydym bellach wedi gweld y nofwyr Paralympaidd yn symud i Fanceinion, ac mae pwll cenedlaethol Abertawe, i bob pwrpas, wedi cael bygythiad i'w statws oherwydd y ffaith nad yw'r nofwyr hynny na'r cyfleuster hyfforddi hwnnw yno mwyach. Felly, a allwch chi ddweud pa ymgysylltiad a gafodd eich Llywodraeth yn y cyfnod hwnnw rhwng dechrau mis Awst a chanol mis Hydref, pan wnaed y penderfyniad, o ran siarad â'r cyrff perthnasol i geisio atal y symudiad hwnnw rhag digwydd?

Senedd.tv
Fideo Video

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I will, of course, include that in the letter, and I will ensure that the Member is copied in. The issue is the review that took place within British Disability Swimming. That review recommended the centralised training model for the future development of elite swimmers, but, of course, the question is why Manchester was chosen ahead of Swansea, and I will address that issue in the letter.

Byddaf, wrth gwrs, yn cynnwys hynny yn y llythyr, a byddaf yn sicrhau bod yr Aelod yn cael copi ar y pryd. Y broblem yw y cynhaliwyd yr adolygiad o fewn Nofio Anabledd Prydain. Argymhellodd yr adolygiad hwnnw'r model hyfforddiant canolog ar gyfer datblygu nofwyr elît yn y dyfodol, ond, wrth gwrs, y cwestiwn yw pam y dewiswyd Manceinion o flaen Abertawe, a byddaf yn mynd i'r afael â'r mater hwnnw yn y llythyr.

### Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

### Hywel Dda Local Health Board

14:06 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am broblemau denu a chadw arbenigwyr meddygol yn ysbytai Bwrdd Iechyd Hywel Dda? OAQ(4)1310(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on problems regarding attracting and retaining medical experts at Hywel Dda Health Board hospitals? OAQ(4)1310(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ar hyn o bryd, mae tua 93% o swyddi meddygol a swyddi deintyddol o fewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cael eu llenwi. Gwn fod y bwrdd iechyd yn gweithio'n galed i lenwi'r swyddi gwag sy'n bodoli o hyd, a hefyd mae'n ystyried ym mha ffordd y gall gadw'r bobl yn yr ardal yr unwaith y maent yn cyrraedd.

At present, about 93% of medical and dental posts with the Hywel Dda Local Health Board area have been filled. I know that the health board is working hard to fill the vacancies that still exist, and also it is considering how it can keep people in the area once they arrive.

14:06 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb, Brif Weinidog. Mae etholwyr wedi codi pryderon gyda fi am gynlluniau Hywel Dda ar gyfer triniaethau dewisol diargyfwng orthopedig. A allwch sicrhau i mi y bydd y cynlluniau'n cael eu monitro yn wythnosol drwy'r misoedd gaeafol ac y bydd cleifion yn ymwybodol o ganlyniadau'r monitro, a bod bwrdd iechyd Hywel Dda'n rheoli'n effeithiol ei dimau meddygol yng ngolwg cynlluniau'r bwrdd i ddatblygu canolfan arbenigedd orthopedig rhagorol yn Ysbyty'r Tywysog Philip?

Thank you for that response, First Minister. Constituents have raised concerns with me about Hywel Dda's plans for non-emergency elective orthopaedic surgery. Can you give me an assurance that the plans will be monitored weekly over the winter months, and that patients will be aware of the outcomes of that monitoring, and that the Hywel Dda health board will manage its medical teams effectively in light of the intention to develop a centre of expertise in orthopaedics in Prince Philip Hospital?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n benderfyniad y mae'r bwrdd yn gorfod ei wneud, sef sawl llawdriniaeth i'w chynllunio dros y gaeaf er mwyn sicrhau bod digon o feddygon ar gael i ddelio ag argyfyngau. Mae hynny'n rhywbeth y mae bwrdd Hywel Dda wedi ei ystyried o ran Bronglais, ac, yn fy marn i, mae'n bwysig dros ben ei fod yn gallu gwneud hynny yn lle gorfod dileu llawdriniaeth am nad oes digon o gapasiti i ddelio ag unrhyw argyfwng. Felly, ar hyn o bryd, rwy'n credu bod yr hyn y mae wedi ei wneud yn gall, ac mae'n bwysig dros ben bod pobl yn gallu cael ffydd yn y cynlluniau sydd yno dros y gaeaf.

It is a decision that the board has to make, that is, how many surgeries are planned over the winter in order to ensure that there are sufficient doctors available to deal with emergencies. That is something that Hywel Dda health board has considered in terms of Bronglais, and, in my opinion, it is very important that it can do that rather than having to delay surgeries because it does not have sufficient capacity to deal with emergencies. So, at present, I think that what it has done is sensible, and it is very important that people can have confidence in the winter plans.

14:07

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the cry from west Wales is always, 'We can't get the staff to come here to work—they don't want to come, it's too far', and all the other reasons. It has been an ongoing problem. Do you not think that the decision on elective surgery in orthopaedics—and there will be other decisions, I think, over the next few months in other areas—will actually affect the decision of trainees and junior doctors? They will not want to come to west Wales, because they will have four months when they are simply not doing the jobs that they are there to do. Furthermore, the deanery will start taking action—I note your surprise. I just have to add that I have had a couple of contacts now from junior doctors in the Hywel Dda LHB who have said that, for the next four months, the workload has completely gone and they do not know what they are supposed to be doing or where they are going to go. I worry that this will affect the deanery, and that it will start looking at places such as Hywel Dda and saying that we are not going to be able to do effective training there. That has enormous consequences for the future of that hospital, no matter how positive a spin you put on it.

Brif Weinidog, y gri o orllewin Cymru bob amser yw: Ni allwn gael y staff i ddod yma i weithio—nid ydynt eisiau dod, mae'n rhy bell, a'r holl resymau eraill. Mae wedi bod yn broblem barhaus. Onid ydych yn credu y bydd y penderfyniad ar lawdriniaeth ddewisol mewn orthopedeg—a bydd penderfyniadau eraill, yn fy marn i, dros yr ychydig fisoedd nesaf mewn meysydd eraill—yn effeithio'n bendant ar benderfyniad meddygon iau a rhai dan hyfforddiant? Ni fyddant eisiau dod i orllewin Cymru, oherwydd y bydd ganddynt bedwar mis pan nad ydynt yn gwneud y swyddi y maen nhw yno i'w gwneud. Hefyd, bydd y ddeoniaeth yn dechrau cymryd camau—rwy'n nodi eich syndod. Mae'n rhaid i mi ychwanegu bod un neu ddau o feddygon iau ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cysylltu â mi erbyn hyn, sydd wedi dweud, dros y pedwar mis nesaf, bod y llwyth gwaith wedi diflannu'n llwyr ac nid ydynt yn gwybod beth y maen nhw i fod i'w wneud na ble maen nhw'n mynd i fynd. Rwy'n poeni y bydd hyn yn effeithio ar y ddeoniaeth, ac y bydd yn dechrau edrych ar leoedd fel Hywel Dda a dweud nad ydym yn mynd i allu cynnig hyfforddiant effeithiol yno. Mae hynny'n golygu bod oblygiadau enfawr i ddyfodol yr ysbyty hwnnw, waeth pa mor gadarnhaol bynnag yw'r ffordd yr ydych yn siarad amdano.

14:09

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, the difficulty is not in recruiting orthopaedic surgeons. The difficulties particularly are in anaesthetics, medicine, paediatrics and A&E. They are the four areas. That is not exclusive to Hywel Dda; these are difficulties across the whole of the UK.

Yn gyntaf oll, nid recriwtio llawfeddygon orthopedig yw'r anhawster. Mae'r anawsterau yn benodol ym meysydd anaestheteg, meddygaeth, pediatreg a damweiniau ac achosion brys. Dyna'r pedwar maes. Nid yw hynny'n unigryw i Hywel Dda; mae'r rhain yn anawsterau ledled y DU gyfan.

I cannot accept the point you make that, somehow, surgeons will be doing nothing for four months. First of all, operations will continue at Bronglais—we know that—but at a lower level in terms of planned surgery than last year. So, they will be active. However, of course, plans have to be put in place to ensure that there is the capacity to deal with emergencies. We know that there was high demand last year. It is reasonable to think that there will be high demand this year, and that is why it is important to make sure that the capacity is there. The alternative is to programme more elective operations and cancel them. I think that it is worse for people to do that rather than to say that elective surgery will be at a level that is sustainable when dealing with emergencies.

Ni allaf dderbyn y pwynt yr ydych chi'n ei wneud y bydd llawfeddygon, rywsut, yn gwneud dim byd am bedwar mis. Yn gyntaf oll, bydd llawdriniaeth yn parhau ym Mronglais—rydym yn gwybod hynny—ond ar lefel is na'r llynedd o ran llawdriniaeth a gynlluniwyd. Felly, byddant yn weithredol. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae'n rhaid rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod gallu ar gael i ymdrin ag argyfyngau. Rydym yn gwybod y bu'r galw'n uchel y llynedd. Mae'n rhesymol i gredu y bydd y galw'n uchel eleni, a dyna pam mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod y gallu ar gael. Y dewis arall yw trefnu llawdriniaethau mwy dewisol a'u canslo. Rwy'n credu bod gwneud hynny yn waeth i bobl na dweud y bydd llawdriniaeth ddewisol ar gael ar lefel cynaliadwy wrth ymdrin ag argyfyngau.

The other issue, of course, as far as trainees are concerned, is that, in any specialism in medicine, dealing with emergencies is an important part of their training, and being able to have the time to deal with emergencies is all part of the planning that has been put in place by Hywel Dda. We know that part of the problem when it comes to training junior doctors is that they do not get enough breadth of experience in some parts of the UK. Having the breadth of dealing with emergency orthopaedics is an important part of their training, but to give the impression that, for four months, doctors will be sitting there doing nothing is quite wrong. We know that surgery will still take place, and we know that emergency orthopaedic surgery will take place over the course of the winter, but in a planned way.

Y mater arall, wrth gwrs, cyn belled ag y mae'r rhai sydd dan hyfforddiant yn y cwestiwn, yw, mewn unrhyw arbenigedd ym maes meddygaeth, bod ymdrin ag argyfyngau yn rhan bwysig o'u hyfforddiant, ac mae sicrhau bod amser ar gael i ymdrin ag argyfyngau yn rhan o'r cynllunio a roddwyd ar waith gan Hywel Dda. Rydym yn gwybod mai rhan o'r broblem o ran hyfforddi meddygon iau yw nad ydynt yn cael profiad digon eang mewn rhai rhannau o'r DU. Mae bod â'r profiad eang hwnnw o ran ymdrin ag orthopedeg brys yn rhan bwysig o'u hyfforddiant, ond mae rhoi'r argraff y bydd meddygon yn eistedd yno, yn gwneud dim am bedwar mis, yn gwbl anghywir. Rydym yn gwybod y bydd llawdriniaeth yn dal i ddigwydd, a gwyddom y bydd llawdriniaeth orthopedig frys yn digwydd yn ystod y gaeaf, ond mewn ffordd a gynlluniwyd.

14:10 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf yn gwybod pwy sy'n rhoi cyngor i chi ar y wybodaeth sydd gennych yn eich atebion hyd yn hyn, ond a allaf ddweud wrthoch am yr hyn sy'n digwydd ar lawr y wlad yn ardal Hywel Dda? Mae cleifion yn troi lan ar gyfer 'pre-meds', ar gyfer 'operations' orthopedig, ac maent yn cael clywed oddi wrth y clinigwyr na fydd yr 'operations' yn digwydd yn awr. Er eu bod wedi disgwyl iddynt ddigwydd ym mis Tachwedd, ni fyddant yn digwydd tan fis Ebrill nesaf. Mae'r 'orthopaedic surgeons' eu hunain yn benwan na fyddant yn cael eu gweithio i'w llawn botensial yn ystod y pedwar neu bum mis nesaf. Dim ond llawdriniaethau argyfwng y byddant yn eu gwneud, a dim ond eistedd lawr mewn ystafelloedd gyda chleifion yn egluro iddynt pam na fyddant yn cael eu 'operations' dros y pum mis nesaf. Ewch yn ôl at Hywel Dda—gofynnaf i chi wneud hynny, Prif Weinidog—a gofynnwch iddo beth fydd yr 'orthopaedic surgeons' hynny yn gwneud am y pum mis nesaf, achos eu bod yn dweud wrthaf fi ac wrth Aelodau Cynulliad eraill na fyddant yn gweithio llawn amser, ac mae hynny'n wastraff o adnoddau cyhoeddus.

I am not sure who advises you on the information contained in your responses so far, but may I tell you what is happening on the ground in the Hywel Dda area? Patients are turning up for pre-meds and for orthopaedic operations and are being told by clinicians that those operations are not going to take place now. Although they had expected them in November, they will not happen until next April. The orthopaedic surgeons themselves are furious that they will not be working to their full potential over the next four or five months. It will only be emergency surgery that they will undertake, and sitting down in rooms with patients explaining to them why they will not get their operations over the next five months. Go back to Hywel Dda—I ask you to do that, First Minister—and ask it what those orthopaedic surgeons will be doing over the next five months, because they are telling me and other Assembly Members that they will not be working full time, and that is a waste of public resources.

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn gyntaf, mae'r argraff wedi cael ei roi na fyddant yn gwneud dim. Nid dyna'r sefyllfa, achos bod Hywel Dda wedi dweud yn glir y bydd llawdriniaeth yn cymryd lle dros y gaeaf, ond ar lefel sy'n is na lefel y llynedd gan fod eisiau arno cadw digon o gapasiti i ddelio ag argyfyngau. Yn fy marn i, mae hynny'n rhywbeth hollol resymol i'w ddweud. Wrth gwrs, bydd meddygon yn dweud, 'Wel, nid oes digon o waith wedi cael ei gynllunio', ac efallai bod hynny'n wir, gan nad oes neb yn gallu cynllunio argyfyngau. Felly, nid wyf yn gweld ar hyn o bryd y byddai'n bosibl i ddweud y bydd meddygon yn segur dros y gaeaf. Nid wyf yn credu bod hynny'n wir. Nid yw'n wir i ddweud na fydd llawdriniaeth yn cymryd lle. Mae hynny wedi cael ei ddweud yn blwmp ac yn blaen. Gawn weld ar ddiwedd y gaeaf faint o gapasiti oedd ei eisiau. Fodd bynnag, fel y dywedais, y ffordd arall i'w wneud yw i beidio â chymryd sylw o gwbl o'r ffaith y bydd argyfyngau dros y gaeaf, a chario ymlaen fel pe baem mewn sefyllfa lle na fydd argyfyngau, ac wedyn dileu llawdriniaeth. Nid wyf yn credu bod hynny'n ffordd gall i symud ymlaen. Rwy'n credu ei fod yn bwysig dros ben bod amser meddygon yn cael ei gadw yn ôl er mwyn sicrhau eu bod ar gael i ddelio ag argyfyngau. Mae hynny'n hollol synhwyrol.

First, the impression has been given that they are going to be doing nothing. That is not the situation, because Hywel Dda has said clearly that surgeries will be taking place over the winter, but at a level lower than that seen last year, because it needs to keep sufficient capacity to deal with emergencies. In my opinion, that is a very reasonable thing to say. Of course, doctors would say, 'Well, not enough work has been planned', and perhaps that is true, because people cannot plan emergencies. I do not see at present, therefore, that it is possible to say that doctors will not be doing anything over the winter. I do not think that is true. It is not true to say that there will be no surgeries. That has been said in a very straightforward way. We will see at the end of the winter how much capacity was needed. However, as I said, the other way to do it is to pay no attention to the fact that there will be emergencies over the winter, and to carry on as though we were in a situation in which there were no emergencies, and then delay the operations. I do not think that is a sensible way to move forward. I think it is very important that the time of doctors and surgeons is set aside to ensure that they are available to deal with emergencies. That is very sensible.

## Diogelwch ar y Ffyrdd

## Road Safety

14:13 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch y ffordd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1314(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on road safety in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)1314(FM)*

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. In July, the Minister launched the Welsh Government's road safety framework for Wales, which sets targets for a substantial reduction in road casualties. With regard to the A40 at Glangrwyney, I can say that works are expected to commence in January.

Gwnaf. Ym mis Gorffennaf, lansiodd y Gweinidog fframwaith diogelwch ffyrdd Cymru gan Lywodraeth Cymru, sy'n gosod targedau ar gyfer gostyngiad sylweddol i anafiadau ar y ffyrdd. O ran yr A40 yng Nglangrwyne, gallaf ddweud bod disgwyl i waith ddechrau ym mis Ionawr.

14:13 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, First Minister. I actually was not going to ask you about Glangrwyney today. I was going to ask you about the village of Clyro, where many residents have expressed concern about the speed of traffic travelling on the A438. As you know, the road goes through the village, with vital services on either side of the road—a post office, shop and school on one side, and a petrol station and shop on the other, as well as social housing. What steps can you as a Welsh Government, in conjunction with Powys County Council and Dyfed-Powys Police, take to address the concerns of my constituents to make sure that they are able to cross that road in Clyro in safety?

Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog. Nid oeddwn i'n mynd i ofyn i chi am Langrwyne heddiw a dweud y gwir. Roeddwn i'n mynd i ofyn i chi am bentref Cleirwy, lle mae llawer o drigolion wedi mynegi pryder am gyflymder y traffig sy'n teithio ar yr A438. Fel y gwyddoch, mae'r ffordd yn mynd drwy'r pentref, a cheir gwasanaethau hanfodol ar y naill ochr i'r ffordd a'r llall—swyddfa bost, siop ac ysgol ar un ochr, a gorsaf betrol a siop ar y llall, yn ogystal â thai cymdeithasol. Pa gamau allwch chi fel Llywodraeth Cymru eu cymryd, ar y cyd â Chyngor Sir Powys a Heddlu Dyfed-Powys, i fynd i'r afael â phryderon fy etholwyr i wneud yn siŵr eu bod yn gallu croesi'r ffordd honno yng Nghleirwy yn ddiogel?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am assuming that the A438 is not a trunk road, although I cannot say whether it is or not. If it is not a trunk road, of course, it is a matter for Powys County Council. It can liaise with Dyfed-Powys Police to put in place measures to deal with speeding cars. Quite often what the police will do is put what we used to call, years ago, a radar trap there. I am sure it is not called that now. They would do that in order to send the message that speeding is not acceptable in Clyro, or anywhere else for that matter. We would encourage highways authorities, be it ourselves or county councils, to work with the police to deal with issues such as this when they arise. It is perfectly possible for the situation to be considered and to then see whether there is a need to put in place a temporary speeding trap or whether in the longer term there is a need to put a camera there.

Rwy'n cymryd yn ganiataol nad yw'r A438 yn gefnffordd, er nad wyf yn gwybod a ydyw ai peidio. Os nad yw'n gefnffordd, wrth gwrs, mae'n fater i Gyngor Sir Powys. Gall drafod gyda Heddlu Dyfed-Powys er mwyn rhoi mesurau ar waith i ymdrin â cheir sy'n goryrru. Yr hyn y bydd yr heddlu yn ei wneud yn aml iawn yw rhoi'r hyn yr oeddem ni'n arfer ei alw, flynyddoedd yn ôl, yn drap radar yno. Rwy'n siŵr nad yw'n cael ei alw'n hynny bellach. Byddent yn gwneud hynny er mwyn cyfleu'r neges nad yw goryrru yn dderbyniol yng Nghleirwy, nac yn unrhyw le arall o ran hynny. Byddem yn annog awdurdodau priffyrdd, boed hynny'n ni ein hunain neu gynghorau sir, i weithio gyda'r heddlu i ymdrin â materion fel hyn pan fyddant yn codi. Mae'n gwbl bosibl i'r sefyllfa gael ei hystyried ac yna cael gweld pa un a oes angen gosod trap goryrru dros dro neu a oes angen rhoi camera yno yn fwy hirdymor.

14:15 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will be acquainted with the mid Wales regional highways strategy, published in December 2012. The report outlines a piece of work commissioned by the European Road Assessment Programme that outlined the statistical risk of death or serious injury occurring on Britain's motorways and A roads between 2006 and 2008. I am particularly concerned with motorcycle accidents.

Brif Weinidog, byddwch yn gyfarwydd â strategaeth priffyrdd rhanbarthol canolbarth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r adroddiad yn amlinellu darn o waith a gomisiynwyd gan Raglen Asesu Ffyrdd Ewrop a amlinellodd y risg ystadegol o farwolaeth neu anaf difrifol ar draffyrdd a ffyrdd A Prydain rhwng 2006 a 2008. Rwy'n pryderu'n arbennig am ddamweiniau beic modur.

Much of Powys is made up of medium-risk roads, with some high-risk roads and very little low-risk roads. Can you outline what specific measures your Government is taking to alleviate the high risk of death or serious injury on the classified roads within that study?

Mae llawer o Bowys yn cynnwys ffyrdd risg canolig, â rhai ffyrdd risg uchel ac ychydig iawn o ffyrdd risg isel. A allwch chi amlinellu pa fesurau penodol y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i liniaru'r risg uchel o farwolaeth neu anaf difrifol ar y ffyrdd dosbarthiadol yn yr astudiaeth honno?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I can say that the Minister met with the chief constables, including the chief constable for Dyfed-Powys on 3 October, to discuss road safety. As part of that discussion, issues such as road safety outside schools, the police's enforcement of 20 mph speed limits and issues relating to the safety of motorcyclists were raised. The issue of motorcyclists was raised as a particular issue in Powys. Many of us will be aware of the many motorbikes that congregate, particularly on Sundays and bank holidays, and particularly but not exclusively around Storey Arms, and the issues relating to road safety there. Many of those motorcyclists are older people reliving their experiences as motorcyclists in their younger days, nevertheless, it is an important road safety issue. The Minister will work closely with the police to ensure that the number of casualties continues to drop on Welsh roads.

Gallaf, gallaf ddweud bod y Gweinidog wedi cyfarfod â'r prif gwnstabliaid, gan gynnwys prif gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, ar 3 Hydref, i drafod diogelwch ar y ffyrdd. Yn rhan o'r drafodaeth honno, codwyd materion fel diogelwch ar y ffyrdd y tu allan i ysgolion, gorfodaeth yr heddlu o gyfyngiadau cyflymder 20 mya a materion yn ymwneud â diogelwch beicwyr modur. Codwyd y mater o feicwyr modur fel mater penodol ym Mhowys. Bydd llawer ohonom yn ymwybodol o'r beiciau modur niferus sy'n ymgynnull, yn enwedig ar ddydd Sul a gwyliau banc, ac yn enwedig, ond nid yn unig, o gwmpas Storey Arms, a'r materion sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd yno. Mae llawer o'r beicwyr modur hynny yn bobl hŷn sy'n ail-fyw eu profiadau o fod yn feicwyr modur yn eu dyddiau iau, ond er hynny, mae'n fater diogelwch ar y ffyrdd pwysig. Bydd y Gweinidog yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i sicrhau bod nifer y damweiniau ar ffyrdd Cymru yn parhau i ostwng.

Senedd.tv
Fideo Video

14:17 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Un o'r ffyrdd rhwyddaf i wella diogelwch ar y ffyrdd yw symud o geir preifat i gludiant cyhoeddus, gan fod cludiant cyhoeddus cryn dipyn yn saffach na theithio mewn ceir unigol. O ystyried hynny, beth mae eich Llywodraeth yn mynd i'w wneud i fuddsoddi mewn cludiant cyhoeddus ym Mhowys, ac yn arbennig yn rheilffordd Calon Cymru? Bydd cynlluniau cyffrous y fforwm sy'n edrych ar ôl y rheilffordd honno yn dod i'ch Llywodraeth yn fuan iawn.

One of the easiest ways of improving road safety is to move away from private cars to public transport, given that public transport is a fair bit safer than travelling in private cars. Bearing that in mind, what is your Government going to do to invest in public transport in Powys, and particularly in the Heart of Wales railway? Exciting proposals by the forum responsible for that railway will be submitted to your Government very soon.

Senedd.tv
Fideo Video

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn gefnogol iawn o'r rheilffordd honno ac yn edrych ymlaen at weld unrhyw syniadau a ddaw o'r corff hwnnw. Roedd stori am y rheilffordd, wrth gwrs, sef na fyddai'n bosibl ei chau achos ei bod yn mynd trwy chwe etholaeth 'agos' o ran etholiad 1966, rwy'n credu. Ta beth, rydym yn gwybod yn iawn fod y rheilffordd yn bwysig dros ben, nid dim ond i bobl sy'n teithio o Abertawe i'r Amwythig ond hefyd i'r bobl sydd, mewn ffordd, yn defnyddio'r rheilffordd fel bws, gan deithio dau neu dri stop i ymweld â phobl. Rydym yn edrych ymlaen at weld pa fath o syniadau neu argymhellion bydd y corff, yr Heart of Wales Line Travellers' Association, yn rhoi gerbron y Gweinidog.

We are very supportive of that railway and we are looking forward to seeing any ideas that come from that body. There was a story about the railway, of course, which is that it was not possible to close it because it ran through six 'close' constituencies in terms of the 1966 election, I think. However, we know very well that the railway is very important, not just for the people who travel from Swansea to Shrewsbury, but for the people who, in a way, use that railway as a bus, travelling two or three stops to visit people. We are looking forward to seeing what kind of ideas and recommendations that that body, the Heart of Wales Line Travellers' Association, will present to the Minister.

Senedd.tv
Fideo Video

## Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

## Questions to the Minister for Culture and Sport

### Cyllid i'r Celfyddydau yng Nghymru

### Arts Funding in Wales

14:18 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i'r celfyddydau yng Nghymru? OAQ(4)0084(CS)*

*1. Will the Minister make a statement on arts funding in Wales? OAQ(4)0084(CS)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:18 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography
*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r celfyddydau yng Nghymru drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, sy'n gweithio oddi mewn i'r fframwaith strategol sy'n cael ei osod gan Lywodraeth Cymru.

The Welsh Government funds the arts in Wales through the Arts Council of Wales, which works within the strategic framework that is set by the Government.

Senedd.tv
Fideo Video

14:19 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn ôl y rhaglen lywodraethu, mae hi'n flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru i gynyddu hygyrchedd y celfyddydau. Gallaf feddwl am lawer o brosiectau da iawn i'r ifanc yn fy etholaeth, fel canolfan Ucheldre yng Nghaergybi. Fodd bynnag, yn ôl adroddiad cynnydd 2013 y rhaglen lywodraethu, bu gostyngiad yng nghyfran plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn rheolaidd ac mae'r bwlch rhwng cyfranogiad grwpiau difreintiedig a grwpiau eraill yn parhau. Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu cynyddu cyfranogiad y rhai difreintiedig yn y celfyddydau o ystyried y gostyngiad yn y cyllid sy'n cael ei gynnig yn y rhaglen wariant nesaf?

According to the programme for government, it is a priority of the Welsh Government to improve the accessibility of the arts. I can think of some very good projects for young people in my constituency, such as the Ucheldre centre in Holyhead. However, according to the 2013 progress report on the programme for government, there was a reduction in the percentage of children participating in arts activities on a regular basis and the gap between the participation of disadvantaged groups and other groups continues. How does the Minister intend to increase the participation in the arts of people from disadvantaged backgrounds, given the reduction in funding that is being proposed in the next expenditure programme?

14:19 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Essentially, it is a matter of prioritisation. I have been making it absolutely clear, and I will make it absolutely clear, in terms of working with the Arts Council of Wales, that young people, particularly young people from disadvantaged areas, receive priority within available funding. We also, of course, had the report by Dai Smith on arts and education, which is very much about improving the arts offer in our schools. If we can get that right, it would benefit all the young people throughout Wales in our schools in the future.

Mater o flaenoriaethu yw hyn yn y bôn. Rwyf wedi bod yn ei gwneud yn gwbl eglur, a byddaf yn ei gwneud yn gwbl eglur, o ran gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, bod pobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig, yn cael blaenoriaeth o fewn y cyllid sydd ar gael. Rydym hefyd, wrth gwrs, wedi cael yr adroddiad gan Dai Smith ar y celfyddydau ac addysg, ac mae hwnnw'n ymwneud i raddau helaeth â gwella'r cynnig o ran celfyddydau yn ein hysgolion. Os gallwn ni gael hynny'n iawn, byddai o fudd i'r holl bobl ifanc ledled Cymru yn ein hysgolion yn y dyfodol.

14:20 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the arts in Wales survey showed that those who have considered that engagement in the arts is 'not for me' were most likely to live in north Wales, in rural areas and in small towns. What action are you taking to ensure that the £4 million budget cut to your portfolio does not deepen this inequality across our communities?

Weinidog, dangosodd arolwg y celfyddydau yng Nghymru bod y rhai a ddywedodd bod ymgysylltiad â'r celfyddydau 'ddim i mi' yn fwyaf tebygol o fyw yng ngogledd Cymru, mewn ardaloedd gwledig ac mewn trefi bychain. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau nad yw'r toriad o £4 miliwn i gyllideb eich portffolio yn cynyddu'r anghydraddoldeb hwn ar draws ein cymunedau?

14:21 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, working with the Arts Council of Wales, the Welsh Government is fully committed to providing opportunities and access right across our nation. These are matters that we will address with the Arts Council of Wales and a range of other partners, because, obviously, we need to make sure that opportunities are in place in all parts of our country.

Unwaith eto, gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd a mynediad ledled ein cenedl. Mae'r rhain yn faterion y byddwn yn mynd i'r afael â nhw gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac amrywiaeth o bartneriaid eraill, oherwydd, yn amlwg, mae angen i ni wneud yn siŵr bod cyfleoedd ar gael ym mhob rhan o'n gwlad.

### Arolwg ar Chwaraeon Ysgol

### School Sport Survey

14:21 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru? OAQ(4)0074(CS)*

*2. Will the Minister make a statement on Sport Wales's School Sport Survey? OAQ(4)0074(CS)*

14:21 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to congratulate Sport Wales and its partners for the collation and presentation of the data in the school sport survey. They show that with a co-ordinated approach we can spur a generational shift towards increased participation in sporting activities.

Hoffwn longyfarch Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid ar gasglu a chyflwyno'r data yn yr arolwg chwaraeon mewn ysgolion., Maen nhw'n dangos y gallwn, drwy ddefnyddio dull cydgysylltiedig, sbarduno newid yn y cenedlaethau i ddod tuag at gyfranogiad cynyddol mewn gweithgareddau chwaraeon.

14:21 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The survey made very positive reading indeed, with the number of young people regularly taking part in and enjoying sport rising. As you say, this did not happen accidentally—it was the result of Government, sports bodies, education and health all working together. However, girls, ethnic minority groups and pupils from poorer backgrounds are still lagging behind in terms of participation. How do you intend to address this?

Diolch i chi, Weinidog. Roedd yr arolwg yn gadarnhaol dros ben, gan ddangos cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd ac yn mwynhau hynny. Fel y dywedwch, ni ddigwyddodd hyn ar ddamwain—roedd o ganlyniad i gydweithio rhwng y Llywodraeth, cyrff chwaraeon, a meysydd addysg ac iechyd. Fodd bynnag, mae merched, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a disgyblion o gefndiroedd tlotach yn dal ar ei hôl hi o ran cyfranogiad. Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â hyn?

14:22 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I think that this is a matter of prioritisation. Where gaps exist, we need to make sure, working with Sport Wales, that those gaps are closed. The school sport survey is very encouraging, as Rebecca Evans has mentioned. Nonetheless, there are areas where we need to do better. Sport Wales does have a regional black minority ethnic network group, which I think can help with some of these issues. Also, it has launched a What Moves You? campaign, which focuses particularly on women and girls. There are measures in place that will help us to make further progress, I think.

Unwaith eto, rwy'n meddwl mai mater o flaenoriaethu yw hyn. Lle mae bylchau'n bodoli, mae angen i ni wneud yn siŵr, gan weithio gyda Chwaraeon Cymru, bod y bylchau hynny'n cael eu llenwi. Mae'r arolwg chwaraeon ysgol yn galonogol iawn, fel y mae Rebecca Evans wedi ei grybwyll. Serch hynny, ceir meysydd lle mae angen i ni wneud yn well. Mae gan Chwaraeon Cymru grŵp rhwydwaith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig rhanbarthol, yr wyf yn credu y gallai helpu gyda rhai o'r materion hyn. Hefyd, mae wedi lansio ymgyrch Sut Mae'ch Symud Chi?, sy'n canolbwyntio ar fenywod a merched yn benodol. Ceir mesurau ar waith a fydd yn ein helpu i wneud cynnydd pellach, yn fy marn i.

To return to schools, I mentioned Dai Smith's report in reply to question 1, and we also have Tanni Grey-Thompson's report on physical education in our schools. If we can get the offer and the quality right, then that will reach that captive school audience, and make sure that all of our young people have better quality provision and greater opportunities.

I ddychwelyd at ysgolion, soniais am adroddiad Dai Smith wrth ateb cwestiwn 1, ac mae gennym adroddiad Tanni Grey-Thompson ar addysg gorfforol yn ein hysgolion hefyd. Os gallwn gael y cynnig a'r ansawdd yn iawn, yna bydd hynny'n cyrraedd y gynulleidfa ysgolion gaeth honno, ac yn gwneud yn siŵr bod gan bob un o'n pobl ifanc ddarpariaeth o ansawdd gwell a mwy o gyfleoedd.

I should also mention our young ambassadors. They are part of the Olympic legacy and they are doing a lot of really good work in our schools. I addressed their national conference recently and emphasised our priorities around participation by ethnic minorities, those in poverty and, indeed, girls.

Dylwn hefyd sôn am ein cenhadon ifanc. Maen nhw'n rhan o etifeddiaeth y Gemau Olympaidd ac maen nhw'n gwneud llawer o waith da iawn yn ein hysgolion. Bûm yn annerch eu cynhadledd genedlaethol yn ddiweddar gan bwysleisio ein blaenoriaethau o ran cyfranogiad lleiafrifoedd ethnig, y rhai mewn tlodi ac, yn wir, merched.

14:23 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you talked to Rebecca Evans then about involving young children more in sport, and the work through Sport Wales. What I am interested to know is what discussions have you had with the Minister for Education and Skills in terms of the proposed new national curriculum consultation. Will you be replying to that consultation, in an effort to ensure that sport plays far more of a role on the centre stage of education in our primary and secondary schools, rather than being an add-on?

Weinidog, siaradasoch â Rebecca Evans gynnau am gynnwys mwy ar blant ifanc mewn chwaraeon, a'r gwaith drwy Chwaraeon Cymru. Yr hyn yr hoffwn i gael gwybod yw pa drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau o ran yr ymgynghoriad cwricwlwm cenedlaethol newydd arfaethedig. A fyddwch chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, mewn ymdrech i sicrhau bod chwaraeon yn cyflawni swyddogaeth llawer fwy canolog mewn addysg yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd, yn hytrach na bod yn rhywbeth ychwanegol?

14:24 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, I work very closely with the Minister for education on these matters. Indeed, Tanni Grey-Thompson's report was jointly commissioned between the education and skills and the sports and culture departments. We have jointly received that report, and we continue to work together in terms of all matters relating to it. That very much involves those curriculum issues that are so important to this agenda.

Wrth gwrs, rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog addysg ar y materion hyn. Yn wir, comisiynwyd adroddiad Tanni Grey-Thompson ar y cyd rhwng yr adrannau addysg a sgiliau a chwaraeon a diwylliant. Rydym ni wedi derbyn yr adroddiad ar y cyd, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n gilydd o ran yr holl faterion sy'n ymwneud ag ef. Mae hynny'n sicr yn cynnwys y materion cwricwlwm hynny sydd mor bwysig i'r agenda hon.

14:24 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I acknowledge the hard work that many people are doing with regard to encouraging young people to take part in sport. What would you say to the young people in my area who have contacted me and who are taking part in sports such as football in their local areas? These are young teenagers who are coaching younger people, but because of council cutbacks they will be charged more for the use of fields? These young people cannot afford to pay any more for the provision than what they are currently paying. How can you help them to take part in sport if they are to be priced out of using those facilities?

Weinidog, rwy'n cydnabod y gwaith caled y mae llawer o bobl yn ei wneud o ran annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon. Beth fyddech chi'n ei ddweud wrth y bobl ifanc yn fy ardal i sydd wedi cysylltu â mi ac sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon fel pêl-droed yn eu hardaloedd lleol? Pobl ifanc yn eu harddegau yw'r rhain sy'n hyfforddi pobl ifancach, ond a fydd yn gorfod talu mwy am ddefnyddio caeau oherwydd toriadau gan y cyngor? Ni all y bobl ifanc hyn fforddio i dalu mwy am y ddarpariaeth na'r hyn y maen nhw'n ei dalu ar hyn o bryd. Sut allwch chi eu helpu i gymryd rhan mewn chwaraeon os bydd y cyfleusterau hynny yn rhy ddrud iddynt eu defnyddio?

14:25 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, it is important that participation and access issues are addressed with regard to young people, and particularly young people who are unable to afford the cost of participation, and I think that the local authorities well understand that. I recently met with the Welsh Local Government Association and we discussed the difficult financial situation and how we can ensure that provision remains in place and is taken forward. Therefore, there are a range of issues that need to be addressed, and Bethan Jenkins has mentioned some of them. I will continue to work with the WLGA through these funding difficulties to make sure that participation and access issues are properly considered and dealt with.

Wrth gwrs, mae'n bwysig bod materion cyfranogiad a mynediad yn cael sylw o ran pobl ifanc, ac yn enwedig pobl ifanc nad ydynt yn gallu fforddio'r gost o gymryd rhan, ac rwy'n credu bod yr awdurdodau lleol yn deall hynny'n iawn. Yn ddiweddar, cefais gyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a thrafodwyd y sefyllfa ariannol anodd a sut y gallwn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod ar gael ac yn cael ei datblygu. Felly, ceir amrywiaeth o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw, ac mae Bethan Jenkins wedi sôn am rai ohonynt. Byddaf yn parhau i weithio gyda CLlLC drwy'r anawsterau ariannu hyn i wneud yn siŵr bod materion o ran cyfranogiad a mynediad yn cael eu hystyried yn briodol, a'u datrys.

14:26 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae'r arolwg yn un cynhwysfawr, ond mae nifer o adroddiadau gan Estyn wedi bod yn feirniadol o ddarpariaeth chwaraeon mewn unedau ymddygiad—y 'pupil referral units'. Ydych chi wedi cael unrhyw drafodaeth gyda Chwaraeon Cymru ynghylch pa wybodaeth mae'n ei darparu am chwaraeon yn yr unedau hynny, gan mai gwybodaeth am ysgolion cynradd ac uwchradd yn unig sydd yn yr arolwg?

Minister, the survey is a comprehensive one, but a number of Estyn reports have been critical of the provision of sport within pupil referral units. Have you had any discussions with Sport Wales about what information it provides about sport within those units, given that there is only information about primary and secondary schools in the survey?

14:26 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our strategies and policies are general and do apply to those units as well. Therefore, in taking forward improvements to our offer for young people in our educational system, we will very much have those units in mind. Sport Wales addresses issues in the round similarly, and it has particular strategies in place that emphasise and prioritise provision for those in the most difficult circumstances, which I think very much includes young people in our units.

Mae ein strategaethau a'n polisïau yn gyffredinol ac yn berthnasol i'r unedau hynny hefyd. Felly, wrth fwrw ymlaen â gwelliannau i'n cynnig ar gyfer pobl ifanc yn ein system addysg, byddwn yn sicr yn cadw'r unedau hynny mewn golwg. Mae Chwaraeon Cymru yn mynd i'r afael â materion yn gyffredinol yn yr un modd, ac mae ganddo strategaethau penodol ar waith sy'n pwysleisio ac yn blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer y rhai sydd yn yr amgylchiadau mwyaf anodd, ac yr wyf yn credu bod hynny'n sicr yn cynnwys pobl ifanc yn ein hunedau.

## Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

## Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

14:27

### William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A oes gan y Gweinidog gynlluniau i wella rôl Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru? OAQ(4)0069(CS)*

*3. Does the Minister have plans to enhance the role of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales? OAQ(4)0069(CS)*

14:27

### John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The written statement that I published on 12 July of this year sets out the position on the consideration of the future of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales.

Mae'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddais ar 12 Gorffennaf eleni yn nodi'r sefyllfa o ran ystyried dyfodol y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol a Hanesyddol Cymru.

14:27

### William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his reply. He will be aware of the well-informed views on these matters that advocate the distinct identity and function of the royal commission and that it requires particularly to be at arm's length and free from Government intervention. How will the Minister ensure that the unique collections and research undertaken by the royal commission will retain this distinct identity in the future?

Diolchaf i'r Gweinidog am ei ateb. Bydd yn ymwybodol o'r safbwyntiau gwybodus ar y materion hyn sy'n argymell hunaniaeth a swyddogaeth unigryw'r comisiwn brenhinol a bod angen penodol iddo fod ar hyd braich ac yn rhydd o ymyrraeth gan y Llywodraeth. Sut y bydd y Gweinidog sicrhau y bydd y casgliadau unigryw a'r gwaith ymchwil a wneir gan y comisiwn brenhinol yn cadw'r hunaniaeth unigryw hon yn y dyfodol?

14:27

### John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Members will be aware that we have a process in place. We have a merger project board and a project team established to take forward the further work that I requested in July. I am very grateful to the commissioners and members of the commission staff for their help and assistance with that work. Members will also be aware that the merger proposals were included in 'the future of our past' consultation exercise, which closed last month, so I will be carefully considering the responses to that consultation and the outcome of this process before making any final decisions.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod gennym broses ar waith. Mae gennym fwrdd prosiect uno a thîm prosiect a sefydlwyd i fwrw ymlaen â'r gwaith ychwanegol y gofynnais amdano ym mis Gorffennaf. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r comisiynwyr ac aelodau staff y comisiwn am eu help a'u cymorth gyda'r gwaith hwnnw. Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod y cynigion i uno wedi eu cynnwys yn yr ymarfer ymgynghori 'dyfodol ein gorffennol', a ddaeth i ben y mis diwethaf, felly byddaf yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw a chanlyniad y broses hon yn ofalus cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

14:28

### Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, wrth i chi ystyried dyfodol y comisiwn henebion, a wnewch chi ystyried sicrhau dwy egwyddor benodol? Y cyntaf yw sicrhau bod penderfyniadau a gwaith y comisiwn yn para i fod hyd braich oddi wrth Lywodraeth ac o ddylanwad a phenderfyniad gweinidogol. Yr ail yw sicrhau bod dyfodol y sefydliad yn Aberystwyth.

Minister, as you consider the future of the royal commission, will you consider two specific principles? The first is to ensure that the decisions and work of the commission continues to be at arm's length of Government and of ministerial influence and decision. The second is that the future of the institution should be in Aberystwyth.

14:29

### John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

These are matters that have been and will be addressed through the process that I mentioned in response to William Graham's earlier questions. I will reiterate what I said in response to William Graham, which is that we have the process that I described—it is ongoing and decisions will be made in due course.

Mae'r rhain yn faterion yr ydym wedi mynd i'r afael â nhw ac y byddwn yn mynd i'r afael â nhw drwy'r broses a grybwyllais wrth ymateb i gwestiynau cynharach William Graham. Ailadroddaf yr hyn a ddywedais wrth ymateb i William Graham, sef bod y broses a ddisgrifiais gennym—mae'n barhaus a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud maes o law.

14:29 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

The consideration of this merger between the royal commission and Cadw has been ongoing for a considerable amount of time, causing some uncertainty in the sector and certainly around the future of the royal commission and any possible future donations to the royal commission. Can you give some more specific indications as to when you will finally reach a decision as to whether this merger will go ahead and whether it will be inside or outside of Government?

Mae'r ystyriaeth o'r uno hwn rhwng y comisiwn brenhinol a Cadw wedi parhau am gyfnod sylweddol o amser, gan achosi rhywfaint o ansicrwydd yn y sector ac yn sicr ynglŷn â dyfodol y comisiwn brenhinol ac unrhyw roddion posibl i'r comisiwn brenhinol yn y dyfodol. A allwch chi roi unrhyw syniad mwy penodol ynghylch pryd y byddwch yn gwneud penderfyniad ar ba un a fydd yr uno hwn yn digwydd a pha un a fydd y tu mewn neu'r tu allan i'r Llywodraeth?

Senedd.tv Fideo Video

14:29 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

As I said in response to William Graham and Elin Jones, we have this process in place. I look forward to receiving the analysis of the responses to the consultation and to making a decision towards the end of this year. So, we will not have to wait very much longer, but, of course, the future of the commission is a very important matter and not one that can be rushed.

Fel y dywedais wrth ymateb i William Graham ac Elin Jones, mae'r broses hon ar waith gennym. Edrychaf ymlaen at dderbyn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac at wneud penderfyniad tuag at ddiwedd eleni. Felly, ni fydd yn rhaid i ni aros llawer iawn yn hwy, ond, wrth gwrs, mae dyfodol y comisiwn yn fater pwysig iawn ac nid yn un y gellir ei ruthro.

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for the indication, Minister, that you will be making a decision sometime in the next two months; that will be very welcome. In terms of making that decision therefore, what consideration are you giving to the representations from within the heritage and cultural area of work, if you like, in terms of the need for the independence of the royal commission and, in particular, the need to continue to attract charitable donations to that collection?

Diolch i chi am yr hysbysiad, Weinidog, y byddwch yn gwneud penderfyniad rywbryd yn ystod y ddau fis nesaf; bydd hynny'n cael ei groesawu'n fawr. O ran gwneud y penderfyniad hwnnw, felly, pa ystyriaeth ydych chi'n ei rhoi i sylwadau o'r tu mewn i'r maes gwaith treftadaeth a diwylliannol, fel petai, o ran yr angen am annibyniaeth y comisiwn brenhinol, ac, yn enwedig, yr angen i barhau i ddenu rhoddion elusennol i'r casgliad hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

These are important matters, as are other matters raised by Members today, and they will be fully considered before a final decision is made.

Mae'r rhain yn faterion pwysig, fel y mae materion eraill a godwyd gan yr Aelodau heddiw, a byddant yn cael eu hystyried yn llawn cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Senedd.tv Fideo Video

**WOMEX**

**WOMEX**

14:31 **Julie James** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd digwyddiadau diwylliannol, megis digwyddiad WOMEX yn ddiweddar, i Gymru? OAQ(4)0083(CS)*

*4. Will the Minister make a statement on the importance of cultural events, such as the recent WOMEX event, to Wales? OAQ(4)0083(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Attracting major cultural events contributes to our drive to support jobs, growth and wealth, as well as a thriving arts scene. Our programme for government outlines our commitment to support and promote Welsh cultural events throughout Wales and abroad.

Mae denu digwyddiadau diwylliannol mawr yn cyfrannu at ein hymgyrch i gefnogi swyddi, twf a chyfoeth, yn ogystal â maes celfyddydau sy'n ffynnu. Mae ein rhaglen ar gyfer llywodraethu yn amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol Cymru ledled Cymru a thramor.

Senedd.tv Fideo Video

14:31

## Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that, Minister. As you have acknowledged, culture is often a very cost-effective way to promote a country to the world, of which we have excellent examples, such as America, which people often do not realise has promoted itself very efficiently via its culture, with many of our young people feeling they have the rights that they see outlined on detective programmes set in America for example. Investment in that sort of cultural event can often lead to a four-fold return in terms of spin-offs in tourism, in jobs and in a general feeling of wellbeing in the country. In the light of the cuts to our budget that we have heard so much about from the Conservatives and Liberal Democrats, what can we do to make sure that arts do not feel the brunt of this pain and are in fact valued for the contributors that they are to our worldwide heritage?

Diolch am hynna, Weinidog. Fel yr ydych chi wedi ei gydnabod, mae diwylliant yn aml yn ffordd gost-effeithiol iawn o hyrwyddo gwlad i'r byd, ac mae gennym enghreifftiau rhagorol o hynny, fel America, nad yw pobl yn aml yn sylweddoli sydd wedi hyrwyddo ei hun yn effeithlon iawn trwy ei diwylliant, gyda llawer o'n pobl ifanc yn teimlo bod yr un hawliau ganddynt ag y maen nhw'n eu gweld ar raglenni ditectif wedi eu gosod yn America er enghraifft. Gall buddsoddi yn y math hwnnw o ddigwyddiad diwylliannol arwain yn aml at dderbyn pedair gwaith cymaint yn ôl drwy sgil-effeithiau mewn twristiaeth, mewn swyddi ac mewn teimlad cyffredinol o les yn y wlad. Yng ngoleuni'r toriadau i'n cyllideb yr ydym ni wedi clywed cymaint amdanynt gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, beth allwn ni ei wneud i sicrhau nad y celfyddydau sy'n dwyn baich y poen hwn a'u bod yn cael eu gwir gwerthfawrogi am eu cyfraniad i'n treftadaeth fyd-eang?

14:32

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Julie James for that supplementary question, rightly highlighting the importance of events such as WOMEX, which was a tremendous event for Wales. I attended a number of the events around WOMEX and was very impressed, and I know that all who witnessed those events were similarly impressed. It will undoubtedly deliver a great deal of benefit for Wales and Wales's international profile. It is a difficult time at the moment in terms of funding. We have to be clear about the need for quality and excellence, which I know the Arts Council for Wales is, through its funding of the revenue-funded organisations, building capacity and building that quality that appeals to an international audience. Our international effort is very much around a number of events, such as the Venice Biennale for example, the Lorient festival and the Celtic festival in Edinburgh, all three of which I have been fortunate enough to attend since I have been Minister.

Diolch i Julie James am y cwestiwn atodol yna, yn tynnu sylw'n briodol at bwysigrwydd digwyddiadau fel WOMEX, a oedd yn ddigwyddiad gwych i Gymru. Mynychais nifer o ddigwyddiadau a oedd yn rhan o WOMEX a gwnaethant gryn argraff arnaf, ac rwy'n gwybod y gwnaed argraff debyg ar bawb a welodd y digwyddiadau hynny. Nid oes amheuaeth y bydd yn darparu llawer iawn o fudd i Gymru ac i broffil rhyngwladol Cymru. Mae'n gyfnod anodd ar hyn o bryd o ran cyllid. Mae'n rhaid i ni fod yn eglur ynghylch yr angen am ansawdd a rhagoriaeth, a gwn fod Cyngor Celfyddydau Cymru, trwy ei waith yn ariannu'r sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw, yn adeiladu gallu ac yn adeiladu'r ansawdd hwnnw sy'n apelio i gynulleidfa ryngwladol. Mae ein hymdrech ryngwladol wedi ei seilio'n bendant ar nifer o ddigwyddiadau, fel Biennale Fenis, er enghraifft, gŵyl Lorient a'r ŵyl Geltaidd yng Nghaeredin, ac rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i fod yn bresennol ym mhob un o'r tair ers i mi fod yn Weinidog.

So, it is very much an outreach effort. I work very closely with the Minister for economy around trade missions and tying that up with our quality arts organisations and performances. These are things that I have emphasised to our culture group as well. We will have the Dylan Thomas centenary next year and there is a whole stream of events that help us. WOMEX has certainly been absolutely key among those.

Felly, mae'n sicr yn ymdrech allgymorth. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda Gweinidog yr economi ar deithiau masnach a chysylltu hynny â'n sefydliadau a'n perfformiadau celfyddydol o ansawdd da. Mae'r rhain yn bethau yr wyf wedi eu pwysleisio i'n grŵp diwylliant hefyd. Bydd canmlwyddiant Dylan Thomas gennym y flwyddyn nesaf ac mae llu o ddigwyddiadau sy'n ein helpu. Yn sicr, mae WOMEX wedi bod yn gwbl allweddol ymhlith y rheini.

14:33

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, yn amlwg rydym ni fel plaid yn croesawu'r hyn a ddaeth gyda WOMEX i Gymru, yn sgîl y ffaith taw Alun Ffred Jones, fel Gweinidog, a ddaeth â'r ŵyl hon i Gymru yn y lle cyntaf. Clywais eich ateb i Julie James, ond ni chlywais beth arall y byddwch chi fel Gweinidog yn edrych arno yn weithredol er mwyn dod ag ef i Gymru, fel y gallwn ni, fel Cymry, ddathlu'r hyn yr ydym yn ei wneud yn y sffêr ddiwylliannol a cherddorol. Felly, os oes gennych chi ryw fath o restr i'w rhannu gyda ni fel Aelodau'r Cynulliad, byddai hynny'n rhywbeth y byddwn yn ddiolchgar amdano, o ran deall beth sy'n rhan o'ch cynlluniau i'r dyfodol.

Minister, as a party, we obviously welcome what came to Wales with WOMEX, given that it was Alun Ffred Jones, as Minister, who brought this festival to Wales in the first place. I heard your answer to Julie James, but I did not hear what else you as Minister will actively consider bringing to Wales, so that we, as the people of Wales, can celebrate what we do in the cultural and musical sphere. Therefore, if you have any kind of list to share with us as Assembly Members, we would be grateful to see it, in order to understand your plans for the future.

14:34 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Members will be familiar with the series of events that have taken place in Wales and have raised the international profile of the country, which I touched upon in answering Julie James's question, as well as the excellence that we have within our cultural and arts organisations, together with a series of events abroad, which, again, I outlined earlier, that our arts organisations perform at. Similarly with the trade missions, I think Members will be very familiar with that, and, of course, the effort will continue, linking up with our major events unit, which sits within the Minister for Economy, Science and Transport's responsibilities, to attract further events to Wales.

Bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â'r gyfres o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yng Nghymru ac sydd wedi codi proffil rhyngwladol y wlad, y soniais amdanynt wrth ateb cwestiwn Julie James, yn ogystal â'r rhagoriaeth sydd gennym o fewn ein sefydliadau diwylliannol a chelfyddydol, ynghyd â chyfres o ddigwyddiadau tramor, a amlinellwyd gennyf, unwaith eto, yn gynharach, y mae ein sefydliadau celfyddydol yn perfformio ynddynt. Yn yr un modd gyda'r teithiau masnach, rwy'n credu y bydd yr Aelodau'n gyfarwydd iawn â hynny, ac, wrth gwrs, bydd yr ymdrech yn parhau, gan gysylltu â'n huned digwyddiadau mawr, sy'n rhan o gyfrifoldebau Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i ddenu rhagor o ddigwyddiadau i Gymru.

14:35 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, efallai y gallaf eich helpu o ran rhoi syniad ar gyfer rhywbeth i'r dyfodol. Yn Llundain, mae gŵyl newydd wedi cael ei sefydlu o'r enw Nordicana, Nordic Noir, I edrych ar raglenni fel 'The Killing', 'Borgen', 'Wallander', ac yn y blaen, sy'n boblogaidd iawn yma yng Nghymru, ar BBC4. Mae rhaglen newydd o'r enw 'Y Gwyll' wedi ei sefydlu ar S4C, gyda'r actor Richard Harrington, o fy mhentref genedigol yn Heolgerrig ym Merthyr Tudful, yn brif gymeriad yn y rhaglen honno. A fyddai modd inni felly gael gŵyl o'r enw 'Cardi Noir', er enghraifft, yma yng Nghymru, i drafod yr hyn y mae drama ac actorion Cymreig yn ei wneud wrth roi drama gerbron y byd ac er mwyn arddangos dawn Cymru yn hynny o beth?

Minister, perhaps I can help you with ideas for the future. A new festival has been established in London called Nordicana, Nordic Noir, to look at programmes such as 'The Killing', 'Borgen', 'Wallander' and so on, which are very popular here in Wales, on BBC4. A new programme called 'Hinterland' has been produced by S4C, with the actor Richard Harrington, from my home village of Heolgerrig in Merthyr Tydfil, as its main character. Could we have a festival called 'Cardi Noir', for example, here in Wales, to discuss what Welsh actors and Welsh drama are doing on the world stage and in order to provide a platform for Welsh talent in this respect?

14:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would be very happy to discuss that possibility with other ministerial colleagues, including the Minister for economy. I did, in fact, watch 'The Darkness' last week, on S4C, and was very impressed. The scenery at Devil's Bridge and Aberystwyth was stunning. I thought that it was a great production—real quality—and I understand, from meetings with S4C and others, that that view is shared internationally, across the globe, which must be very good news for Wales.

Byddwn yn hapus iawn i drafod y posibilrwydd hwnnw gyda chyd-Weinidogion eraill, gan gynnwys Gweinidog yr economi. A dweud y gwir, fe wnes i wylio 'The Darkness' yr wythnos diwethaf, ar S4C, a gwnaeth gryn argraff arnaf. Roedd y golygfeydd ym Mhontarfynach ac Aberystwyth yn syfrdanol. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn gynhyrchiad gwych— o ansawdd gwirioneddol—ac rwy'n deall, o gyfarfodydd gydag S4C ac eraill, y rhennir y farn honno yn rhyngwladol, ar draws y byd, ac mae'n rhaid bod hynny'n newyddion da iawn i Gymru.

## Mynediad y Cyhoedd i Gefn Gwlad

## Public Access to the Countryside

14:36 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad y cyhoedd i gefn gwlad? OAQ(4)0080(CS)*

*5. Will the Minister make a statement on public access to the countryside? OAQ(4)0080(CS)*

14:36 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The social and economic benefits of countryside access continue to be promoted by the Welsh Government. Significant improvements have been made in recent years, including the creation of the Wales coast path. We intend to continue to invest in encouraging greater participation, which benefits our economy and people's health.

Mae manteision cymdeithasol ac economaidd mynediad at gefn gwlad yn parhau i gael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru. Gwnaed gwelliannau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys creu llwybr arfordir Cymru. Rydym yn bwriadu parhau i fuddsoddi mewn annog mwy o gyfranogiad, sydd o fudd i'n heconomi ac iechyd pobl.

14:37 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Minister very much for that response. Over recent weeks, I have had quite a volume of correspondence regarding countryside access issues not just from farmers, but from other concerned residents. This included a letter from the chief executive of the National Sheep Association. In the context of these concerns, what progress has been made to date with a review of access and outdoor recreation legislation, particularly with respect to the consultation, to ensure that the full range of concerned stakeholders are involved in framing the draft legislation in good time?

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am yr ymateb yna. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi cael cryn dipyn o ohebiaeth ynghylch materion mynediad at gefn gwlad, nid yn unig gan ffermwyr, ond gan drigolion pryderus eraill. Roedd hyn yn cynnwys llythyr gan brif weithredwr y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol. Yng nghyd-destun y pryderon hyn, pa gynnydd sydd wedi ei wneud hyd yn hyn gydag adolygiad o fynediad a deddfwriaeth hamdden yn yr awyr agored, yn enwedig o ran yr ymgynghoriad, i sicrhau bod yr holl randdeiliaid pryderus dan sylw yn cael eu cynnwys yn y gwaith o lunio'r ddeddfwriaeth ddrafft mewn da bryd?

14:37 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, have had a great deal of correspondence on these matters, as I am sure other Members in the Chamber will have received. They are matters that are very important to Wales and to a variety of stakeholders, so I am very keen to have the widest and deepest possible engagement. We are at the very start of the process, really, where we have had initial workshops across Wales to engage with key stakeholders, and I have recently met with some of those. Therefore, there is a lot of engagement yet to take place and, of course, the Green Paper is yet to be issued. However, I think that it is a very important agenda for Wales; we have a fantastic outdoors, and we need to ensure that it is enjoyed and is used to best effect.

Rwyf innau hefyd wedi cael llawer iawn o ohebiaeth ar y materion hyn, fel rwy'n siŵr y bydd Aelodau eraill yn y Siambr wedi ei derbyn. Maen nhw'n faterion sy'n bwysig iawn i Gymru ac i amrywiaeth o randdeiliaid, felly rwy'n awyddus iawn i gael yr ymgysylltiad ehangaf a dyfnaf posibl. Rydym ar gychwyn cyntaf y broses, mewn gwirionedd, lle'r ydym ni wedi cynnal gweithdai cychwynnol ledled Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, ac rwyf wedi cyfarfod â rhai o'r rheini yn ddiweddar. Felly, mae llawer o ymgysylltu i ddigwydd o hyd ac, wrth gwrs, nid yw'r Papur Gwyrdd wedi ei gyhoeddi eto. Fodd bynnag, rwy'n credu bod hon yn agenda pwysig iawn i Gymru; mae gennym fannau awyr agored gwych, ac mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael eu mwynhau ac yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

14:38 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You mentioned the Wales coastal path, Minister, in your answer. What progress has been made on ensuring that everyone can use the Wales coastal path, including cyclists, disabled people and horse riders?

Soniasoch am lwybr arfordirol Cymru, Weinidog, yn eich ateb. Pa gynnydd sydd wedi ei wneud o ran sicrhau y gall pawb ddefnyddio llwybr arfordirol Cymru, gan gynnwys beicwyr, pobl anabl a marchogion?

14:38 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have prioritised accessibility and inclusivity in creating the Wales coast path. One of my ministerial visits was to Rest Bay at Porthcawl. An area of coast path there has been made accessible for wheelchair users, for example, and I met a wheelchair user on that occasion, who explained very clearly the benefit to his health and wellbeing and to his quality of life of that improved access. Therefore, I think that we have important gains under our belt, as it were, in terms of the work that has taken place with the Wales coast path. However, of course, that is not universally the case, as there are areas where that is possible and others where it is far more difficult. However, we are certainly very committed to that agenda.

Rydym wedi blaenoriaethu hygyrchedd a chynwysoldeb wrth greu llwybr arfordir Cymru. Roedd un o'm hymweliadau gweinidogol â Bae Rest ym Mhorthcawl. Mae rhan o lwybr yr arfordir yno wedi ei gwneud yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, er enghraifft, a chefais sgwrs â defnyddiwr cadair olwyn ar yr achlysur hwnnw, a eglurodd yn glir iawn budd y mynediad gwell hwnnw i'w iechyd a'i les ac i ansawdd ei fywyd. Felly, rwy'n credu ein bod wedi sicrhau enillion pwysig, fel petai, o ran y gwaith sydd wedi ei wneud gyda llwybr arfordir Cymru. Fodd bynnag, , nid yw hynny, wrth gwrs, yn wir ym mhobman, gan fod ardaloedd lle mae hynny'n bosibl ac eraill lle mae'n llawer mwy anodd. Fodd bynnag, rydym yn sicr wedi ymrwymo i'r agenda honno.

14:39 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn yr Alban, wrth gwrs, lle mae mynediad agored wedi ei gyflwyno, mae tystiolaeth yn dangos bod y sector pysgota wedi colli incwm a swyddi, ac wedi gweld difrod i stociau pysgod a chwymp yn nifer y pysgotwyr oherwydd bod pobl eraill yn camddefnyddio'r mynediad i ddyfrffyrdd. Os ydych yn bwriadu cyflwyno elfen gryfach o fynediad yng Nghymru, pa sicrwydd a allwch ei roi na fydd yr un canlyniadau'n digwydd fan hyn?

In Scotland, of course, where open access has been introduced, evidence shows that the angling sector has lost income and jobs, as well as damage to fish stocks and a fall in the number of anglers as a result of other people's misuse of waterway access. If you have plans to introduce more access in Wales, what guarantee can you provide that we will not see the same outcomes?

14:40 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In taking forward improvements to access generally, we would, of course, be keen to stress that it must be responsible access. It is important to have the strongest possible codes in place to ensure that everybody is clear. So, it has to be communicated effectively as well. Everybody is clear as to what constitutes responsible access and abides by that guidance. Those are important issues, but, again, we are at the beginning of a Process that will explore all matters involved in the proposals that we will set out. We look forward to that level of engagement.

Wrth fwrw ymlaen â gwelliannau i fynediad yn gyffredinol, byddem, wrth gwrs, yn awyddus i bwysleisio bod yn rhaid iddo fod yn fynediad cyfrifol. Mae'n bwysig sefydlu'r codau cryfaf posibl i sicrhau bod pawb yn deall yn eglur. Felly, mae'n rhaid iddo gael ei gyfathrebu'n effeithiol hefyd. Mae pawb yn eglur ynghylch beth yw mynediad cyfrifol ac yn cydymffurfio â'r canllawiau hynny. Mae'r rhain yn faterion pwysig, ond, unwaith eto, rydym ni ar ddechrau Proses a fydd yn archwilio'r holl faterion sydd dan sylw yn y cynigion y byddwn yn eu cyflwyno. Edrychwn ymlaen at y lefel hwnnw o ymgysylltu.

**Rhagoriaeth mewn Chwaraeon**

**Sporting Excellence**

14:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella rhagoriaeth mewn chwaraeon yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0070(CS)*

*6. What are the Welsh Government's priorities for improving sporting excellence in South Wales Central? OAQ(4)0070(CS)*

14:41 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our investment in sporting excellence is set out in Sport Wales's elite sport strategy, which was endorsed by Welsh Government and published in 2010. It covers the period until the 2016 Rio Olympic and Paralympic Games.

Mae ein buddsoddiad mewn rhagoriaeth chwaraeon wedi ei nodi yn strategaeth chwaraeon elît Chwaraeon Cymru, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd yn 2010. Mae'n cynnwys y cyfnod hyd at Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Rio yn 2016.

14:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that answer. Back in the spring, there was a campaign launched to stop the hikes, namely the fees that were charged for council playing fields and sporting facilities. Many members of this Chamber, in particular the Member for South Wales West, Bethan Jenkins, supported that campaign. It is important that people have access to those sporting facilities. Many amateur clubs, sadly, have struggled and have had to close because of the excessive increases in the fees that are charged. You talked in earlier answers about your engagement with the local government association. Can you flesh out what tangible results you have had as a Minister in the dialogue with the local government association to bring forward proposals that will mitigate some of these increases and help amateur clubs across Wales?

Diolch, Weinidog, am yr ateb yna. Yn ôl yn y gwanwyn, lansiwyd ymgyrch i atal y codiadau, sef y ffioedd a godir ar gyfer caeau chwarae a chyfleusterau chwaraeon y cyngor. Cefnogwyd yr ymgyrch honno gan nifer o aelodau'r Siambr hon, yn enwedig yr Aelod dros Orllewin De Cymru, Bethan Jenkins. Mae'n bwysig bod pobl yn cael mynediad at y cyfleusterau chwaraeon hynny. Yn anffodus, mae llawer o glybiau amatur wedi ei chael hi'n anodd ac wedi gorfod cau oherwydd y cynnydd gormodol i'r ffioedd a godir. Soniasoch yn eich atebion cynharach am eich ymgysylltiad â'r gymdeithas llywodraeth leol. A allwch chi ymhelaethu ar ba ganlyniadau diriaethol yr ydych chi wedi eu cael fel Gweinidog yn y deialog gyda'r gymdeithas llywodraeth leol i gyflwyno cynigion a fydd yn lliniaru rhai o'r codiadau hyn a helpu clybiau amatur ledled Cymru?

14:42 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In general, it must be right that I, as Minister for sport, have a very close working relationship and channel of communication with the local authorities and the Welsh Local Government Association at a time of considerable budget difficulties. So, I intend to work as closely as possible with local government in Wales, and that will encompass a wide range of matters, including access to sports facilities, participation and barriers thereto. Ultimately, it is a matter for the local authorities to set their charging regimes. Sport Wales works with them on the process. There must be proper consultation involved. Ultimately, it is a matter for local authorities.

Yn gyffredinol, mae'n rhaid iddi fod yn iawn fy mod gen i, fel Gweinidog chwaraeon, berthynas waith agos iawn a sianel gyfathrebu gyda'r awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar adeg o anawsterau cyllidebol sylweddol. Felly, rwy'n bwriadu cydweithio mor agos â phosibl â llywodraeth leol yng Nghymru, a bydd hynny'n cynnwys amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau chwaraeon, cyfranogiad a'r rhwystrau i hynny. Yn y pen draw, mater i'r awdurdodau lleol yw pennu eu trefniadau codi tâl. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda nhw ar y broses. Mae'n rhaid sicrhau y ceir ymgynghori priodol. Fodd bynnag, mater i awdurdodau lleol yw hwn.

One issue that I am keen on is working to understand facilities that are currently available and how we can enhance and improve on those, and make better use of what currently exists. In that regard, I think that it is important that we drive forward progress on community-focused schools, because there we have a range of facilities that, in some instances, are not accessible during the evenings, weekends and school holidays. At a time of considerable financial difficulties, as I mentioned earlier, it is important that we use our existing facilities to best effect. So, I am discussing these matters with my colleague the Minister for Education and Skills and with others.

Un mater rwy'n awyddus i weithio arno yw deall y cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd a sut y gallwn wella ar y rheini, a gwneud defnydd gwell o'r hyn sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Yn hynny o beth, rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn annog cynnydd mewn ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan fod gennym yno amrywiaeth o gyfleusterau nad ydynt, mewn rhai achosion, ar gael fin nos, ar benwythnosau nac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mewn cyfnod o anawsterau ariannol sylweddol, fel y soniais yn gynharach, mae'n bwysig ein bod yn defnyddio ein cyfleusterau presennol yn y ffordd fwyaf effeithiol. Felly, rwy'n trafod y materion hyn gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a chydag eraill.

### Chwaraeon ymhlith Pobl Hŷn

### Sport among Older People

14:43 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa waith y mae eich adran yn ei wneud i hyrwyddo chwaraeon ymhlith pobl hyn? OAQ(4)0073(CS)*

*7. What work is your department doing to promote sport amongst older people? OAQ(4)0073(CS)*

14:43 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government supports a number of programmes for older people to participate in sport and physical activity. These include free swimming for those aged 60 and over and the Let's Walk Cymru programme.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nifer o raglenni i bobl hŷn gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r rhain yn cynnwys nofio am ddim i bobl 60 oed neu hŷn a rhaglen Dewch i Gerdded Cymru.

14:44 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is fantastic. A Swedish study that involved 4,000 adults aged 60, over a 12-year period, indicated that gardening increased their life chances by 30%. Things like gardening and dancing are, perhaps, more suitable than running around a football pitch with Steven Caulker. How can we ensure that all older people realise the benefits of staying healthy and active, and how can we promote the sort of activities that would be suitable for a range of people?

Mae hynny'n wych. Dangosodd astudiaeth yn Sweden a oedd yn cynnwys 4,000 o oedolion 60 oed, dros gyfnod o 12 mlynedd, fod garddio yn cynyddu eu siawns o fyw o 30%. Mae pethau fel garddio a dawnsio, efallai, yn fwy addas na rhedeg o gwmpas cae pêl-droed gyda Steven Caulker. Sut y gallwn ni sicrhau bod yr holl bobl hŷn yn sylweddoli manteision cadw'n iach a bywiog, a sut y gallwn ni hyrwyddo'r mathau o weithgareddau a fyddai'n addas ar gyfer amrywiaeth o bobl?

14:44 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is important that we are imaginative and flexible, and that we understand that there will be a range of activities that are attractive to a wide variety of older people, because older people are not one homogenous mass. We need to understand that. It should be about the wider physical activity agenda, and I very much agree with that. Within that, gardening is important. In fact, yesterday I was at the old Vetch ground of Swansea City Football Club looking at the allotment provision there, which was very impressive. We had a range of people within the community coming there, and there were allotments of different sizes—it could be quite a small patch. There were elders from the Chinese community in Swansea, for example, growing all sorts of interesting vegetables, including Chinese pumpkins. It was a good education for me, in terms of what happens there, but it is a great social experience. There are people coming there from the Bangladeshi and Chinese community and from right across that area of Swansea. It is about staying physically active, but it also has a great social benefit.

Mae'n bwysig ein bod yn hyblyg a llawn dychymyg, a'n bod yn deall y bydd ystod o weithgareddau sy'n ddeniadol i amrywiaeth eang o bobl hŷn, gan nad yw pobl hŷn yn un màs homogenaidd. Mae angen i ni ddeall hynny. Dylai ymwneud â'r agenda gweithgarwch corfforol ehangach, ac rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. O fewn hynny, mae garddio'n bwysig. Yn wir, roeddwn i yn hen gae'r Vetch Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe ddoe yn edrych ar y ddarpariaeth o randiroedd yno, a oedd yn drawiadol iawn. Roedd gennym amrywiaeth o bobl o fewn y gymuned yn dod yno, ac roedd rhandiroedd o wahanol feintiau—gallai fod yn llain eithaf bychan. Roedd henuriaid o'r gymuned Tsieineaidd yn Abertawe, er enghraifft, yn tyfu pob math o lysiau diddorol, gan gynnwys pwmpenni Tsieineaidd. Roedd yn addysg dda i mi, o ran yr hyn sy'n digwydd yno, ond mae'n brofiad cymdeithasol gwych. Mae pobl yn dod yno o'r gymuned Bangladeshaidd a'r gymuned Tsieineaidd ac o bob rhan o'r ardal honno o Abertawe. Mae'n ymwneud â chadw'n weithgar yn gorfforol, ond mae ganddo fudd cymdeithasol gwych hefyd.

14:45 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware that crown green bowling is a sport enjoyed by many older people, which helps them to keep fit and very supple. It is a sport that has traditionally been quite strong in parts of north Wales, but not so strong in the south. What work are you doing to ensure that the benefits of crown green bowling can be enjoyed by more people in Wales, particularly in mid and south Wales?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod bowlio lawnt goron yn gamp a fwynheir gan lawer o bobl hŷn, sy'n eu helpu i gadw'n heini ac yn ystwyth iawn. Mae'n gamp sydd wedi bod yn eithaf cryf yn draddodiadol mewn rhannau o ogledd Cymru, ond nid mor gryf yn y de. Pa waith ydych chi'n ei wneud i sicrhau y gall manteision bowlio lawnt goron gael eu mwynhau gan fwy o bobl yng Nghymru, yn enwedig yn y canolbarth ac yn y de?

14:46 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that crown green bowling is enjoyed in different parts of Wales, together with other types of green bowling, as it were. Older people particularly find that to be a very pleasurable and worthwhile activity. It is about meeting the demand that exists, whatever form of bowls that is, and Welsh Government, Sport Wales and the governing body are keen to support it.

Gwn fod bowlio lawnt goron yn cael ei fwynhau mewn gwahanol rannau o Gymru, ynghyd â mathau eraill o fowlio lawnt, fel petai. Mae pobl hŷn yn arbennig, yn ei ystyried yn weithgaredd pleserus iawn ac yn werth chweil. Mae'n ymwneud â bodloni'r galw sy'n bodoli, pa bynnag fath o fowlio yw hynny, ac mae Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a'r corff llywodraethu yn awyddus i'w gefnogi.

14:46 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We know that some older people have access to free swimming, but how can the Welsh Government help to ensure that older people are not prevented from engaging in other sporting and physical activities because of their financial circumstances? I was not going to mention this, but in Glasgow older people are encouraged to do ballet—I am looking around the room—and in Japan I understand that cheerleading is also encouraged. [Laughter.] Any thoughts, Minister?

Rydym yn gwybod bod gan rai pobl hŷn fynediad at nofio am ddim, ond sut y gall Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu hatal rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill oherwydd eu hamgylchiadau ariannol? Nid oeddwn i'n mynd i sôn am hyn, ond yn Glasgow, mae pobl hŷn yn cael eu hannog i wneud bale—rwy'n edrych o amgylch yr ystafell—ac rwy'n deall bod gweithgareddau codi hwyl neu 'cheerleading' yn cael eu hannog yn Siapan hefyd. [Chwerthin.] Unrhyw sylwadau, Weinidog?

14:47 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I said earlier, I am sure that there are a range of activities that older people would like to indulge in. We are very keen, working with partners, to understand that and, where possible, make provision.

Fel y dywedais yn gynharach, rwy'n siŵr bod amrywiaeth o weithgareddau yr hoffai pobl hŷn gymryd rhan ynddynt. Rydym yn awyddus iawn, gan weithio gyda phartneriaid, i ddeall hynny a, phan fo'n bosibl, gwneud darpariaeth.

### Prifddinas Chwaraeon Ewrop yn 2014

### European Capital of Sport in 2014

14:47 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu hyrwyddo chwaraeon cyn rôl Caerdydd fel prifddinas chwaraeon Ewrop yn 2014? OAQ(4)0075(CS)*

*8. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government plans to promote sport ahead of Cardiff's role as European capital of sport in 2014? OAQ(4)0075(CS)*

14:47 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our capital city's prestigious status as European capital of sport next year is an important achievement. Sport Wales is working in partnership with Cardiff Council to maximise the opportunities involved.

Mae statws mawreddog ein prifddinas fel prifddinas chwaraeon Ewropeaidd y flwyddyn nesaf yn llwyddiant pwysig. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n cael eu creu.

14:48 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister; that is very encouraging. However, the situation surrounding the Wales national tennis centre is deeply embarrassing, I am sure you would agree, given the timing. I am also sure that you will agree that it is a valuable asset, not only for developing elite sport in Wales, but also to encourage people to have healthier lifestyles in general. If so, will you give me an assurance that you will enter into dialogue with Cardiff Council to ensure that the facility is viable for the future?

Diolch, Weinidog; mae hynny'n galonogol iawn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa o ran canolfan dennis genedlaethol Cymru yn destun embaras mawr, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno, o ystyried yr amseru. Rwyf hefyd yn siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn ased gwerthfawr, nid yn unig i ddatblygu chwaraeon elît yng Nghymru, ond hefyd i annog pobl i fabwysiadu ffordd fwy iach o fyw yn gyffredinol. Os felly, a wnewch chi fy sicrhau y byddwch yn dechrau deialog gyda Chyngor Caerdydd i sicrhau bod y cyfleuster yn hyfyw ar gyfer y dyfodol?

14:48 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very aware of the issues around the national tennis centre, as I know is Cardiff Council. Cardiff Council is considering proposals for the future use of the national tennis centre, and is having discussions with a range of other stakeholders. I am hopeful that we will see progress in the near future, but I would join all Members here in understanding the importance of the national tennis centre in taking forward that sport in Wales.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r materion yn ymwneud â'r ganolfan dennis genedlaethol, a gwn fod Cyngor Caerdydd hefyd. Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried cynigion ar gyfer y defnydd o'r ganolfan dennis genedlaethol yn y dyfodol, ac yn cynnal trafodaethau gydag amrywiaeth o randdeiliaid eraill. Rwy'n obeithiol y byddwn yn gweld cynnydd yn y dyfodol agos, ond byddwn yn ymuno â'r holl Aelodau yma i ddeall pwysigrwydd y ganolfan dennis genedlaethol o ran datblygu'r gamp honno yng Nghymru.

14:49 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the key things that Cardiff has been noted for over the last couple of years in sport is the success of the principal teams, such as Cardiff City FC and the Welsh rugby team playing at the Millennium Stadium. However, underneath those flagship clubs or our country sport, we have real issues at amateur level. Will you be working with the local authority and the governing bodies across all sports to make sure that all amateur sports benefit from exposure and, hopefully, some growth in participation when 2014 kicks off?

Un o'r pethau allweddol y mae Caerdydd wedi bod yn enwog amdano ym myd chwaraeon yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yw llwyddiant y prif dimau, fel Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a thîm rygbi Cymru sy'n chwarae yn Stadiwm y Mileniwm. Fodd bynnag, o dan y clybiau blaenllaw hynny neu chwaraeon ein gwlad, mae gennym broblemau helaeth ar lefel amatur. A fyddwch chi'n gweithio gyda'r awdurdod lleol a'r cyrff llywodraethu ar draws pob camp i wneud yn siŵr bod yr holl chwaraeon amatur yn elwa o gael sylw a, gobeithio, rhywfaint o dwf mewn cyfranogiad pan fydd 2014 yn dechrau?

14:49 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. We want to make sure that we have a widening of participation at the grass-roots level around these opportunities. Cardiff Council, in terms of the year of sport, will be taking forward school games, which I think will be quite extensive and will very much widen participation; that is very much to be welcomed. At a grass-roots level, Sport Wales and the governing bodies of sports in our country are very conscious of the need to have the widest possible participation, because, without that, you do not get the elite performance that we want to see. The wider the base of participation in sport in Wales, the more chance there is of producing those quality athletes and sportspeople in the future.

Yn sicr. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod cyfranogiad yn cael ei ehangu ar lawr gwlad yng nghyswllt y cyfleoedd hyn. Bydd Cyngor Caerdydd, o ran y flwyddyn chwaraeon, yn cynnal gemau ysgolion, a fydd yn eithaf eang rwy'n credu, ac yn sicr yn ehangu cyfranogiad; mae hynny'n sicr yn rhywbeth i'w groesawu. Ar lawr gwlad, mae Chwaraeon Cymru a chyrff llywodraethu chwaraeon yn ein gwlad yn ymwybodol iawn o'r angen i gael y cyfranogiad ehangaf posibl, oherwydd, heb hynny, nid ydych chi'n cael y perfformiad elît yr ydym ni'n dymuno ei weld. Yr ehangaf yw sail y cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru, y mwyaf fydd y cyfle i gynhyrchu athletwyr a chwaraewyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

14:50 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, although the Taff trail is a wonderful place to cycle in Cardiff, if you really want to enjoy cycling, you have to get out west—to Coed-y-Brenin or Nantyrarian. There is also a proposal to have a velodrome in Aberystwyth, which all partners have signed up to, but it is struggling for capital funding due to the changes in regeneration funding at the moment. Is there anything around celebrating next year in Cardiff and the rest of Wales, or following on from the Olympic legacy, that could make available capital funding for exciting cycling projects such as the Aberystwyth velodrome?

Weinidog, er bod taith Taf yn lle gwych i feicio yng Nghaerdydd, os ydych chi wir eisiau mwynhau beicio, mae'n rhaid i chi fynd allan i'r gorllewin—i Goed-y-Brenin neu Nantyrarian. Ceir cynnig hefyd i gael felodrôm yn Aberystwyth, y mae pob partner wedi cytuno iddo, ond sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyllid cyfalaf oherwydd y newidiadau i gyllid adfywio ar hyn o bryd. A oes unrhyw beth wedi ei drefnu i ddathlu'r flwyddyn nesaf yng Nghaerdydd a gweddill Cymru, neu'n dilyn ymlaen o etifeddiaeth y Gemau Olympaidd, a allai wneud cyllid cyfalaf ar gael ar gyfer prosiectau beicio cyffrous fel felodrôm Aberystwyth?

14:51 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are sources of funding available, of course, for capital projects. One thing that I announced as part of the forthcoming budget years is that there will be a pool of money—£5 million—for capital schemes. That does not become available until the financial year after next, but I hope that it will, at that stage, play an important role in providing additional money. It is very important to work through organisations like Sport Wales to understand what possibilities exist and what range of partners can come to the table to help to take forward provision.

Mae ffynonellau cyllid ar gael, wrth gwrs, ar gyfer prosiectau cyfalaf. Un peth a gyhoeddwyd gennyf yn rhan o'r blynyddoedd cyllideb i ddod yw y bydd cronfa o arian—£5 miliwn—ar gael ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Ni fydd hynny ar gael tan y flwyddyn ariannol ar ôl y nesaf, ond rwy'n gobeithio, bryd hynny, y bydd yn chwarae rhan bwysig o ran darparu arian ychwanegol. Mae'n bwysig iawn gweithio trwy sefydliadau fel Chwaraeon Cymru i ddeall pa bosibiliadau sy'n bodoli a pha amrywiaeth o bartneriaid sy'n gallu cyfrannu at gyflwyno'r ddarpariaeth.

## Cyllid i Chwaraeon

## Sports Funding

14:51 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)0085(CS)*

*9. Will the Minister make a statement on sports funding in Wales? OAQ(4)0085(CS)*

14:51 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r cyllid mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i chwaraeon yng Nghymru yn cael ei sianelu'n bennaf drwy Chwaraeon Cymru, sy'n dyrannu cyllid yn seiliedig ar gynlluniau datblygu y cytunwyd arnynt â'r cyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid.

Welsh Government funding for sport is principally channelled through Sport Wales, which allocates funding based on agreed development plans with the national governing bodies of sport, local authorities and other key partner organisations.

14:52 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is more than a year now since the London Olympic and Paralympic Games and, although many of us in this Chamber enjoyed the sporting spectacle, there are real questions now about the legacy. We have already heard today about the loss of the Paralympic swimming base in Swansea, but also Welsh sport is still waiting for the return of tens of millions of pounds of lottery funding that was diverted from them to the games. What effort has the Government made to make sure that sport in Anglesey and the rest of Wales does not lose out in the long term? When can grass-roots sport in Wales expect its money back?

Mae dros flwyddyn wedi mynd heibio ers Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain bellach ac, er i lawer ohonom ni yn y Siambr hon fwynhau'r wledd o chwaraeon, ceir cwestiynau gwirioneddol bellach am yr etifeddiaeth. Rydym eisoes wedi clywed heddiw am golli'r ganolfan nofio Paralympaidd yn Abertawe, ond hefyd mae chwaraeon Cymru yn dal i aros i ddegau o filiynau o bunnoedd o arian y loteri a arallgyfeiriwyd oddi wrthynt i'r gemau i gael ei ddychwelyd. Pa ymdrech mae'r Llywodraeth wedi ei wneud i sicrhau nad yw chwaraeon ar Ynys Môn ac yng ngweddill Cymru yn dioddef yn yr hirdymor? Pryd y gall chwaraeon llawr gwlad yng Nghymru ddisgwyl cael yr arian yn ôl?

14:53 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are seeing that. Following the Olympics, there is a return of funding to the lottery and, indeed, the lottery will be a very important source of funding in the difficult budgetary times that we, rightly, constantly mention. We have seen an Olympic legacy; the challenge is to sustain that over a period of time. However, we have seen impressive increases in participation in a range of sports, including gymnastics, cycling and swimming. Therefore, there has been progress and we need to sustain it. An important aspect of that legacy is the Young Ambassadors programme, which is a direct Olympics legacy. They are working in schools throughout Wales and are playing a very important role in understanding what young people want in terms of provision and making sure that it is available, both within and without our schools.

Rydym ni yn gweld hynny. Yn dilyn y Gemau Olympaidd, mae cyllid yn cael ei ddychwelyd i'r loteri ac, yn wir, bydd y loteri yn ffynhonnell bwysig iawn o gyllid yn y cyfnod cyllidebol anodd yr ydym ni'n sôn amdanynt, a hynny'n briodol, yn gyson. Rydym wedi gweld etifeddiaeth Olympaidd; yr her yw cynnal hynny dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, rydym ni wedi gweld cynnydd sylweddol i'r nifer sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon, gan gynnwys gymnasteg, beicio a nofio. Felly, gwelwyd cynnydd ac mae angen i ni ei gynnal. Un agwedd bwysig ar yr etifeddiaeth honno yw'r rhaglen Cenhadon Ifanc, sy'n etifeddiaeth uniongyrchol o'r Gemau Olympaidd. Maen nhw'n gweithio mewn ysgolion ledled Cymru ac yn cyflawni swyddogaeth bwysig iawn o ran deall yr hyn y mae pobl ifanc ei eisiau o ran darpariaeth a sicrhau ei fod ar gael, yn ein hysgolion a'r tu allan iddynt.

14:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the opposition spokesperson, Mohammad Asghar.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Mohammad Asghar.

14:54 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, recent figures published by Sport Wales reveal that Newport receives the lowest level of sports funding per head of the population in Wales, at £12.94, while Gwynedd receives just under £36. This disparity in funding puts young athletes in Newport at a serious disadvantage —and, as a matter of fact, we both come from Newport, and we are both sportspeople—and this could leave their potential untapped. Will the Minister advise us of the reasons why grass-roots sport is underfunded in Newport?

Weinidog, mae ffigurau diweddar a gyhoeddwyd gan Chwaraeon Cymru yn dangos mai Casnewydd sy'n derbyn y lefel isaf o gyllid fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru ar gyfer chwaraeon, sef £12.94, tra bod Gwynedd yn derbyn ychydig yn llai na £36. Mae'r anghydraddoldeb hwn mewn cyllid yn rhoi athletwyr ifanc yng Nghasnewydd o dan anfantais ddifrifol—ac, a dweud y gwir, mae'r ddau ohonom yn dod o Gasnewydd, ac mae'r ddau ohonom yn bobl sy'n hoffi chwaraeon—a gallai hyn olygu nad yw eu potensial yn cael ei wireddu. A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym y rhesymau pam nad yw chwaraeon llawr gwlad yng Nghasnewydd yn cael eu hariannu'n ddigonol?

14:54 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would not accept that grass-roots sport is underfunded in Newport. As a Government, with Sport Wales, we work with local authorities right across Wales. If you look at Newport, you will see that there is a very impressive sports scene in place. We have the sports village at Spytty in Newport, which has a wonderful range of facilities, the velodrome, the football trust, the tennis centre, the swimming pool and the third generation pitch. It is very impressive. Newport City Council is very committed to sport and as Minister for sports I am very keen to see that throughout our local authorities in Wales.

Ni fyddwn yn derbyn bod chwaraeon llawr gwlad yn cael eu tanariannu yng Nghasnewydd. Fel Llywodraeth, gyda Chwaraeon Cymru, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru. Os edrychwch chi ar Gasnewydd, byddwch yn gweld bod y sefyllfa chwaraeon yno yn drawiadol. Mae gennym y pentref chwaraeon yn Spytty yng Nghasnewydd, sydd ag amrywiaeth wych o gyfleusterau, y felodrôm, yr ymddiriedolaeth bêl-droed, y ganolfan dennis, y pwll nofio a'r maes trydydd cenhedlaeth. Mae'n drawiadol iawn. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ymroddedig iawn i chwaraeon ac fel y Gweinidog chwaraeon rwy'n awyddus iawn i weld hynny ym mhob un o'n hawdurdodau lleol yng Nghymru.

14:55 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will be aware of the circumstances surrounding Newport Cricket Club and its need for financial support to secure its future. What action have you taken to support Newport Cricket Club in the interest of developing grass-roots cricket in the city?

Byddwch yn ymwybodol o'r amgylchiadau yng nghyswllt Clwb Criced Casnewydd a'i angen am gymorth ariannol i sicrhau ei ddyfodol. Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i gefnogi Clwb Criced Casnewydd er budd datblygu criced llawr gwlad yn y ddinas?

14:55 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

We will work with local authorities, Sport Wales and the governing body in terms of cricket provision right across Wales. I play cricket at the Spytty cricket ground and am well aware of the issues. We are concerned with provision right across Wales. Wherever there are issues, Welsh Government is keen to engage and help find solutions.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, Chwaraeon Cymru a'r corff llywodraethu o ran y ddarpariaeth griced ledled Cymru. Rwy'n chwarae criced ar faes criced Spytty ac rwy'n gwbl ymwybodol o'r problemau. Rydym yn rhoi sylw i'r ddarpariaeth ledled Cymru. Lle bynnag y bydd problemau, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ymgysylltu a helpu i ddod o hyd i atebion.

Senedd.tv Fideo Video

### Amgueddfeydd Lleol

### Local Museums

14:56 **William Graham** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i hyrwyddo amgueddfeydd lleol? OAQ(4)0068(CS)*

*10. Will the Minister outline the support the Welsh Government gives to promote local museums? OAQ(4)0068(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Local museums in Wales are a very visible and valuable part of the wider cultural and heritage sector. The first ever national marketing strategy for Welsh museums has now been developed and will be implemented over coming months.

Mae amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn rhan amlwg a gwerthfawr iawn o'r sector diwylliannol a threftadaeth ehangach. Mae'r strategaeth farchnata genedlaethol gyntaf erioed ar gyfer amgueddfeydd Cymru wedi ei datblygu erbyn hyn a bydd yn cael ei rhoi ar waith yn ystod y misoedd nesaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I thank the Minister for his reply. I am sure that he will agree that many local museums are the custodians of not only national, but local cultural collections, particularly individual collections to an area. Will he bring forward work to ensure that the historical value of these collections, particularly the very small ones in our more rural areas, is protected?

Diolchaf i'r Gweinidog am ei ateb. Rwy'n siŵr y bydd yn cytuno bod llawer o amgueddfeydd lleol yn geidwaid nid yn unig casgliadau cenedlaethol ond casgliadau diwylliannol lleol hefyd, yn enwedig casgliadau sy'n unigryw i ardal. A wnaiff ef gyflwyno gwaith i sicrhau bod gwerth hanesyddol y casgliadau hyn, yn enwedig y rhai bychain iawn yn ein hardaloedd mwy gwledig, yn cael ei ddiogelu?

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

One key way in which we can protect that very important local and national heritage, as William Graham rightly describes, is to make sure that as many museums as possible in Wales work towards and achieve the UK accreditation standards. We work with our museums through CyMAL: Museums, Archives and Libraries Wales to ensure that that quality is achieved and is in place. Then, there are grants available as a result of achieving that accreditation. So, that is a key mechanism. We are very keen, through the marketing strategy, to ensure that what we have in Wales is effectively promoted and valued, and seen by as many people as possible.

Un ffordd allweddol y gallwn warchod ein treftadaeth leol a chenedlaethol hynod bwysig, fel y mae William Graham yn ei disgrifio'n hollol gywir, yw sicrhau bod cynifer o amgueddfeydd â phosibl yng Nghymru yn gweithio tuag at ac yn bodloni safonau achredu'r DU. Rydym yn gweithio gyda'n hamgueddfeydd trwy CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru i sicrhau bod yr ansawdd yn cael ei gyflawni ac ar waith. Yna, mae grantiau ar gael o ganlyniad i sicrhau'r achrediad hwnnw. Felly, mae hwnnw'n dull allweddol. Rydym ni'n awyddus iawn, drwy'r strategaeth farchnata, i sicrhau bod yr hyn sydd gennym yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a'i werthfawrogi'n effeithiol, ac yn cael ei weld gan gymaint o bobl â phosibl.

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae llawer o amgueddfeydd lleol, ynghyd â llyfrgelloedd lleol, yn cael eu hariannu, i raddau neu yn gyfan gwbl, gan lywodraeth leol. A wnewch chi apelio ar lywodraeth leol i sicrhau bod y gwasanaethau hollbwysig hyn yn cael eu diogelu mewn sefyllfa lle mae trafodaethau difrifol iawn am doriadau i wariant? A wnewch chi annog llywodraeth leol i edrych ar y posibiliadau o rannu cyfrifoldeb ymysg uwch-swyddogion, yn hytrach na gwneud penodiadau newydd, er mwyn diogelu'r gwasanaethau hollbwysig hyn?

Minister, many local museums, as well as local libraries, are part-funded or fully funded by local government. Will you urge local government to ensure that these vital services are safeguarded in a climate of very serious discussions about cuts to expenditure? Will you urge local government to consider the possibilities of sharing senior officer responsibilities, rather than making new appointments, in order to safeguard these vital services?

Senedd.tv Fideo Video

14:58 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I very much agree with the comments of Rhodri Glyn Thomas. It is very important—I stress this—in discussions with local authorities and the Welsh Local Government Association, that our heritage is properly valued and safeguarded. I know that they feel that very strongly themselves. We should look at the most effective models. It should be about that more regional approach, very often, and ensuring that a range of models of provision are considered and taken forward. So, I very much agree with the Member and will be working with local authorities to that effect.

Rwyf yn cytuno'n llwyr â sylwadau Rhodri Glyn Thomas. Mae'n bwysig iawn—ac rwy'n pwysleisio hyn—mewn trafodaethau gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, bod ein treftadaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i diogelu'n briodol. Gwn eu bod yn credu hynny'n gryf iawn eu hunain. Dylem edrych ar y modelau mwyaf effeithiol. Dylai fabwysiadu agwedd fwy ranbarthol, yn aml iawn, a sicrhau bod amrywiaeth o fodelau darparu yn cael eu hystyried a'u datblygu. Felly, rwy'n cytuno'n llwyr â'r Aelod a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'r perwyl hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

### Chwaraeon Amatur

### Amateur Sport

14:58 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo chwaraeon amatur ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0076(CS)*

*11. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support amateur sport in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0076(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:59 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Welsh Government continues to work closely with Sport Wales to increase rates of participation in sport across Wales.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Chwaraeon Cymru i gynyddu cyfraddau cyfranogiad mewn chwaraeon ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:59 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Proposals by Powys County Council to redevelop the leisure centre in Brecon have been met with widespread concern, first because of the proposals to close dry-side facilities for, at best, 12 months and, in the worst-case scenario, more than 18 months. That will have a devastating effect on the amateur sports clubs that use the facilities. Secondly, proposals to date would mean that the facilities available will be much smaller. Again, that jeopardises the future of many sporting activities in the town. Will you or your officials meet with representatives of Powys County Council and local sporting groups to ensure that, should we have new facilities in Brecon, they are fit for purpose and will deliver what you want, which is greater participation in sporting activities for the people of Brecon?

Mae cynigion gan Gyngor Sir Powys i ailddatblygu'r ganolfan hamdden yn Aberhonddu wedi cael ymateb o bryder eang, yn gyntaf oherwydd y cynigion i gau'r cyfleusterau sych am o leiaf 12 mis ac o edrych ar yr ochr ddu, mwy na 18 mis. Bydd hynny'n cael effaith hynod andwyol ar y clybiau chwaraeon amatur sy'n defnyddio'r cyfleusterau. Yn ail, byddai'r cynigion hyd yn hyn yn golygu y bydd y cyfleusterau a fydd ar gael yn llawer llai. Unwaith eto, mae hynny'n peryglu dyfodol nifer o weithgareddau chwaraeon yn y dref. A wnewch chi neu eich swyddogion gyfarfod â chynrychiolwyr Cyngor Sir Powys a grwpiau chwaraeon lleol i sicrhau, pe byddem yn cael cyfleusterau newydd yn Aberhonddu, eu bod yn addas i'w diben ac yn darparu'r hyn yr ydych chi ei eisiau, sef mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon ar gyfer pobl Aberhonddu?

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

I very much agree with Kirsty Williams in terms of what needs to be achieved in her constituency. I would be very pleased to consider these matters with officials as to how the Welsh Government can best support and facilitate the necessary achievement of those standards and that provision.

Rwyf yn cytuno'n llwyr â Kirsty Williams o ran yr hyn y mae angen ei gyflawni yn ei hetholaeth. Byddwn yn falch iawn o ystyried y materion hyn gyda swyddogion o ran y modd gorau i Lywodraeth Cymru allu cynorthwyo a hwyluso cyflawniad angenrheidiol y safonau hynny a'r ddarpariaeth honno.

Senedd.tv Fideo Video

### WOMEX

### WOMEX

15:00 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad WOMEX at gynyddu proffil diwylliannol Cymru yn rhyngwladol? OAQ(4)0072(CS)*

*12. Will the Minister make a statement on the WOMEX contribution to increasing Wales' cultural profile internationally? OAQ(4)0072(CS)*

Senedd.tv Fideo Video

15:00 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Llwyddodd WOMEX i ddod â'r byd i Gymru a rhoi cyfle i ni ddangos Cymru ar ei gorau i'r byd. Mae digwyddiadau fel WOMEX yn cyfrannu'n sylweddol at godi ein proffil diwylliannol yn rhyngwladol.

WOMEX brought the world to Wales and provided us with the opportunity to showcase Wales to the world. Events such as WOMEX make a significant contribution to raising our cultural profile internationally.

15:01 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid oes dwywaith bod WOMEX wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac yn ddigwyddiad o bwys yn y calendr celfyddydol. Yn benodol, felly, beth fydd Llywodraeth Cymru'n ei wneud i adeiladu ar lwyddiant WOMEX i hyrwyddo cerddorion a cherddoriaeth Cymru dramor?

There is no doubt that WOMEX was a great success and an important event in the arts calendar. Specifically, therefore, what will the Welsh Government do to build on the success of WOMEX to promote Welsh music and musicians abroad?

15:01 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we touched on earlier, it was a great success and very significant, I think, in terms of taking forward music and culture generally in Wales. It was always envisaged, as I am sure that Alun Ffred would be familiar with from his previous ministerial post, that the legacy of WOMEX would be all-important. We will be working with artists and venues in Wales to ensure that the partnerships that have developed around WOMEX continue and continue to deliver for us in terms of our international profile, attendance at events abroad and attracting further events to Wales.

Fel y soniwyd yn gynharach, roedd yn llwyddiant mawr ac yn bwysig iawn, yn fy marn i, o ran datblygu cerddoriaeth a diwylliant yn gyffredinol yng Nghymru. Rhagwelwyd o'r cychwyn, fel rwy'n siŵr y bydd Alun Ffred yn ymwybodol o'i swydd weinidogol flaenorol, y byddai etifeddiaeth WOMEX yn hollbwysig. Byddwn yn gweithio gydag artistiaid a lleoliadau yng Nghymru i sicrhau bod y partneriaethau sydd wedi datblygu o gwmpas WOMEX yn parhau ac yn parhau i gyflawni ar ein cyfer o ran ein proffil rhyngwladol, ein presenoldeb mewn digwyddiadau tramor ac o ran denu mwy o ddigwyddiadau i Gymru.

We also know that, in terms of traditional music, WOMEX has been very significant in terms of that scene in Wales and I look forward to meeting with Trac before too long to discuss how we can build on the momentum achieved for the future.

Rydym hefyd yn gwybod, o ran cerddoriaeth draddodiadol, bod WOMEX wedi bod yn bwysig iawn o ran y maes hwnnw yng Nghymru, ac rwy'n edrych ymlaen at gyfarfod â Trac cyn bo hir i drafod sut y gallwn adeiladu ar y momentwm a sicrhawyd ar gyfer y dyfodol.

15:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 13, OAQ(4)0077(CS), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ (4) 0077 (CS), yn ôl.

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

### Countryside and Rights of Way Act 2000

15:02 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw adolygiadau a wnaed ers 2005 mewn perthynas â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000? OAQ(4)0078(CS)*

*14. Will the Minister make a statement on any reviews made since 2005 in relation to the Countryside and Rights of Way Act 2000? OAQ(4)0078(CS)*

15:02 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Countryside and Rights of Way Act 2000 requires Natural Resources Wales to produce revised maps of open access land every 10 years. Natural Resources Wales is in the process of reviewing the maps in time for the 2015 deadline.

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu mapiau diwygiedig o dir mynediad agored bob 10 mlynedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n adolygu mapiau mewn pryd ar gyfer y terfyn amser yn 2015.

15:02 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, given—I apologise. [Laughter.] It was a promotion. Minister, given your stated ambition to open up the countryside for all, can you tell us what steps you have taken with Natural Resources Wales to look at land in the possession of Welsh Government, and perhaps explain whether you have seen an overwhelming demand for an increase in access to Welsh Government land in the last 10 years?

Brif Weinidog, o ystyried—ymddiheuraf. [Chwerthin.] Dyrchafiad oedd e. Weinidog, o ystyried eich uchelgais i agor cefn gwlad i bawb, a allwch chi ddweud wrthym pa gamau yr ydych chi wedi eu cymryd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i edrych ar dir sydd ym meddiant Llywodraeth Cymru, ac efallai esbonio pa un a ydych chi wedi gweld galw aruthrol am gynnydd mewn mynediad at dir Llywodraeth Cymru yn ystod y 10 mlynedd diwethaf?

15:03 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government, in terms of the land it controls, is very keen to be part of widening access. Indeed, under the Countryside and Rights of Way Act 2000, we saw a significant opening up of forestry and other land under the control of Welsh Government. So, I think we have a good story to tell, but we would be very keen to look at where further improvement might be made.

Mae Llywodraeth Cymru, o ran y tir y mae'n ei reoli, yn awyddus iawn i fod yn rhan o ehangu mynediad. Yn wir, dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, gwelsom goedwigaeth a thir arall dan reolaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu hagor yn sylweddol. Felly, rwy'n credu bod gennym stori dda i'w hadrodd, ond byddem yn awyddus iawn i ystyried lle gellid gwneud gwelliannau pellach.

**Safleoedd Hanesyddol**

**Historic Sites**

15:04 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae'n ei wneud i ddiogelu safleoedd hanesyddol yng Nghymru? OAQ(4)0071(CS)*

*15. Will the Minister outline what he is doing to protect historic sites in Wales? OAQ(4)0071(CS)*

15:04 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government, with its partners, is working to protect and promote public appreciation of historic sites throughout Wales. The heritage Bill, through legislative changes and associated guidance and policy interventions, will improve protection of the Welsh historic environment and support its sustainable management.

Mae Llywodraeth Cymru, gyda'i phartneriaid, yn gweithio i ddiogelu a hyrwyddo gwerthfawrogiad y cyhoedd o safleoedd hanesyddol ledled Cymru. Bydd y Bil treftadaeth, trwy newidiadau deddfwriaethol a chanllawiau ac ymyraethau polisi cysylltiedig, yn gwella'r warchodaeth o amgylchedd hanesyddol Cymru ac yn cefnogi ei reolaeth gynaliadwy.

15:04 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Your answer was better than my question in that you mentioned promotion as well, which my question should have done, so, thank you for that. May I ask what discussions, if any, you have had with the Minister for Economy, Science and Transport regarding the tourist road signage for historic sites around Wales? I did raise this with the Minister who previously had responsibility for transport and I know that he was considering an overhaul of the brown signage system, which is, in some places, past its best. In my local area, Raglan castle is particularly badly served by local signage, and it loses a lot of tourists because of that. Could you please discuss this with the Minister for Economy, Science and Transport and let us get a signage system much more suited to some of Wales's best treasures?

Diolch i chi, Weinidog. Roedd eich ateb yn well na fy nghwestiwn o ran eich bod wedi crybwyll hyrwyddo hefyd, y dylai fy nghwestiwn i wedi ei wneud, felly, diolch i chi am hynny. A gaf i ofyn pa drafodaethau, os o gwbl, ydych chi wedi eu cael gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynglŷn â'r arwyddion ffyrdd i dwristiaid ar gyfer safleoedd hanesyddol ledled Cymru? Codais hyn gyda'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am drafnidiaeth yn flaenorol a gwn ei fod yn ystyried ailwampio'r system arwyddion brown, nad yw, mewn rhai mannau, yn addas bellach. Yn fy ardal leol i, mae castell Rhaglan yn cael ei wasanaethu'n arbennig o wael gan arwyddion lleol, ac mae'n colli llawer o dwristiaid oherwydd hynny. A fyddech chi cystal â thrafod hyn gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a chaniatáu i ni gael system arwyddion llawer mwy addas ar gyfer rhai o drysorau gorau Cymru?

15:05 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is important that we have the best possible brown signage in place in Wales to make sure that visitors and, indeed, the people of Wales, are easily and effectively signposted to the wonderful sites that we have. Therefore, I am very willing to have, and will have, those discussions with the Minister for transport to see whether improvement is needed and, if so, to ensure that it takes place.

Mae'n bwysig bod yr arwyddion brown gorau posibl gennym yng Nghymru i wneud yn siŵr bod ymwelwyr ac, yn wir, pobl Cymru, yn cael eu cyfeirio'n rhwydd ac yn effeithiol at y safleoedd gwych sydd gennym. Felly, rwy'n barod iawn i gynnal y trafodaethau hynny, a byddaf yn eu cynnal, gyda'r Gweinidog trafnidiaeth i weld a oes angen gwella ac, os felly, i sicrhau bod hynny'n digwydd.

15:05

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv
Fideo Video

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have one change to report to this week's business. The First Minister will make a statement on the UK Government's initial response to the Silk commission's first report on financial reform for Wales immediately after this business statement. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad am ymateb cychwynnol Llywodraeth y DU i adroddiad cyntaf comisiwn Silk ar ddiwygio ariannol yng Nghymru yn syth ar ôl y datganiad busnes hwn. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymysg papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

15:06

### William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the leader of the house for her statement today and as1k her whether she could ask the Minister for Economy, Science and Transport to bring forward a statement, which was alluded to earlier today, regarding the potential closure of the Sapa Extrusions factory in Bedwas. Members will know that it has been there for 28 years, provides valuable employment, and has been one of the mainstays of the Bedwas industrial estate. In that statement, could I ask the Minister to look in particular at the way in which her officials are engaged with firms of this kind, and at what stage they are engaged, in the hope that the business could be maintained?

Diolchaf i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad heddiw a gofynnaf iddi a wnaiff ofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyflwyno datganiad, y cyfeiriwyd ato'n gynharach heddiw, ynghylch y posibilrwydd o gau ffatri Sapa Extrusions ym Medwas. Bydd yr Aelodau'n gwybod bod y ffatri wedi bod yno ers 28 mlynedd, ei bod yn darparu swyddi gwerthfawr, a'i bod wedi bod yn un o brif gynheiliaid ystâd ddiwydiannol Bedwas. Yn y datganiad hwnnw, a gaf i ofyn i'r Gweinidog edrych yn benodol ar y ffordd y mae ei swyddogion yn ymgysylltu â chwmnïau fel hyn, a phryd y maent yn ymgysylltu, yn y gobaith y gellir cynnal y busnes?

15:06

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You may be aware that the company is about to enter into a consultation period and, obviously, there will be wide-ranging discussions on issues at this time. The Minister's officials will be meeting with the company to offer all available avenues of support.

Efallai y byddwch yn ymwybodol fod y cwmni ar fin dechrau ar gyfnod ymgynghori ac, wrth gwrs, bydd trafodaethau eang ar faterion bryd hynny. Bydd swyddogion y Gweinidog yn cwrdd â'r cwmni i gynnig pob math o gymorth sydd ar gael.

15:07

### Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, could we have a statement from the Minister for health on treatment for diabetes patients in Wales? It has been brought to my attention that diabetes care has been very poor for some of my constituents, and they tell me of appointments regularly being cancelled and long waiting times to see specialist doctors, issues that I know have also been raised by the Health and Social Care Committee. I very much welcome the recent publication of a new diabetes delivery plan for Wales, but I would, however, welcome assurances that this will be fully implemented at a local level. In particular, in areas such as my constituency, where the rate of diabetes is higher than the Welsh average, I would like to know what steps the Welsh Government will be taking to closely monitor the situation.

Weinidog, a gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog iechyd am driniaeth i gleifion diabetes yng Nghymru? Rwyf wedi cael gwybod bod gofal diabetes i rai o'm hetholwyr wedi bod yn wael iawn, ac maent yn dweud wrthyf fod apwyntiadau'n cael eu canslo'n rheolaidd a bod amseroedd aros hir i weld meddygon arbenigol, a gwn fod y materion hyn hefyd wedi eu codi gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rwyf yn croesawu'n fawr Ian gyhoeddi cynllun cyflenwi diabetes newydd i Gymru'n ddiweddar, ond byddai'n dda gennyf, fodd bynnag, gael sicrwydd y caiff ei roi ar waith yn llawn ar lefel leol. Yn benodol, mewn ardaloedd fel fy etholaeth i, lle mae cyfradd diabetes yn uwch na chyfartaledd Cymru, hoffwn wybod pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fonitro'r sefyllfa'n ofalus.

15:07 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The all-Wales diabetes implementation group has been established to support the delivery plan that has been brought forward and Adam Cairns, the chief executive of Cardiff and Vale University Local Health Board, chairs that group, which met for the first time on 15 October. The reason for the establishment of that group is to provide the strong and joined-up leadership and oversight that the Minister for health believes is necessary, because diabetes is, unfortunately, on the increase. Local health boards will be updating their local diabetes delivery plans to include actions and outcome measurements included in the diabetes delivery plan.

Mae grŵp gweithredu diabetes Cymru gyfan wedi ei sefydlu i gefnogi'r cynllun cyflenwi sydd wedi ei gyflwyno ac Adam Cairns, prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yw cadeirydd y grŵp hwnnw, a gyfarfu am y tro cyntaf ar 15 Hydref. Sefydlwyd y grŵp hwnnw i ddarparu'r arweinyddiaeth a'r oruchwyliaeth gref a chydgysylltiedig y mae'r Gweinidog iechyd o'r farn sydd eu hangen, oherwydd mae diabetes, yn anffodus, ar gynnydd. Bydd byrddau iechyd lleol yn diweddaru eu cynlluniau cyflenwi lleol ar ddiabetes i gynnwys camau gweithredu a mesuriadau canlyniadau sydd yn y cynllun cyflenwi diabetes.

15:08 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may well have seen the 'Western Mail' article yesterday about redundancy payments and enhanced payments to senior council staff. I hope that you will agree with me that £77 million in just two years to departing staff is quite unacceptable, and most people find those figures quite obscene. Since you have given a tough settlement to local government in the recent budget and have been urging sensible budget decisions, could you make time to make a full statement giving your response to this, outlining what action you intend to take to put an end to these practices? Is it time for a moratorium now, please?

Weinidog, mae'n bosibl iawn y byddwch wedi gweld erthygl y 'Western Mail' ddoe am daliadau diswyddo a thaliadau mwy i staff uwch cynghorau. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn cytuno â mi bod £77 miliwn mewn dim ond dwy flynedd i staff sy'n gadael yn annerbyniol, ac mae'r rhan fwyaf o bobl o'r farn fod y ffigurau hynny'n warthus. Gan eich bod wedi rhoi setliad anodd i lywodraeth leol yn y gyllideb ddiweddar ac wedi bod yn annog penderfyniadau call am gyllidebau, a allech neilltuo amser i wneud datganiad llawn yn rhoi eich ymateb i hyn, gan amlinellu pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i roi terfyn ar yr arferion hyn? A yw'n bryd cael moratoriwm yn awr?

14:09 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yesterday, I had a partnership council meeting and met several leaders of local government from right across Wales, and it was an issue that we touched on. Clearly, the financial settlement given to local government is a difficult and challenging one. I accept that, but, due to the UK Government cuts to our budget, it is the best that I can do under the circumstances. However, it is something that I have asked local authorities to take into consideration as they go forward with their plans.

Ddoe, cefais gyfarfod cyngor partneriaeth a chyfarfûm â llawer o arweinwyr llywodraeth leol o bob cwr o Gymru, ac roedd hyn yn fater a grybwyllwyd. Yn amlwg, mae'r setliad ariannol a roddwyd i lywodraeth leol yn un anodd a heriol. Rwyf yn derbyn hynny, ond, oherwydd toriadau Llywodraeth y DU i'n cyllideb, dyna'r gorau y gallaf ei wneud o dan yr amgylchiadau. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth yr wyf wedi gofyn i awdurdodau lleol ei ystyried wrth iddynt fwrw ymlaen â'u cynlluniau.

15:09 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Two weeks ago the Minister for health said in response to my question on Hywel Dda health board's decision on orthopaedic surgery:

Bythefnos yn ôl, dywedodd y Gweinidog iechyd wrth ateb fy nghwestiwn am benderfyniad bwrdd iechyd Hywel Dda ar lawdriniaeth orthopedig:

'The advice from Hywel Dda Local Health Board is that all those who are currently listed for orthopaedic surgery will have that surgery as planned.'

'Y cyngor gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yw y bydd pawb sydd ar restr ar hyn o bryd i gael llawdriniaeth orthopedig yn cael y llawdriniaeth honno fel y cynlluniwyd.'

However, since then, I have received representations from constituents, and I know that other Members have also received representations, confirming that, in fact, their planned surgery has been postponed until at least the spring of next year. I am aware that many have written to the Minister for Health and Social Services, including Unison, expressing extreme concern with regard to Hywel Dda Local Health Board's decision. The Minister's response to Unison's letter states:

Fodd bynnag, ers hynny, mae etholwyr wedi cyflwyno sylwadau imi, a gwn fod sylwadau wedi'u cyflwyno i Aelodau eraill hefyd, yn cadarnhau, mewn gwirionedd, fod eu llawdriniaethau wedi'u gohirio tan y gwanwyn y flwyddyn nesaf o leiaf. Rwyf yn ymwybodol bod sawl un wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys Unsain, yn mynegi pryder enbyd am benderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Mae ymateb y Gweinidog i lythyr Unsain yn datgan:

'My officials have been briefed by the health board, and they inform me that the health board is not cancelling all elective orthopaedic surgery.'

Mae fy swyddogion wedi cael eu briffio gan y bwrdd iechyd, ac maent yn dweud wrthyf nad yw'r bwrdd iechyd yn canslo pob llawdriniaeth orthopedig ddewisol.

That response suggests that, therefore, some elective surgery is now being cancelled, as we have discovered from our constituents. As has already been said in this Chamber today, the effect that this decision will have on the productivity of staff and clinicians is also very worrying. Given that constituents are clearly now being told that their surgery is being cancelled, and given that the Minister for health told me two weeks ago that all of those listed for orthopaedic surgery will have that surgery, but is now implying in a letter to Unison that some are being cancelled, I would ask the Minister for business to urge the Minister for health to bring forward an oral statement on the situation in Hywel Dda Local Health Board as soon as possible to clarify this appallingly worrying and confusing situation.

Mae'r ymateb yn awgrymu, felly, fod rhai llawdriniaethau dewisol yn cael eu canslo, fel yr ydym wedi cael gwybod gan ein hetholwyr. Fel y dywedwyd eisoes yn y Siambr heddiw, mae effaith y penderfyniad hwn ar gynhyrchiant staff a chlinigwyr hefyd yn destun pryder mawr. Ac ystyried bod etholwyr yn amlwg yn awr yn cael gwybod bod eu llawdriniaethau'n cael eu canslo, ac o gofio bod y Gweinidog iechyd wedi dweud wrthyf bythefnos yn ôl y bydd pawb ar restr i gael llawdriniaeth orthopedig yn cael y llawdriniaeth honno, ond ei fod bellach yn awgrymu mewn llythyr at Unsain y caiff rhai eu canslo, gofynnaf i'r Gweinidog busnes annog y Gweinidog iechyd i gyflwyno datganiad llafar am y sefyllfa ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda cyn gynted â phosibl er mwyn egluro'r sefyllfa hon sy'n peri pryder a dryswch enbyd.

15:11

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Health and Social Services has been assured by the health board that it is not cancelling all elective orthopaedic surgery. It is proposing to reduce the amount of in-patient work undertaken, as we have heard, in preparation for the winter, which is what we would want it to do.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael sicrwydd gan y bwrdd iechyd nad yw'n canslo pob llawdriniaeth orthopedig ddewisol. Mae'n bwriadu gwneud llai o waith cleifion mewnol, fel y clywsom, er mwyn paratoi at y gaeaf, a dyna'r hyn y byddem yn dymuno iddo ei wneud.

15:11

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, your colleagues in Westminster have secured a debate on the bedroom tax, and I look forward to seeing that, but do you intend to hold a debate here on the same subject? We are now seeing the devastation that some families are experiencing as a direct result of this spiteful policy, particularly those with disabilities. Additionally, considerable extra resources are being dedicated to imposing the bedroom tax and then trying to mitigate it, with local authorities remaining responsible for housing families made homeless. As you will know, I would like to see a no-eviction policy in Wales, but will you give us a Government debate on this topic?

Weinidog, mae eich cyd-weithwyr yn San Steffan wedi sicrhau dadl ar y dreth ystafell wely, ac edrychaf ymlaen at weld hynny, ond a ydych yn bwriadu cynnal dadl yma ar yr un pwnc? Rydym yn awr yn gweld y dinistr i rai teuluoedd o ganlyniad uniongyrchol i'r polisi sbeitlyd hwn, yn enwedig i bobl ag anableddau. Hefyd, mae adnoddau ychwanegol sylweddol yn cael eu neilltuo i orfodi'r dreth ystafell wely ac yna geisio'i lliniaru, gydag awdurdodau lleol yn dal i fod yn gyfrifol am gartrefu teuluoedd sydd wedi'u gwneud yn ddigartref. Fel y gwyddoch, hoffwn weld polisi dim troi allan yng Nghymru, ond a rowch ddadl gan y Llywodraeth inni ar y pwnc hwn?

15:12

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We do not intend to have a debate in Government time on the bedroom tax, which is obviously a reserved issue.

Nid ydym yn bwriadu cael dadl yn amser y Llywodraeth am y dreth ystafell wely, sydd yn amlwg yn fater a gadwyd yn ôl.

15:12 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, See Science is the local co-ordinator of the Creativity in Science and Technology—CREST—awards in Wales. These awards encourage students aged five to 19 to do science and projects in the areas of science, technology, engineering and maths. It has had increasing numbers of participants in recent years, and five times the participation level in Wales rather than the rest of the UK. Over 10% of the awards given in the UK were in Wales. Given that teachers said that the CREST awards changed students' attitudes, inspired them and made pupils thoroughly excited about carrying out research and practical activities, could we have a statement from the Minister for Education and Skills as to why he withdrew funding in August without informing See Science, which administers the awards, until October, and could we perhaps look again at that funding decision, given the need to promote STEM subjects in Wales and how important they are for the future of Wales and for the future of our workforce in Wales?

Weinidog, Gweld Gwyddoniaeth yw cyd-drefnydd lleol y gwobrau Creadigrwydd mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg—CREST—yng Nghymru. Mae'r gwobrau hyn yn annog myfyrwyr pump i 19 oed i wneud gwyddoniaeth a phrosiectau ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Mae wedi gweld nifer cynyddol o gyfranogwyr yn y blynyddoedd diwethaf, ac roedd lefel y cyfranogiad yng Nghymru bum gwaith yn uwch nag yng ngweddill y DU. Roedd dros 10% o'r gwobrau a roddwyd yn y DU yng Nghymru. Ac ystyried bod athrawon yn dweud bod gwobrau CREST wedi newid agweddau myfyrwyr, wedi eu hysbrydoli ac wedi creu cyffro mawr ymysg disgyblion tuag at wneud gwaith ymchwil a gweithgareddau ymarferol, a gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch pam y tynnodd yr arian yn ôl ym mis Awst heb roi gwybod i Gweld Gwyddoniaeth, sy'n gweinyddu'r gwobrau, tan fis Hydref, ac a allem efallai edrych eto ar y penderfyniad ariannu hwnnw, ac ystyried bod angen hyrwyddo pynciau STEM yng Nghymru a'u pwysigrwydd i ddyfodol Cymru ac i ddyfodol ein gweithlu yng Nghymru?

15:13 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly, promotion of STEM subjects is important within our schools. I know that, within the National Science Academy, we have several schemes within our schools. I have attended several in my own constituency, as I am sure that other Members have. I am sure that the Minister for Education and Skills had a reason for doing that, and I will ask him to have a look at the decision that he made.

Yn sicr, mae'n bwysig hyrwyddo pynciau STEM yn ein hysgolion. Gwn fod gennym nifer o gynlluniau yn ein hysgolion o fewn yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Rwyf wedi mynychu nifer ohonynt yn fy etholaeth i; rwyf yn siŵr bod Aelodau eraill wedi gwneud hynny hefyd. Rwyf yn siŵr bod gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau reswm dros wneud hynny, a gofynnaf iddo edrych ar y penderfyniad a wnaeth.

15:14 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government tells us that it has a robust policy of not building housing on flood-risk areas, yet research by BBC Wales's 'Week In Week Out' programme has discovered that 26 residential schemes were given the go-ahead in the last year alone, which included six schemes giving the go-ahead against all advice. Could we therefore have an early statement from the Minister for Housing and Regeneration to explain to us how this could be, but also to explain to us how this can be consistent with the Government's commitment to sustainable development?

Mae Llywodraeth Cymru'n dweud wrthym fod ganddi bolisi cadarn o beidio ag adeiladu tai mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd, ac eto mae gwaith ymchwil gan raglen 'Week In Week Out' BBC Cymru wedi cael gwybod bod 26 o gynlluniau preswyl wedi cael y golau gwyrdd yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, gan gynnwys chwe chynllun a gafodd y golau gwyrdd yn groes i bob cyngor. A gawn ni felly ddatganiad cynnar gan y Gweinidog Tai ac Adfywio i egluro inni sut y gall hyn fod, ond hefyd i egluro inni sut y gall hyn fod yn gyson ag ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu cynaliadwy?

15:14 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Decisions on planning applications are a matter for local planning authorities. While the Minister has the power to intervene and call in applications, he can only do so if he is made aware of the planning application.

Mater i awdurdodau cynllunio lleol yw penderfyniadau am geisiadau cynllunio. Er bod gan y Gweinidog rym i ymyrryd a galw ceisiadau i mewn, ni all wneud hynny oni chaiff wybod am y cais cynllunio.

15:14 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for two statements, the first of which is in relation to Estyn's October 2013 report on training for construction, planning and the built environment. One of its main findings was that career guidance is often unclear and misdirected. In too many cases, school careers advisers refer learners, mostly those who are less able-bodied, to construction and craft training as a suitable career choice. Given that this is one of the Welsh Government's key policy areas for promoting economic growth, a statement indicating how the Welsh Government proposes to address this issue would be welcome. Clearly, less-able boys who would have a most appropriate career in this direction should be referred, but so should more-able boys and more-able young women who need to contribute to a thriving, high-skilled sector that can help to drive the economy forward.

Galwaf am ddau ddatganiad. Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud ag adroddiad Estyn ym mis Hydref 2013 ar hyfforddiant ar gyfer adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig. Un o'i brif ganfyddiadau oedd bod cyngor gyrfaoedd yn aml yn aneglur ac yn gamarweiniol. Yn rhy aml, mae cynghorwyr gyrfaoedd ysgolion yn cyfeirio dysgwyr, yn bennaf y rhai sy'n llai abl eu cyrff, at adeiladu a hyfforddiant crefft fel dewis gyrfa addas. Ac ystyried bod hwn yn un o feysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo twf economaidd, byddem yn croesawu datganiad yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymdrin â'r mater hwn. Yn amlwg, dylai bechgyn llai abl y byddai gyrfa i'r cyfeiriad hwn yn addas iddynt gael eu cyfeirio, ond dylid hefyd cyfeirio bechgyn mwy galluog a menywod ifanc mwy galluog y mae angen iddynt gyfrannu at sector ffyniannus, medrus a all helpu i yrru'r economi yn ei blaen.

Secondly, and finally, I call for an oral statement in the Chamber to the Assembly on the annual substance misuse progress report for 2013. Members received a written statement last week that referred to many items that require proper scrutiny in this place. I refer, for example, to tier 4 residential detoxification, to rehabilitation provision, and to the role of third sector providers in peer mentoring, in recovery programmes, in dual diagnostic treatments, and in much else. We need the opportunity to question the Minister fully on this.

Yn ail, ac yn olaf, galwaf am ddatganiad llafar yn y Siambr i'r Cynulliad am yr adroddiad cynnydd blynyddol ar gamddefnyddio sylweddau ar gyfer 2013. Cafodd yr aelodau ddatganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf a oedd yn cyfeirio at lawer o eitemau y mae angen craffu'n briodol arnynt yn y lle hwn. Cyfeiriaf, er enghraifft, at ddadwenwyno preswyl haen 4, at ddarpariaeth adsefydlu, ac at rôl darparwyr y trydydd sector o ran mentora cymheiriaid, rhaglenni adfer, triniaethau diagnostig deuol, a llawer o bethau eraill. Mae angen inni gael cyfle i holi'r Gweinidog yn llawn am hyn.

15:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that you have raised two important points, and I will speak to both Ministers and ensure that a statement comes forward in due course.

Rwyf yn meddwl eich bod wedi codi dau bwynt pwysig, a byddaf yn siarad â'r naill Weinidog a'r llall ac yn sicrhau y caiff datganiad ei gyflwyno maes o law.

15:16 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder whether we could have a statement from the Minister for health on the independent review of nursing care and management at Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board with regard to the neglect of Lillian Williams from Porthcawl. I trawled through my e-mails last week to see whether we had a statement from the Minister on the announcement that he was holding a review, but I had to find this out from ITV Wales's Twitter account, and then, subsequently, I had a short e-mail from ABMU explaining that a review was going to take place, but that the terms of reference had yet to be decided. As Assembly Members with a responsibility to communicate with constituents on these most serious things, we need to be informed, and I think that we should have a statement here so that we fully understand what the remit of the independent review will look at, considering the severity of this issue.

Weinidog, tybed a gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog iechyd am yr adolygiad annibynnol o ofal nyrsio a rheolaeth ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ynglŷn ag esgeuluso Lillian Williams o Borthcawl. Bûm yn chwilio drwy fy e-byst yr wythnos diwethaf i weld a gawsom ddatganiad gan y Gweinidog am y cyhoeddiad ei fod yn cynnal adolygiad, ond bu'n rhaid imi gael gwybod am hyn o gyfrif Twitter ITV Cymru, ac yna, wedi hynny, cefais e-bost byr gan PABM yn egluro y byddai adolygiad yn cael ei gynnal, ond nad oedd y cylch gorchwyl wedi'i benderfynu eto. Mae cyfathrebu ag etholwyr am y pethau difrifol hyn yn un o'n cyfrifoldebau fel Aelodau Cynulliad, ac mae angen inni gael gwybod amdanynt; credaf y dylem gael datganiad yma er mwyn inni gael deall yn iawn yr hyn y bydd cylch gwaith yr adolygiad annibynnol yn edrych arno, o ystyried difrifoldeb y mater hwn.

15:17 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Health and Social Services will be happy to update Assembly Members once the terms of reference have been agreed, and he will keep Assembly Members informed of the review's progress.

Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn fwy na bodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad cyn gynted ag y cytunir ar y cylch gorchwyl, a bydd yn rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am hynt yr adolygiad.

15:17 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I agree wholeheartedly with the comments of Bethan Jenkins; we do need the opportunity to scrutinise the Minister's decision to commission an independent review in this particular case. Of course, there are other cases in Wales that are equally as serious Lillian Williams's case, where there was serious neglect. It would be interesting for Assembly Members to be able to challenge why no reviews have taken place—and why none have been commissioned or ordered by the Minister—in other cases.

Cytunaf yn llwyr â sylwadau Bethan Jenkins; mae angen cyfle arnom i graffu ar benderfyniad y Gweinidog i gomisiynu adolygiad annibynnol yn yr achos penodol hwn. Wrth gwrs, mae achosion eraill yng Nghymru sydd yr un mor ddifrifol ag achos Lillian Williams, lle bu esgeulustod difrifol. Byddai'n ddiddorol pe gallai Aelodau'r Cynulliad herio pam na chynhaliwyd yr un adolygiad—a pham nad yw'r Gweinidog wedi comisiynu na gorchymyn yr un adolygiad—mewn achosion eraill.

I would also ask that the Minister for Health and Social Services bring a statement forward on winter preparedness in the Welsh NHS. Winter is fast approaching, and we know that some health boards are already taking decisions that will clearly have an impact on patients, and I think that it is important that we as an Assembly have the opportunity to challenge the Welsh Government on what it is doing to ensure that the NHS is well-prepared for the winter, so that unscheduled care and elective care needs are fully planned and prepared for.

Byddwn hefyd yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno datganiad am barodrwydd at y gaeaf yn y GIG yng Nghymru. Mae'r gaeaf yn prysur agosáu, ac rydym yn gwybod bod rhai byrddau iechyd eisoes yn gwneud penderfyniadau a fydd yn amlwg yn effeithio ar gleifion, a chredaf ei bod yn bwysig ein bod ni fel Cynulliad yn cael cyfle i herio Llywodraeth Cymru am yr hyn y mae'n ei wneud i sicrhau bod y GIG yn barod at y gaeaf, er mwyn gallu cynllunio gofal heb ei drefnu ac anghenion gofal dewisol, a pharatoi ar eu cyfer, yn llawn.

15:18 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Next week, I will be bringing forward a statement on winter preparations, and I will include the NHS's winter preparations in that statement.

Yr wythnos nesaf, byddaf yn cyflwyno datganiad am y paratoadau at y gaeaf, a byddaf yn cynnwys paratoadau'r GIG at y gaeaf yn y datganiad hwnnw.

15:19

# Datganiad: Ymateb Cychwynnol Llywodraeth y DU i Adroddiad Comisiwn Silk ar Ddiwygio Trefniadau Ariannu Cymru

# Statement: The UK Government's Initial Response to the Silk Commission's Report on Financial Reform for Wales

Senedd.tv
Fideo Video

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Last Friday, I met the Prime Minister and the Deputy Prime Minister to discuss the UK Government's response to the recommendations of the Silk commission—part 1, that is. While that response did not deliver everything that the commission proposed—or indeed everything that the Welsh Government has been seeking—it is without question a major step forward for devolution and for the position of Wales within the UK.

Ddydd Gwener diwethaf, cyfarfûm â Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU i drafod ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion comisiwn Silk—rhan 1, hynny yw. Er nad oedd yr ymateb hwnnw'n darparu popeth a gynigiwyd gan y comisiwn—nac, yn wir, bopeth y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei geisio—mae'n sicr yn gam mawr ymlaen i ddatganoli ac i sefyllfa Cymru o fewn y DU.

Before I turn to the specifics of the UK Government statement, let me put on record my thanks to Members of all parties who have played a role in building and sustaining the consensus for reform that has been so important in making the case for change. As this process moves forward, I hope that broad cross-party support will be maintained. I also pay tribute to the work carried out by some UK Ministers, particularly the Chief Secretary to the Treasury, with whom I know the Minister for Finance has enjoyed a close working relationship.

Cyn imi droi at fanylion datganiad Llywodraeth y DU, gadewch imi ddiolch ar goedd i Aelodau o bob plaid sydd wedi ymwneud â meithrin a chynnal y consensws ar gyfer diwygio sydd wedi bod mor bwysig o ran cyflwyno'r achos dros newid. Wrth i'r broses hon fynd rhagddi, rwyf yn gobeithio y caiff cefnogaeth drawsbleidiol eang ei chynnal. Talaf deyrnged hefyd i'r gwaith a wnaeth rhai o Weinidogion y DU, yn enwedig Prif Ysgrifennydd y Trysorlys—gwn fod y Gweinidog Cyllid wedi mwynhau perthynas waith agos ag ef.

Equally important has been the role of the business community. Its strong endorsement of reform has been vital in demonstrating the economic rationale behind many of the Silk recommendations. It will be essential to retain close links with business leaders and other key partners as we develop our thinking on how to use our new fiscal levers to support growth and jobs.

Mae swyddogaeth y gymuned fusnes wedi bod yr un mor bwysig. Mae eu cefnogaeth gref i ddiwygio wedi bod yn hanfodol o ran dangos y rhesymeg economaidd y tu ôl i lawer o argymhellion Silk. Bydd yn hanfodol cadw cysylltiadau agos ag arweinwyr busnes a phartneriaid allweddol eraill wrth inni ddatblygu ein syniadau am sut i ddefnyddio ein hoffer cyllidol newydd i gefnogi twf a swyddi.

Members will be aware that the Silk commission's proposals—which have their roots in the work of the Holtham commission, established by the Welsh Government in 2008—had three key elements: first, access to borrowing powers to finance infrastructure investment; secondly, full devolution of several smaller taxes in areas of devolved policy responsibility; and, thirdly, partial devolution of income-tax-varying powers, if backed by the people of Wales in a referendum. As I have said many times, the Welsh Government endorses the Silk proposals in their entirety.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod tair elfen allweddol i gynigion comisiwn Silk, sydd â'u gwreiddiau yng ngwaith comisiwn Holtham, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008: yn gyntaf, mynediad at bwerau benthyca i ariannu buddsoddi mewn seilwaith; yn ail, datganoli'n llawn nifer o drethi llai mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb polisi wedi'i ddatganoli; ac, yn drydydd, datganoli rhannol ar bwerau amrywio treth incwm, pe bai pobl Cymru o blaid hynny mewn refferendwm. Fel yr wyf wedi'i ddweud sawl gwaith, mae Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo cynigion Silk yn eu cyfanrwydd.

I believe the reforms are good for Wales, good for the UK, good for business and good for citizens. It is therefore gratifying to learn that in many areas—after some delay—the UK Government has reached very similar conclusions, although there are one or two areas where its response has not gone as far as we would have hoped. On the crucial matter of borrowing, it is hugely positive to see that the UK Government has accepted the case for allowing the Welsh Government to borrow in order to invest. The other devolved administrations have already been granted this power—and, of course, local authorities have had similar or greater powers for many years—so this move will put us on a level playing field with other parts of the UK.

Credaf fod y diwygiadau'n dda i Gymru, yn dda i'r DU, yn dda i fusnes ac yn dda i ddinasyddion. Mae'n braf clywed, felly, fod Llywodraeth y DU—ar ôl rhywfaint o oedi—wedi ffurfio casgliadau tebyg iawn mewn sawl maes, er bod un neu ddau o feysydd lle nad yw eu hymateb wedi mynd mor bell ag y byddem wedi'i obeithio. Ar fater hollbwysig benthyca, mae'n gadarnhaol iawn gweld bod Llywodraeth y DU wedi derbyn yr achos dros ganiatáu i Lywodraeth Cymru fenthyca er mwyn buddsoddi. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig eraill eisoes wedi cael y pŵer hwn—ac, wrth gwrs, mae pwerau tebyg neu fwy wedi bod gan awdurdodau lleol ers blynyddoedd lawer—felly bydd y symudiad hwn yn golygu ein bod yn cael ein trin yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU.

We have been pushing hard for early access to borrowing, before new tax powers are implemented. Last year's agreement on funding reform was an important step to securing this policy lever, but it is especially welcome that the UK Government has now agreed to early borrowing powers in order to support an enhancement of the M4 in the south-east. A consultation on this scheme is currently under way, but there is no doubt that borrowing powers have the potential to make a very substantial impact on its affordability.

Rydym wedi bod yn pwyso'n galed am fynediad cynnar at fenthyca, cyn i bwerau treth newydd gael eu rhoi ar waith. Roedd cytundeb y llynedd ar ddiwygio cyllid yn gam pwysig tuag at sicrhau'r ysgogiad polisi hwn, ond mae'n arbennig o dda fod Llywodraeth y DU bellach wedi cytuno i bwerau benthyca cynnar er mwyn cefnogi gwelliant i'r M4 yn y de-ddwyrain. Mae ymgynghoriad ar y cynllun hwn ar y gweill ar hyn o bryd, ond mae potensial yn ddiau i bwerau benthyca gael effaith sylweddol iawn ar ei fforddiadwyedd.

Borrowing powers are an important economic lever, which offer us a chance to make a real difference to the attractiveness of Wales as a place to do business. Almost as important in terms of their potential economic impact are the four minor taxes that Silk recommended for devolution, namely stamp duty land tax; landfill tax; aggregates levy; and air passenger duty, starting with direct long-haul flights. I was especially keen that stamp duty should be devolved, as reform of this tax has great potential for boosting the Welsh construction sector and helping home buyers. I am therefore very pleased to see that stamp duty is indeed going to be fully devolved, and I know that this news has been widely welcomed across the business community. I am similarly glad that landfill tax is to be devolved, and I understand that aggregates levy is also likely to follow in due course. There are some issues there regarding state aid that need to be resolved. It is, however, disappointing that powers to vary air passenger duty are not coming to Wales, given the potential for this policy lever to enhance Wales's connectivity with global business hubs.

Mae pwerau benthyca'n ysgogiad economaidd pwysig, sy'n cynnig cyfle inni i wneud gwahaniaeth go iawn i atyniad Cymru fel lle i gynnal busnes. Mae'r pedair mân dreth yr argymhellodd Silk y dylid eu datganoli bron yr un mor bwysig o ran eu heffaith economaidd bosibl, sef treth dir y dreth stamp; y dreth tirlenwi; yr ardoll agregau; a'r doll teithwyr awyr, gan ddechrau â theithiau pell uniongyrchol. Roeddwn yn arbennig o awyddus i weld datganoli'r dreth stamp, oherwydd mae potensial mawr, o ddiwygio'r dreth hon, i roi hwb i sector adeiladu Cymru ac i helpu'r rhai sy'n prynu cartrefi. Rwyf felly'n falch iawn o weld bod y dreth stamp yn mynd i gael ei datganoli'n llwyr, a gwn fod y newyddion wedi cael croeso mawr ar draws y gymuned fusnes. Rwyf yr un mor falch y bydd y dreth tirlenwi'n cael ei datganoli, ac rwyf ar ddeall bod yr ardoll agregau hefyd yn debygol o ddilyn maes o law. Mae angen datrys rhai materion yn hynny o beth o ran cymorth gwladwriaethol. Fodd bynnag, mae'n siomedig nad yw pwerau i amrywio'r doll teithwyr awyr yn dod i Gymru, ac ystyried potensial yr ysgogiad polisi hwn i wella cysylltedd Cymru â chanolfannau busnes byd-eang.

As far as the devolution of income tax is concerned, my main goal has long been to ensure that the people of Wales should have the final say. A referendum was held in Scotland ahead of this tax power being devolved, and it is only right that people in Wales should be similarly consulted. So, it is important that the UK Government's legislation on income tax devolution will include provision for a referendum. I know that when the word 'referendum' is mentioned, particularly in Wales, there is a tendency in political circles for hares to be set running. People start speculating about all kinds of hypothetical circumstances in which a referendum might be held. My priority, however, is simply to get the legislation that guarantees a referendum on the statute book; any further decisions on this matter will be for a future Assembly. While we should certainly not rule out income tax devolution at some point in the future, I very much agree with the Silk commission that this reform should go ahead only when the Welsh and UK Governments have resolved the issue of fair funding. Certainly, as First Minister I could only campaign for income tax devolution if I was confident that the overall funding regime in place at that time was fair to Wales.

O ran datganoli treth incwm, fy mhrif nod ers tro byd yw sicrhau bod pobl Cymru'n cael y gair olaf. Cynhaliwyd refferendwm yn yr Alban cyn datganoli'r pŵer treth hwn, ac nid yw ond yn deg ymgynghori yn yr un modd â phobl Cymru. Felly, mae'n bwysig y bydd deddfwriaeth Llywodraeth y DU ar ddatganoli treth incwm yn cynnwys darpariaeth ar gyfer refferendwm. Gwn fod clywed y gair 'refferendwm', yn arbennig yng Nghymru, yn tueddu i gyffroi pobl yn y byd gwleidyddol. Mae pobl yn dechrau dyfalu am bob math o amgylchiadau damcaniaethol lle gellid cynnal refferendwm. Fy mlaenoriaeth, fodd bynnag, yn syml, yw sicrhau'r ddeddfwriaeth sy'n gwarantu refferendwm ar y llyfr statud; lle Cynulliad yn y dyfodol fydd gwneud unrhyw benderfyniadau pellach am y mater hwn. Er na ddylem, yn sicr, ddiystyru datganoli treth incwm ar ryw adeg yn y dyfodol, rwyf yn cytuno'n llwyr â chomisiwn Silk y dylai Llywodraethau Cymru a'r DU ddatrys materion ariannu teg cyn gwneud y diwygiad hwn. Yn sicr, fel Prif Weinidog, ni allwn ymgyrchu dros ddatganoli treth incwm heb fod yn hyderus fod y drefn gyllido gyffredinol a fyddai ar waith ar y pryd yn deg i Gymru.

We took an important first step in this direction with last autumn's joint statement on funding reform, and in line with the commitments in that statement a review of future funding levels was successfully undertaken ahead of the UK Government's spending round in June. It is too soon to say whether this process will ultimately deliver the reforms that we are seeking, but we do at least have, for the first time, a mechanism in place that has the potential to tackle any decline in our relative funding.

Cymerwyd cam cyntaf pwysig i'r cyfeiriad hwn gyda datganiad ar y cyd yr hydref diwethaf am ddiwygio cyllid, ac yn unol â'r ymrwymiadau yn y datganiad hwnnw, cynhaliwyd adolygiad llwyddiannus o lefelau ariannu yn y dyfodol cyn cylch gwariant Llywodraeth y DU ym mis Mehefin. Mae'n rhy gynnar i ddweud a wnaiff y broses hon yn y pen draw sicrhau'r diwygiadau yr ydym yn eu ceisio, ond o leiaf mae gennym, am y tro cyntaf, fecanwaith ar waith sydd â'r potensial i fynd i'r afael ag unrhyw ddirywiad yn ein cyllid cymharol.

Looking ahead, it is important to recognise that while last week's statement by the UK Government was an important signal of intent, it did not provide a detailed response to all of the Silk recommendations. Having waited so long for last week's very positive announcement, it is vital that we maintain the momentum and see the UK Government's full response within the next few weeks.

Wrth edrych ymlaen, mae'n bwysig cydnabod, er bod datganiad yr wythnos diwethaf gan Lywodraeth y DU yn arwydd pwysig o fwriad, nad oedd yn rhoi ymateb manwl i bob un o argymhellion Silk. Ar ôl aros cyhyd am y cyhoeddiad cadarnhaol iawn yr wythnos diwethaf, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal y momentwm ac yn gweld ymateb llawn Llywodraeth y DU o fewn yr wythnosau nesaf.

Very shortly after that there should be the publication of draft legislation, and, crucially, the completion of the parliamentary process in advance of the 2015 UK general election. This is a challenging but achievable timetable, and I was reassured to learn last week that it has the backing of the Prime Minister and the Deputy Prime Minister.

Yn fuan iawn ar ôl hynny, dylid cyhoeddi'r ddeddfwriaeth ddrafft, ac mae'n hollbwysig cwblhau'r broses seneddol cyn etholiad cyffredinol y DU yn 2015. Mae hon yn amserlen heriol ond mae'n gyraeddadwy, ac roeddwn yn falch o gael gwybod yr wythnos diwethaf fod Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU yn ei chefnogi.

There is, of course, much more to do, and many detailed issues remain to be clarified and resolved. That said, the UK Government's initial response to the Silk proposals is one that, on balance, I strongly welcome. It is not perfect, but it would be churlish to deny that the reforms proposed are real, and they are substantial.

Wrth gwrs, mae mwy o lawer i'w wneud, ac mae angen egluro a datrys llawer o faterion manwl. Wedi dweud hynny, mae ymateb cychwynnol Llywodraeth y DU i gynigion Silk yn un yr wyf, ar y cyfan, yn ei groesawu'n fawr. Nid yw'n berffaith, ond anfoesgar fyddai gwadu bod y diwygiadau a gynigir yn rhai gwirioneddol, ac yn rhai sylweddol.

Last week's announcement was good news for Wales, but it was also, I believe, good news for all of us who want to see devolution flourish within a strengthened UK. I trust that it will be welcomed by the Assembly.

Roedd cyhoeddiad yr wythnos diwethaf yn newyddion da i Gymru, ond roedd hefyd, rwyf yn credu, yn newyddion da i bawb ohonom sydd am weld datganoli'n ffynnu mewn Teyrnas Unedig gryfach. Hyderaf y bydd y Cynulliad yn ei groesawu.

15:26

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister, for your statement this afternoon on the announcements that the UK Government made last week. They were truly monumental—I think that that is a fair description of the announcements made by the Prime Minister and the Deputy Prime Minister. The language that they used in support of the measures outlined will give these measures a fair wind through, as you mentioned in closing your statement, the legislative process that has to be enacted for much of this to become a reality.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma am gyhoeddiadau Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf. Roeddent yn wirioneddol bwysig—credaf fod hynny'n ddisgrifiad teg o'r cyhoeddiadau a wnaeth Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU. Bydd yr iaith a ddefnyddiwyd ganddynt wrth gefnogi'r mesurau a amlinellir yn rhoi gwynt teg i'r mesurau hyn, fel y soniasoch ar ddiwedd eich datganiad, drwy'r broses ddeddfwriaethol y mae'n rhaid ei dilyn er mwyn gwireddu llawer o hyn.

From these benches, we have been unequivocal in our support for Silk part 1. I regret that you, in First Minister's questions, in response to the leader of the Liberal Democrats, questioned that support by saying that people from these benches had withdrawn their support for stamp duty. I ask you to reflect on that comment, because from the Assembly group there has never been one iota of question. From our perspective—and it is on the front cover of Silk part 1—it is about responsibility and accountability, empowerment and accountability. Those are surely the key words that we need to reflect on in the maturing democracy that we have here in Wales.

O'r meinciau hyn, rydym wedi bod yn ddiamwys yn ein cefnogaeth i ran 1 Silk. Rwyf yn gresynu eich bod chi, yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog, wrth ateb arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi amau'r gefnogaeth honno drwy ddweud bod pobl o'r meinciau hyn wedi tynnu'n ôl eu cefnogaeth i'r dreth stamp. Gofynnaf ichi ailfeddwl am y sylw hwnnw, oherwydd ymhlith grŵp y Cynulliad ni fu erioed fymryn o amheuaeth. O'n safbwynt ni—ac mae hyn ar glawr blaen rhan 1 Silk—mae'n fater o gyfrifoldeb ac atebolrwydd, grymuso ac atebolrwydd. Onid dyma'r geiriau allweddol y mae angen inni eu hystyried yn y ddemocratiaeth sy'n aeddfedu gennym yma yng Nghymru?

That is why I am very pleased to say today that we, as Welsh Conservatives, will be championing the cause of a referendum as outlined in Silk part 1, which has a clear timetable. We will be campaigning for a 'yes' vote in that referendum, to make sure that that empowerment and responsibility comes here to the Assembly.

Dyna pam yr wyf yn falch iawn o ddweud heddiw y byddwn ni, Geidwadwyr Cymru, yn hyrwyddo'r achos dros refferendwm fel yr amlinellir yn rhan 1 Silk, lle ceir amserlen glir. Byddwn yn ymgyrchu dros bleidlais 'ie' yn y refferendwm hwnnw, er mwyn gwneud yn siŵr bod y grym a'r cyfrifoldeb hwnnw'n dod yma i'r Cynulliad.

I worry about the word 'power'. I think that using the word 'power' in this context is difficult and assumes that we are trying to amass more power, rather than create a better way of governance and a better way for Wales to be run. I am pleased to put that on the record and I know that the Secretary of State is very pleased to have that on the record as well. [Interruption.] I note that the First Minister missed him out when he was thanking people, but I note that the Deputy Prime Minister paid tribute to the role of the Secretary of State and his Ministers in the Wales Office for facilitating the announcements brought forward. I hope, when he responds to the statement, that he might well again reflect on that, because, in the words of the Deputy Prime Minister and Prime Minister, it is through the actions of many Ministers in Westminster that this agreement has come forward.

Rwyf yn poeni am y gair 'pŵer'. Rwyf yn meddwl bod defnyddio'r gair 'pŵer' yn y cyd-destun hwn yn beth anodd a'i fod yn tybio ein bod yn ceisio casglu mwy o bŵer, yn hytrach na chreu ffordd well o lywodraethu a ffordd well o redeg Cymru. Rwyf yn falch o roi hynny ar gofnod, a gwn fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn falch iawn o gael hynny ar gofnod hefyd. [Torri ar draws.] Nodaf na soniodd y Prif Weinidog amdano wrth ddiolch i bobl, ond nodaf fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi talu teyrnged i swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol a'i Weinidogion yn Swyddfa Cymru am hwyluso'r cyhoeddiadau a gyflwynwyd. Rwyf yn gobeithio, pan fydd yn ymateb i'r datganiad, y bydd yn ailfeddwl am hynny, oherwydd, yng ngeiriau'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Prif Weinidog, gweithredoedd llawer o Weinidogion yn San Steffan sydd i gyfrif am gyflwyno'r cytundeb hwn.

In your statement today, First Minister, you also touched on stamp duty reform, which was a key flash point, as you put it, that we have discussed and debated many times in the Chamber. You talk about the reform of this tax. I have yet to understand exactly what type of reform the Government in Wales is talking about. I would be grateful whether we could have some understanding of what reform you will bring forward, and I hope that it will stimulate the housing market and help businesses here in Wales. Just to use the word 'reform' is almost an easy way out. It would be good, in your response, if you could outline that reform.

Yn eich datganiad heddiw, Brif Weinidog, cyfeiriasoch hefyd at ddiwygio'r dreth stamp, a oedd yn bwnc llosg allweddol, fel y dywedasoch, yr ydym wedi ei drafod a dadlau yn ei gylch sawl gwaith yn y Siambr. Soniwch am y broses o ddiwygio'r dreth hon. Nid wyf eto wedi deall yn union pa fath o ddiwygio y mae'r Llywodraeth yng Nghymru yn siarad amdano. Byddwn yn ddiolchgar pe gallem gael rhywfaint o ddealltwriaeth o'r diwygiadau y byddwch yn eu cyflwyno, ac rwyf yn gobeithio y bydd hyn yn ysgogi'r farchnad dai ac yn helpu busnesau yma yng Nghymru. Mae defnyddio'r gair 'diwygiadau' bron yn ffordd hawdd allan. Byddai'n dda o beth pe gallech amlinellu'r diwygiadau hynny yn eich ymateb.

Also, borrowing and taxation, with the many announcements that were made on Friday, seem to have got somewhat mixed up. Borrowing is a very important part of the measures brought forward, but they were Government-to-Government discussions. It would be worth while if, in your response to me today, you could outline the discussions that you have had with the Westminster Government, the level of borrowing that you believe is an adequate amount of capacity, shall we say, and the income streams—I am sure you have modelled that, or I hope you have—so that we can understand how that level of borrowing is going to be serviced. If you go across Europe for example, that has caused many financial problems in many devolved areas—Germany being a good example where it has run wild, if you like, without any real fiscal control and understanding of how those powers are going to be used. So, it can be a silver bullet, but it needs to be carefully managed, and I would be grateful if you could give us a better understanding and an explanation of what has gone on there.

Hefyd, mae'n ymddangos bod rhywfaint o ddrysu rhwng benthyca a threthu, gyda'r nifer o gyhoeddiadau a wnaethpwyd ddydd Gwener. Mae benthyca'n rhan bwysig iawn o'r mesurau a gyflwynwyd, ond trafodaethau Llywodraeth-i-Lywodraeth oeddent. Byddai'n werth chweil pe gallech, yn eich ymateb imi heddiw, amlinellu'r trafodaethau yr ydych wedi'u cael a Llywodraeth San Steffan, lefel y benthyca yr ydych yn credu y byddai'n swm digonol o adnoddau, gadewch inni ddweud, a'r ffrydiau incwm—rwyf yn siŵr eich bod wedi modelu hynny, neu rwyf yn gobeithio eich bod wedi gwneud hynny—fel y gallwn ddeall sut y caiff y lefel honno o fenthyca ei gwasanaethu. Ar draws Ewrop er enghraifft, mae hynny wedi achosi llawer o broblemau ariannol mewn llawer o feysydd datganoledig—mae'r Almaen yn enghraifft dda o ran lle y mae hyn wedi mynd yn wyllt, os mynnwch, heb ddim gwir reolaeth ariannol na dealltwriaeth o sut y caiff y pwerau hynny eu defnyddio. Felly, gall fod yn ateb syml, ond mae angen ei reoli'n ofalus, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwell dealltwriaeth ac esboniad inni o'r hyn sydd wedi digwydd yno.

Going back to the referendum in particular, I would also be grateful if you would give a commitment today to sign up to that referendum and the timetable that is outlined in the Silk commission's part 1 report. You have, obviously, stood there and said many times that you and your group here in the Assembly support Silk 1, and the timetable for how it can be brought forward is very clear. I understand what you say about Barnett, and all parties in this Chamber have supported the point—who, as a politician, would not—about having additional money made available, but I would suggest that the two are not linked; the two are able to be progressed. I take the point about implementation, but I would suggest to you that moving towards having that referendum in 2017, as Silk touches on, could be progressed without the linkage of the two. I therefore invite you to offer your party's support for such a road map to that referendum and, hopefully, that transfer of responsibility, with a positive vote here in the Assembly.

A throi'n ôl at y refferendwm yn benodol, byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi ymrwymiad heddiw i gymeradwyo'r refferendwm hwnnw a'r amserlen a amlinellir yn adroddiad rhan 1 comisiwn Silk. Yn amlwg, rydych wedi sefyll yno a dweud lawer gwaith eich bod chi a'ch grŵp yma yn y Cynulliad o blaid Silk 1, ac mae'r amserlen ar gyfer sut y gellir bwrw ymlaen â hynny'n glir iawn. Rwyf yn deall yr hyn a ddywedwch am Barnett, ac mae pob plaid yn y Siambr hon wedi cefnogi'r pwynt—pwy, fel gwleidydd, na fyddai'n gwneud hynny—am sicrhau bod mwy o arian ar gael, ond byddwn yn awgrymu nad oes cysylltiad rhwng y ddau beth; gellir bwrw ymlaen â'r ddau. Rwyf yn derbyn y pwynt am weithredu, ond byddwn yn awgrymu wrthych y gellid symud tuag at gael y refferendwm yn 2017, fel y mae Silk yn ei grybwyll, heb gysylltiad rhwng y ddau. Felly, rwyf yn eich gwahodd i gynnig cefnogaeth eich plaid i lwybr o'r fath at y refferendwm hwnnw ac, rwyf yn gobeithio, at drosglwyddo cyfrifoldeb yn y modd hwnnw, gyda phleidlais gadarnhaol yma yn y Cynulliad.

Having put those questions, I would like to give special thanks to everyone who has been involved, in particular my finance spokesman, Paul Davies, who has worked tirelessly on the Silk part 1 recommendations, and with other colleagues in Westminster. It does show that when the Assembly speaks with a united voice, as it has with these measures, even though sometimes the time seemed to go on a little, we can achieve a result. That is an important lesson for us all to remember when we are seeking to enhance the prospects of Wales as an integral part of the United Kingdom.

Wedi gofyn y cwestiynau hynny, hoffwn ddiolch yn arbennig i bawb sydd wedi ymwneud â hyn, yn enwedig fy llefarydd cyllid, Paul Davies, sydd wedi gweithio'n ddiflino ar argymhellion rhan 1 Silk, a chyda chyd-weithwyr eraill yn San Steffan. Mae'n dangos, pan fydd y Cynulliad yn siarad ag un llais, fel y gwnaeth ar y mesurau hyn, er ei bod yn ymddangos bod hyn yn llusgo ychydig ar adegau, y gallwn gyflawni canlyniad. Mae hynny'n wers bwysig inni i gyd ei chofio pan fyddwn yn ceisio gwella rhagolygon Cymru fel rhan annatod o'r Deyrnas Unedig.

15:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank the leader of the opposition for his comments. Before I go on to deal with the substantive points that he made, I do recall, as will other Members, I am sure, that over the last few weeks, he was, shall we say, less than pushy when it came to forcing the pace with regard to Silk part 1. He described it as a 'bubble issue' at one point, and that it would take as long as it took. He will forgive Members for the impression that was created at that time—that he did not see it as a priority until last week. Nevertheless, I welcome his words now. With regard to the Secretary of State's role, I have seen no evidence that suggests that the Secretary of State was enthusiastic about pushing towards a conclusion on Silk part 1; I will put it no more strongly than that. At the joint ministerial council that I was at last week, the Prime Minister was significantly more enthusiastic about accepting Silk in principle than the Secretary of State at that moment in time. The only point that he made was that, in his opinion, the devolution of stamp duty would distort the housing market between England and Wales, which I did not take to be a resounding endorsement of the Silk commission's recommendations.

Diolch i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau. Cyn imi fynd ymlaen i roi sylw i'r pwyntiau sylweddol a wnaeth, rwyf yn cofio, fel y bydd Aelodau eraill, rwyf yn siŵr, ei fod, dros yr ychydig wythnosau diwethaf, gadewch inni ddweud, wedi bod yn llai nag eofn o ran cyflymu rhan 1 Silk. Fe'i disgrifiodd fel 'mater swigen' ar un adeg, gan ddweud y byddai'n cymryd cyhyd ag y byddai'n ei gymryd. Bydd yn maddau i'r Aelodau am yr argraff a grëwyd ar y pryd—nad oedd yn ystyried bod hyn yn flaenoriaeth tan yr wythnos diwethaf. Serch hynny, rwyf yn croesawu ei eiriau yn awr. O ran swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, nid wyf wedi gweld dim tystiolaeth sy'n awgrymu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn frwdfrydig ynghylch mynd â'r maen i'r wal ar ran 1 Silk; ni ddywedaf hynny'n gryfach na hynny. Yn y cyngor gweinidogol ar y cyd y bûm ynddo'r wythnos diwethaf, roedd y Prif Weinidog yn fwy brwdfrydig o lawer ar y pryd ynghylch derbyn Silk mewn egwyddor na'r Ysgrifennydd Gwladol. Yr unig bwynt a wnaeth oedd y byddai datganoli'r dreth stamp, yn ei farn ef, yn ystumio'r farchnad dai rhwng Cymru a Lloegr; nid oedd hynny'n swnio i mi fel cefnogaeth ysgubol i argymhellion comisiwn Silk.

The question asked was: what next? These are questions, of course, primarily for the next Government, whatever that might be. We do not yet have a timescale for the devolution of these powers, but it is bound to be, at the very earliest, I suspect, 2016, and possibly after that; we just do not know. With stamp duty, there have been events that have taken place, hosted by the Minister for Finance, to start to discuss with the construction industry, what stamp duty, if it is called that, should look like in the future. It has made some very useful observations as to what the different tiers might be, what they should look like, where they should fall and what the rates should be. These are all matters that are being examined, but we do not yet have the power to deal with stamp duty. However, that does not mean that parties, as they look towards the 2016 election, will not be looking to model their own basis for stamp duty in the future.

Y cwestiwn a ofynnwyd oedd: beth nesaf? Cwestiynau i'r Llywodraeth nesaf yw'r rhain yn bennaf, wrth gwrs, beth bynnag fydd honno. Nid oes gennym amserlen ar gyfer datganoli'r pwerau hyn eto, ond mae'n siŵr mai yn 2016 ar y cynharaf y bydd hynny, rwyf yn amau, ac o bosibl ar ôl hynny; nid ydym yn gwybod. O ran y dreth stamp, mae'r Gweinidog Cyllid wedi cynnal digwyddiadau i ddechrau trafod â'r diwydiant adeiladu sut beth fydd y dreth stamp yn y dyfodol, os dyna fydd ei henw. Mae wedi gwneud rhai sylwadau defnyddiol iawn am y gwahanol haenau posibl, sut y dylent edrych, lle y dylid eu gosod a beth y dylai'r cyfraddau fod. Mae'r rhain i gyd yn faterion sy'n cael eu harchwilio, ond nid oes gennym bwerau eto i ymdrin â'r dreth stamp. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na fydd pleidiau, wrth iddynt edrych tuag at etholiad 2016, yn ceisio modelu eu sail eu hunain ar gyfer y dreth stamp yn y dyfodol.

You were quite right to point out that borrowing was not part of Silk, but, at an early stage, the UK Government declared that in order for there to be borrowing powers on behalf of the Welsh Government, there would need to be a revenue stream, so it was linked in that way, in reality. That is not the case in Northern Ireland, but we accepted that as a valid issue.

Roeddech yn llygad eich lle wrth nodi nad oedd benthyca'n rhan o Silk, ond, yn gynnar yn y broses, dywedodd Llywodraeth y DU y byddai angen ffrwd refeniw er mwyn cael pwerau benthyca ar ran Llywodraeth Cymru, felly roedd yn gysylltiedig yn hynny o beth, mewn gwirionedd. Nid dyna'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon, ond roeddem yn derbyn bod hynny'n fater dilys.

With regard to how much money, if I remember rightly, Silk recommended access to borrow £130 million a year, up to a limit of £1.3 billion. In terms of the revenue stream, stamp duty raises somewhere between £104 million and £150 million a year, depending on market circumstances—we understand that it is about £104 million at present. Landfill tax raises something along the lines of, I understand, £50 million, and aggregates levy raises £22 million. So, we are looking at a figure of about £200 million, roughly, which we have been working to. On the back of that, of course, it is possible to borrow substantially more, because of the revenue stream that is created on the back of those taxes.

O ran faint o arian, os cofiaf yn iawn, roedd Silk yn argymell mynediad i fenthyca £130 miliwn y flwyddyn, hyd at uchafswm o £1.3 biliwn. O ran y ffrwd refeniw, mae'r dreth stamp yn codi rhywle rhwng £104 miliwn a £150 miliwn y flwyddyn, yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad—rydym ar ddeall ei fod tua £104 miliwn ar hyn o bryd. Rwyf ar ddeall bod y dreth tirlenwi'n codi oddeutu £50 miliwn, ac mae'r ardoll agregau'n codi £22 miliwn. Felly, rydym yn edrych ar ffigur o tua £200 miliwn, yn fras, ac rydym wedi bod yn gweithio tuag at hynny. Ar gefn hynny, wrth gwrs, mae'n bosibl benthyca llawer mwy, oherwydd y ffrwd refeniw sy'n cael ei chreu o ganlyniad i'r trethi hynny.

With regard to the referendum—and just so that I can make the position of the Government clear—we fully support the establishment of a mechanism by which there could be a referendum on income tax devolution in the future. That has to be part of any legislation. I suspect that the UK Government will make a referendum dependent—as the Government of Wales Act 2006 did with regard to the Schedule 7 powers—on there being a vote in Parliament, a vote in the Assembly, possibly with a two thirds majority, and, subsequently, of course, a referendum. I do not think that it is possible to divorce the issue of income-tax-varying powers from the issue of Barnett reform, for the simple reason that three quarters of funding, regardless of what happens, would still come via block grant. If the block grant is shrinking, then of course it means that the basis upon which income-tax-varying powers is built would not be robust. Any Government, regardless of who it is, would find itself potentially in the situation of looking to increase income tax simply to keep services as they are. Now, that is clearly not an attractive option for any Government, of any political colour, in this Chamber.

O ran y refferendwm—ac er mwyn egluro safbwynt y Llywodraeth—rydym yn llwyr o blaid sefydlu mecanwaith y gellid ei ddefnyddio i gynnal refferendwm ar ddatganoli treth incwm yn y dyfodol. Rhaid i hynny fod yn rhan o unrhyw ddeddfwriaeth. Rwyf yn amau y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud refferendwm yn ddibynnol—fel y gwnaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ynglŷn â phwerau Atodlen 7—ar gynnal pleidlais yn y Senedd, pleidlais yn y Cynulliad, o bosibl gyda mwyafrif o ddwy ran o dair, ac wedi hynny, wrth gwrs, refferendwm. Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl gwahanu pwerau amrywio treth incwm a diwygio Barnett, a hynny oherwydd y byddai tri chwarter y cyllid, beth bynnag a fydd yn digwydd, yn dal i ddod drwy grant bloc. Os yw'r grant bloc yn crebachu, wrth gwrs, mae'n golygu na fyddai'r pwerau i amrywio treth incwm wedi'u hadeiladu ar sail gadarn. Gallai unrhyw Lywodraeth, waeth pwy ydyw, o bosibl ei chael ei hun mewn sefyllfa lle mae'n ceisio cynyddu treth incwm er mwyn gwneud dim ond cadw gwasanaethau fel y maent. Yn amlwg, nid yw hynny'n ddewis deniadol i unrhyw Lywodraeth, o unrhyw liw gwleidyddol, yn y Siambr hon.

What is not clear either at this stage is what the benefits might be—how the powers might be used to the benefit of the people of Wales. I think that that is far from clear at this moment in time, especially given the issue with regard to Barnett. We know that the situation is different in Scotland, but we know—and other Members, in other parties, have made this point before now in the Chamber—that the issue of funding reform, or fair funding, is the crucial start. Unless that is addressed first, I do not see how income-tax-varying powers, which is a major step—potentially a sum of £2 billion—can actually be addressed without the block grant being on a basis that is robust; the two things run together. I think that it is possible to say that financial accountability would be improved with the devolution of income tax, and there is an argument for that, but what I do not see, certainly at this moment in time, is what the benefits to any Government would be of that devolution without there being an accompanying Barnett reform, and a substantial financial package that goes beyond simply looking at income-tax-varying powers.

Yr hyn nad yw'n glir ychwaith ar hyn o bryd yw beth yw'r buddion posibl—sut y gellid defnyddio'r pwerau er budd pobl Cymru. Credaf fod hynny ymhell o fod yn glir ar hyn o bryd, yn enwedig ac ystyried y mater ynghylch Barnett. Rydym yn gwybod bod y sefyllfa'n wahanol yn yr Alban, ond gwyddom—ac mae Aelodau eraill, o bleidiau eraill, wedi codi'r pwynt hwn o'r blaen yn y Siambr—mai mater diwygio cyllid, neu gyllid teg, yw'r man cychwyn allweddol. Oni ymdrinnir â hynny'n gyntaf, ni allaf weld sut y gellir ymdrin mewn gwirionedd â phwerau amrywio treth incwm, sy'n gam mawr—ac a allai fod yn swm o £2 biliwn—heb fod y grant bloc ar sail sy'n gadarn; mae'r ddau beth yn cyd-fynd â'i gilydd. Rwyf yn meddwl ei bod yn bosibl dweud y byddai atebolrwydd ariannol yn gwella gyda datganoli treth incwm, ac mae dadl dros hynny, ond yr hyn na allaf ei weld, yn sicr ar hyn o bryd, yw beth fyddai manteision datganoli hynny i unrhyw Lywodraeth heb ddiwygio Barnett law yn llaw â hynny, a phecyn ariannol sylweddol sy'n mynd y tu hwnt i edrych ar bwerau amrywio treth incwm yn unig.

Therefore, a mechanism—yes, but I think that there is much to be done yet in terms of the debate.

Felly, mecanwaith—ie, ond credaf fod llawer o waith dadlau i'w wneud eto.

15:38

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I also endorse what has been said today, by the First Minister, and by the leader of the opposition, in respect of the role that has been played by people from all parties in seeking to achieve the consensus that has been achieved, as well as the role played by the business community, which played a very important part in making the case for borrowing powers and for revenue streams.

A gaf innau hefyd ategu'r hyn y mae'r Prif Weinidog, ac arweinydd yr wrthblaid, wedi'i ddweud heddiw, o ran y rhan y mae pobl o bob plaid wedi'i chwarae i geisio sicrhau'r consenswS sydd wedi ei sicrhau, yn ogystal â'r rhan y mae'r gymuned fusnes wedi'i chwarae; roedd honno'n rhan bwysig iawn o safbwynt pledio achos pwerau benthyca a ffrydiau refeniw.

I welcome what the First Minister has said specifically in respect of the linkage of the issue of income tax to Barnett reform. I also support what he says in respect of the mechanism of a referendum being created. However, I would have to say that, as someone who has been actively involved in campaigning for 'yes' votes in previous referendums, I would not campaign for a 'yes' vote in current circumstances in respect of income tax, and I do not believe that my constituents would vote for those income tax powers in current circumstances.

Rwyf yn croesawu'r hyn y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud yn benodol o ran y cyswllt rhwng treth incwm a diwygio Barnett. Rwyf hefyd yn cefnogi'r hyn a ddywed am greu mecanwaith refferendwm. Fodd bynnag, byddai'n rhaid imi ddweud, fel rhywun sydd wedi bod yn weithgar wrth ymgyrchu dros bleidlais 'ie' mewn refferenda blaenorol, na fyddwn yn ymgyrchu dros bleidlais 'ie' o dan yr amgylchiadau presennol o ran treth incwm, ac nad wyf yn credu y byddai fy etholwyr yn pleidleisio o blaid y pwerau treth incwm hynny o dan yr amgylchiadau presennol.

15:39

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I think that the difficulty is this: people will begin on the basis of believing, in a referendum—and let us be honest with ourselves in this regard—that any referendum on the devolution of income tax would be to them a way of paying more tax. Whether that is true or not is a different issue, of course, as we understand, but that is what their default will be. Now, it might be possible at some point to make an argument that overcomes that, but I do not believe that that position has yet been reached. I will not rehearse the issues that I have already mentioned, but I think that this issue deserves great examination and great care. However, the last thing that would be sensible, I believe, for anybody in a position of leadership to do is simply to say, 'Let us have these powers without addressing Barnett'. The two are bound to run together.

Credaf mai dyma'r anhawster: bydd pobl yn dechrau drwy gredu, mewn refferendwm—a gadewch inni fod yn onest â ni ein hunain yn hyn o beth—y byddai unrhyw refferendwm ar ddatganoli treth incwm iddynt hwy yn ffordd o dalu mwy o dreth. Mater gwahanol yw a yw hynny'n wir ai peidio, wrth gwrs, fel y deallwn, ond dyna fydd eu man cychwyn. Nawr, gallai fod yn bosibl rywbryd llunio dadl sy'n goresgyn hynny, ond nid wyf yn credu ein bod wedi cyrraedd y sefyllfa honno eto. Nid wyf am ailadrodd y materion yr wyf eisoes wedi sôn amdanynt, ond credaf fod y mater hwn yn haeddu archwiliad manwl a llawer o ofal. Fodd bynnag, y peth olaf a fyddai'n synhwyrol i unrhyw arweinydd ei wneud, yn fy marn i, fyddai dweud, 'Gadewch inni gael y pwerau hyn heb ymdrin â Barnett'. Mae'r ddau'n sicr o fynd law yn llaw.

15:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Plaid Cymru broadly welcomes last week's announcement on financial powers for the National Assembly for Wales. We see this as a fantastic opportunity to begin the process of taking responsibility and for turning around the Welsh economy. I am glad that the First Minister has today recognised the role of the Holtham commission set up by the One Wales Government at Plaid Cymru's insistence.

At ei gilydd, mae Plaid Cymru'n croesawu cyhoeddiad yr wythnos diwethaf am bwerau ariannol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym o'r farn fod hwn yn gyfle gwych i ddechrau ar y broses o gymryd cyfrifoldeb a newid cyfeiriad yr economi yng Nghymru. Rwyf yn falch fod y Prif Weinidog heddiw wedi cydnabod swyddogaeth comisiwn Holtham a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un ar ôl i Blaid Cymru fynnu hynny.

Although we have some information now available on financial powers, we are still awaiting a full response on the Silk commission's 33 recommendations. Plaid Cymru's view is that those recommendations represent a package and that they should not be cherry-picked. I hope that the First Minister will agree that we want the full implementation of Silk part 1 as supported by this Senedd. However, we need more clarity. So, Plaid Cymru has a number of questions. First of all, what is the timescale for this Senedd taking control of powers over stamp duty, land tax and landfill tax? Has the Government been given a reason for the delay on the transfer of aggregates duty? Do we have a timescale for that to be resolved? What reason have you been given for the refusal to devolve powers over long-haul air passenger duty, a power that has already been devolved to the Northern Ireland Assembly and supported by the Welsh Conservatives? Where do we stand regarding the devolution of non-domestic rates, especially in the light of the Brian Morgan review? What about the introduction of innovative or 'nudge' taxes that were mentioned in the Silk commission report? Any information that you have on these additional taxes would be warmly welcomed.

Er bod rhywfaint o wybodaeth am bwerau ariannol bellach ar gael inni, rydym yn dal i aros am ymateb llawn i 33 argymhelliad comisiwn Silk. Barn Plaid Cymru yw bod yr argymhellion hynny'n becyn ac na ddylid dewis a dethol o'u plith. Rwyf yn gobeithio y bydd y Prif Weinidog yn cytuno ein bod am weld gweithredu rhan 1 Silk yn llawn fel y mae'r Senedd hon yn ei gefnogi. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder. Felly, mae gan Blaid Cymru nifer o gwestiynau. Yn gyntaf oll, beth yw'r amserlen i'r Senedd hon gymryd rheolaeth dros bwerau'r dreth stamp, y dreth tir a'r dreth tirlenwi? A roddwyd rheswm i'r Llywodraeth dros yr oedi wrth drosglwyddo'r ardoll agregau? A oes gennym amserlen ar gyfer datrys hynny? Pa reswm a roddwyd ichi dros wrthod datganoli pwerau dros y doll teithwyr awyr ar deithiau pell, pŵer sydd eisoes wedi ei ddatganoli i Gynulliad Gogledd Iwerddon ac a gefnogir gan Geidwadwyr Cymru? Beth yw ein sefyllfa o ran datganoli trethi annomestig, yn enwedig yng ngoleuni adolygiad Brian Morgan? Beth am gyflwyno'r trethi arloesol neu'r trethi 'hwb' yr oedd adroddiad comisiwn Silk yn sôn amdanynt? Byddai'n dda iawn gennym glywed unrhyw wybodaeth sydd gennych am y trethi ychwanegol hyn.

I listened carefully to what the First Minister said with regard to the Barnett formula. As I said earlier, I have a great deal of sympathy with that argument. Plaid Cymru has been pushing those arguments for many years now. However, it makes no sense to refuse to commit to a needs-based formula in your party's manifesto for 2015 if this is the crucial question that you claim it will be. Perhaps, you will take this opportunity to answer that question again now and commit to that being in your party's 2015 manifesto. Further, First Minister, if at the end of this process there are any parts of the Silk commission that are not implemented by the current UK Government, will you commit your party now to implementing those points that are left over in the event that you take power in Westminster again?

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog am fformiwla Barnett. Fel y dywedais yn gynharach, mae gennyf lawer iawn o gydymdeimlad â'r ddadl honno. Mae Plaid Cymru wedi bod yn cyflwyno'r dadleuon hynny ers blynyddoedd lawer bellach. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud dim synnwyr gwrthod ymrwymo i fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion ym maniffesto eich plaid ar gyfer 2015 os yw'r cwestiwn hwn mor allweddol ag yr ydych yn ei honni. Efallai y manteisiwch ar y cyfle hwn i ateb y cwestiwn hwnnw eto yn awr ac i ymrwymo i'w roi ym maniffesto eich plaid ar gyfer 2015. Hefyd, Brif Weinidog, os oes unrhyw rannau o gomisiwn Silk nad ydynt wedi'u gweithredu gan Lywodraeth bresennol y DU erbyn diwedd y broses hon, a wnewch rwymo eich plaid yn awr i weithredu'r pwyntiau hynny sy'n weddill pe baech yn ennill grym yn San Steffan eto?

15:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Let me deal, first of all, with the issues that were raised there. We want to see full implementation of Silk, as we have always said. In terms of the timescale, we know only that the commitment has been given to introduce legislation and get it through Parliament by the end of this parliamentary term. The issue of the timescale regarding when practical devolution occurs is a matter for discussion between the Ministers for finance. There is a quadrilateral meeting coming up on 18 February, when these issues can be discussed. The issue of aggregates levy, as I said in the statement, is bound up with the issue of state aid. It affects Scotland as well. There is no timescale on its resolution, but it is something that we want to see resolved soon. On air passenger duty, the only answer that we were given to that was that the UK Government was 'not persuaded' of the devolution of air passenger duty, although, of course, our stated position is that we are and would wish to see it devolved. On domestic rates, they are being pursued through other means and will continue to be pursued. On 'nudge' taxes, we wait to see, of course, what the UK Government's response will be to all the recommendations that are put forward by Silk, and we wait to see that with interest.

Gadewch imi ddechrau drwy ymdrin â'r materion a godwyd yno. Rydym am weld Silk yn cael ei weithredu'n llawn, fel yr ydym bob amser wedi'i ddweud. O ran yr amserlen, y cwbl yr ydym yn ei wybod yw bod yr ymrwymiad wedi ei roi i gyflwyno deddfwriaeth a'i chael drwy'r Senedd erbyn diwedd y tymor seneddol hwn. Mater i'w drafod rhwng y Gweinidogion cyllid yw'r amserlen ynglŷn â phryd y bydd datganoli ymarferol yn digwydd. Cynhelir cyfarfod pedrochr ar 18 Chwefror, lle gellir trafod y materion hyn. Mae mater yr ardoll agregau, fel y dywedais yn y datganiad, ynghlwm wrth fater cymorth gwladwriaethol. Mae'n effeithio ar yr Alban hefyd. Nid oes amserlen o ran penderfynu ar hyn, ond mae'n rhywbeth yr hoffem ei weld yn cael ei ddatrys yn fuan. O ran y doll teithwyr awyr, yr unig ateb a roddwyd inni i hynny oedd nad oedd Llywodraeth y DU 'wedi'i pherswadio' ynghylch datganoli'r doll teithwyr awyr, er mai ein safbwynt ni, wrth gwrs, yw ein bod wedi'n perswadio ac yr hoffem weld ei datganoli. O ran ardrethi domestig, ymdrinnir â hwy drwy ddulliau eraill a pharheir i ymdrin â hwy. O ran trethi 'hwb', rydym yn aros i weld, wrth gwrs, beth fydd ymateb Llywodraeth y DU i'r holl argymhellion a gyflwynwyd gan Silk, ac rydym yn aros â diddordeb i weld hynny.

Let us make it clear: the leader of Plaid Cymru seems to give the impression that, somehow, we are not in favour of a needs-based formula, but, short of going blue in the face saying it over and over again, she knows that, on many occasions, I have said that the Barnett formula needs to be reformed and we need to see a needs-based formula that is fair not just for the people of Wales, but for the people of the north-east of England, for example. There are discussions within my party and it is well understood that there is a need to look again at the formula that funds the different constituent parts of the UK. Of course, the argument that suggests that there has to be a commitment in 2015 is predicated on the basis that there will be a 'no' vote in the Scottish Referendum. This clearly has not been thought through by Plaid Cymru, because the Barnett formula would fall anyway if there were a 'yes' vote. If there were to be a commitment—[Interruption.] There is no point shouting about it because you have not thought about the question. The suggestion that, in 2015, there has to be a commitment from all parties with regard to a needs-based formula is predicated on the basis that Scotland will remain part of the UK and that the Barnett formula will remain in place. Otherwise, the argument falls. Yes, a needs-based formula is absolutely crucial.

Gadewch inni ei gwneud yn glir: mae arweinydd Plaid Cymru fel petai'n rhoi'r argraff, rywsut, nad ydym o blaid fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion, ond, heb imi ddweud hynny drosodd a throsodd tan Sul y pys, mae'n gwybod fy mod, ar sawl achlysur, wedi dweud bod angen diwygio fformiwla Barnett a bod angen inni weld fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion sy'n deg nid yn unig i bobl Cymru, ond i bobl gogledd-ddwyrain Lloegr, er enghraifft. Mae trafodaethau o fewn fy mhlaid ac mae dealltwriaeth dda fod angen edrych eto ar y fformiwla sy'n ariannu gwahanol rannau cyfansoddol y DU. Wrth gwrs, mae'r ddadl sy'n awgrymu bod yn rhaid cael ymrwymiad yn 2015 yn seiliedig ar bleidlais 'na' yn Refferendwm yr Alban. Yn amlwg, nid yw Plaid Cymru wedi ystyried hyn yn drwyadl, oherwydd byddai fformiwla Barnett yn disgyn beth bynnag pe bai pleidlais 'ie'. Pe bai ymrwymiad—[Torri ar draws.] Nid oes dim pwynt gweiddi am y peth oherwydd nid ydych wedi meddwl am y cwestiwn. Mae'r awgrym bod yn rhaid cael ymrwymiad gan yr holl bleidiau, yn 2015, o ran fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion yn seiliedig ar i'r Alban aros yn rhan o'r DU ac i fformiwla Barnett ddal i fod ar waith. Fel arall, mae'r ddadl yn disgyn. Ydy, mae fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion yn gwbl hanfodol.

As to what the UK Government accepts or does not accept with regard to the Silk commission, we do not know. We do not yet know what part 2 of the Silk commission will recommend. A response will be made at that time. I certainly would not want the impression to be given by Plaid Cymru Members that this is somehow all down to them. This is something that was pushed by a Welsh Labour Government, and this is something that we have constantly pushed for—with the support of other parties, that much is true; I accept that. However, to suggest that, somehow, all this springs originally from Plaid Cymru clearly would not be correct. I appreciate the support that other parties have given in this regard, and I am sure that all parties in this Chamber will look, in the election in 2016, to put ideas in their manifestos on what they would do with the powers that we then have devolved to us.

O ran yr hyn y bydd Llywodraeth y DU yn ei dderbyn neu ddim yn ei dderbyn o ran comisiwn Silk, nid ydym yn gwybod. Nid ydym yn gwybod eto beth y bydd rhan 2 comisiwn Silk yn ei argymell. Ceir ymateb bryd hynny. Yn sicr, ni hoffwn i Aelodau Plaid Cymru roi'r argraff mai hwy sydd rywsut yn gyfrifol am hyn i gyd. Mae hyn yn rhywbeth y gwthiodd Llywodraeth Llafur Cymru amdano, ac mae'n rhywbeth yr ydym wedi galw amdano'n gyson—gyda chefnogaeth pleidiau eraill, mae hynny'n wir; rwyf yn derbyn hynny. Fodd bynnag, mae'n amlwg na fyddai'n gywir awgrymu bod hyn i gyd, rywsut, yn deillio'n wreiddiol o Blaid Cymru. Rwyf yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth y mae'r pleidiau eraill wedi'i rhoi yn hyn o beth, ac rwyf yn siŵr y bydd pob plaid yn y Siambr hon yn ceisio, yn yr etholiad yn 2016, rhoi syniadau yn eu maniffestos am yr hyn y byddent yn ei wneud â'r pwerau a fydd wedi'u datganoli inni erbyn hynny.

15:46

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I begin by thanking the First Minister for his statement this afternoon on the announcement made by the coalition Government at the Assembly last Friday. 'Momentous', 'historic' and 'significant' were just some of the words used on Friday to describe what was happening to Wales's constitutional settlement. It has taken us a long time to get to this point, but I believe that the wait has been, and will be, worth it. The Welsh Liberal Democrat vision for devolution has always included ensuring that the National Assembly for Wales and the Welsh Government have the best range of powers available to improve the lives of the people of Wales.

Dechreuaf drwy ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma am y cyhoeddiad a wnaeth y Llywodraeth glymblaid yn y Cynulliad ddydd Gwener diwethaf. 'Aruthrol', 'hanesyddol' ac 'arwyddocaol' oedd rhai o'r geiriau a ddefnyddiwyd ddydd Gwener i ddisgrifio'r hyn a oedd yn digwydd i setliad cyfansoddiadol Cymru. Mae wedi cymryd amser maith inni gyrraedd y pwynt hwn, ond credaf ei bod wedi bod, ac y bydd, yn werth aros. Mae sicrhau bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yr ystod orau o bwerau sydd ar gael i wella bywydau pobl Cymru bob amser wedi bod yn rhan o weledigaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer datganoli.

The idea that the National Assembly and the Welsh Government can make laws and spend money but not control how much tax is collected has always been an anomaly. We are delighted that the Silk commission endorsed that view, and that the coalition Government has accepted the argument to change the constitutional settlement.

Mae'r syniad y gall y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru wneud deddfau a gwario arian, heb reoli faint o dreth sy'n cael ei chasglu, bob amser wedi bod yn anghyson. Rydym yn falch iawn fod comisiwn Silk wedi ategu'r farn honno, a bod y Llywodraeth glymblaid wedi derbyn y ddadl i newid y setliad cyfansoddiadol.

While the Prime Minister and the Deputy Prime Minister had the privilege of making the announcement on Friday, I want to use this opportunity to acknowledge some of the people who have been very active behind the scenes—out of the glare of the media spotlight—in pushing the devolution sttlement forward. They are Jenny Randerson, in the Wales Office, and Danny Alexander, the Chief Secretary to the Treasury, who came to the National Assembly's Finance Committee very early on in this Government and signalled quite clearly that—with consensus among the parties here—he was relaxed about increasing the fiscal autonomy of the Welsh Government. With the help of Liberal Democrats in coalition, I believe that he has done just that.

Er mai Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU a gafodd y fraint o wneud y cyhoeddiad ddydd Gwener, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod rhai o'r bobl sydd wedi bod yn weithgar iawn y tu ôl i'r llenni—allan o lygad sylw'r cyfryngau—o ran bwrw ymlaen â'r setliad datganoli, sef Jenny Randerson, yn Swyddfa Cymru, a Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, a ddaeth i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn gynnar iawn yn y Llywodraeth hon a rhoi arwydd digon clir y byddai—gyda chonsensws ymysg y pleidiau yma—yn fodlon cynyddu ymreolaeth ariannol Llywodraeth Cymru. Gyda chymorth y Democratiaid Rhyddfrydol yn y glymblaid, credaf mai dyna'n union y mae wedi'i wneud.

I also want to acknowledge the contribution of Jane Hutt, the Minister for Finance, who has done more than anybody else on the benches opposite, working so closely with Danny Alexander from this end of the M4. I know that their relationship behind the scenes has been of the utmost importance in getting the Prime Minister and the Deputy Prime Minister to announce what they did on Friday. I think that that should be acknowledged. Danny and Jane, together, have begun to make the advances on changing that unfair Barnett formula, by introducing the Barnett floor. That is, in itself, a significant step forward, in getting the Treasury to acknowledge the principle that Wales is beginning to lose out—is losing out—and that the situation needs to be addressed. Clearly, there is much more to be done on the issue of Barnett.

Hoffwn hefyd gydnabod cyfraniad Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid, sydd wedi gwneud mwy na neb arall ar y meinciau gyferbyn, gan weithio mor agos â Danny Alexander o'r pen hwn i'r M4. Gwn fod eu perthynas y tu ôl i'r llenni wedi bod yn hollbwysig o ran y cyhoeddiad a wnaeth Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU ddydd Gwener. Credaf y dylid cydnabod hynny. Mae Danny a Jane, gyda'i gilydd, wedi dechrau symud ymlaen i newid fformiwla annheg Barnett, drwy gyflwyno terfyn isaf Barnett. Mae hynny, ynddo'i hun, yn gam mawr ymlaen, o ran sicrhau bod y Trysorlys yn cydnabod yr egwyddor bod Cymru'n dechrau bod ar ei cholled—ei bod ar ei cholled—a bod angen ymdrin â'r sefyllfa. Yn amlwg, mae llawer mwy i'w wneud ar fater Barnett.

I also want to take this opportunity to thank Paul Silk for so ably chairing the commission, and all the members who have worked with him on the commission, especially the Welsh Liberal Democrat nominee, Rob Humphreys.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Paul Silk am fod yn gadeirydd mor fedrus ar y comisiwn, ac i'r holl aelodau sydd wedi cydweithio ag ef ar y comisiwn, yn enwedig enwebai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Rob Humphreys.

Although we have secured the agreement of the coalition Government at this point, I think that it is important that—perhaps despite some of our best efforts—we maintain cross-party consensus as we go forward. I know that many people in London were not convinced that there would be a desire in this place for the Silk commission to be formed in the first place, or for its work to be taken forward. Some people were genuinely surprised that four party leaders here in Cardiff could work together quickly and constructively to agree a term a term of reference and to suggest suitable people to carry out that work. I think that there were some people in Westminster, who shall remain nameless, who thought that, by kicking the ball back to Cardiff bay, they would see the end to that small but crucial part of the coalition document. We were able to prove them wrong, because we were able to put our political differences aside and to work together to achieve the terms of reference that allows the Silk commission to go forward.

Er ein bod wedi sicrhau cytundeb y Llywodraeth glymblaid yn awr, credaf ei bod yn bwysig—er gwaethaf rhai o'n hymdrechion gorau, efallai—ein bod yn cynnal consensws trawsbleidiol wrth inni symud ymlaen. Gwn nad oedd llawer o bobl yn Llundain yn argyhoeddedig y byddai awydd yn y lle hwn i ffurfio comisiwn Silk yn y lle cyntaf, nac i'w waith gael ei wneud. Roedd rhai pobl wedi'u synnu'n fawr y gallai arweinwyr y pedair plaid yma yng Nghaerdydd gydweithio â'i gilydd yn gyflym ac yn adeiladol i gytuno ar gylch gorchwyl ac i awgrymu pobl addas i wneud y gwaith hwnnw. Credaf fod rhai pobl yn San Steffan—nid wyf am eu henwi—a oedd yn meddwl y byddent, drwy gicio'r bêl yn ôl i fae Caerdydd, yn gweld diwedd y rhan fach ond hanfodol honno o ddogfen y glymblaid. Rydym wedi llwyddo i brofi eu bod yn anghywir, oherwydd ein bod wedi gallu rhoi ein gwahaniaethau gwleidyddol o'r neilltu a chydweithio i sicrhau'r cylch gorchwyl sy'n caniatáu i gomisiwn Silk fwrw ymlaen.

Devolution and transfer of powers from one legislature to another is not the final goal. Devolution must be a means to an end and a means to driving up improved life chances for people in Wales, better education, first-class healthcare, a cleaner environment and a stronger economy. First Minister, please do not wait until after the next election to get this ball moving. Will you outline today what immediate steps you will take to prepare the Welsh Government for taking on these functions? Will you outline what steps you will take to create a treasury function within the Welsh Government to begin to use these powers? Will you consider convening a business summit to discuss with business how best we can use the borrowing powers to benefit all parts of Wales? Will you reconvene your summit with private sector house builders to begin work and preparation for how best new stamp-duty powers can be used to assist the construction industry and home buyers? Could you also outline how you will keep the Assembly informed of steps that you are taking in preparation for the Welsh Government taking on these powers?

Nid datganoli a throsglwyddo pwerau o un ddeddfwrfa i'r llall yw'r nod terfynol. Mae'n rhaid i ddatganoli fod yn fodd o gyflawni diben ac yn fodd o sicrhau gwell cyfleoedd bywyd i bobl yng Nghymru, gwell addysg, gofal iechyd o'r radd flaenaf, amgylchedd glanach ac economi gryfach. Brif Weinidog, peidiwch da chi ag aros tan ar ôl yr etholiad nesaf i ddechrau'r gwaith hwn. A wnewch chi amlinellu heddiw pa gamau y byddwch yn eu cymryd ar unwaith i baratoi Llywodraeth Cymru i ymgymryd â'r swyddogaethau hyn? A wnewch chi amlinellu pa gamau y byddwch yn eu cymryd i greu swyddogaeth trysorlys o fewn Llywodraeth Cymru i ddechrau defnyddio'r pwerau hyn? A wnewch chi ystyried cynnal uwchgynhadledd busnes i drafod â byd busnes y ffordd orau o ddefnyddio'r pwerau benthyca er budd pob rhan o Gymru? A wnewch chi ailgynnull eich uwchgynhadledd ag adeiladwyr tai yn y sector preifat i ddechrau gweithio a pharatoi at y ffordd orau o ddefnyddio pwerau newydd y dreth stamp i helpu'r diwydiant adeiladu a'r rhai sy'n prynu cartrefi? A wnewch chi hefyd amlinellu sut y byddwch yn rhoi gwybod i'r Cynulliad am gamau yr ydych yn eu cymryd i baratoi i Lywodraeth Cymru ymgymryd â'r pwerau hyn?

15:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

There were several questions there. The work on the establishment of a Welsh treasury has already begun, in advance of the announcement. That was begun some time ago. In terms of borrowing powers, sometimes the impression is given that borrowing powers relate solely to the potential of building an M4 relief road. I was careful last week to emphasise the point that, while that is, perhaps, the scheme that is most mentioned, borrowing powers have to benefit Wales as a whole. I was careful to mention the challenges that we face around Port Talbot in years to come, and, particularly, the A55, especially in relation to the Menai bridges, and what might be done in the future with regard to relieving traffic in that part of Wales. It is, therefore, clearly important that borrowing powers are seen as a tool for improvement across the whole of Wales.

Roedd llawer o gwestiynau yno. Mae'r gwaith i sefydlu trysorlys Cymru eisoes wedi dechrau, cyn y cyhoeddiad. Dechreuwyd hynny beth amser yn ôl. O ran pwerau benthyca, weithiau rhoddir yr argraff bod pwerau benthyca'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r posibilrwydd o adeiladu ffordd liniaru i'r M4. Roeddwn yn ofalus yr wythnos diwethaf i bwysleisio'r pwynt, er mai hwnnw, efallai, yw'r cynllun sy'n cael ei grybwyll amlaf, fod yn rhaid i bwerau benthyca fod o fudd i Gymru gyfan. Roeddwn yn ofalus i sôn am yr heriau sy'n ein hwynebu o ran Port Talbot yn ystod y blynyddoedd i ddod, ac, yn arbennig, yr A55, yn enwedig mewn perthynas â phontydd Menai, a'r hyn y gellid ei wneud yn y dyfodol i leddfu traffig yn y rhan honno o Gymru. Felly, mae'n amlwg yn bwysig fod pwerau benthyca'n cael eu gweld fel arf ar gyfer gwella ar draws Cymru gyfan.

In terms of the question about whether we will continue to work with the house builders, that work has already begun, as I have already mentioned. We will now move forward with looking at options for how stamp duty might be developed in the future. In the past, I have said that we will look at how we can use it to stimulate the construction industry and to help first-time buyers particularly. The reality is that these are matters that will not be possible to implement until after the next Assembly election. Therefore, it is for each party to put proposals in each manifesto in terms of how stamp duty might be taken forward in the future. How will the Assembly be kept informed? The Minister for Finance, as she has always done, will endeavour to do so, mainly, I suspect, by way of written statements, and occasionally of letters, so that the Assembly knows what progress is being made, particularly with regard to the detail of the UK Government's response to the full 33 recommendations of Silk.

O ran y cwestiwn ynghylch a fyddwn yn parhau i weithio gydag adeiladwyr tai, mae'r gwaith hwnnw eisoes wedi dechrau, fel yr wyf eisoes wedi'i grybwyll. Byddwn yn awr yn symud ymlaen i edrych ar opsiynau o ran sut y gellid datblygu'r dreth stamp yn y dyfodol. Yn y gorffennol, rwyf wedi dweud y byddwn yn edrych ar sut y gallwn ei defnyddio i roi hwb i'r diwydiant adeiladu ac i helpu prynwyr tro cyntaf yn enwedig. Y gwir yw bod y rhain yn faterion na fydd yn bosibl eu gweithredu tan ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad. Felly, mae'n fater i bob plaid gyflwyno cynigion ym mhob maniffesto o ran sut y gellid bwrw ymlaen â'r dreth stamp yn y dyfodol. Sut y bydd y Cynulliad yn cael y wybodaeth ddiweddaraf? Bydd y Gweinidog Cyllid, fel y mae hi bob amser wedi ei wneud, yn ymdrechu i wneud hynny, yn bennaf, rwyf yn credu, drwy ddatganiadau ysgrifenedig, ac o bryd i'w gilydd drwy lythyrau, fel bod y Cynulliad yn gwybod pa gynnydd sy'n cael ei wneud, yn enwedig o ran manylion ymateb Llywodraeth y DU i bob un o 33 argymhelliad Silk.

15:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We have had a lead speaker from each party. I remind the rest of the speakers that this is an opportunity to question the First Minister on the statement that he has made today.

Rydym wedi cael siaradwr arweiniol o bob plaid. Atgoffaf weddill y siaradwyr mai cyfle yw hwn i holi'r Prif Weinidog am y datganiad y mae wedi'i wneud heddiw.

15:53 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do not want to spoil the party, but I would like to be little more cautious about what is being proposed. I acknowledge your statement today, where you refer to it as an important signal of intent. It is indeed an important constitutional signal of intent. The first area that I would like you to clarify a little is with regard to the use of borrowing powers. The Secretary of State for Wales's statement seems to imply that borrowing powers might be, to some extent, linked to objectives and priorities of the Wales Office and the UK Government, rather than giving us the freedom to be able to do that. For the record, it is important that we clarify the position, because I see borrowing powers and stamp duty, collectively, as being a potential massive boost to house building. If the leader of the opposition does not trust the Secretary of State for Wales, perhaps we ought to be a bit cautious as well.

Nid wyf am ddifetha'r parti, ond hoffwn fod ychydig yn fwy gofalus am yr hyn sy'n cael ei gynnig. Rwyf yn cydnabod eich datganiad heddiw, lle'r ydych yn cyfeirio at hyn fel arwydd pwysig o fwriad. Mae'n wir yn arwydd cyfansoddiadol pwysig o fwriad. Y maes cyntaf yr hoffwn ichi ei egluro ychydig arno yw defnyddio pwerau benthyca. Mae datganiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru fel petai'n awgrymu y gallai pwerau benthyca, i ryw raddau, fod yn gysylltiedig ag amcanion a blaenoriaethau Swyddfa Cymru a Llywodraeth y DU, yn hytrach nag yn rhoi rhyddid i ni allu gwneud hynny. Ar gyfer y cofnod, mae'n bwysig ein bod yn egluro'r sefyllfa, oherwydd credaf y gallai pwerau benthyca a'r dreth stamp, gyda'i gilydd, fod yn hwb enfawr i adeiladu tai. Os nad yw arweinydd yr wrthblaid yn ymddiried yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, efallai y dylem ni fod braidd yn ofalus hefyd.

The second point is with regard to income tax.

Mae'r ail bwynt yn ymwneud â threth incwm.

15:54 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I raise a point of order?

A gaf i godi pwynt o drefn?

15:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You cannot raise a point of order on a statement.

Ni allwch godi pwynt o drefn ar ddatganiad.

15:54 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The second point is with regard to income tax. I think that there is a potential cul-de-sac. It is absolutely right that we should have the power to trigger such a referendum but, for the foreseeable future, there is very little basis on which the people of Wales and this Assembly would benefit from those. As the Member for Rhondda said, if I were to go to my constituency now and say that we had come up with a good idea for income tax powers to be referred to the Assembly and that we were going to have a referendum, there would be an overwhelming rejection of that. [Interruption.] The issue of income tax is far more important in the post-Scottish referendum position, with a constitutional convention where we were looking at the redistributive role that a reformed and more federal UK Parliament might have as we move forward, where income tax would be a fundamental part of that. That is where the debate on income tax leads, so I think that we have to be very cautious as to how we proceed on that.

Mae'r ail bwynt yn ymwneud â threth incwm. Rwyf yn meddwl ei bod yn bosibl fod hon yn ffordd bengaead. Mae'n hollol deg y dylai fod gennym bŵer i sbarduno refferendwm o'r fath, ond, hyd y gellir rhagweld, ychydig iawn o sail sydd i bobl Cymru a'r Cynulliad hwn i elwa o hynny. Fel y dywedodd Aelod y Rhondda, pe bawn yn mynd i'm hetholaeth i yn awr ac yn dweud ein bod wedi cael syniad da i gyfeirio pwerau treth incwm at y Cynulliad a'n bod yn mynd i gynnal refferendwm, byddai'r mwyafrif llethol yn gwrthod hynny. [Torri ar draws.] Mae treth incwm yn fater llawer pwysicach yn y sefyllfa ar ôl refferendwm yn yr Alban, gyda chonfensiwn cyfansoddiadol lle byddem yn edrych ar y swyddogaeth ailddosbarthu a allai fod gan Senedd y DU a fyddai wedi'i diwygio ac yn fwy ffederal wrth inni symud ymlaen, lle byddai treth incwm yn rhan hanfodol o hynny. Dyna ben draw'r ddadl am dreth incwm, felly rwyf yn meddwl bod yn rhaid inni fod yn ofalus iawn o ran sut yr ydym yn symud ymlaen ar hynny.

15:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

With regard to borrowing powers, we have been informed that we will have access to borrowing generally, but with early access to borrowing with regard to the M4 relief road, should that be a project that the Welsh Government wishes to pursue. It is very similar to the model that exists in Scotland, where, if I remember rightly, access to borrowing for the Forth road bridge was made available before the general borrowing power was devolved.

O ran pwerau benthyca, rydym wedi cael gwybod y bydd benthyca ar gael inni yn gyffredinol, ac y cawn fynediad cynnar at fenthyca o ran ffordd liniaru'r M4, pe bai Llywodraeth Cymru'n dymuno bwrw ymlaen â'r prosiect hwnnw. Mae'n debyg iawn i'r model yn yr Alban, lle, os cofiaf yn iawn, y cynigiwyd mynediad at fenthyca ar gyfer pont ffordd y Forth cyn i'r pŵer benthyca cyffredinol gael ei ddatganoli.

With regard to income tax, I would make two points. First, it is difficult to see what the benefit is to the people of Wales of the devolution of income-tax-varying powers at this moment in time. Secondly, and this is a point that all parties need to ponder, back in 2011 when we had the referendum, all parties were more or less united around the need for us to have legislative powers. In answer to the question as to how those powers would be exercised, all parties inevitably said, 'We will seek to promote primary legislation'. I wonder what would happen to an all-party campaign at this moment. We know that the Welsh Conservatives have said before, and said again, that they would look to reduce income tax in the future, when other parties would say, 'Actually, we would look to increase income tax in the future'. These are questions that would be asked, and answers to those would need to be formulated before any campaign could be taken forward. I just wonder how much unity there could be in a referendum campaign at this moment of time with regard to the other parties. [Interruption.]

O ran treth incwm, carwn wneud dau bwynt. Yn gyntaf, mae'n anodd gweld sut y byddai datganoli pwerau amrywio treth incwm ar hyn o bryd o fudd i bobl Cymru. Yn ail, ac mae hwn yn bwynt y mae angen i bob plaid ei ystyried, yn ôl yn 2011 pan gawsom y refferendwm, roedd pob plaid fwy neu lai'n gytûn bod angen inni gael pwerau deddfwriaethol. Wrth ateb y cwestiwn ynghylch sut y câi'r pwerau hynny eu harfer, roedd yr holl bleidiau'n anorfod yn dweud, 'Byddwn yn ceisio hyrwyddo deddfwriaeth sylfaenol'. Tybed beth fyddai'n digwydd i ymgyrch gan bob plaid ar hyn o bryd? Gwyddom fod Ceidwadwyr Cymru wedi dweud o'r blaen, ac wedi dweud unwaith eto, y byddent yn ceisio lleihau'r dreth incwm yn y dyfodol, ac y byddai pleidiau eraill yn dweud, 'A dweud y gwir, byddem yn ceisio cynyddu treth incwm yn y dyfodol'. Mae'r rhain yn gwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn, a byddai angen llunio atebion iddynt cyn y gallai unrhyw ymgyrch fynd yn ei blaen. Tybed faint o undod a allai fod mewn ymgyrch refferendwm ar hyn o bryd o ran y pleidiau eraill? [Torri ar draws.]

I hear what the leader of Plaid Cymru says about this, but I remind her that, when it comes to finance, her party has a dodgy record. Only two weeks ago, one of her MPs, when a dispute arose between the Treasury and the Welsh Government on whether there was a consequential with regard to HS2, immediately took the side of Westminster against Wales, without even looking at the facts. One of her MPs even asked for the head of the Minister for Finance. Of course, the Welsh Government was correct, the Treasury was not. It is important that Plaid Cymru starts to think of itself more as a Welsh party and not be quite as London-centric as some of its MPs.

Clywaf yr hyn y mae arweinydd Plaid Cymru yn ei ddweud am hyn, ond rwyf yn ei hatgoffa, pan ddaw'n fater o ariannu, fod gan ei phlaid hanes amheus. Dim ond bythefnos yn ôl, bu i un o'i Haelodau Seneddol, pan gododd anghydfod rhwng y Trysorlys a Llywodraeth Cymru ynghylch a oedd cyllid canlyniadol o ran HS2, ochri ar unwaith â San Steffan yn erbyn Cymru, heb hyd yn oed edrych ar y ffeithiau. Gofynnodd un o'i Haelodau Seneddol hyd yn oed am ben y Gweinidog Cyllid. Wrth gwrs, Llywodraeth Cymru oedd yn gywir, nid y Trysorlys. Mae'n bwysig bod Plaid Cymru'n dechrau meddwl amdani ei hun yn fwy fel plaid o Gymru ac yn peidio â bod mor Llundain-ganolog â rhai o'i Haelodau Seneddol.

As far as the Welsh Government is concerned, the mechanism must be there for the people of Wales, but much work needs to be done in terms of thinking about what the consequences of income-tax-varying powers would be.

O ran Llywodraeth Cymru, rhaid i'r mecanwaith fod yno i bobl Cymru, ond mae angen gwneud llawer o waith meddwl am beth fyddai canlyniadau pwerau amrywio treth incwm.

15:58

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rydych wedi sôn sawl gwaith heddiw yn ystod y datganiad, ond hefyd yn ystod eich cwestiynau, ynglŷn â chyllido teg. A wnewch chi fanteisio ar y cyfle i esbonio wrthym beth rydych yn ei olygu wrth gyllido teg? Mae'n amlwg bod adroddiad Holtham wedi gosod beth oedd yn cael ei weld fel cyllido teg bryd hynny yn 2010. Mae'r sefyllfa wedi newid o bosibl ers hynny. Felly, beth yw cyllido teg yn eich tyb chi, a beth ydych chi'n bwriadu ei gyflawni fel Llywodraeth os enillwch chi, fel y Blaid Lafur, yr etholiad i fod yn Llywodraeth yn 2015? Beth bynnag sy'n digwydd yn yr Alban, bydd angen adolygu'r ffordd mae gwledydd Prydain yn cael eu cyllido. Felly, beth yw'r diffiniad o gyllido teg?

First Minister, several times during the statement today, as well as during questions, you have mentioned fair funding. Will you take this opportunity to explain to us what you mean by fair funding? It is clear that the Holtham report set out what was seen as fair funding back in 2010. The situation has, possibly, changed since then. So, what is fair funding in your view, and what would you aim to achieve, as a Government, if the Labour Party won the election in 2015? Whatever happens in Scotland, how the British isles are funded will need to be reviewed. So, what is the definition of fair funding?

O droi at ar ôl 2015, a bwrw bod y Llywodraeth, beth bynnag fo'i natur yn San Steffan, yn cyflwyno cyllido teg, achos dyna beth rydych wedi sôn amdano gymaint, sut y byddech yn gweithredu argymhellion Silk ar ôl hynny? Byddwch yn dal yn Brif Weinidog am o leiaf flwyddyn ar ôl hynny. Beth fyddai'r posibiliadau o fynd ar hyd llwybr datganoli treth incwm? Rydym wedi clywed heddiw am bwysigrwyddd treth incwm i atebolrwydd. Beth am y posibiliadau o gryfhau'r economi drwy amrywio a defnyddio'r dreth incwm? Beth yw'r posibiliadau rydych chi'n eu hystyried fel Llywodraeth sydd ar agor i unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol o gwmpas treth incwm yn y cyd-destun hwnnw? Yn olaf, os yw'n ddymuniad gan fwyafrif y Senedd hon i fwrw ymlaen gyda refferendwm, ac os yw'n digwydd bod bod yn rhaid cael 'trigger'—o ryw ddwy ran o dair neu beth bynnag yw'r penderfyniad ynglŷn â hynny—a wnewch sicrhau na fydd Aelodau ar eich beinciau cefn yn rhwystro dymuniad mwyafrif y Cynulliad?

Turning to the situation post 2015, and assuming that the Government, of whatever colour, in Westminster introduces fair funding, because that is what you have said many times, how would you implement the Silk recommendations after that? You will still be First Minister for at least a year after that. What would be the possibilities in terms of taking the route of devolving income-tax-varying powers? We have heard today of the importance of income tax in relation to accountability. What about the potential for strengthening the economy by varying and using income tax? What possibilities do you as a Government think will be open to any future Government around income tax in that context? Finally, is there is a majority in this Senedd to move forward with a referendum, and if it happens that there has to be a trigger—be that two thirds or whatever the decision is—would you ensure that your backbench Members would not preclude the majority wish of the Assembly?

16:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Roedd nifer o'r cwestiynau hynny yn dechrau gyda'r gair 'os'. Y pwynt yw, wrth gwrs, bod lot o bethau nad ydym yn gwybod eto. Ynglŷn â chyllido teg, yr ateb yw hwn: dylai gyllido pob rhan o'r Deyrnas Unedig gael ei wneud ar sylfaen o degwch ac angen. Nid yw Barnett yn gwneud hynny. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n siŵr bod sawl plaid yn ei hystyried—a'n plaid ni hefyd, wrth gwrs. Rydym i gyd yn deall na all Barnett barhau am byth, nac, yn fy marn i, am sawl blwyddyn i ddod. Fy marn i am Gymru yw y dylem gael bwlch Holtham, os allaf gyfeirio ato fel hynny, a dylai hynny cael ei ddelio ag ef. Fodd bynnag, gan edrych tu hwnt i Gymru, mae'n bwysig dros ben cael system gyllido deg dros y Deyrnas Unedig. Rwy'n siŵr y bydd pob plaid, hyd yn oed fy mhlaid i, yn dweud hynny yn ei maniffesto.

Many of those questions began with the word 'if'. The point, of course, is that there are lot of things that we do not know yet. In terms of fair funding, the answer is this: the funding of all parts of the UK should be done on the basis of fairness and need. Barnett does not do that. That is something that I am sure that many parties are considering—as well as our party, of course. We all understand that Barnett cannot continue for ever, nor, in my view, for many years to come. My opinion in terms of Wales is that we should have the Holtham gap, if I can call it that, and that should be dealt with. However, looking outside of Wales, it is very important to have a fair funding system across the UK. I am sure that all parties, even my party, says that in their manifesto.

Ynglŷn â Silk, mae'n anodd iawn gwybod ar hyn o bryd beth fydd argymhellion Silk. Rwy'n siŵr, flwyddyn nesaf, y byddwn yn trafod argymhellion rhan 2 Silk. Bydd gan bob plaid farn ar hynny, ac mae'n bwysig dros ben ein bod yn ystyried hynny bryd hynny.

In terms of Silk, it is very difficult at present to know what the Silk recommendations will be. I am sure, next year, we will be discussing Silk part 2 recommendations. All parties will have an opinion on that, and it is very important that we consider that at that time.

Gofynnwyd pa bosibiliadau sydd i gryfhau'r economi drwy ddefnyddio treth incwm, ac, ynglŷn â'r pwerau y dywedwyd y gellir eu datganoli i Gymru, yr ateb, i fi, yw: nid oes llawer ohonynt. A dweud y gwir, nid yw'r Torïaid a'r Rhyddfrydwyr yn dweud hynny ychwaith. Yr unig beth sydd wedi cael ei ddweud ganddynt o blaid datganoli treth incwm yw ei bod yn sicrhau cyfrifoldeb ariannol y Llywodraeth. Mae hynny'n farn deg, efallai, yn fy marn i, ond nid wyf yn credu bod neb, hyd yn oed Plaid Cymru, wedi dweud dim ynglŷn ag ym mha ffordd y gall treth incwm gael ei ddefnyddio o dan y rheolau hyn i gryfhau economi Cymru. Petai hynny'n digwydd, buaswn yn falch dros ben i glywed pa fath o syniadau sydd ganddynt. Mae lot o gwestiynau wedi cael eu cyfeirio ataf, sydd ond yn deg, ynglŷn â'r hyn fyddai'n yn digwydd yn y dyfodol. Beth, felly, y byddai Plaid Cymru yn ei wneud gyda'r pwerau hynny ynglŷn â threth incwm? Mae hynny'n rhan o drafodaeth deg yn y dyfodol.

It has been asked what possibilities exist to strengthen the economy by using income tax, and, in terms of the powers it has been said could be devolved to Wales, the answer, for me, is: not a lot. In truth, the Tories and the Liberal Democrats are not saying that either. The only thing that has been said by them in favour of the devolution of income tax is that it ensures the fiscal responsibility of Government. That is a fair opinion, perhaps, in my view, but I do not think that anyone, not even Plaid Cymru, has said anything about how income tax could be used under these rules to strengthen the economy of Wales. If that were to happen, I would be very pleased to hear what kind of ideas they have. Lots of questions have been asked of me, which is only fair, regarding what would happen in future. What, therefore, would Plaid Cymru do with those powers in relation to income tax? That is part of a fair discussion in future.

Ynglŷn â'r cwestiynau eraill ynghylch yr hyn fyddai'n digwydd pe byddai gwahanol bethau yn digwydd yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni ystyried y rheiny pan fydd y sefyllfa yn dod. Fodd bynnag, rwyf wedi sicrhau bod pobl yn gwybod yn blwmp ac yn blaen beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Unwaith eto, nid wyf yn credu ei fod yn beth call i ddweud y dylem osgoi sicrhau bod Cymru yn cael system iawn a theg o gyllido a meddwl bod hynny'n rhyw beth hollol annibynnol ar y mater o dreth incwm. Yn fy marn i, mae'r ddau ynghlwm.

As regards the other questions about what would happen if various things were to happen in future, we have to consider those when the situation arises. However, I have ensured that people know clearly what the point of view of the Welsh Government is at present. Once again, I do not think it is sensible to say that we should avoid ensuring that Wales has a proper and fair system of funding and to think that that is something completely separate from the question of income tax. In my opinion, both are tied together.

16:03 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement. As credit is being given out, I think it would be remiss not to give credit to the First Minister for his tenacity in promoting this issue over a very long time.

Rwyf yn croesawu'r datganiad. Gan fod clod yn cael ei roi, rwyf yn credu y byddai'n drueni peidio â rhoi clod i'r Prif Weinidog am ei ddycnwch wrth hyrwyddo'r mater hwn dros gyfnod hir iawn.

I share the First Minister's disappointment regarding the failure to support the devolution of air passenger duty. I have two questions. Is there any reason why borrowing using Welsh Development Agency powers without a reduction in capital grant cannot be done immediately, and will it be possible to borrow from the Public Works Loan Board in order to do it? On income tax, it is a highly variable tax. We know that, between 2007-08 and 2010-11, it varied by £300 million in Wales. If income tax is devolved, we would need borrowing powers for revenue expenditure to deal with any shortfalls that occur unexpectedly. Scotland had the power to vary income tax and even the SNP did not use it. Does the First Minister agree that there would need to be an income tax floor to protect against outside events beyond the control of the Welsh Government that could affect the amount of income tax that came in? I am old enough to be an ex-steelworker, and the loss of steelworks in Wales caused the loss of lots of jobs and affected the Welsh income tax take by about £150 million in today's money.

Rwyf yn rhannu siom y Prif Weinidog ynghylch y methiant i gefnogi datganoli'r doll teithwyr awyr. Mae gennyf ddau gwestiwn. A oes unrhyw reswm pam nad yw'n bosibl benthyca ar unwaith gan ddefnyddio pwerau Awdurdod Datblygu Cymru heb ostyngiad yn y grant cyfalaf, ac a fydd modd benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus er mwyn gwneud hynny? Mae treth incwm yn dreth amrywiol iawn. Rydym yn gwybod iddi amrywio £300 miliwn yng Nghymru rhwng 2007–08 a 2010–11. Os caiff treth incwm ei datganoli, bydd arnom angen pwerau benthyca ar gyfer gwariant refeniw i ymdrin ag unrhyw ddiffygion annisgwyl. Roedd gan yr Alban bŵer i amrywio treth incwm ac ni wnaeth hyd yn oed yr SNP ei ddefnyddio. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y byddai angen terfyn isaf treth incwm i amddiffyn yn erbyn digwyddiadau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru a allai effeithio ar faint o dreth incwm a ddaw i mewn? Rwyf yn ddigon hen i fod yn gyn weithiwr dur, a phan gafodd gwaith dur ei golli yng Nghymru, collwyd llawer o swyddi gan ostwng cyfanswm treth incwm Cymru tua £150 miliwn yn arian heddiw.

16:04

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are important questions there. First, with regard to the WDA borrowing powers, there seems to be no reason why those borrowing powers could not be used, as long as the Treasury was prepared to disregard a certain amount every year and there being an annual overall limit in terms of the capital clawback that it would put in place if we did try to use them. In fairness, the discussions that I had last week with the Prime Minister and the Deputy Prime Minister made it clear that, in order to deliver the full package on Silk that they were prepared to deliver, it would happen through a mixture of primary and secondary legislation. It does not need one Bill to do it. Some could be done through a finance Bill, some could be done through a letter, possibly, and some could be done through secondary legislation through a simple transfer of functions. Understanding how these things work together will be important over the course of the next few weeks. Yes, we could borrow from the Public Works Loan Board. We need to get the best rates, and that means being able to have that option before us.

Mae cwestiynau pwysig yno. Yn gyntaf, o ran pwerau benthyca Awdurdod Datblygu Cymru, nid yw'n ymddangos bod unrhyw reswm pam na ellid defnyddio'r pwerau benthyca hynny, cyhyd â bod y Trysorlys yn barod i ddiystyru swm penodol bob blwyddyn a bod terfyn cyffredinol blynyddol o ran yr adfachu cyfalaf y byddai'n ei roi ar waith pe baem yn ceisio eu defnyddio. A bod yn deg, roedd y trafodaethau a gefais yr wythnos diwethaf â Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU yn ei gwneud yn glir, er mwyn cyflwyno'r pecyn Silk llawn yr oeddent yn barod i'w gyflwyno, y byddai'n digwydd drwy gymysgedd o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Nid oes angen un Bil i wneud hynny. Gellid gwneud rhywfaint drwy Fil cyllid, rhywfaint drwy lythyr, o bosibl, a rhywfaint drwy is-ddeddfwriaeth drwy drosglwyddo swyddogaethau. Bydd yn bwysig yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf deall sut y mae'r pethau hyn yn gweithio gyda'i gilydd. Gallem, gallem fenthyg gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Mae angen inni gael y cyfraddau gorau, ac mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r dewis hwnnw fod ar gael inni.

I think what the Member has done is illustrate the work that needs to be done in order to consider the issue of income tax. Yes, it is true to say that there is variation in stamp duty. There is less variation in terms of landfill tax, but the variation in terms of income for the Government that could occur through income tax is quite substantial. That would mean putting in place people who can look to forecast what the tax take would be from year to year and putting in place the personnel to assess what any Government would need to do on an annual basis in terms of its financial arrangements based on the income tax take. That would take a little time to put in place, clearly. It is right to say that any tax is variable, but income tax, potentially, because of the sheer size of the pot in terms of the devolution of income tax, would leave any Government particularly vulnerable if there were to be a substantial drop in the number of people paying that income tax.

Rwyf yn credu mai'r hyn y mae'r Aelod wedi ei wneud yw dangos y gwaith y mae angen ei wneud er mwyn ystyried mater treth incwm. Ydy, mae'n wir dweud bod amrywiaeth yn y dreth stamp. Mae llai o amrywiaeth yn y dreth tirlenwi, ond mae'r amrywiaeth o ran incwm i'r Llywodraeth a allai ddigwydd drwy'r dreth incwm yn eithaf sylweddol. Byddai hynny'n golygu bod â phobl sy'n gallu ceisio rhagweld beth fyddai'r incwm o drethi o flwyddyn i flwyddyn a sicrhau bod y personél gennym i asesu beth y byddai angen i unrhyw Lywodraeth ei wneud yn flynyddol o ran ei threfniadau ariannol yn seiliedig ar y dreth incwm a gesglir. Byddai'n cymryd tipyn o amser i roi hynny ar waith, yn amlwg. Mae'n wir dweud bod unrhyw dreth yn amrywio, ond byddai treth incwm, o bosibl, oherwydd maint y pot o ran datganoli treth incwm, yn gadael unrhyw Lywodraeth yn arbennig o agored i niwed pe bai gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n talu'r dreth incwm honno.

16:06 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you talked earlier about your disappointment that air passenger duty was not going to be subject to devolution to the National Assembly for Wales. In a personal capacity, I fully support the devolution of air passenger duty to the National Assembly. However, the very fact that it is not going to be devolved in the shorter term does not prevent you, as a Welsh Government, from making grants available to airlines, et cetera, in order to have the impact of mitigating air passenger duty, if that is what you wanted to do, for example, in order to get North American flights in and out of Cardiff and to expand that base. What consideration might you give to looking at that as a model to improve the prospects of Cardiff Airport, now that it is Government owned, and to potentially diverting the cash that you are giving to the north-south air link to that as an option?

Brif Weinidog, soniasoch yn gynharach eich bod yn siomedig na fyddai'r doll teithwyr awyr yn cael ei datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn bersonol, rwyf yn llwyr gefnogi datganoli'r doll teithwyr awyr i'r Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith nad yw'n mynd i gael ei datganoli yn y tymor byr yn eich atal chi, yn Llywodraeth Cymru, rhag sicrhau bod grantiau ar gael i gwmnïau hedfan, ac ati, er mwyn lliniaru'r doll teithwyr awyr, os dyna yr hoffech ei wneud, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod awyrennau'n teithio o Ogledd America i Gaerdydd ac yn ôl ac i ehangu'r sylfaen honno. Pa ystyriaeth y gallech ei rhoi i edrych ar hynny fel model i wella rhagolygon Maes Awyr Caerdydd, yn awr bod y Llywodraeth yn berchen arno, ac o bosibl i ddargyfeirio'r arian yr ydych yn ei roi i'r cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de at hynny?

16:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are not looking to get rid of the north-south air link. That would mean, inevitably, the closure of Anglesey Airport, among other things. So, that is not on the agenda at this moment in time. What the Member has described in terms of grants to airlines is a classic example of state aid, and could not be done. There are ways of doing it through public service obligations—we had the route development fund in the past. However, the real way to attract sustainable routes to any airport is to ensure that the airport is seen as a place that is growing and that offers an attractive package to airlines. Cardiff Airport has increased its passenger numbers by 8% compared with this time last year. It has four new ski routes—the most ever in its history—and exciting plans are in place on behalf of the company running the airport to develop the airport's fabric. One of the main reasons why the airport had such a problem was because, when you arrived there, so many things seemed to be peeling off the walls. The owners were simply not putting the money in in terms of the fabric of the terminal building.

Nid ydym yn bwriadu cael gwared ar y cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de. Byddai hynny, yn anochel, yn golygu cau Maes Awyr Môn, ymhlith pethau eraill. Felly, nid yw hynny ar yr agenda ar hyn o bryd. Mae'r hyn y mae'r Aelod wedi'i ddisgrifio o ran grantiau i gwmnïau hedfan yn enghraifft dda o gymorth gwladwriaethol, ac ni ellid ei wneud. Mae ffyrdd o wneud hyn drwy rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus—cawsom y gronfa datblygu llwybrau yn y gorffennol. Fodd bynnag, y ffordd orau o ddenu llwybrau cynaliadwy i unrhyw faes awyr yw sicrhau bod y maes awyr yn cael ei ystyried yn lle sy'n tyfu ac sy'n cynnig pecyn deniadol i gwmnïau awyrennau. Mae nifer teithwyr Maes Awyr Caerdydd wedi cynyddu 8% o gymharu â'r adeg hon y llynedd. Mae ganddo bedwar llwybr sgïo newydd—y nifer mwyaf erioed yn ei hanes—ac mae cynlluniau cyffrous ar waith gan y cwmni sy'n rhedeg y maes awyr i ddatblygu adeiladwaith y maes awyr. Un o'r prif resymau pam yr oedd gan y maes awyr gymaint o broblem oedd eich bod yn cyrraedd yno a'i bod yn ymddangos bod llawer o bethau'n pilio oddi ar y waliau. Yn syml, nid oedd y perchnogion yn gwario ar adeiladwaith y derfynfa.

Air passenger duty would have been a very useful tool for us, particularly for long-haul routes, as the Member has said, in fairness. It probably raises less than £1 million a year in Wales and we could make a substantial cut to that tax without there being an unacceptable financial penalty in terms of the Government's finances. Sadly, that is not something we can take forward, certainly not in the near future, but I would hope to see that devolved in time. There are examples of where that has been done—in Northern Ireland in particular.

Byddai'r doll teithwyr awyr wedi bod yn arf defnyddiol iawn inni, yn enwedig ar gyfer teithiau hir, fel y dywedodd yr Aelod, a bod yn deg. Mae'n debyg ei bod yn codi llai na £1 miliwn y flwyddyn yng Nghymru a gallem dorri'r dreth honno'n sylweddol heb i hynny fod yn gosb ariannol annerbyniol i gyllid y Llywodraeth. Yn anffodus, nid yw hynny'n rhywbeth y gallwn fwrw ymlaen ag ef, yn sicr nid yn y dyfodol agos, ond byddwn yn gobeithio gweld datganoli hynny rywbryd. Mae enghreifftiau o lle mae hynny wedi digwydd—yng Ngogledd Iwerddon yn arbennig.

16:09 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Point of order. In the Member for Pontypridd's contribution, he stated that I did not trust the Secretary of State for Wales. Under Standing Order 13.9(v), I think that that is the wrong type of language. If he has evidence to prove that remark, then fine, fair enough. If not, it needs to be withdrawn and removed from the record, because that is the type of language that should not be permitted, I would suggest, in this legislature.

Pwynt o drefn. Yng nghyfraniad Aelod Pontypridd, dywedodd nad oeddwn yn ymddiried yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru. O dan Reol Sefydlog 13.9(v), credaf fod hynny'n fath anghywir o iaith. Os oes ganddo dystiolaeth i brofi'r sylw hwnnw, iawn, digon teg. Os nad oes, mae angen ei dynnu'n ôl a'i dynnu oddi ar y cofnod, oherwydd dyna'r math o iaith na ddylid ei ganiatáu, byddwn yn awgrymu, yn y ddeddfwrfa hon.

16:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not accept that as a point of order, but your point is on the record.

Nid wyf yn derbyn hynny fel pwynt o drefn, ond mae eich pwynt ar y cofnod.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:09.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:09.*

16:10

# Datganiad: Cynnydd o ran Troi Tai'n Gartrefi

# Statement: Progress on Houses into Homes

Senedd.tv Fideo Video

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

I am delighted to have the opportunity to provide an up-to-date statement about the Houses into Homes interest-free loan scheme.

Rwyf yn falch iawn o gael cyfle i roi datganiad ar y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun benthyca di-log Troi Tai'n Gartrefi.

Empty homes are a wasted resource, but they also represent a potential opportunity to provide additional accommodation to those in housing need. With a little effort, advice and help, owners of empty properties can be guided through the process of bringing them back into use as much needed good quality homes. There is no universal solution to bringing empty properties back into use. Local authorities already employ a wide range of tools available to them to help achieve this, from simple coaxing and persuasion to the final straw of a compulsory purchase order, or an empty dwelling management order. Many things can be done in between these extremes. It is clear that, at this moment in time especially, access to finance is a major reason for properties lying empty.

Mae cartrefi gwag yn wastraff adnoddau, ond maent hefyd yn gyfle posibl i ddarparu llety ychwanegol i bobl mewn angen o ran tai. Gydag ychydig o ymdrech, cyngor a chymorth, gellir arwain perchnogion eiddo gwag drwy'r broses o ailddechrau eu defnyddio fel cartrefi o ansawdd da y mae eu hangen yn fawr. Nid oes ateb cyffredinol i ailddechrau defnyddio eiddo gwag. Mae awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio ystod eang o offer sydd ar gael iddynt i helpu i wneud hyn, o gymell a pherswâd syml i ddewis olaf y gorchymyn prynu gorfodol, neu orchymyn rheoli anheddau gwag. Gellir gwneud llawer o bethau rhwng yr eithafion hyn. Mae'n amlwg, yn enwedig ar hyn o bryd, fod mynediad at gyllid yn un o'r prif resymau pam mae eiddo'n aros yn wag ar hyn o bryd.

Houses into Homes was introduced by this Welsh Labour Government in 2012-13 as a £5 million pan-Wales interest-free loans scheme for people who owned empty properties but did not have access to funds to repair and renovate the properties to enable them to be sold or rented. Interest in the scheme was very high from the very start. A further £5 million was made available in 2012-13, and £10 million was also made available this financial year, meaning that there is currently £20 million available, on a recyclable basis, for bringing empty properties back into use.

Cafodd Troi Tai'n Gartrefi ei gyflwyno gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru yn 2012–13 fel cynllun benthyciadau di-log gwerth £5 miliwn i Gymru gyfan i bobl a oedd yn berchen ar eiddo gwag, ond nad oedd modd iddynt gael arian i atgyweirio ac adnewyddu'r eiddo er mwyn eu galluogi i'w werthu neu ei rentu. Bu llawer iawn o ddiddordeb yn y cynllun o'r cychwyn cyntaf. Rhyddhawyd £5 miliwn arall yn 2012–13, a rhyddhawyd £10 miliwn hefyd yn y flwyddyn ariannol hon, sy'n golygu bod £20 miliwn ar gael ar hyn o bryd, ar sail ailgylchadwy, i ailddechrau defnyddio eiddo gwag.

At the end of October, over £12 million had been paid to local authorities on the basis of applications to bring back into use at least 550 units of accommodation. We are well on course to get the £20 million distributed to local authorities to provide loans by the end of the financial year. Based on the average amounts of loans paid so far, this should provide the means to bring at least 900 units of accommodation back into use. That is without taking into account the money that is repaid and recycled back into the fund for further loans.

Dediwedd mis Hydref, roedd dros £12 miliwn wedi ei dalu i awdurdodau lleol ar sail ceisiadau i ailddechrau defnyddio o leiaf 550 o unedau llety. Rydym ar y trywydd iawn i ddosbarthu'r £20 miliwn i awdurdodau lleol i ddarparu benthyciadau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn seiliedig ar symiau cyfartalog y benthyciadau a dalwyd hyd yma, dylai hyn fod yn fodd o ailddechrau defnyddio o leiaf 900 o unedau llety. Mae hynny heb ystyried yr arian sy'n cael ei ad-dalu a'i ailgylchu'n ôl i'r gronfa ar gyfer benthyciadau pellach.

As a loan recipient has a maximum repayment period of two years if the property is sold, or three years if the property is let, the main bulk of the money already distributed for loans is not yet due for repayment. Even so, I am aware that some loans have been repaid early, often in anticipation of receiving a further loan to complete work on another empty property. That, to me, is testament to the popularity and success of the scheme.

Mae'r sawl sy'n derbyn benthyciad yn cael hyd at ddwy flynedd i'w ad-dalu os caiff yr eiddo ei werthu, neu dair blynedd os caiff yr eiddo ei osod, felly nid yw'r rhan fwyaf o'r arian sydd eisoes wedi'i ddosbarthu ar gyfer benthyciadau wedi'i ad-dalu eto. Er hynny, gwn fod rhai benthyciadau wedi'u had-dalu'n gynnar, yn aml wrth ddisgwyl cael benthyciad pellach i gwblhau gwaith ar eiddo gwag arall. Mae hynny, i mi, yn tystio i boblogrwydd a llwyddiant y cynllun.

From the very beginning of Houses into Homes, we wanted to ensure that the whole process was robustly evaluated. A team from Sheffield Hallam University won the contract to run a three-year evaluation programme. The reports published so far have been shared with colleagues, and the findings published so far have been very favourable. Although it is still early days in terms of the numbers of homes that have been physically brought back into use, there are a number of associated benefits that have been picked by this research programme.

O gychwyn cyntaf Troi Tai'n Gartrefi, roeddem yn awyddus i sicrhau bod yr holl broses yn cael ei gwerthuso'n gadarn. Enillodd tîm o Brifysgol Sheffield Hallam y contract i gynnal rhaglen werthuso dair blynedd. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd hyd yma wedi eu rhannu â chyd-weithwyr, ac mae'r canfyddiadau a gyhoeddwyd hyd yma wedi bod yn ffafriol iawn. Er ei bod yn gynnar o hyd o ran nifer y cartrefi sy'n dechrau cael eu defnyddio eto'n ffisegol, mae'r rhaglen ymchwil hon wedi sylwi ar nifer o fanteision cysylltiedig.

First and foremost is the effect that Houses into Homes has had on local authorities. For some, it is fair to say that empty homes were not seen as a priority. Experience of dealing with empty homes varied widely between different areas. Some authorities did not even have a dedicated empty homes officer. Since the start of Houses into Homes, every local authority now has at least one dedicated empty homes officer, and others have seen their empty homes teams grow. The scheme has helped many to raise the profile of tackling empty homes within local government administrations. Local authorities have also reported more freedom in being able to target the money at where it is needed most in their areas, both regionally and locally. This has allowed them to target other strategic priority areas including regeneration, public health, homelessness, affordable housing and training and employment.

Y fantais gyntaf a'r fantais bennaf yw effaith Troi Tai'n Gartrefi ar awdurdodau lleol. I rai, mae'n deg dweud nad oeddent yn ystyried bod cartrefi gwag yn flaenoriaeth. Roedd profiadau o ymdrin â chartrefi gwag yn amrywio'n fawr o ardal i ardal. Nid oedd swyddog cartrefi gwag pwrpasol gan rai awdurdodau hyd yn oed. Ers dechrau Troi Tai'n Gartrefi, mae gan bob awdurdod lleol o leiaf un swyddog cartrefi gwag pwrpasol, ac mae timau cartrefi gwag awdurdodau eraill wedi tyfu. Mae'r cynllun wedi helpu llawer ohonynt i godi proffil y gwaith o ymdrin â chartrefi gwag o fewn gweinyddiaethau llywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi dweud bod mwy o ryddid ganddynt o ran gallu targedu'r arian yn y mannau lle mae ei angen fwyaf yn eu hardaloedd, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae hyn wedi eu galluogi i dargedu meysydd blaenoriaeth strategol eraill gan gynnwys adfywio, iechyd y cyhoedd, digartrefedd, tai fforddiadwy a hyfforddiant a chyflogaeth.

Before Houses into Homes was launched, a steering group was set up to oversee the introduction and running of the scheme. Membership includes representatives from the six regional groups, the Welsh Local Government Association and Welsh Government officials. As time has passed, the group has evolved organically to extend its remit further than simply Houses into Homes and into an empty homes steering group covering a number of relevant issues relating to the empty property agenda. The steering group was responsible for the inception of the very first all-Wales empty homes conference, which takes place tomorrow.

Cyn lansio Troi Tai'n Gartrefi, cafodd grŵp llywio ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno a chynnal y cynllun. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe grŵp rhanbarthol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru. Dros amser, mae'r grŵp wedi datblygu'n organig i ymestyn ei gylch gwaith ymhellach na dim ond Troi Tai'n Gartrefi ac wedi troi'n grŵp llywio cartrefi gwag sy'n cwmpasu nifer o faterion perthnasol sy'n ymwneud â'r agenda eiddo gwag. Y grŵp llywio oedd yn gyfrifol am gychwyn cynhadledd cartrefi gwag gyntaf Cymru gyfan, a gynhelir yfory.

Probably the biggest benefit seen to date is as a result of regional working. Local authorities have reported that, as a result of setting up regional collaborative groups for Houses into Homes, the knowledge sharing and support that they have been able to offer each other has been invaluable.

Mae'n debyg bod y budd mwyaf a welwyd hyd yma wedi digwydd yn sgil gweithio rhanbarthol. Mae awdurdodau lleol wedi dweud eu bod wedi gallu rhannu gwybodaeth a chefnogaeth amhrisiadwy â'i gilydd yn sgil sefydlu grwpiau cydweithredol rhanbarthol ar gyfer Troi Tai'n Gartrefi.

I have been lucky enough to see first-hand what Houses into Homes can do for communities. This year, I made a visit to a development in Torfaen and one in Flint. In both cases, the properties were long-term empty, and were a real blight on the surrounding areas, even affecting the house prices of neighbouring properties. I spoke to the owners, developers, local councillors and people who lived locally, and the general feeling was one of amazement at the difference that a little bit of financial help could provide to make their area look and generally feel better. After seeing first-hand what Houses into Homes can do, I believe that this Government can be rightly proud of this innovative scheme to date.

Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i weld o lygad y ffynnon yn hyn y mae Troi Tai'n Gartrefi yn gallu ei wneud i gymunedau. Eleni, bûm ar ymweliad â datblygiad yn Nhorfaen ac un yn y Fflint. Yn y naill a'r llall, roedd yr eiddo'n wag ers amser maith, ac yn falltod gwirioneddol ar yr ardaloedd o'u cwmpas, a hyd yn oed yn effeithio ar brisiau tai eiddo cyfagos. Siaradais â'r perchnogion, y datblygwyr, y cynghorwyr lleol a'r bobl a oedd yn byw'n lleol, a'r teimlad cyffredinol oedd syndod at y gwahaniaeth y gallai ychydig o gymorth ariannol ei wneud o ran gwneud i'w hardal edrych yn well a theimlo'n well yn gyffredinol. Ar ôl gweld drosof fy hun yr hyn y gall Troi Tai'n Gartrefi ei wneud, credaf y gall y Llywodraeth hon fod yn haeddiannol falch o'r cynllun arloesol hwn hyd yma.

16:15 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for your statement and the update on the progress of the scheme. Clearly, I agree that we need to turn as many empty dwellings into homes as possible as part of the solution to the housing supply crisis, waiting lists and overcrowding in Wales.

Diolch yn fawr iawn am eich datganiad a'r newyddion diweddaraf am hynt y cynllun. Yn amlwg, cytunaf fod angen inni droi cynifer â phosibl o anheddau gwag yn gartrefi, fel rhan o'r ateb i'r argyfwng cyflenwad tai, y rhestrau aros a'r gorlenwi yng Nghymru.

Your predecessors have always started their equivalent statements by telling us how many empty properties they believed there were in Wales. I believe that last year the figure was 23,000, although the BBC claimed 9,000 more and, certainly, anecdotally, local authorities have indicated to me that the figure could be higher. Therefore, I wonder whether you have an indicative figure of the properties affected.

Roedd eich rhagflaenwyr i gyd yn dechrau eu datganiadau cyfatebol drwy ddweud wrthym faint o eiddo gwag a oedd yng Nghymru yn eu tyb hwy. Credaf mai 23,000 oedd y ffigur y llynedd, er bod y BBC yn honni 9,000 yn fwy ac, yn sicr, yn anecdotaidd, mae awdurdodau lleol wedi dweud wrthyf y gallai'r ffigur fod yn uwch. Felly, tybed a oes gennych ffigur dangosol ar gyfer yr eiddo yr effeithir arno?

What general restrictions are being placed on the use of properties that receive support through this scheme, namely a restriction on occupancy by social tenants or intermediate rent tenants for given periods of time, and to what extent is this being standardised, or are we seeing a pepper-pot approach?

Pa gyfyngiadau cyffredinol sy'n cael eu gosod ar ddefnyddio eiddo sy'n cael cymorth drwy'r cynllun hwn, sef cyfyngiad ar ddeiliadaeth gan denantiaid cymdeithasol neu denantiaid rhent canolradd am gyfnodau penodol, ac i ba raddau y mae hyn yn cael ei safoni, ynteu a ydym yn gweld dull pot pupur?

In terms of the application process, I have had some concerns raised in certain areas that it has been more bureaucratic and costly than in other areas. Are you aware of this and have you looked at good practice in those local authorities that appear to be having the greatest support and success rates through to completion against those that perhaps might be seeing a greater fall-off among applicants or lower application rates? You are quite right that there is no universal solution to bringing empty properties back into use, and you will be aware that, in the past, I and others have highlighted the good practice established by Denbighshire, when it won awards for generating more empty homes back into use than any other county in Wales and, I believe, in England as well, by working closely with owners to bring properties back into use, recognising that every home has a story to tell. Alongside this—it was doing that before this scheme was launched—how are you encouraging and supporting local authorities and empty homes officers to take a whole-person approach to reaching out and putting support in place, and using enforcement only as a final action?

O ran y broses ymgeisio, mae rhai pryderon wedi eu codi â mi mewn rhai ardaloedd ei bod wedi bod yn fwy biwrocrataidd a chostus nag mewn ardaloedd eraill. A ydych yn ymwybodol o hyn ac a ydych wedi edrych ar arfer da yn yr awdurdodau lleol hynny y mae'n ymddangos eu bod yn cael y gefnogaeth fwyaf a'r cyfraddau llwyddiant gorau hyd at eu cwblhau o'u cymharu â'r rhai a all fod o bosibl yn gweld mwy o ymgeiswyr yn gadael y broses neu gyfraddau ymgeisio is? Rydych yn llygad eich lle nad oes un ateb cyffredinol i ailddechrau defnyddio eiddo gwag, a gwyddoch fy mod i ac eraill, yn y gorffennol, wedi tynnu sylw at yr arfer da a sefydlwyd gan sir Ddinbych, pan enillodd wobrau am ailddechrau defnyddio mwy o gartrefi gwag nag unrhyw sir arall yng Nghymru ac, yr wyf yn meddwl, yn Lloegr hefyd, drwy gydweithio'n agos â pherchnogion i ailddechrau defnyddio eiddo, gan gydnabod bod gan bob cartref stori i'w hadrodd. Ochr yn ochr â hyn—roedd yn gwneud hynny cyn i'r cynllun hwn gael ei lansio—sut ydych chi'n annog ac yn cefnogi awdurdodau lleol a swyddogion cartrefi gwag i gymryd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn cyfan tuag at estyn allan a sicrhau bod cymorth ar gael, a defnyddio gorfodaeth fel dewis olaf yn unig?

Finally, in terms of proposals to vary council tax rates for empty homes, similarly, how will you ensure sensitivity to individual circumstances, for instance bereaved persons who may be finding it very difficult to go into the property or tackle the empty home that they may have inherited, or even to settle disputes that they may have with other relatives at a time that is so difficult for all of us?

Yn olaf, o ran cynigion i amrywio cyfraddau'r dreth gyngor ar gyfer cartrefi gwag, yn yr un modd, sut y byddwch yn sicrhau sensitifrwydd i amgylchiadau unigol, er enghraifft, pobl a gafodd brofedigaeth a allai fod yn ei chael yn anodd iawn mynd i mewn i'r eiddo neu ymdrin â'r cartref gwag y gallent fod wedi'i etifeddu, neu hyd yn oed i ddatrys anghydfodau a allai fod rhyngddynt a pherthnasau eraill ar adeg sydd mor anodd inni i gyd?

16:18 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your questions this afternoon. The difficulties of identifying the overall number of empty homes vary in terms of houses being reintroduced into the market and new ones becoming empty, but I will seek to clarify that number and write to the Member with more detail in terms of what we believe the number is across Wales. However, it is certainly over the 20,000 mark in terms of properties.

Diolch am eich sylwadau'r prynhawn yma. Mae'r anawsterau o ran canfod cyfanswm nifer y cartrefi gwag yn amrywio wrth i dai gael eu hailgyflwyno i'r farchnad ac wrth i rai newydd ddod yn wag, ond ceisiaf egluro'r nifer hwnnw ac ysgrifennu at yr Aelod â mwy o fanylion o ran yr hyn y credwn yw'r nifer ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n sicr dros 20,000 o ran eiddo.

The Member raises a variety of questions with a common theme about the approach to the delivery of the scheme. It would be fair to say that prior to the regionalisation of the working groups of the six regions, it was, for some authorities, more challenging or, as I said in the statement, not a priority in terms of dealing with empty home schemes. I believe that since we now have the six regional working groups, there is a common theme running through all of these areas, and I would be very interested if the Member does have further examples of the specific areas that he referred to where individuals are experiencing difficulty in accessing this fund. I would be interested to look at those, because that is not the case, as my team understands it currently.

Mae'r Aelod yn codi nifer o gwestiynau ar thema gyffredin am ddulliau cyflwyno'r cynllun. Byddai'n deg dweud, cyn rhanbartholi gweithgorau'r chwe rhanbarth, ei bod, i rai awdurdodau, yn fwy heriol neu, fel y dywedais yn y datganiad, nad oedd ymdrin â chynlluniau cartrefi gwag yn flaenoriaeth iddynt. Ers inni sefydlu'r chwe gweithgor rhanbarthol, rwyf yn credu bod thema gyffredin yn rhedeg drwy bob un o'r ardaloedd hyn, a byddai gennyf ddiddordeb mawr os oes gan yr Aelod enghreifftiau pellach o'r ardaloedd penodol y cyfeiriodd atynt lle mae unigolion yn ei chael yn anodd cael arian o'r gronfa hon. Byddai gennyf ddiddordeb mewn edrych ar hynny, oherwydd nid dyna'r sefyllfa, cyn belled ag y mae fy nhîm ar ddeall ar hyn o bryd.

around finance and the council tax burden on empty properties. I will be making a statement to the Chamber on the launch of the housing Bill in a few weeks' time, which will have more detail around that. However, I share the concerns of the Member around discretion and the issues when individuals who obtain a property through circumstances of death within the family have to be dealt with sensitively. I will look at that very carefully when I introduce the housing Bill in a few weeks' time.

ynghylch cyllid a baich y dreth gyngor ar eiddo gwag. Byddaf yn gwneud datganiad i'r Siambr ynglŷn â lansio'r Bil tai ymhen ychydig wythnosau, a bydd hwnnw'n cynnwys mwy o fanylion ynghylch hynny. Fodd bynnag, rwyf yn rhannu pryderon yr Aelod ynglŷn â disgresiwn a'r ffaith fod yn rhaid bod yn sensitif wrth ymdrin ag unigolion sy'n etifeddu eiddo ar ôl marwolaeth yn y teulu. Byddaf yn edrych ar hynny'n ofalus iawn pan fyddaf yn cyflwyno'r Bil tai ymhen ychydig wythnosau.

In terms of the delivery of this programme, it is clear that the success is that while the original funding stream was a £5 million cash injection into the scheme, we are now at £20 million, and the local authorities have responded effectively in the distribution of this funding. Therefore, I believe that the success is in the proof of the scheme already developing 550 houses into homes. With the additional funding, we are hoping to have just under the 1,000 mark in terms of delivery in the near future.

O ran cyflwyno'r rhaglen hon, mae'n amlwg mai'r llwyddiant yw ein bod, er bod y ffrwd ariannu wreiddiol wedi rhoi £5 miliwn i'r cynllun, bellach wedi cyrraedd £20 miliwn, ac mae'r awdurdodau lleol wedi ymateb yn effeithiol o ran dosbarthu'r arian hwn. Felly, credaf fod y ffaith fod y cynllun eisoes wedi datblygu 550 o dai'n gartrefi yn brawf o'i lwyddiant. Gyda'r arian ychwanegol, rydym yn gobeithio dod yn agos at y 1,000 o ran cyflwyno yn y dyfodol agos.

16:21 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his statement today. He may remember that when I asked the First Minister a little while ago how many additional one and two-bedroomed properties would be needed in the coming months and years as a result of the introduction of the bedroom tax, he estimated around 20,000 to 25,000. Therefore, I would be interested to know from the Minister whether there is a particular target within the Houses into Homes scheme to satisfy the demand for smaller properties for those smaller households.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Efallai y bydd yn cofio, pan ofynnais i'r Prif Weinidog ychydig yn ôl faint o eiddo un a dwy ystafell wely ychwanegol y byddai ei angen yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf o ganlyniad i gyflwyno'r dreth ystafell wely, mai ei amcangyfrif oedd tuag 20,000 i 25,000. Felly, byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod gan y Gweinidog a oes targed penodol o fewn y cynllun Troi Tai'n Gartrefi i fodloni'r galw am eiddo llai i'r teuluoedd llai hynny.

The interim report on this scheme, published earlier this year, raised the issue of the different approaches to bringing buildings into use as homes that are used by each of the local authorities. I see that the report notes that there is no statutory function for empty homes' work and that local authorities are free to address this issue as they see fit, if at all. I am sure that not all local authorities will be taking this as seriously as others. Could the Minister elaborate, perhaps, on where approaches are working well? I note that he did mention Torfaen and Flint, but I am sure that there are others where this is working well. Perhaps he could also tell us where there is room for improvement. Obviously, the sharing of best practice here could be valuable, especially as the money that is attached to this policy is interest-free to the owners of those properties that are brought back into use. I just wonder whether he could tell us how the scheme is being publicised to the owners of properties that are perhaps empty.

Roedd yr adroddiad interim ar y cynllun hwn, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn codi mater gwahanol ymagweddau pob un o'r awdurdodau lleol tuag at ddechrau defnyddio adeiladau fel cartrefi. Sylwaf fod yr adroddiad yn nodi nad oes swyddogaeth statudol ar gyfer gwaith cartrefi gwag a bod awdurdodau lleol yn rhydd i fynd i'r afael â'r mater hwn fel y mynnant, os o gwbl. Rwyf yn siŵr na fydd pob awdurdod lleol yn trin hyn mor ddifrifol ag eraill. A allai'r Gweinidog ymhelaethu, efallai, ar ble mae ymagweddau'n gweithio'n dda? Nodaf ei fod wedi sôn am Dorfaen a'r Fflint, ond rwyf yn siŵr bod mannau eraill lle mae hyn yn gweithio'n dda. Efallai y gallai ddweud wrthym hefyd ble mae lle i wella. Yn amlwg, gallai fod yn werthfawr rhannu arfer gorau yma, yn enwedig gan fod yr arian sydd ynghlwm wrth y polisi hwn yn ddi-log i berchnogion yr eiddo hynny yr ailddechreuir ei ddefnyddio. Tybed a allai ddweud wrthym sut y rhoddir gwybod am y cynllun i berchnogion eiddo sy'n wag, efallai?

Also, what consideration has the Minister given to the UK Government's plans to change the planning system to make the change of use from commercial property to residential properties easier? Obviously, this has the potential to help with increasing the number of homes, but also perhaps with bringing new life into high streets. I would also be keen to hear whether the Minister is considering attaching any conditions to ensure that the homes that become available, especially those to rent under this scheme, are then let at an affordable rent. After all, the property owners are accessing interest-free loans and so on, which, I understand, are not repayable until the property is disposed of. So, are there some conditions, or would you consider in the future perhaps attaching conditions that rents are then affordable after accessing public funds? Perhaps you would be prepared to publish on an annual basis the number of properties by a local authority so that we can see which local authorities are making headway with this, and which are perhaps not doing as much as they possibly could with this money that is available.

Hefyd, pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i gynlluniau Llywodraeth y DU i newid y system gynllunio i'w gwneud yn haws newid defnydd o eiddo masnachol i eiddo preswyl? Yn amlwg, mae potensial i hyn helpu i gynyddu nifer y cartrefi, ond hefyd efallai adfywio'r stryd fawr. Byddwn hefyd yn awyddus i glywed a yw'r Gweinidog yn ystyried gosod unrhyw amodau i sicrhau bod y cartrefi a fydd ar gael, yn enwedig y rhai i'w rhentu o dan y cynllun hwn, yn cael eu gosod wedyn am rent fforddiadwy. Wedi'r cyfan, mae benthyciadau di-log ac yn y blaen ar gael i berchnogion eiddo, nad ydynt, yr wyf ar ddeall, yn ad-daladwy hyd nes y caiff yr eiddo ei waredu. Felly, a oes rhai amodau, neu a fyddech yn ystyried gosod amodau yn y dyfodol efallai, fod rhenti'n fforddiadwy ar ôl i arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio? Efallai y byddech yn barod i gyhoeddi'n flynyddol nifer yr eiddo sydd gan awdurdod lleol fel y gallwn weld pa awdurdodau lleol sy'n gwneud cynnydd yn hyn o beth, a pha rai nad ydynt efallai'n gwneud cymaint ag y gallent â'r arian hwn sydd ar gael.

16:24 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the important questions that she raises today. There has been a needs assessment across Wales in terms of the amount of one and two-bedroomed properties that are required. The Member will recall the £20 million injection of funding that we announced around two months ago in terms of the development of further one and two-bedroomed priority need developments. However, to be perfectly honest, in terms of dealing with Houses into Homes, in terms of whether the needs assessment should be in relation to the application process in the development of this in the future, I will give that some further thought.

Diolch i'r Aelod am y cwestiynau pwysig y mae'n eu codi heddiw. Bu asesiad anghenion ledled Cymru o ran faint o eiddo un a dwy lofft sydd ei angen. Bydd yr Aelod yn cofio'r buddsoddiad cyllid gwerth £20 miliwn a gyhoeddwyd gennym tua dau fis yn ôl i ddatblygu mwy o ddatblygiadau angen blaenoriaethol un a dwy ystafell wely. Fodd bynnag, a bod yn berffaith onest, o ran ymdrin â Throi Tai'n Gartrefi, ac a ddylai'r asesiad o anghenion fod yn gysylltiedig â'r broses ymgeisio wrth ddatblygu hyn yn y dyfodol, byddaf yn meddwl mwy am hynny.

The Member raised issues of best practice, and, of course, the old adage—which I have used before—that best practice travels badly is always the case. As I mentioned earlier, we have an empty homes conference tomorrow, where representatives from across the six regions will come together to look at how best practice can be shared. As I indicated earlier, regional working and collaboration between local authorities has certainly been impressive on this scheme, and where some authorities had no officers before, there is now a service provided across the region by which they can identify and invest across local authority boundaries.

Cododd yr Aelod faterion yn ymwneud ag arfer gorau, ac, wrth gwrs, mae'r dywediad—yr wyf wedi ei ddefnyddio o'r blaen—nad yw arfer gorau'n teithio'n dda yn wir bob tro. Fel y soniais yn gynharach, mae gennym gynhadledd cartrefi gwag yfory, lle bydd cynrychiolwyr o bob un o'r chwe rhanbarth yn dod at ei gilydd i edrych ar sut y gallant rannu arfer gorau. Fel y dywedais yn gynharach, mae gweithio rhanbarthol a chydweithredu rhwng awdurdodau lleol yn sicr wedi bod yn elfen drawiadol o'r cynllun hwn, a lle nad oedd gan rai awdurdodau ddim swyddogion o'r blaen, mae gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu ar draws y rhanbarth sy'n eu galluogi i adnabod a buddsoddi ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

I will look to give details to Members on the number of homes that have been created across local authorities, although it is not a fair correlation just to look at the table in terms of numbers delivered, because the demand needs and empty homes progress in each authority is variable. If it is helpful for Members just to see how many homes have been transformed in their local areas, however, I will seek to do that and I will look for that data for Members. I will also give further consideration to the planning aspect of commercial and residential properties with regard to the constraints of this scheme and the general principle of providing homes for people who need them across all our communities in Wales.

Bwriadaf roi manylion i'r Aelodau am nifer y cartrefi sydd wedi eu creu ar draws awdurdodau lleol, er nad yw'n gydberthynas deg edrych ar y tabl o ran niferoedd a ddarperir yn unig, gan fod galw, anghenion a chynnydd o ran cartrefi gwag ym mhob awdurdod yn amrywio. Os byddai'n ddefnyddiol i Aelodau gael gweld faint o gartrefi sydd wedi eu gweddnewid yn eu hardaloedd lleol, fodd bynnag, byddaf yn ceisio gwneud hynny, ac yn chwilio am y data hynny i'r Aelodau. Rhoddaf hefyd ystyriaeth bellach i'r agwedd gynllunio ar eiddo masnachol a phreswyl o ran cyfyngiadau'r cynllun hwn a'r egwyddor gyffredinol o ddarparu cartrefi i bobl y mae arnynt eu hangen ar draws ein holl gymunedau yng Nghymru.

16:26 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I welcome the statement; I think that it is an excellent scheme and I commend the Minister for it. I have seen the benefits in my own constituency, although, while delivering leaflets, I have been amazed at the number of empty homes, especially in areas of high demand. I think that it is important to have an increase on the supply side, now that we are going to be supporting the demand side, in order that we do not move house prices up.

Yn gyntaf, croesawaf y datganiad; credaf ei fod yn gynllun ardderchog ac rwyf yn canmol y Gweinidog am hynny. Rwyf wedi gweld y manteision yn fy etholaeth i, er fy mod, wrth ddosbarthu taflenni, yn rhyfeddu at nifer y cartrefi gwag, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r galw'n uchel. Credaf ei bod yn bwysig sicrhau cynnydd ar yr ochr gyflenwi, a ninnau'n awr yn mynd i fod yn cefnogi ochr y galw, er mwyn sicrhau na fyddwn yn codi prisiau tai.

I have two questions for the Minister. First, is he going to set regional targets? Secondly, does the Minister accept the importance of a council tax escalator to bring pressure on owners to bring houses back into use after 12 months of being empty while under the same ownership?

Mae gennyf ddau gwestiwn i'r Gweinidog Yn gyntaf, a yw'n mynd i osod targedau rhanbarthol? Yn ail, a yw'r Gweinidog yn derbyn pwysigrwydd cymal codi'r dreth gyngor i ddwyn pwysau ar berchnogion i ailddechrau defnyddio tai ar ôl 12 mis o fod yn wag o dan yr un berchnogaeth?

16:27 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The two questions are very simple to answer, really. On the regional targets, I do not intend to have them for the regions, on the basis that they are very different in the way that they operate. It is the same in terms of the needs assessment, in terms of the amount of empty properties within each region. In terms of the council tax escalator, I had mentioned in answer to an earlier question that I will be considering council tax and the council tax levy, based on empty properties, and I will make further detail available during the passage of the housing Bill.

Mae'r ddau gwestiwn yn hawdd iawn i'w hateb, mewn gwirionedd. O ran y targedau rhanbarthol, nid wyf yn bwriadu eu gosod ar gyfer y rhanbarthau, oherwydd maent yn wahanol iawn yn y ffordd y maent yn gweithredu. Mae'r un peth yn wir am yr asesiad o anghenion, o ran faint o eiddo gwag sydd ym mhob rhanbarth. O ran cymal codi'r dreth gyngor, rwyf wedi sôn wrth ateb cwestiwn cynharach y byddaf yn ystyried y dreth gyngor ac ardoll y dreth gyngor, yn seiliedig ar eiddo gwag, a byddaf yn cyhoeddi mwy o fanylion yn ystod hynt y Bil tai.

Deputy Presiding Officer, it was remiss of me to omit a response to Jocelyn Davies earlier with regard to the way that councils and officers engage with constituents. It is a really important point of principle, in that, once an empty property has been identified, engagement at that early stage is important. Equally important is the registration of a property, so that we know exactly who owns the property in the first place. That is why it is important that we fully understand that there should be a complete register of owners of properties in all constituencies, in order to deal with these void properties in our towns and communities.

Ddirprwy Lywydd, bûm yn ddiofal yn gynharach pan fethais ag ymateb i Jocelyn Davies o ran y ffordd y mae cynghorau a swyddogion yn ymgysylltu ag etholwyr. Mae'n bwynt pwysig iawn o egwyddor; unwaith y bydd eiddo gwag wedi ei ganfod, mae'n bwysig ymgysylltu yn y cyfnod cynnar hwnnw. Mae'r un mor bwysig cofrestru eiddo, fel ein bod yn gwybod yn union pwy yw perchennog yr eiddo yn y lle cyntaf. Dyna pam y mae'n bwysig ein bod yn deall yn iawn y dylai fod cofrestr lawn o berchnogion eiddo ym mhob etholaeth, er mwyn ymdrin â'r eiddo gwag hyn yn ein trefi a'n cymunedau.

16:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement by the Minister, and I also welcome the Houses into Homes initiative, which has, I think, been very successful. I am certainly very pleased that the money for that was increased as a result of the budget deal done a couple of years ago with the Welsh Liberal Democrats.

Rwyf yn croesawu'r datganiad gan y Gweinidog, ac rwyf hefyd yn croesawu'r fenter Troi Tai'n Gartrefi, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn fy marn i. Rwyf yn sicr yn falch iawn bod yr arian ar gyfer y fenter wedi cynyddu o ganlyniad i'r cytundeb ynglŷn â'r gyllideb a wnaed cwpl o flynyddoedd yn ôl gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Minister, one of Jocelyn Davies's questions that you did not answer is in relation to the number of affordable units being created. You say in your statement that 550 units of accommodation had been created. Given that there is a different payback period on affordable homes, it would be useful if you could let us know how many of those 550 homes are actually affordable—if not now, maybe in writing or at some stage later on. We would like to know, especially when you look at the definitions that you have included in your affordable homes statistics, as you have included empty homes brought back into use. So, it would be quite useful to see which are affordable and which are not.

Weinidog, mae un o gwestiynau Jocelyn Davies na wnaethoch ei ateb yn ymwneud â nifer yr unedau fforddiadwy sy'n cael eu creu. Rydych yn dweud yn eich datganiad bod 550 o unedau llety wedi eu creu. O ystyried bod cyfnod ad-dalu gwahanol ar gyfer tai fforddiadwy, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni faint o'r 550 o dai hynny sy'n fforddiadwy mewn gwirionedd—os nad yn awr, efallai yn ysgrifenedig neu rywbryd yn nes ymlaen. Byddem yn hoffi gwybod, yn enwedig wrth edrych ar y diffiniadau yr ydych wedi'u cynnwys yn eich ystadegau tai fforddiadwy, gan eich bod wedi cynnwys cartrefi gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto. Felly, byddai'n eithaf defnyddiol gweld pa rai sy'n fforddiadwy a pha rai nad ydynt.

In terms of publicity, there is a Welsh Local Government Association website, of course, and it seems from an analysis of the hits on that website that most of them are coming from local authorities, as opposed to individuals who own the homes. It would be interesting to know what work is being done at a local level to raise awareness of the empty homes strategy and the Houses into Homes initiative among the owners of empty homes. I note from your statement that you say that every local authority now has an empty homes officer, and that is very welcome. However, not every local authority has an empty homes strategy, certainly not a stand-alone strategy, and it does seem to me that there is still a situation where some authorities are taking this more seriously than others. I would reiterate my call, which I have made for a number of years now, for a national strategy on this. It is important to have this Houses into Homes initiative, but it seems to me that it is a single tool, if you like, when there needs to be a number of tools which could be brought together in a national strategy.

O ran cyhoeddusrwydd, mae gwefan gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wrth gwrs, ac mae'n ymddangos o ddadansoddi nifer yr ymwelwyr â'r wefan honno bod y rhan fwyaf ohonynt yn dod o awdurdodau lleol, yn hytrach na'r unigolion sy'n berchen ar y cartrefi. Byddai'n ddiddorol gwybod pa waith sy'n cael ei wneud ar lefel leol i godi ymwybyddiaeth o'r strategaeth cartrefi gwag a'r fenter Troi Tai'n Gartrefi ymhlith perchnogion cartrefi gwag. Sylwaf o'ch datganiad eich bod yn dweud bod gan bob awdurdod lleol swyddog cartrefi gwag bellach, ac mae hynny i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, nid oes gan bob awdurdod lleol strategaeth cartrefi gwag, yn sicr nid strategaeth sy'n sefyll ar ei phen ei hun, ac mae'n ymddangos i mi fod sefyllfa yn parhau lle mae rhai awdurdodau yn rhoi ystyriaeth fwy difrifol nag eraill i hyn. Byddwn yn ailadrodd y galwad yr wyf wedi ei nodi ers rai blynyddoedd bellach, am strategaeth genedlaethol. Mae'n bwysig cael y fenter Troi Tai'n Gartrefi, ond mae'n ymddangos i mi mai un dull gweithredu ydyw, os mynnwch chi, pan fo angen nifer o ddulliau y gellid eu dwyn ynghyd mewn strategaeth genedlaethol.

I note in your statement you again referred to compulsory purchase orders and empty dwelling management orders. Although these are also important tools, there are some fundamental problems in exercising the use of those tools, particularly in finding properties that are suitable to apply those orders to. I would be grateful if you could indicate whether you are prepared to carry out a review of those tools, their effectiveness, and what additional tools might be made available to local authorities in terms of taking forward this initiative in the future. I think, as has been said previously, that we have effectively creamed off the easy hits in terms of empty homes, and actually getting to the real nub and the real target is going to be much harder unless those additional tools are available to local authorities.

Rwyf yn sylwi yn eich datganiad eich bod wedi cyfeirio eto at orchmynion prynu gorfodol a gorchmynion rheoli anheddau gwag. Er bod y rhain hefyd yn ddulliau pwysig, ceir rhai problemau sylfaenol wrth eu defnyddio, yn enwedig o ran dod o hyd i eiddo sy'n addas i weithredu'r gorchmynion hynny arnynt. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn nodi a ydych yn barod i gynnal adolygiad o'r dulliau hynny, eu heffeithiolrwydd, a pha ddulliau ychwanegol a allai fod ar gael i awdurdodau lleol o ran bwrw ymlaen â'r fenter hon yn y dyfodol. Rwyf o'r farn, fel y dywedwyd eisoes, ein bod wedi ymdrin yn effeithiol â'r achosion hawdd o ran cartrefi gwag, ac mae mynd at graidd go iawn a tharged go iawn y mater yn mynd i fod yn llawer anoddach oni bai bod y dulliau ychwanegol hynny ar gael i awdurdodau lleol.

16:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your questions. I will, indeed, endeavour to give further detail of the affordable homes element within the 550 total. I will share that with colleagues at the Assembly.

Diolch am eich cwestiynau. Byddaf, yn wir, yn ymdrechu i roi rhagor o fanylion ynglŷn â faint o dai fforddiadwy sydd o fewn y cyfanswm o 550. Byddaf yn rhannu hynny â chydweithwyr yn y Cynulliad.

The Member was right to say that, now, the 22 authorities do have empty homes officers. The issue around the local strategy is not as relevant now as the regional approach, because the delivery mechanism for this process is on a regional basis. We have seen, where some authorities did not have a empty homes officer, that empty homes were not a priority. Now that they have come into the regional operation, they are performing much better in terms of this now becoming an issue for them.

Mae'r Aelod yn iawn i ddweud bod gan y 22 awdurdod swyddogion cartrefi gwag bellach. Nid yw'r strategaeth leol mor berthnasol bellach â'r ymdriniaeth ranbarthol, gan fod y mecanwaith ar gyfer cyflawni'r broses hon ar sail ranbarthol. Rydym wedi gweld nad oedd cartrefi gwag yn flaenoriaeth, pan nad oedd gan rai awdurdodau swyddog cartrefi gwag. Nawr eu bod yn rhan o'r trefniadau rhanbarthol, maent yn gwneud yn llawer gwell yn yr ystyr bod hwn bellach yn fater y maent yn rhoi sylw iddo.

I share the Member's concerns about the implementation of a suite of tools to enable this positive process to take place in terms of reintroducing empty homes, not only because it reduces the blight on the community, but because it introduces the very issue of more accommodation for people in need of accommodation across Wales. I listened to his comments very carefully. I will ensure that his ideas—and the concept of ensuring that the tools that are available do work—are part of a discussion within the empty homes conference that takes place. I think it is important, where people have experience, where an issue has presented, or where people have been able to overcome that, that it is shared wherever you are in Wales. Bringing people together will help in that process.

Rwyf yn rhannu pryderon yr Aelod am yr angen i sefydlu cyfres o ddulliau gweithredu er mwyn galluogi'r broses gadarnhaol hon i ddigwydd o ran ailgyflwyno cartrefi gwag, nid yn unig oherwydd ei fod yn lleihau'r anharddwch yn y gymuned, ond oherwydd ei fod yn cyflwyno'r mwy o lety ar gyfer pobl sydd ag angen llety ledled Cymru. Gwrandewais ar ei sylwadau yn ofalus iawn. Byddaf yn sicrhau bod ei syniadau—a'r cysyniad o sicrhau bod y dulliau sydd ar gael yn gweithio—yn rhan o drafodaeth yn y gynhadledd cartrefi gwag a gynhelir. Rwy'n credu ei bod yn bwysig, pan fo gan bobl brofiad, pan fo problem wedi codi, neu pan fo pobl wedi llwyddo i oresgyn hynny, y caiff hynny ei rannu ble bynnag yr ydych yng Nghymru. Bydd o gymorth i'r broses honno i ddod â phobl at ei gilydd.

16:33 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be very brief because much of what I was going to say has been said. I think everybody celebrates the success of this scheme. I have been pleased over recent years to see extra money being put in, and to know that this has been continuing. It really has made a difference in some areas; you visited Flint and other areas where you have seen this being a success. Mike Hedges made the point that I wanted to make, in fact, that there are plenty of empty homes up and down the country, and we really need to start with local authorities identifying the locations and bringing them back into use—particularly if it can be done under this scheme, or a similar scheme, because it is so innovative I think it can be transferred, in some ways, to other schemes. I wondered if perhaps you would be looking at this in future.

Byddaf yn gryno iawn oherwydd bod llawer o'r hyn yr oeddwn am ei ddweud wedi cael ei ddweud. Rwyf yn meddwl bod pawb yn dathlu llwyddiant y cynllun hwn. Rwyf wedi bod yn falch dros y blynyddoedd diwethaf o weld arian ychwanegol yn cael ei ddarparu, ac o wybod bod hyn wedi bod yn parhau. Mae wedi gwneud gwir wahaniaeth mewn rhai ardaloedd; rydych wedi ymweld â Fflint ac ardaloedd eraill lle'r ydych wedi gweld bod hyn yn llwyddiant. Gwnaeth Mike Hedges y pwynt yr oeddwn am ei wneud, mewn gwirionedd, bod digon o dai gwag ar hyd a lled y wlad, ac mae angen inni ddechrau trwy i'r awdurdodau lleol nodi'r lleoliadau a sicrhau y cânt eu defnyddio unwaith eto—yn enwedig os gellir gwneud hynny o dan y cynllun hwn, neu gynllun tebyg. Oherwydd ei fod mor arloesol, rwyf yn meddwl y gellir ei drosglwyddo, mewn rhai ffyrdd, i gynlluniau eraill. Tybed a fyddwch o bosibl yn edrych ar hyn yn y dyfodol?

16:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is right to raise the very successful regeneration programme using these funds in her own constituency, in Flint—there is a fantastic facility there, which is now seeing people reintroduced to those properties in the centre of her community. The issue of the empty homes register is, as I said to an earlier questioner, quite complex, because people drop on and off the register. Trying to keep that up to date is important. This is a very successful financial opportunity for people to make investments in their community. It is a win-win situation for all. However, there will be, as always, individuals who will not seek to engage, who will not wish to take part in this programme. We have to be able to give local authorities the tools to enable them to encourage or to legislate around an issue of blight within a community when it is a property. Therefore, the suite of tools we have, plus the opportunity to legislate in the housing Bill around empty homes in terms of finance, might be an additional supporting mechanism to encourage people to turn the empty homes they have into accommodation. I recognise the work that goes on in the Member's constituency and, most importantly, the new properties being made available on Chester Road in Flint, which is impressive.

Mae'r Aelod yn llygad ei lle i sôn am y rhaglen adfywio lwyddiannus iawn sy'n defnyddio'r cronfeydd hyn yn ei hetholaeth hi, yn y Fflint—mae cyfleuster gwych yno, sydd bellach yn gweld pobl yn dod yn ôl i mewn i'r eiddo hynny yng nghanol ei chymuned. Mae mater y gofrestr cartrefi gwag, fel y dywedais wrth holwr cynharach, yn eithaf cymhleth, oherwydd bod pobl yn ymuno â'r gofrestr ac yn dod oddi arni. Mae'n bwysig ceisio cadw hon yn gyfredol. Mae hwn yn gyfle ariannol llwyddiannus iawn i bobl fuddsoddi yn eu cymuned. Mae'n sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill. Fodd bynnag, fe fydd bob amser unigolion na fyddant yn ceisio ymgysylltu, na fyddant yn dymuno cymryd rhan yn y rhaglen hon. Mae'n rhaid inni allu rhoi'r arfau i awdurdodau lleol i'w galluogi i annog neu i ddeddfu pan fydd eiddo yn anharddu'r gymuned. Felly, gallai'r gyfres o ddulliau gweithredu sydd gennym, yn ogystal â'r cyfle i ddeddfu yn y Bil Tai ynglŷn â thai gwag o ran cyllid, fod yn fecanwaith cefnogi ychwanegol i annog pobl i droi'r cartrefi gwag sydd ganddynt yn llety. Rwyf yn cydnabod y gwaith a wneir yn etholaeth yr Aelod ac, yn bwysicaf oll, yr eiddo newydd sydd ar gael ar Chester Road yn y Fflint, sy'n waith rhagorol.

16:36

## Datganiad: Teithio at Ddyfodol Gwell—Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

## Statement: Travelling to a Better Future—Gypsy and Traveller Framework for Action and Delivery Plan

Senedd.tv
Fideo Video

### Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

In September 2011, the Minister for Finance and Leader of the House launched 'Travelling to a Better Future—Gypsy and Traveller Framework for Action and Delivery Plan'. The framework for action was the first document of its kind to be produced in the UK and it sets out the policy direction for the Welsh Government and its partners in respect of Gypsies and Travellers. I am delighted to update you today on the progress made against the framework for action and delivery plan.

Ym mis Medi 2011, lansiodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ 'Teithio at Ddyfodol Gwell—Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr'. Y fframwaith gweithredu oedd y ddogfen gyntaf o'i math i gael ei pharatoi yn y DU ac mae'n nodi'r cyfeiriad polisi ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr. Rwyf wrth fy modd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi heddiw am yr hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â'r fframwaith gweithredu a'r cynllun cyflenwi.

The framework aims to address the inequalities and poverty experienced by the Gypsy and Traveller community, to ensure equality of opportunity and to enable the community to access resources and mainstream services. It comprises of sections on health and continuing care, education and training, participation and engagement, and accommodation and employment.

Nod y fframwaith yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a'r tlodi a brofir gan y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, sicrhau cyfle cyfartal a galluogi'r gymuned i gael gafael ar adnoddau a gwasanaethau prif ffrwd. Mae'n cynnwys adrannau ar iechyd a gofal parhaus, addysg a hyfforddiant, cyfranogiad ac ymgysylltu, a llety a chyflogaeth.

In the chapter on education, the framework makes a commitment to combating poverty of aspiration and opportunity as well as improving attendance and attainment. The section on health aims to tackle the high rates of infant mortality, accidents and illness, and the low life expectancy experienced by the Gypsy and Traveller community. The section on accommodation makes a commitment to increase and improve accommodation for Gypsies and Travellers, making it appropriate to their specific cultural needs.

Yn y bennod ar addysg, mae'r fframwaith yn cynnwys ymrwymiad i frwydro yn erbyn tlodi o ran dyhead a chyfle, yn ogystal â gwella presenoldeb a chyrhaeddiad. Nod yr adran ar iechyd yw mynd i'r afael â chyfraddau uchel damweiniau, salwch a marwolaethau babanod, a'r disgwyliad oes isel ymhlith y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r adran ar lety yn gwneud ymrwymiad i gynyddu a gwella llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, gan ei wneud yn briodol i'w anghenion diwylliannol penodol.

Although there is still a long way to go to tackle the inequalities faced by Gypsies and Travellers, tremendous strides have been made during the past two years, and I will outline these today. The updated delivery plan provides greater detail on our achievements.

Er bod llawer o waith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebir gan Sipsiwn a Theithwyr, cymerwyd camau aruthrol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, a byddaf yn amlinellu'r rhain heddiw. Mae'r cynllun cyflenwi sydd wedi ei ddiweddaru yn rhoi mwy o fanylion am ein llwyddiannau.

In terms of accommodation, the Welsh Government has spent over £3.1 million on a range of refurbishment projects during the past two years across 10 local authority-owned Gypsy and Traveller sites in Wales. The Welsh Government introduced a fundamental change during 2011-12 by revising the proportion of grant allocated from 75% to 100%. As a result, there has been a significant increase in applications for funding from local authorities, which has improved the living standards for existing residents.

O ran llety, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario dros £3.1 miliwn ar amrywiaeth o brosiectau adnewyddu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mewn 10 o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru sy'n eiddo i awdurdodau lleol. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru newid sylfaenol yn ystod 2011-12 trwy adolygu cyfran y grant a ddyrennir o 75% i 100%. O ganlyniad, bu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am gyllid gan awdurdodau lleol, gan wella safonau byw ar gyfer trigolion presennol.

I was fortunate to recently visit Glyn Mill Gypsy and Traveller site in Merthyr, which has received Welsh Government funding. I saw photos of the site prior to Welsh Government intervention and, having visited the site, I was hugely impressed with its transformation. Not only are there infrastructural changes, achieving far better conditions, but there is a real sense of ambition and aspiration on the part of the residents. There is also better community cohesion with the wider community.

Roeddwn yn ffodus yn ddiweddar i ymweld â safle Sipsiwn a Theithwyr Glyn Mill sydd wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru, ym Merthyr. Gwelais luniau o'r safle cyn ymyriad Llywodraeth Cymru ac, ar ôl ymweld â'r safle, gwnaeth y gwaith o'i drawsnewid argraff fawr arnaf. Gwnaed newidiadau i'r isadeiledd, gan ddarparu amgylchiadau llawer gwell, a gwelir hefyd wir ymdeimlad o uchelgais a dyhead ar ran y trigolion. Ceir gwell cydlyniant cymunedol hefyd â'r gymuned ehangach.

Another important objective is the creation of new Gypsy and Traveller sites in Wales. There have been no new local authority sites built in Wales since 1997. I am pleased to inform you that Welsh Government has awarded Powys County Council £1.75 million to develop a new site in Brecon. However, this is only the start. The Minister for Housing and Regeneration will be introducing the Housing (Wales) Bill on 18 November. This includes a proposal to introduce a new statutory duty on local authorities to make provision for new Gypsy and Traveller sites where a need has been identified. If the proposed new legislation is passed, it will result in the creation of new sites where there is evidence of need and this, in turn, will reduce the number of unauthorised encampments.

Amcan pwysig arall yw creu safleoedd newydd ar gyfer Sipswn a Theithwyr yng Nghymru. Nid oes unrhyw safleoedd newydd wedi eu hadeiladu gan awdurdodau lleol yng Nghymru ers 1997. Mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi £1.75 miliwn i Gyngor Sir Powys i ddatblygu safle newydd yn Aberhonddu. Er hynny, dim ond y dechrau yw hyn. Bydd y Gweinidog Tai ac Adfywio yn cyflwyno Bil Tai (Cymru) ar 18 Tachwedd. Mae hwn yn cynnwys cynnig i roi dyletswydd statudol newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr pan fo angen wedi ei nodi. Os bydd y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig yn cael ei phasio, bydd yn arwain at greu safleoedd newydd pan fo tystiolaeth bod angen am rai, ac yn ei dro bydd hyn yn lleihau nifer y gwersylloedd nad ydynt wedi'u hawdurdodi.

We are all aware of the recent problems caused by an unauthorised encampment in Newport. My officials have consulted on changes to the managing unauthorised camping guidance. A more integrated and consistent approach across Wales will be encouraged to support local authorities when dealing with unauthorised encampments. The revised guidance will be published before the end of the year.

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r problemau diweddar a achoswyd gan wersyll heb ei awdurdodi yng Nghasnewydd. Mae fy swyddogion wedi ymgynghori ar newidiadau i'r canllawiau ar reoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi. Bydd dull mwy integredig a chyson ledled Cymru yn cael ei annog i gefnogi awdurdodau lleol pan fyddant yn ymdrin â gwersylloedd heb eu hawdurdodi. Bydd y canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

In terms of education, progress has been made on increasing the numbers of Gypsy and Traveller children and young people in schools. This has included holding a conference in 2011 that was aimed at raising attendance and attainment in secondary schools and working closely with the Traveller education service to disseminate good practice. The anti-bullying guidance 'Respecting Others' was issued to help local authorities respond to and prevent bullying, which we know can be one of the barriers to young Gypsy and Traveller people continuing in education. Schools have also been encouraged to use an online development resource that uses Gypsy and Traveller culture and heritage in delivering a range of curriculum subjects. There are now more children from these communities in schools in Wales than ever before.

O ran addysg, cymerwyd camau i gynyddu nifer y plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr sydd mewn ysgolion. Mae hyn wedi cynnwys cynnal cynhadledd yn 2011 gyda'r nod o godi presenoldeb a chyrhaeddiad mewn ysgolion uwchradd a gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth addysg i Deithwyr i ledaenu arfer da. Cyflwynwyd y canllawiau gwrth-fwlio 'Parchu Eraill' i helpu awdurdodau lleol i ymateb i fwlio a'i atal, gan ein bod yn gwybod y gall bwlio fod yn un o'r ffactorau sy'n rhwystro pobl ifanc o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr rhag parhau â'u haddysg. Mae ysgolion hefyd wedi cael eu hannog i ddefnyddio adnodd datblygu ar-lein sy'n defnyddio diwylliant a threftadaeth Sipsiwn a Theithwyr i gyflwyno amrywiaeth o bynciau'r cwricwlwm. Erbyn hyn, mae mwy o blant o'r cymunedau hyn mewn ysgolion yng Nghymru nag erioed o'r blaen.

To further support young people, the Welsh Government has funded the Travelling Ahead project run by Save the Children. The overall objective of the project is to empower young Gypsies and Travellers to participate in mainstream decision making and services. Several local forums have been created across Wales. The young people have also participated in a national forum and have produced a number of DVDs to promote positive messages about Gypsies and Travellers.

Er mwyn cefnogi pobl ifanc ymhellach, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu prosiect Teithio Ymlaen a weithredir gan Achub y Plant. Amcan cyffredinol y prosiect yw grymuso Sipsiwn a Theithwyr ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau a gwasanaethau prif ffrwd. Mae nifer o fforymau lleol wedi cael eu creu ledled Cymru. Mae'r bobl ifanc hefyd wedi cymryd rhan mewn fforwm cenedlaethol ac maent wedi cynhyrchu nifer o DVDs i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynglŷn â Sipsiwn a Theithwyr.

In terms of health, Gypsy and Traveller communities have the highest infant mortality rates of any ethnic minority group in Wales. I am pleased to say that some local authorities have put in place individualised plans for all pregnant women in areas where there are larger Gypsy and Traveller populations. In addition, several local health boards have taken steps to improve immunisation rates where health visitors will visit sites to talk to residents. This is a significant step forward, but a lot more needs to be done to ensure that the healthcare of Gypsies and Travellers is improved. The Welsh Government will be publishing guidance for healthcare providers during 2014. This will set out the Welsh Government's expectations in relation to the provision of health services to Gypsies and Travellers.

O ran iechyd, mae cyfraddau marwolaethau babanod ymhlith cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn uwch nag ymmhlith unrhyw grŵp lleiafrifoedd ethnig arall yng Nghymru. Rwyf yn falch o ddweud bod rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu cynlluniau unigol ar gyfer yr holl fenywod beichiog mewn ardaloedd lle y ceir poblogaethau mwy o Sipsiwn a Theithwyr. Yn ogystal, mae nifer o fyrddau iechyd lleol wedi cymryd camau i wella cyfraddau imiwneiddio a bydd ymwelwyr iechyd yn ymweld â safleoedd i siarad â'r trigolion. Mae hwn yn gam mawr ymlaen, ond mae angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod gofal iechyd Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei wella. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer darparwyr gofal iechyd yn ystod 2014. Bydd y rhain yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran darparu gwasanaethau iechyd i Sipsiwn a Theithwyr.

There have been other notable achievements in the last two years as a result of Welsh Government funding. My predecessor as Minister for Communities and Tackling Poverty, Huw Lewis AM, earlier this year met with a group of Gypsy and Traveller women working with Platform 51, who are funded by the Welsh Government's inclusion grant. The programme aims to develop the participative skills of Gypsy and Traveller women and teenage girls from Llanelli in order to provide them with life skills that they have previously not had the opportunity to develop. Some of the women have learned to read for the first time, applied for college courses and secured jobs from the skills they have attained from these sessions. I am sure that you will agree with me that this is great news as not only are the skills of these women improving, it is also influencing the next generation by having a positive impact on their children.

Cafwyd llwyddiannau nodedig eraill yn y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i gyllid gan Lywodraeth Cymru. Yn gynharach eleni, cyfarfu fy rhagflaenydd fel Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Huw Lewis AC, â grŵp o fenywod Sipsiwn a Theithwyr sy'n gweithio gyda Platform 51, a ariennir gan grant cynhwysiant Llywodraeth Cymru. Nod y rhaglen yw datblygu sgiliau cyfranogol menywod a merched yn eu harddegau mewn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr o Lanelli er mwyn rhoi iddynt sgiliau bywyd nad ydynt wedi cael y cyfle i'w datblygu yn flaenorol. Mae rhai o'r merched wedi dysgu darllen am y tro cyntaf, wedi gwneud cais am gyrsiau coleg a chael swyddi ar sail y sgiliau y maent wedi eu meithrin yn y sesiynau hyn. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod hyn yn newyddion gwych, gan fod sgiliau'r menywod hyn yn gwella, ond gan ei fod hefyd yn dylanwadu ar y genhedlaeth nesaf trwy gael effaith gadarnhaol ar eu plant.

Thanks to Welsh Government funding, organisations such as Cardiff Gypsy and Traveller Project have continued to work closely with the Gypsy and Traveller community to ensure that they are better engaged with a number of public service providers.

Diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru, mae sefydliadau megis Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd wedi parhau i weithio'n agos gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n well â nifer o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

In summary, the Welsh Government has made great progress in the last couple of years. However, there is still a long way to go and a lot of work to be done to combat the years of discrimination suffered by this community. I look forward to working with Members of all parties to improve the lives of Gypsies and Travellers in Wales.

I grynhoi, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith da yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cryn ffordd i fynd ac mae llawer o waith i'w wneud i fynd i'r afael â'r blynyddoedd o wahaniaethu y mae'r gymuned hon wedi ei ddioddef. Edrychaf ymlaen at weithio gydag Aelodau o bob plaid i wella bywydau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

16:45 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome your report. I have some questions and concerns for your kind observations and consideration. New Gypsy and Traveller sites need transparency and wider consultation between local authorities, existing communities and Travellers to determine the best possible sites. This will reduce the suspicion that many people have of the Gypsy and Traveller community and will encourage a better community relationship. How will the Welsh Government promote greater transparency and consultation in determining the location of suitable sites? What measure has the Welsh Government introduced to increase cross-border co-operation with English border counties that share Traveller areas with Wales?

Rwyf yn croesawu eich adroddiad. Mae gennyf rai cwestiynau a phryderon ichi eu hystyried yn garedig. Mae angen tryloywder ac ymgynghori ehangach rhwng awdurdodau lleol, cymunedau presennol a Theithwyr er mwyn penderfynu ar y safleoedd newydd gorau posibl ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Bydd hyn yn lleihau'r amheuaeth sydd gan lawer o bobl ynglŷn â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, a bydd yn annog gwell perthynas â'r gymuned. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo mwy o dryloywder ac ymgynghori wrth benderfynu ar leoliad safleoedd addas? Pa fesur y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gyflwyno i gydweithredu mwy gyda siroedd yn Lloegr sydd ar y ffin ac sy'n rhannu ardaloedd Teithwyr â Chymru?

Existing sites should be inspected to ensure that facilities are properly maintained and that reasonable standards of cleanliness are achieved. What guidelines have the Welsh Government issued to local authorities to ensure that that is also done? Unlawful encampments must be opposed. The recent unlawful encampments in Newport have caused much annoyance, disruption and concern. Hundreds of NHS workers were blocked from parking at the Royal Gwent Hospital after 14 caravans set up camp in the staff car park, which was a great hindrance to NHS services in that hospital. An illegal site at Queensway Meadows disrupted businesses and left behind litter and damage to trees, hedges and the area altogether. The Welsh Government said that it will work with local authorities to reduce the occurrence of unauthorised sites. However, in a written answer on 24 October this year, Mr John Griffiths, the Minister, said that the Welsh Government may decide to tolerate encampments on land in our state if, taking into account all the circumstances, it would be unreasonable to take possession of the encampment. Does the Welsh Government accept that greater clarity is required with regard to its approach to illegal sites? Temporary stop notices are available in England to allow councils to take enforcement action in respect of unauthorised encampments. The provision inserted into the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 by the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 has not been brought into force in Wales. What plan does the Welsh Government have to bring temporary stop notices into force in Wales?

Dylai safleoedd presennol gael eu harchwilio i sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu cynnal a'u cadw'n briodol a bod safonau glanweithdra rhesymol yn cael eu cynnal. Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cyflwyno i awdurdodau lleol i sicrhau bod hyn hefyd yn cael ei wneud? Rhaid gwrthwynebu gwersylloedd anghyfreithlon. Mae'r gwersylloedd anghyfreithlon yng Nghasnewydd yn ddiweddar wedi achosi llawer o anfodlonrwydd, aflonyddwch a phryder. Methodd cannoedd o weithwyr y GIG â pharcio yn Ysbyty Brenhinol Gwent ar ôl i 14 o garafanau sefydlu gwersyll ym maes parcio'r staff, a oedd yn rhwystr mawr i wasanaethau'r GIG yn yr ysbyty hwnnw. Mae safle anghyfreithlon yn Queensway Meadows wedi tarfu ar fusnesau ac wedi gadael sbwriel a difrod i goed, gwrychoedd a'r ardal yn gyfan gwbl. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gweithio gydag awdurdodau lleol i leihau'r achosion o safleoedd heb eu hawdurdodi. Fodd bynnag, mewn ateb ysgrifenedig ar 24 Hydref eleni, dywedodd Mr John Griffiths, y Gweinidog, y gallai Llywodraeth Cymru benderfynu goddef gwersylloedd ar dir o'n heiddo, pe byddai'n afresymol cymryd meddiant o'r gwersyll, gan ystyried yr holl amgylchiadau. A yw Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen mwy o eglurder o ran ei hagwedd tuag at safleoedd anghyfreithlon? Mae hysbysiadau atal dros dro ar gael yn Lloegr i ganiatáu i gynghorau gymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â gwersylloedd heb eu hawdurdodi. Nid yw'r ddarpariaeth a osodwyd yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 gan Ddeddf Prynu Gorfodol 2004 wedi dod i rym yng Nghymru. Pa gynllun sydd gan Lywodraeth Cymru i ddod â hysbysiadau atal dros dro i rym yng Nghymru?

Finally, on negative perception and reporting in the media, what is the Welsh Government doing to encourage the media to address the negative perception of the Gypsy and Traveller community that sometimes occurs in news reporting? Also, what is the Welsh Government doing to ensure that the health and education needs of the Gypsy and Traveller community are recognised and addressed by the NHS and education authorities?

Yn olaf, ynglŷn â chanfyddiad ac adroddiadau negyddol yn y cyfryngau, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog y cyfryngau i fynd i'r afael â'r canfyddiad negyddol am y gymuned Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymddangos weithiau mewn adroddiadau newyddion? Hefyd, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod anghenion iechyd ac addysg y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw gan y GIG ac awdurdodau addysg?

16:48 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for those many points. In terms of planning, local planning authorities must take account of the comments of the community, as they would with any development, in terms of sites. There is clearly a responsibility on the local authorities to make sure that sites are kept in good condition. There are nine community cohesion officers across Wales that liaise with Gypsy and Traveller communities in order to make sure that issues are properly understood and dealt with. Our responsibility, as the Welsh Government, relates to sites that are within the Welsh border.

Diolch i'r Aelod am y pwyntiau niferus hynny. O ran cynllunio, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried sylwadau gan y gymuned, fel yn achos unrhyw ddatblygiad, o ran safleoedd. Mae'n amlwg bod cyfrifoldeb ar yr awdurdodau lleol i sicrhau bod safleoedd yn cael eu cadw mewn cyflwr da. Ceir naw o swyddogion cydlyniant cymunedol ledled Cymru sy'n cydgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr er mwyn gwneud yn siŵr y deellir ac ymdrinnir â materion yn briodol. Mae ein cyfrifoldeb ni, fel Llywodraeth Cymru, yn ymwneud â safleoedd sydd o fewn ffiniau Cymru.

In terms of unlawful encampments, there are already quite significant rules that apply here, but, before they are enforced, we expect all bodies—that could be local authorities or any person or organisation with a significant interest in the land concerned—to carry out a welfare needs assessment of the Travellers there, especially if there are children involved, to make sure that any action taken is proportionate to the issue created. We have issued guidance on managing unauthorised encampments, which will give greater guidance to local authorities as to how to deal with this matter.

O ran gwersylloedd anghyfreithlon, mae rheolau eithaf sylweddol yn berthnasol yma eisoes, ond, cyn iddynt gael eu gorfodi, rydym yn disgwyl i'r holl gyrff— awdurdodau lleol neu unrhyw berson neu sefydliad sydd â budd sylweddol yn y tir dan sylw—gynnal asesiad o anghenion lles y Teithwyr yno, yn enwedig os oes plant, er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur â'r broblem a grëwyd. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar reoli gwersylloedd heb eu hawdurdodi, a byddant yn rhoi mwy o arweiniad i awdurdodau lleol ynglŷn â sut i ymdrin â'r mater hwn.

You referred specifically to the recent issue at the Royal Gwent Hospital. It is probably worth reflecting on the facts of the matter. On 20 October, French Travellers occupied the Whiteheads staff car park at the Royal Gwent Hospital. The car park was not signed as a hospital car park, and the Travellers said that they did not know that that was the case. We have been in discussion with the Aneurin Bevan Local Health Board, which has confirmed that no patients were disadvantaged or inconvenienced as a result of that action, although staff at the Royal Gwent Hospital were inconvenienced, which is regrettable.

Cyfeiriwyd yn benodol at y broblem ddiweddar yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Mae'n debyg ei bod yn werth ystyried ffeithiau'r mater. Ar 20 Hydref, daeth Teithwyr Ffrengig i fyw ym maes parcio staff Whiteheads yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Nid oedd arwyddion yn y maes parcio i nodi ei fod yn faes parcio i'r ysbyty, a dywedodd y Teithwyr nad oeddent yn gwybod mai dyna ydoedd. Rydym wedi bod yn trafod gyda Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, sydd wedi cadarnhau na fu unrhyw anfantais nac anghyfleustra i unrhyw gleifion o ganlyniad i'r camau hynny, er y bu anghyfleustra i staff Ysbyty Brenhinol Gwent, ac mae hynny'n anffodus.

You mentioned health and education, and in my opening statement I referred to many associated issues. There is a requirement for better understanding within the NHS, and there is a strong case to be made for improving trust among the Gypsy and Traveller community that it will get good treatment from the NHS. Immunisation rates are improving, and I detailed other issues such as the support that will be provided for pregnant women.

Soniwyd am iechyd ac addysg, ac yn fy natganiad agoriadol cyfeiriais at nifer o faterion cysylltiedig. Mae angen gwell dealltwriaeth o fewn y GIG, ac mae achos cryf dros wella ymddiriedaeth ymysg y gymuned Sipswn a Theithwyr y byddant yn cael triniaeth dda gan y GIG. Mae cyfraddau imiwneiddio yn gwella, ac rwyf wedi nodi materion eraill megis y cymorth a fydd yn cael ei ddarparu ar gyfer menywod beichiog.

In terms of education, we are very pleased that there has been a marked increase in the number of Gypsy and Traveller children and young people now in education. There are roughly 2,000 in Wales, which marks an increase over the last two years of 500. Pleasingly, 40% of those are in secondary education. I make that point because, traditionally, the Gypsy and Traveller community has only valued primary education, but there now seems to be a greater recognition that what is learned through secondary education is of value, and its children and young people are attending.

O ran addysg, rydym yn falch iawn y bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr sydd bellach mewn addysg. Mae tua 2,000 mewn addysg yng Nghymru, sy'n gynnydd o 500 dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn galonogol, roedd 40% o'r rhain mewn addysg uwchradd. Rwyf yn nodi'r pwynt hwn oherwydd bod y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, yn draddodiadol, wedi gweld gwerth mewn addysg gynradd yn unig, ond mae'n ymddangos bellach y ceir mwy o gydnabyddiaeth bod yr hyn a ddysgir trwy addysg uwchradd o werth, ac mae ei phlant a'i phobl ifanc yn mynychu.

16:52 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his statement and update on 'Travelling to a Better Future', which was launched by Jane Hutt in 2011. There is no doubt that progress has been made, particularly with encouraging young people to speak up, and the efforts of the partnership with the Save the Children fund have been very successful in this regard. I have been to the Builth Wells forum, which is a Wales-wide forum where young Gypsies and Travellers come to make their points, in some cases to politicians. It is very important that we all listen to what they say about the discrimination and stigma that they experience on a day to day basis in their ordinary lives. They were particularly bitter about the publicity surrounding the 'My Big Fat Gypsy Wedding' television programme, which they said has caused horrendous problems for the Gypsy and Traveller community because of the false views that it gave.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad ac am y wybodaeth ddiweddaraf am 'Teithio at Ddyfodol Gwell', a lansiwyd gan Jane Hutt yn 2011. Nid oes unrhyw amheuaeth bod gwaith da wedi ei wneud, yn enwedig o ran annog pobl ifanc i ddweud eu barn, ac mae ymdrechion y bartneriaeth gyda chronfa Achub y Plant wedi bod yn llwyddiannus iawn yn hyn o beth. Rwyf wedi bod i fforwm Llanfair-ym-Muallt, sef fforwm ar gyfer Cymru gyfan lle mae Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn dod i nodi eu pwyntiau, a hynny i wleidyddion mewn rhai achosion. Mae'n bwysig iawn ein bod i gyd yn gwrando ar yr hyn a ddywedant am y gwahaniaethu a'r stigma y maent yn ei brofi o ddydd i ddydd yn eu bywydau arferol. Roeddent yn arbennig o chwerw am y cyhoeddusrwydd yn sgil y rhaglen deledu 'My Big Fat Gipsy Wedding', gan ddweud ei bod wedi achosi problemau erchyll i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr oherwydd y safbwyntiau ffug.

The policy proposals in the document are excellent, but it is very difficult to improve the settled population's preconceived ideas about Gypsies and Travellers. I chair the cross-party group on Gypsies and Travellers, and I am very pleased that a considerable number of Gyspsys and Travellers, particularly young people, attend the meetings. We encourage them to come here to the Senedd to make it somewhere that is for every child and young person in Wales. I am very pleased that that is happening.

Mae'r cynigion polisi yn y ddogfen yn rhagorol, ond mae'n anodd iawn gwella syniadau rhagdybiedig y boblogaeth sefydlog ynghylch Sipsiwn a Theithwyr. Rwyf yn cadeirio'r grŵp trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr, ac rwyf yn falch iawn bod nifer sylweddol o Sipswn a Theithwyr, yn enwedig pobl ifanc, yn dod i'r cyfarfodydd. Rydym yn eu hannog i ddod yma i'r Senedd i'w gwneud yn lle ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru. Rwyf yn falch iawn bod hynny'n digwydd.

However, we must face the fact that, when sites are proposed in whatever part of Wales, there are tremendous problems to deal with. It is how we address that stigma and those issues that the Welsh Government has to grapple with. It is excellent that the housing Bill will require local authorities to build more sites, and I welcome the Minister's affirmation of that, because the only time that a substantial number of local authority sites were built was when there was a duty on them to do so. The Welsh Government needs to concentrate on the difficult issue of community cohesion and how we can build links between groups in the settled population with Gypsies and Travellers, and to get rid of the fear and myths that exist, because, in many cases, many of the people who protest will not have even met and talked to a Gypsy or Traveller. So, I wondered if he could address those issues.

Fodd bynnag, rhaid inni wynebu'r ffaith bod problemau aruthrol i fynd i'r afael â nhw pan fo safleoedd yn cael eu cynnig, ym mha bynnag ran o Gymru. Sut i fynd i'r afael â'r stigma hwnnw a'r materion hynny yw'r her i Lywodraeth Cymru. Mae'n wych y bydd y Mesur Tai yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adeiladu mwy o safleoedd, ac rwyf yn croesawu cadarnhad y Gweinidog ar hynny, oherwydd mai'r unig adeg yr adeiladwyd nifer sylweddol o safleoedd awdurdodau lleol oedd pan oedd dyletswydd arnynt i wneud hynny. Mae angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar fater anodd cydlyniant cymunedol a sut y gallwn adeiladu cysylltiadau rhwng grwpiau yn y boblogaeth sefydlog â Sipsiwn a Theithwyr, a chael gwared ar yr ofn a'r mythau sy'n bodoli, oherwydd nad yw llawer o'r bobl sy'n protestio, mewn llawer o achosion, hyd yn oed wedi cwrdd na siarad â Sipsiwn neu Deithwyr. Felly, tybed a allai ymdrin â'r materion hynny?

Has there been any recent feedback from Gypsies and Travellers on how they felt the strategy was progressing? I know that there has been an increase in hate crime, and I know that the Minister has launched a strategy on that; is there any information about how this has affected the Gypsy and Traveller communities?

A gafwyd unrhyw adborth yn ddiweddar gan Sipsiwn a Theithwyr ynglŷn â sut y mae'r strategaeth yn mynd rhagddi yn eu barn hwy? Gwn fod cynnydd wedi bod mewn troseddau casineb, a gwn fod y Gweinidog wedi lansio strategaeth ar hynny; a oes unrhyw wybodaeth am sut y mae hyn wedi effeithio ar y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr?

Finally, I know that the Welsh Government's strategy does not involve the Roma community. I have been approached on a number of occasions about trying to deal with issues related to the Roma community, and I wondered whether the Minister had any plans either to include them in a Gypsy and Traveller strategy or to have a separate strategy for Roma.

Yn olaf, rwyf yn gwybod nad yw strategaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys y gymuned Roma. Mae pobl wedi dod ataf ar nifer o achlysuron i holi ynglŷn â cheisio ymdrin â materion yn ymwneud â'r gymuned Roma. Tybed a oedd gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau naill ai i'w cynnwys mewn strategaeth Sipsiwn a Theithwyr neu i gael strategaeth ar wahân ar gyfer Roma?

16:55

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member very much for those points. You are quite right about young people speaking up; I was very pleased indeed to attend an event in Merthyr, where a number of young Gypsies and Travellers were brought together by Save the Children to talk about their experiences to me directly. 'My Big Fat Gypsy Wedding' was a particular point that they brought up. I had to explain that we were not in a position to control broadcasting; nevertheless, negative ideas and perceptions certainly do not help, to put it mildly.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod am y pwyntiau hynny. Rydych yn llygad eich lle ynghylch pobl ifanc yn dweud eu barn, roeddwn yn falch iawn o fynd i ddigwyddiad ym Merthyr, lle y casglwyd nifer o Sipsiwn a Theithwyr ifanc at ei gilydd gan Achub y Plant i siarad â mi yn uniongyrchol am eu profiadau. Roedd 'My Big Fat Gypsy Wedding' yn bwynt penodol a nodwyd ganddynt. Roedd yn rhaid imi esbonio nad oeddem mewn sefyllfa i reoli darlledu; er hynny, nid yw syniadau a chanfyddiadau negyddol yn helpu, a dweud y lleiaf.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 16:56.*

*Sandy Mewies took the Chair at 16:56.*

## Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are quite right when you talk about preconceived ideas. The 'How Fair is Wales?' report, which helped to inform the hate crime framework—the results of which, along with an action plan, we will have early in the new year—highlighted that attitudes towards Gypsies and Travellers are generally negative, with 63% of people thinking that Gypsies and Travellers are unsuitable to be teachers, 38% would be unhappy about a close relative marrying a Gypsy or a Traveller, and nearly two thirds of people would have a strong objection to a Gypsy or Traveller site being near their home. We do not underestimate those difficulties, but it is a matter that we have to tackle, and we have to tackle it in partnership with our key partners, such as local authorities, the NHS and particularly, you are right to say, with Traveller and Gypsy communities themselves, which, in the main, are responding positively to the work that we are doing. In terms of community cohesion, as I have just mentioned in my response to Mohammad Asghar, there are now nine community cohesion regional co-ordinators throughout Wales whose job it is to try to raise the public profile and show the true nature of Gypsies and Travellers.

Rydych yn llygad eich lle wrth siarad am syniadau rhagdybiedig. Cynorthwyodd yr adroddiad 'Pa Mor Deg yw Cymru?' i gyfrannu at y fframwaith trosedd casineb—a bydd gennym y canlyniadau, yn ogystal â chynllun gweithredu, yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Amlygodd yr adroddiad hwn fod agweddau tuag at Sipsiwn a Theithwyr yn gyffredinol negyddol, gyda 63% o bobl yn meddwl bod Sipsiwn a Theithwyr yn anaddas i fod yn athrawon. Byddai 38% yn anhapus pe byddai perthynas agos yn priodi Sipsi neu Deithiwr, a byddai gan bron i ddau o bob tri o bobl wrthwynebiad cryf i gael safle Sipsiwn neu Deithwyr yn agos i'w cartref. Rydym yn sylweddoli maint yr anawsterau hynny, ond mae'n fater y mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef, ac mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef mewn partneriaeth â'n partneriaid allweddol, megis awdurdodau lleol, y GIG ac yn arbennig, yr ydych yn iawn i ddweud, gyda chymunedau Teithwyr a Sipsiwn eu hunain, sydd, ar y cyfan, yn ymateb yn gadarnhaol i'r gwaith yr ydym yn ei wneud. O ran cydlyniant cymunedol, fel yr wyf newydd sôn yn fy ateb i Mohammad Asghar, mae naw o gydgysylltwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol ledled Cymru bellach, sydd â'r gwaith o geisio codi proffil cyhoeddus a dangos gwir natur Sipsiwn a Theithwyr.

You are right to say that this policy does not include the Roma community. At this time, the number of people from the EU Roma community in Wales is small and tends to be concentrated in parts of Cardiff and Newport. However, it is a matter that we are paying very close attention to and we will work with officials from the Department for Work and Pensions, because we have no locus over immigration, to make sure that there is a fair and reasonable policy. However, of course, health providers and providers of education need to be alert to the need to offer those places as they would to any other people in Wales.

Yr ydych yn iawn i ddweud nad yw'r polisi hwn yn cynnwys y gymuned Roma. Ar hyn o bryd, nifer fechan o bobl o gymuned Roma yr UE sydd yng Nghymru a'r tueddiad yw iddynt fod wedi eu crynhoi mewn rhannau o Gaerdydd a Chasnewydd. Fodd bynnag, mae'n fater yr ydym yn rhoi sylw gofalus iawn iddo a byddwn yn gweithio gyda swyddogion o'r Adran Gwaith a Phensiynau, oherwydd nad oes gennym unrhyw gyfrifoldeb dros fewnfudo, i sicrhau y gweithredir bod polisi teg a rhesymol. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae angen i ddarparwyr iechyd a darparwyr addysg fod yn effro i'r angen i gynnig lleoedd iddynt yn yr un modd ag y byddent yn ei wneud i unrhyw bobl eraill yng Nghymru.

16:58

## Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, thank you for providing an update to the action framework. There are a number of points that I would like specifically to raise. However, first, I would like to offer some words of encouragement in terms of how local authorities act to provide for Gypsies and Travellers. I welcome the assistance, which your statement has told us about, that will be given to the development of new sites where the need is recognised in order to reduce the number of unauthorised camps, as nobody wants unauthorised camps. I very much welcome the proposals in the housing Bill to give a statutory element to this and, Minister, I especially welcome the changes to the grant allocations that have occurred. It is important to give praise where praise is due.

Weinidog, diolch i chi am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y fframwaith gweithredu. Mae nifer o bwyntiau yr hoffwn eu codi'n benodol. Fodd bynnag, yn gyntaf, hoffwn gynnig rhai geiriau o anogaeth o ran sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Croesawaf y cymorth, a nodwyd yn eich datganiad, a fydd yn cael ei roi i ddatblygu safleoedd newydd pan gydnabyddir yr angen er mwyn lleihau nifer y gwersylloedd heb eu hawdurdodi, gan nad oes neb eisiau gwersylloedd heb eu hawdurdodi. Rwyf yn croesawu'n fawr y cynigion yn y Bil Tai i roi elfen statudol i hyn ac, Weinidog, yr wyf yn croesawu'n arbennig y newidiadau i'r dyraniadau grant sydd wedi digwydd. Mae'n bwysig rhoi clod pan fo clod yn ddyledus.

However, I note that some aspects have been delayed, such as the planning workshops with local authorities to help to properly assess needs. I appreciate that there is still a lack of local development plans in place in Wales, but can you guarantee that your Government's commitment to revisit this next year will be kept?

Fodd bynnag, rwyf wedi sylwi bod rhai agweddau wedi cael eu gohirio, fel y gweithdai cynllunio gydag awdurdodau lleol i helpu i asesu anghenion yn iawn. Rwyf yn sylweddoli bod diffyg yn parhau o ran y cynlluniau datblygu lleol sydd ar waith yng Nghymru, ond a allwch chi warantu y cedwir at ymrwymiad eich Llywodraeth i edrych ar hyn eto y flwyddyn nesaf?

In terms of education, I welcome the introduction of the T code to record Travellers' absence from school, but do you agree that this is the area where most engagement with the communities themselves is crucial? We have to ensure that Gypsy and Traveller children and young people have access to the same education as everybody else. Will you use your influence to ensure that the communities engage with us as much as possible, so that we can make this a reality?

O ran addysg, rwyf yn croesawu cyflwyno'r cod T i gofnodi absenoldeb Teithwyr o'r ysgol, ond a ydych chi'n cytuno mai dyma'r maes lle y mae'r rhan fwyaf o'r ymgysylltu gyda'r cymunedau eu hunain yn hanfodol? Mae'n rhaid i ni sicrhau bod plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr yn derbyn yr un addysg â phawb arall. A wnewch chi ddefnyddio eich dylanwad i sicrhau bod y cymunedau yn ymgysylltu cymaint â phosibl gyda ni, er mwyn i ni allu gwireddu hyn?

I have to mention specifically the education of girls, as we know that, while attendance and drop-out rates are high generally for the whole of the two communities, they are especially high among girls. I would also ask why there is nothing in the updated proposals to tackle that issue specifically. I, too, was going to raise the issue of the Roma people. We know that Bulgaria and Romania are due to have immigration restrictions lifted next year, which could see many more arrive here, and it seems a little bit short-sighted to me not to have an inclusion strategy. Is it true, Minister, that the Welsh Government does not even recognise this group? I genuinely do not know and I would ask you for your views on that. I appreciate that the Roma group is very different from Gypsies and Travellers, but, nevertheless, we need to start thinking now about how we plan for the future.

Mae'n rhaid i mi sôn yn benodol am addysg merched, gan ein bod yn gwybod, er bod cyfraddau presenoldeb a gadael addysg yn uchel yn gyffredinol ar gyfer y ddwy gymuned gyfan, eu bod yn arbennig o uchel ymhlith merched. Byddwn hefyd yn gofyn pam nad oes dim yn y cynigion diweddaraf i fynd i'r afael â'r mater hwn yn benodol. Roeddwn innau hefyd yn mynd i godi mater y bobl Roma. Rydym yn gwybod bod cyfyngiadau mewnfudo ar gyfer Bwlgaria a Romania i fod i gael eu diddymu y flwyddyn nesaf, a gallai hynny olygu y bydd llawer mwy ohonynt yn cyrraedd yma, felly mae'n ymddangos braidd yn annoeth i mi i beidio â chael strategaeth cynhwysiant. A yw'n wir, Weinidog, nad yw Llywodraeth Cymru hyd yn oed yn cydnabod y grŵp hwn? Nid wyf yn gwybod a dweud y gwir, a byddwn yn gofyn i chi am eich barn am hynny. Rwyf yn sylweddoli bod y grŵp Roma yn wahanol iawn i Sipsiwn a Theithwyr, ond, serch hynny, mae angen i ni ddechrau meddwl nawr ynglŷn â sut yr ydym am gynllunio ar gyfer y dyfodol.

17:01 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member very much for those points. I am very grateful for the encouraging remarks in terms of our current plans. You are quite right to make the point that increasing the grant to local authorities for new sites or refurbishing existing sites from 75% to 100% has made a significant difference. Yes, some local authorities are better than others in terms of developing sites. They must all, however, do it through their local development plan process. I can give you a guarantee that we will be on the ball in that regard and that they will all have to take proper account and show evidence as to how they have considered actual need. Clearly, in those local authorities where they may say at this moment that there is no actual need, but nevertheless we have evidence of illegal encampments, then there is a need. Those matters will be looked at quite closely.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod am y pwyntiau yna. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y sylwadau calonogol am ein cynlluniau presennol. Rydych chi yn llygad eich lle i nodi bod cynyddu'r grant i awdurdodau lleol ar gyfer safleoedd newydd neu adnewyddu safleoedd presennol o 75% i 100% wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol. Mae'n wir bod rhai awdurdodau lleol yn well na'i gilydd o ran datblygu safleoedd. Mae'n rhaid i bob un ohonynt, fodd bynnag, ei wneud drwy eu proses cynllun datblygu lleol. Gallaf addo i chi y byddwn yn monitro hyn yn ofalus ac y bydd yn rhaid i bob un ohonynt roi ystyriaeth briodol a dangos tystiolaeth o sut y maent wedi ystyried anghenion gwirioneddol. Yn amlwg, yn yr awdurdodau lleol hynny lle y byddant o bosib yn dweud nad oes angen mewn gwirionedd ar hyn o bryd, ond serch hynny, bod gennym ni dystiolaeth o wersylloedd anghyfreithlon, yna mae angen yn bodoli. Byddwn yn edrych yn agos iawn ar y materion hynny.

In terms of schools, we now have the inclusion grant, which Gypsies and Travellers can apply for, as can EU Roma children. That is the £1.1 million. In every school, there will have to be a point of contact who will deal with the needs of Gypsy and Traveller communities, as well as EU Roma children where that is the case.

O ran ysgolion, mae gennym y grant cynhwysiant bellach, a gall Sipsiwn a Theithwyr wneud cais amdano, fel y gall plant Roma o'r UE. Dyna'r £1.1 miliwn. Ym mhob ysgol, bydd yn rhaid cael pwynt cyswllt a fydd yn ymdrin ag anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â phlant Roma o'r UE pan fo hynny'n berthnasol.

You mentioned the issue of girls' education specifically. I will have to take that one back. I am not aware of any particular provision in terms of female education, but I will see whether anything is being dealt with. However, it will be primarily a matter for my colleague, the Minister for Education and Skills, who is in his seat and will have heard this point.

Soniasoch am y mater o addysg i ferched yn benodol. Bydd yn rhaid i mi edrych ar hynny eto. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ddarpariaeth benodol o ran addysg i ferched, ond byddaf yn edrych i weld a oes unrhyw beth yn derbyn sylw. Fodd bynnag, mater i fy nghydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, fydd hyn yn bennaf, ac mae ef yn ei sedd, a bydd wedi clywed y pwynt hwn.

In terms of the Roma community, the largest numbers are, not surprisingly, from Romania. When access opens up properly to Bulgaria and Romania, there may be greater numbers coming in. We cannot say that for certain. France or Germany might be more attractive; we are not sure. Nevertheless, my officials are in contact with the UK Government officials. I had a very nice letter from Mr Eric Pickles just a little while ago, which I was able to respond to positively, and we will be looking to work together to make sure that there are coherent and fair policies in place.

O ran y gymuned Roma, mae'r niferoedd mwyaf, o Romania, ac nid yw hynny'n syndod. Pan fydd mynediad yn agor yn iawn i Fwlgaria a Romania, efallai y bydd mwy o niferoedd yn dod i mewn. Ni allwn ddweud hynny'n bendant. Gallai Ffrainc neu'r Almaen fod yn fwy deniadol, nid ydym yn siwr. Serch hynny, mae fy swyddogion mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y DU. Cefais lythyr caredig iawn gan Mr Eric Pickles yn ddiweddar iawn, ac roeddwn yn gallu ymateb yn gadarnhaol, a byddwn yn ceisio gweithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod polisiau cydlynol a theg wedi eu sefydlu.

17:03 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement from the Minister. Like Lindsay Whittle, I have also been looking at the update document in terms of the action plan and I wonder whether the Minister could deal with a couple of questions arising from that in particular. In relation to the £1.5 million allocated for the current financial year, can the Minister confirm how much of that has been committed to be spent? I notice that there have been issues with the Powys money, of course. What assessment has been made of whether the change in funding for the capital grant has improved the ability of local authorities to plan for and meet Gypsy and Traveller accommodation needs? What is the timetable for the publication of the revised good practice guide on designing Gypsy and Traveller sites in Wales in light of the commencement of section 318 of the Housing and Regeneration Act 2008 and the Mobile Homes (Wales) Act 2013?

Rwyf yn croesawu'r datganiad gan y Gweinidog. Fel Lindsay Whittle, rwyf innau hefyd wedi bod yn edrych ar y ddogfen ddiweddaraf o ran y cynllun gweithredu ac roeddwn yn meddwl tybed a allai'r Gweinidog ymdrin ag un neu ddau o gwestiynau sy'n codi o hynny yn benodol. O ran y £1.5 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, a all y Gweinidog gadarnhau faint o hynny sydd wedi'i ymrwymo i gael ei wario? Sylwaf y bu problemau gyda'r arian i Bowys, wrth gwrs. Pa asesiad sydd wedi'i wneud ynglŷn â pha un a oedd y newid yn y cyllid ar gyfer y grant cyfalaf wedi gwella gallu awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr a'u diwallu? Beth yw'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r canllaw arfer da diwygiedig ar gynllunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru o ystyried cychwyn adran 318 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013?

Also, I want to raise with the Minister a question that I raised with him in the Communities, Equality and Local Government Committee a couple of weeks ago in relation to transit sites. What work has been done by the Welsh Government in terms of provision of transit sites and what resources are available to local authorities for that particular issue? I think that that, more than anything, will help to tackle illegal encampments around Wales.

Hefyd, yr wyf am godi cwestiwn gyda'r Gweinidog a godais gydag ef yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wythnos neu ddwy yn ôl ynglŷn â safleoedd tramwy. Pa waith sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru o ran darparu safleoedd tramwy a pha adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer y mater penodol hwnnw? Credaf y bydd hynny, yn anad dim, yn helpu i fynd i'r afael â gwersylloedd anghyfreithlon ledled Cymru.

We await publication of the housing (Wales) Bill, which, we are told, will introduce a statutory duty on local authorities to provide Gypsy and Traveller sites where there is unmet need to address the shortfall in authorised Gypsy and Traveller pitches. How will that duty work in practice and what guidance will be issued to local authorities to help them identify suitable sites?

Rydym yn disgwyl cyhoeddiad Bil Tai (Cymru), a fydd, yn ôl y sôn, yn cyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr pan fo angen heb ei ddiwallu i fynd i'r afael â'r diffyg o ran safleoedd wedi'u hawdurdodi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Sut y bydd y ddyletswydd honno yn gweithio yn ymarferol a pha arweiniad a gyflwynir i awdurdodau lleol i'w helpu i nodi safleoedd addas?

You stated to the Communities, Equality and Local Government Committee, when we discussed the draft budget, that this duty will utilise the Gypsy and Traveller sites capital grants, but that you will also explore whether additional capital can be secured to coincide with the implementation of the housing Bill. I wonder whether you can say whether there has been any update on that issue.

Dywedasoch wrth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, pan drafodwyd y gyllideb ddrafft hon, y bydd y ddyletswydd hon yn defnyddio'r grantiau cyfalaf ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ond y byddwch hefyd yn ystyried pa un a ellir sicrhau cyfalaf ychwanegol i gyd-fynd â gweithrediad y Bil Tai. Tybed a allwch chi ddweud pa un a oes unrhyw wybodaeth ddiweddar ar gael ar y mater hwnnw.

In relation to consultation and engagement, the framework for action contains a key commitment to removing barriers to engagement with Gypsy and Traveller children and young people. I very much welcome the strong progress on those objectives following the success of the Travelling Ahead project, which has seen the creation of local and national forums for engagement. The update notes, however, that some mainstream staff are still in need of training on cultural awareness and engagement issues when working with Gypsy and Traveller children, but there are no next steps on that issue. Will the Minister outline the action that will be taken to address this training need? There are also still problems with engagement. Members have raised concerns about the lack of awareness of the Control of Horses (Wales) Bill among the Gypsy and Traveller community, as well as of other changes to legislation, such as licences for scrap metal. Could the Minister say what action is being taken to improve awareness and engagement with all members of the Gypsy and Traveller community about key changes that might impact on them?

O ran ymgynghori ac ymgysylltu, mae'r fframwaith ar gyfer gweithredu yn cynnwys ymrwymiad allweddol i ddileu rhwystrau ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y cynnydd cryf a wnaed ar yr amcanion hynny yn dilyn llwyddiant y prosiect Teithio Ymlaen, sydd wedi golygu creu fforymau lleol a chenedlaethol ar gyfer ymgysylltiad. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf, fodd bynnag, yn nodi bod rhai staff prif ffrwd yn dal i fod angen hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol a materion ymgysylltu wrth weithio gyda phlant Sipsiwn a Theithwyr, ond nid oes camau nesaf ar gael ar gyfer y mater hwnnw. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau a fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r angen hwn am hyfforddiant? Mae problemau yn parhau gydag ymgysylltiad hefyd. Mae Aelodau wedi codi pryderon am y diffyg ymwybyddiaeth o'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) ymhlith y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â newidiadau eraill i ddeddfwriaeth, megis trwyddedau ar gyfer metel sgrap. A allai'r Gweinidog ddweud pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â phob aelod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ynglŷn â newidiadau allweddol a allai effeithio arnynt?

Finally, in relation to the issue that Lindsay Whittle raised about planning, could the Minister give an update on when exactly he anticipates the 50% mark being reached in terms of the local development plan, so that we can then move forward in relation to planning for Gypsy and Traveller caravan sites, which, as Lindsay has noted, has been delayed until those LDPs are in place?

Yn olaf, ynglŷn â'r mater a godwyd gan Lindsay Whittle am gynllunio, a allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bryd yn union y mae'n rhagweld y marc o 50% yn cael ei gyrraedd o ran y cynllun datblygu lleol, fel y gallwn wedyn symud ymlaen i gynllunio ar gyfer safleoedd carafannau Sipsiwn a Theithwyr, sydd, fel y mae Lindsay wedi ei nodi, wedi ei ohirio hyd nes y bydd y Cynlluniau Datblygu Lleol hynny wedi eu sefydlu?

17:07

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Quite a lot of points were raised there. Some were quite diverse and a number will require me to speak with other Ministers. Certainly, in terms of the eventual preparation and agreement of the local development plans, I will need to talk with my colleague the Minister for Local Government and Government Business to make sure that I have accurate information, which I will send on to you.

Codwyd cryn dipyn o bwyntiau nawr. Roedd rhai yn eithaf amrywiol a bydd yn ofynnol i mi siarad â Gweinidogion eraill er mwyn ateb nifer ohonynt. Yn sicr, o ran paratoi a chytuno ar y cynlluniau datblygu lleol yn y pen draw, bydd yn rhaid i mi siarad â fy nghydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i wneud yn siwr bod y wybodaeth gywir gennyf, a byddaf yn ei hanfon ymlaen atoch.

You asked at the beginning about how much of the capital moneys—the £1.5 million—has actually been committed. I will write to you with accurate figures on that point, but my understanding is that, since it was increased to 100% of the cost, almost all of that has been committed. We anticipate that, over the next two financial years, the amount that will be available will be the same. There is also, of course, the £1.75 million for the new site in Brecon; that is a one-off and will obviously not be repeated in future years necessarily.

Fe wnaethoch ofyn ar y dechrau ynglŷn â faint o'r cyfalaf arian—yr £1.5 miliwn— sydd wedi ei ymrwymo mewn gwirionedd. Byddaf yn ysgrifennu atoch gyda'r ffigurau cywir ar y pwynt hwnnw, ond cyn belled ag yr wyf yn gwybod, ers iddo gael ei gynyddu i 100% o'r gost, mae'r cwbl bron wedi ei ymrwymo. Rydym yn rhagweld mai yr un faint fydd y swm a fydd ar gael dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Hefyd, wrth gwrs, mae'r £1.75 miliwn ar gyfer y safle newydd yn Aberhonddu ar gael; cyfraniad untro yw hwnnw, ac yn amlwg ni fydd yn cael ei ailadrodd yn y dyfodol o reidrwydd.

You did indeed raise the issue of transit sites and I went away and looked at that. The capital moneys, of course, can be applied to for transit sites as well as permanent sites. At this moment, I am advised that there are no transit sites within Wales. That is a matter that I will look at far more closely, because I would be surprised if there were no need. There is apparently one transit pitch, which is privately owned, and is in Torfaen.

Fe wnaethoch yn wir godi'r mater safleoedd tramwy, ac rwyf wedi edrych ar hynny. Gellir gwneud cais am arian cyfalaf, wrth gwrs, ar gyfer safleoedd tramwy, yn ogystal â safleoedd parhaol. Ar hyn o bryd, y wybodaeth sydd gennyf yw nad oes unrhyw safleoedd tramwy yng Nghymru. Mae hwnnw'n fater y byddaf yn edrych yn llawer mwy gofalus arno, oherwydd byddwn yn synnu pe nad oes angen. Mae'n ymddangos y ceir un safle tramwy, sydd yn eiddo preifat, ac yn Nhorfaen mae hwnnw.

You asked about the guidance on identifying sites. As I have said, that guidance is now being prepared and will be issued to local authorities very shortly. In terms of the overall provisions of the housing Bill, I would rather wait until that is on the floor of the Chamber, but I will be having discussions with my colleague the Minister for Housing and Regeneration. Clearly, the issue of better cultural awareness is very important. That is why we are providing, within the schools budget, an online cultural curriculum that will improve the awareness and understanding of pupils, and, indeed, I see no reason at all, where there is an identified need among staff who work with the Gypsy and Traveller group, why that type of principle could not be applied to them as well.

Roeddech yn gofyn am y canllawiau ar nodi safleoedd. Fel yr wyf wedi ei ddweud, mae'r canllawiau hynny bellach yn cael eu paratoi a byddant yn cael eu cyflwyno i awdurdodau lleol yn fuan iawn. O ran darpariaethau cyffredinol y Bil Tai, byddai'n well gennyf aros tan y bydd ar lawr y Siambr, ond byddaf yn cael trafodaethau â'm cydweithiwr, y Gweinidog Tai ac Adfywio. Yn amlwg, mae'r mater o sicrhau gwell ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn bwysig iawn. Dyna pam yr ydym yn darparu, o fewn y gyllideb ysgolion, cwricwlwm diwylliannol ar-lein a fydd yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion, ac, yn wir, ni welaf unrhyw reswm o gwbl, pan nodir angen ymhlith staff sy'n gweithio gyda'r grŵp Sipsiwn a Theithwyr, pam na ellid defnyddio'r math hwnnw o egwyddor gyda nhw hefyd.

You mentioned the issue of horses. Fly-grazing is a matter very much for my colleague the Minister for Natural Resources and Food and those are matters that we are looking to deal with quite quickly.

Crybwyllwyd y mater ceffylau. Mae pori anghyfreithlon yn fater i fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ac mae'r rheini'n faterion yr ydym yn bwriadu ymdrin â hwy'n eithaf cyflym.

In terms of the issue of scrap metal, a group of Travellers came to me about the new licensing regime, which takes no account of nomadic lifestyles and will require them, as they move, to buy many licences. If Cardiff Council's one is anything to go by, they could cost £450 each, and, if that is multiplied many times, that places a difficulty in front of them and a disproportionate disadvantage upon them. It seems that when the Home Office consulted on this—it is UK Government legislation—it did not consult with Gypsies and Travellers, and that is very disappointing.

O ran y mater metel sgrap, daeth grŵp o Deithwyr ataf i ofyn am y drefn drwyddedu newydd, sy'n diystyrru ffyrdd o fyw crwydrol, ac a fydd yn golygu y bydd yn ofynnol iddynt, wrth iddynt symud, brynu llawer o drwyddedau. O ystyried cost trwydded Cyngor Caerdydd, gallent gostio £450 yr un, ac wrth luosogi hynny lawer gwaith, mae hynny'n ei gwneud yn anodd iddynt ac yn golygu eu bod yn dioddef anfantais anghymesur. Mae'n ymddangos, pan ymgynghorodd y Swyddfa Gartref ar hyn—deddfwriaeth Llywodraeth y DU ydyw—na ymgynghorwyd â Sipsiwn a Theithwyr, ac mae hynny'n siomedig iawn.

17:11

## Datganiad: Creu Cymwysterau Cymru

## Statement: The Establishment of Qualifications Wales

Senedd.tv
Fideo Video

### Huw Lewis Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Last month, I launched 'Our Qualifications—Our Future', a consultation on proposals for the Welsh Government to meet one of the recommendations in last year's 'Review of Qualifications for 14 to 19-year-olds in Wales' and to establish a single body, Qualifications Wales, responsible for the regulation and quality assurance of non-degree qualifications in Wales and, in time, the development and awarding of most general qualifications in Wales.

Fis diwethaf, lansiais 'Ein Cymwysterau – Ein Dyfodol', sef ymgynghoriad ar gynigion i Lywodraeth Cymru fodloni un o'r argymhellion yn yr 'Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru' y llynedd a sefydlu un corff, Cymwysterau Cymru, a fyddai'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau ac eithrio cymwysterau gradd yng Nghymru ac, ymhen amser, am ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru.

The proposed establishment of Qualifications Wales in 2015 will strengthen and simplify the qualifications system. It will bring together key functions within the qualifications system into one national body. It will allow Wales to take ownership of its qualifications system to ensure that its qualifications are more valued and relevant—both nationally and globally—and that they more effectively meet the needs of learners, employers, the educational community and the wider population of Wales.

Bydd y cynnig i sefydlu Cymwysterau Cymru yn 2015 yn cryfhau ac yn symleiddio'r system gymwysterau. Bydd yn dwyn ynghyd swyddogaethau allweddol o fewn y system gymwysterau mewn un corff cenedlaethol. Bydd yn caniatáu i Gymru gymryd perchnogaeth ar y system gymwysterau er mwyn sicrhau bod ei chymwysterau yn fwy gwerthfawr a pherthnasol—yn genedlaethol ac yn fyd-eang—a'u bod yn diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr, y gymuned addysgol a phoblogaeth ehangach Cymru yn fwy effeithiol.

In the first instance, Qualifications Wales will focus on the regulation, quality assurance and quality improvement of qualifications. It will enable us to address concerns about the complexity and bureaucracy of the current market structure for GCSEs and A-levels, and to ensure that our qualifications are both more responsive to the needs of our country while, at the same time, being robust, challenging and free from the undue influence of others.

Ar y dechrau, bydd Cymwysterau Cymru'n canolbwyntio ar reoleiddio, sicrhau ansawdd a gwella ansawdd y cymwysterau. Bydd yn ein galluogi i ymdrin â phryderon am gymhlethdod a biwrocratiaeth strwythur y farchnad ar hyn o bryd ar gyfer TGAU a Safon Uwch, ac i sicrhau bod ein cymwysterau'n fwy ymatebol i anghenion ein gwlad, ac ar yr un pryd, yn gadarn, yn heriol ac yn rhydd o ddylanwad gormodol eraill.

Qualifications Wales will also provide an independent, authoritative and expert point of reference on qualifications, both for the Welsh Government and for all stakeholders with an interest in education, training and employment. It will provide easily accessible advice and guidance on Wales's qualifications system for all interested stakeholders. It will provide policy advice to stakeholders and to Ministers to ensure that our qualifications system and associated policy in Wales are based on sound empirical evidence. It will engage extensively with professionals and practitioners both within Wales and internationally to develop qualifications and working practices that are comparable with the best in the world. This will allow our young people and learners of all ages to achieve qualifications that are recognised and accepted across the world.

Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn fan cyfeirio annibynnol, awdurdodol ac arbenigol ar gymwysterau, i Lywodraeth Cymru ac i'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Bydd yn darparu cyngor ac arweiniad hygyrch ynghylch system gymwysterau Cymru ar gyfer yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb. Bydd yn darparu cyngor polisi i randdeiliaid ac i Weinidogion i sicrhau bod ein system gymwysterau a pholisïau cysylltiedig yng Nghymru'n seiliedig ar dystiolaeth empirig gadarn. Bydd yn ymgysylltu'n helaeth â gweithwyr proffesiynol ac ag ymarferwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol i ddatblygu cymwysterau ac arferion gwaith sydd gyda'r gorau yn y byd. Bydd hyn yn galluogi ein pobl ifanc a dysgwyr o bob oedran i ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod a'u derbyn ledled y byd.

I am keen that Qualifications Wales make awarding and regulatory decisions independently from political activity. It will be a statutory corporation outside of the Welsh Government, and my officials are exploring how the National Assembly for Wales can be involved in holding Qualifications Wales to account to the people of Wales.

Rwyf yn awyddus i weld Cymwysterau Cymru'n gwneud penderfyniadau dyfarnu a rheoleiddio'n annibynnol ar weithgarwch gwleidyddol. Bydd yn gorfforaeth statudol y tu allan i Lywodraeth Cymru, ac mae fy swyddogion yn edrych ar sut y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymwneud â sicrhau bod Cymwysterau Cymru'n atebol i bobl Cymru.

In order to safeguard learners' qualifications and to provide some stability in this period of transition, we will establish Qualifications Wales's functions on a phased basis. From the end of 2015, I propose that Qualifications Wales will undertake a range of functions that are similar to the current qualifications regulatory functions that rest with the Welsh Ministers. To minimise the risks to learners and the system, Qualifications Wales, once established, will agree with the Welsh Government a timescale for Qualifications Wales to take up, subsequently, its awarding powers.

Er mwyn diogelu cymwysterau dysgwyr a darparu rhywfaint o sefydlogrwydd yn y cyfnod hwn o newid, byddwn yn sefydlu swyddogaethau Cymwysterau Cymru yn raddol. O ddiwedd 2015, cynigiaf y bydd Cymwysterau Cymru'n cyflawni ystod o swyddogaethau sy'n debyg i swyddogaethau rheoleiddio cymwysterau Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd. Er mwyn lleihau'r risgiau i ddysgwyr ac i'r system, bydd Cymwysterau Cymru, ar ôl ei sefydlu, yn cytuno ar amserlen gyda Llywodraeth Cymru i Gymwysterau Cymru arfer ei bwerau dyfarnu wedi hynny.

In the shorter term, we will continue to work with awarding organisations, including WJEC, on the development and revision of a suite of key 'Wales only' qualifications, including GCSEs, A-levels and the Welsh baccalaureate. In response to the recommendations of the review of qualifications in Wales, we are developing a range of new Wales-only GCSEs in key subjects, including English, Welsh and two new maths qualifications. We are also making some key improvements to the Welsh baccalaureate.

Yn y tymor byrrach, byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau dyfarnu, gan gynnwys CBAC, i ddatblygu ac i adolygu cyfres o gymwysterau 'Cymru yn unig' allweddol, gan gynnwys TGAU, Safon Uwch a bagloriaeth Cymru. Mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad o gymwysterau yng Nghymru, rydym yn datblygu ystod o gymwysterau TGAU newydd i Gymru'n unig mewn pynciau allweddol, gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a dau gymhwyster mathemateg newydd. Rydym hefyd yn gwneud gwelliannau allweddol i fagloriaeth Cymru.

These new and revised qualifications will be taught in Wales from September 2015 and will provide clear and comparable awards for young people, while supporting the development of well-rounded learners with the skills needed for work, learning and life, focusing strongly on literacy and numeracy. Later this term, we will be seeking stakeholder views on the key features of these new and important qualifications, and at the same time we will be inviting views on reformed A-levels, which will also be taught in Wales from September 2015.

Bydd y cymwysterau newydd, diwygiedig yn cael eu dysgu yng Nghymru o fis Medi 2015 ac yn rhoi dyfarniadau clir a chymaradwy i bobl ifanc, ac ar yr un pryd yn helpu i ddatblygu dysgwyr cyflawn a chanddynt y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwaith, dysgu a bywyd, gan ganolbwyntio'n gryf ar lythrennedd a rhifedd. Yn ddiweddarach y tymor hwn, byddwn yn gofyn am farn rhanddeiliaid am nodweddion allweddol y cymwysterau newydd, pwysig hyn, ac ar yr un pryd, byddwn yn gofyn barn pobl am y Safon Uwch ddiwygiedig, a fydd hefyd yn cael ei dysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

The provision of high-quality, robust vocational qualifications is vital for our learners and for our economy. Qualifications Wales will have a key role in making sure that this happens. We are already developing a strengthened gateway process for vocational qualifications to ensure that these qualifications, offered by a range of awarding bodies, meet the needs of end users, be they employers or next-stage education providers. Qualifications Wales will be able to build on these positive steps and develop an ongoing programme of quality assurance and improvement. In time, Qualifications Wales will have the potential to develop and award some vocational qualifications, particularly those developed for learners up to the age of 16.

Mae darparu cymwysterau galwedigaethol cadarn o ansawdd uchel yn hanfodol i'n dysgwyr ac i'n heconomi. Bydd gan Gymwysterau Cymru rôl allweddol o ran sicrhau bod hyn yn digwydd. Rydym eisoes yn datblygu proses gryfach o ran porth i gymwysterau galwedigaethol er mwyn sicrhau bod y cymwysterau hyn, a gynigir gan amryw o gyrff dyfarnu, yn bodloni anghenion y defnyddwyr terfynol, boed yn gyflogwyr neu'n ddarparwyr addysg cam nesaf. Bydd Cymwysterau Cymru'n gallu adeiladu ar y camau cadarnhaol hyn a datblygu rhaglen barhaus o sicrhau ansawdd a gwella. Ymhen amser, bydd potensial i Gymwysterau Cymru ddatblygu a dyfarnu rhai cymwysterau galwedigaethol, yn enwedig y rhai a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr hyd at 16 oed.

My officials are already engaging actively with stakeholders through a series of stakeholder reference groups and other communications channels. This will continue throughout and beyond the consultation period, which ends on 20 December. I will outline my vision and timeline for reforming the qualifications landscape in Wales, entitled 'delivering a national qualifications system for Wales', at a national conference for stakeholders on 11 December.

Mae fy swyddogion eisoes yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gyfres o grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid a dulliau cyfathrebu eraill. Bydd hyn yn parhau drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a ddaw i ben ar 20 Rhagfyr, a thu hwnt. Byddaf yn amlinellu fy ngweledigaeth a'm hamserlen ar gyfer diwygio'r tirlun cymwysterau yng Nghymru, o dan y teitl 'darparu system gymwysterau genedlaethol yng Nghymru', mewn cynhadledd genedlaethol i randdeiliaid ar 11 Rhagfyr.

I am also keen to seek the views of children and young people in Wales with whom officials will be engaging through focus groups to learn about what they may want to see from Qualifications Wales. After all, it will be an organisation that has the potential to improve their prospects in life and in work.

Rwyf hefyd yn awyddus i ofyn barn plant a phobl ifanc yng Nghymru a bydd swyddogion yn ymgysylltu â hwy drwy grwpiau ffocws i ddysgu am yr hyn y byddent o bosibl am ei weld gan Gymwysterau Cymru. Wedi'r cyfan, bydd yn sefydliad â'r potensial i wella eu rhagolygon mewn bywyd ac mewn gwaith.

Following consideration of the debate and responses that these proposals will generate, I intend to bring forward provisions relating to the setting up of an independent qualifications body through legislation later in this Assembly term.

Ar ôl ystyried y drafodaeth a'r ymatebion y bydd y cynigion hyn yn esgor arnynt, bwriadaf gyflwyno darpariaethau sy'n ymwneud â sefydlu corff cymwysterau annibynnol drwy ddeddfwriaeth yn ddiweddarach yn nhymor y Cynulliad hwn.

17:17 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I intend to call the people who wish to speak in this debate, but I ask you to be succinct and to the point in your questions, please. I now call on the Conservative spokesperson, Angela Burns.

Rwyf yn bwriadu galw'r bobl sy'n dymuno siarad yn y ddadl hon, ond gofynnaf ichi fod yn gryno a phwrpasol yn eich cwestiynau, os gwelwch yn dda. Galwaf yn awr ar lefarydd y Ceidwadwyr, Angela Burns.

17:18 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer. Minister, thank you for your statement today. I welcome it because I feel that we need this clarification over qualifications in Wales, particularly at a time when there is so much going on in this particular landscape.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd dros dro. Weinidog, diolch ichi am eich datganiad heddiw. Rwyf yn ei groesawu oherwydd fy mod o'r farn fod angen yr eglurhad hwn ynghylch cymwysterau yng Nghymru, yn enwedig ar adeg pan fo cymaint yn digwydd ar y tirlun arbennig hwn.

I have five or six questions to ask you, and indeed one or two points that I am afraid that I will simply reiterate. First, I have seen nothing, read nothing, or heard nothing that changes my view, or the view of my colleagues here, that we should have an independent regulator. We believe that an independent regulator who sits aside from the rest of the Qualifications Wales, from the curriculum-setting and awarding process, is the way to give us proper transparency and accountability. We also think that this is going to become ever more important as the divergence between the Welsh qualifications system and the qualifications systems in England, Northern Ireland and Scotland becomes more and more apparent. We need to be seen to be clear, accountable and, above all, robust in order to ensure that our students have a qualification that they can be proud of, and which others, most importantly, will recognise.

Mae gen i bump neu chwech o gwestiynau i'w gofyn ichi, ac yn wir un neu ddau o bwyntiau yr wyf yn ofni y byddaf yn eu hailadrodd. Yn gyntaf, nid wyf wedi gweld dim byd, wedi darllen dim byd, nac wedi clywed dim byd sy'n newid fy marn i, na barn fy nghyd-weithwyr yma, y dylem gael rheoleiddiwr annibynnol. Rydym o'r farn mai cael rheoleiddiwr annibynnol sydd ar wahân i weddill Cymwysterau Cymru, ar wahân i'r broses o osod y cwricwlwm a dyfarnu, yw'r ffordd o roi tryloywder ac atebolrwydd inni. Credwn hefyd y bydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i'r ymrannu rhwng y system gymwysterau yng Nghymru a'r systemau gymwysterau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ddod yn fwyfwy amlwg. Mae angen i bobl weld ein bod yn glir, yn atebol ac, yn anad dim, yn gadarn er mwyn sicrhau bod ein myfyrwyr yn ennill cymhwyster y gallant fod yn falch ohono, ac y bydd eraill, yn bwysicaf oll, yn ei gydnabod.

I greatly welcome your comment about having an arm's-length scenario. We have suggested it on a number of occasions. Again, I reiterate that we see that a very sound way forward would be to set it up like the Wales Audit Office, with that degree of independence and therefore that lack of political accountability, with it being accountable to the Assembly rather than to any particular party.

Rwyf yn croesawu'n fawr eich sylwadau am gael sefyllfa hyd braich. Rydym wedi awgrymu hynny sawl gwaith. Dywedaf unwaith eto ein bod o'r farn mai da o beth fyddai sefydlu hyn ar batrwm Swyddfa Archwilio Cymru, gyda'r raddfa honno o annibyniaeth ac felly'r diffyg atebolrwydd gwleidyddol, gan y byddai'n atebol i'r Cynulliad yn hytrach nag i unrhyw blaid benodol.

We have real concerns about transparency and consistency, and I would like to understand how Qualifications Wales will set about basically bringing together the whole piece, because you have the national curriculum review going on, you announced yesterday the 14-19 pathways consultation review, we still have not had all of the answers back to the recommendations of the qualifications review, and you talk about improving the Welsh baccalaureate and making it stronger—it all needs to be brought together to ensure that, above all, we have an internationally recognised and completely robust set of qualifications here in Wales that are accepted everywhere. You know, it is not so long ago that the Welsh baccalaureate was not accepted by a Welsh university department for entry to its degree course, and that is a shame. We need to have a robust system, so that the HR manager of Toyota, or some bloke running the HR department at a retail giant based in London, will be able to look at it and understand exactly what it is our students are capable of.

Mae gennym bryderon gwirioneddol ynghylch tryloywder a chysondeb, a hoffwn ddeall sut y bydd Cymwysterau Cymru'n mynd ati i ddwyn popeth at ei gilydd yn y bôn, oherwydd mae'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol yn mynd rhagddo, fe gyhoeddasoch ddoe yr adolygiad ymgynghori o lwybrau 14–19, nid ydym eto wedi cael yr holl atebion yn ôl ynghylch argymhellion yr adolygiad o gymwysterau, ac rydych yn sôn am wella bagloriaeth Cymru a'i gwneud yn gryfach—mae angen dod â hyn i gyd at ei gilydd i sicrhau, yn anad dim, fod gennym set gwbl gadarn o gymwysterau yma yng Nghymru sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol ac yn cael eu derbyn ym mhob man. Wyddoch chi, nid oes cymaint â hynny o amser ers pan nad oedd bagloriaeth Cymru'n cael ei derbyn gan adran mewn prifysgol yng Nghymru ar gyfer mynediad i'w chwrs gradd, ac mae hynny'n drueni. Mae angen system gadarn arnom, fel y bydd rheolwr adnoddau dynol Toyota, neu ryw dyn sy'n rhedeg adran adnoddau dynol mewn cwmni manwerthu mawr yn Llundain, yn gallu edrych arni a deall yn union yr hyn y gall ein myfyrwyr ei wneud.

Also, Minister, I wonder whether you are able to shed any light at all on the future of the Welsh Joint Education Committee and other awarding bodies here in Wales, and the effect that this would have, not just on the mainstream, but also on the independent sector. I note that it states at the bottom of the WJEC's GCSE certificate that it is available only in Wales and that it is regulated by the Welsh Government. How will this impact on the rest—are you able to say how it will impact on the rest of its business? Of course, that will show an awful lot about what it is able to do here in Wales and where our qualifications will be going, because so much of its business is actually based in England. Also, what roles will other organisations, such as Edexcel and AQA, be able to have here? Also, what impact will all of these changes have on the independent sector? Will they still be able to go, for example, to any awarding body and follow a curriculum course, or will it be only the curriculum course that you will be setting here?

Yn ogystal, Weinidog, tybed a allwch daflu unrhyw oleuni o gwbl ar ddyfodol Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru a chyrff dyfarnu eraill yma yng Nghymru, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael, nid yn unig ar y brif ffrwd, ond hefyd ar y sector annibynnol. Nodaf ei bod yn dweud ar waelod tystysgrif TGAU CBAC mai dim ond yng Nghymru y mae ar gael ac mai Llywodraeth Cymru sy'n ei reoleiddio. Sut y bydd hyn yn effeithio ar y gweddill—a allwch ddweud sut y bydd yn effeithio ar weddill eu busnes? Wrth gwrs, bydd hynny'n dangos llawer iawn am yr hyn y mae'n gallu ei wneud yma yng Nghymru ac i ble y bydd ein cymwysterau'n mynd, gan fod cymaint o'i fusnes mewn gwirionedd yn Lloegr. Hefyd, pa rolau fydd i sefydliadau eraill, megis Edexcel ac AQA, yn hyn o beth? Hefyd, pa effaith fydd yr holl newidiadau hyn yn ei chael ar y sector annibynnol? A fyddant yn dal i allu mynd, er enghraifft, at unrhyw gorff dyfarnu a dilyn cwrs cwricwlwm, neu ai dim ond y cwrs cwricwlwm y byddwch yn ei osod yma?

There are loads of other questions, but I hope that I have been as succinct as I possibly could be.

Mae llu o gwestiynau eraill, ond rwyf yn gobeithio imi fod mor gryno ag y gallwn.

17:22

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My thanks to Angela Burns for those important points. To meet your first point, I hope, head-on, independence is built into the way in which Qualifications Wales will have to evolve and emerge. For today, what I am doing is to set out a broad direction of travel—a declaration of intent, if you like—for how we move towards a body that I believe Wales needs in order to cope with a changing landscape across the UK and beyond. Built into that will be very important priorities, the first of which will be independence from Government, and I have made that very clear in my statement this afternoon. Another would be that we are moving towards something that is entirely robust and is portable in terms of qualifications being recognised across the UK and internationally, and throughout all the various sectors of interest—we will be in gear. I do not believe for a moment that it is beyond the wit of the Welsh to get that done.

Diolch i Angela Burns am y pwyntiau pwysig hynny. I ateb eich pwynt cyntaf ar ei ben, rwyf yn gobeithio, bydd annibyniaeth yn rhan annatod o'r ffordd y bydd Cymwysterau Cymru'n gorfod esblygu a datblygu. Am heddiw, yr hyn yr wyf yn ei wneud yw gosod cyfeiriad cyffredinol y daith—datganiad o fwriad, os mynnwch—o ran sut yr ydym yn symud tuag at gorff y credaf sydd ei angen ar Gymru er mwyn ymdopi â thirlun sy'n newid ledled y DU a thu hwnt. Bydd blaenoriaethau pwysig iawn yn rhan annatod o hynny, a'r gyntaf fydd annibyniaeth ar y Llywodraeth, ac rwyf wedi gwneud hynny'n glir iawn yn fy natganiad y prynhawn yma. Un arall fyddai ein bod yn symud tuag at rywbeth sy'n gwbl gadarn ac yn gludadwy o ran cymwysterau sy'n cael eu cydnabod ledled y DU ac yn rhyngwladol, a thrwy'r holl wahanol sectorau diddordeb—byddwn yn y gêr iawn. Nid wyf yn credu am funud ei bod y tu hwnt i grebwyll y Cymry i wneud hynny.

I would point out that it is important to recognise that, in terms of the changing landscape surrounding GCSEs and A-levels, for instance—although, this is about more than that—the part of the UK that is diverging rapidly, and quite often without any kind of consultation with other parts of the United Kingdom, is England. Many of these questions, I think, would be best put to Michael Gove in England, as he is really heading off in multiple directions at once, it seems. We have had three or four different proposals for GCSEs in England since my appointment, some of which lasted only hours. Now, we do not do things like that in Wales. My officials, for instance, have started a dialogue with relevant qualifications organisations in Scotland, Northern Ireland and, indeed, in the Republic of Ireland to explore the development of a system of peer review, for us to learn from each other and to compare qualifications. Qualifications Wales will work with these organisations and others to take this work forward. We will use all the evidence that we can lay our hands on. We will use longitudinal studies, we will use cohort data, we will have an eye to other measures, such as the Programme for International Student Assessment—we are in the business here of building international credibility into the warp and weft of the Welsh qualifications system.

Carwn nodi ei bod yn bwysig cydnabod, o ran y tirlun sy'n newid o safbwynt TGAU a Safon Uwch, er enghraifft—er bod hyn yn ymwneud â mwy na hynny—mai'r rhan o'r DU sy'n dargyfeirio'n gyflym, ac yn aml iawn heb unrhyw fath o ymgynghori â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yw Lloegr. Byddai'n well, yn fy marn i, gofyn llawer o'r cwestiynau hyn i Michael Gove yn Lloegr, gan ei fod ef yn mynd i sawl cyfeiriad ar unwaith, mae'n ymddangos. Rydym wedi cael tri neu bedwar o gynigion gwahanol ar gyfer TGAU yn Lloegr ers fy mhenodi, rhai ohonynt yn para dim ond oriau. Nawr, nid dyna sut yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru. Mae fy swyddogion, er enghraifft, wedi dechrau deialog â sefydliadau cymwysterau perthnasol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon ac, yn wir, yng Ngweriniaeth Iwerddon i edrych ar y gwaith o ddatblygu system o adolygu gan gymheiriaid, er mwyn inni ddysgu oddi wrth ein gilydd a chymharu cymwysterau . Bydd Cymwysterau Cymru'n gweithio gyda'r sefydliadau hyn ac eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Byddwn yn defnyddio'r holl dystiolaeth y gallwn gael gafael arni. Byddwn yn defnyddio astudiaethau hydredol, byddwn yn defnyddio data am gohortau, byddwn yn cadw llygad ar fesurau eraill, fel y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr—ein bwriad yma yw gwau hygrededd rhyngwladol i system gymwysterau Cymru.

Angela Burns also mentioned that there are issues to be brought together, and she called for consistency. She is quite right to do so. All of the issues that she enumerated there will be part and parcel of the process as we move forward, of course.

Soniodd Angela Burns hefyd fod materion i'w dwyn at ei gilydd, a galwodd am gysondeb. Mae hi yn llygad ei lle wrth wneud hynny. Bydd pob un o'r materion a restrwyd ganddi'n rhan annatod o'r broses wrth inni symud ymlaen, wrth gwrs.

In terms of the points on the WJEC and the rest of its business, by which you meant the business that it has in England as an awarding organisation, Members will be aware that the original proposal was that we should merge the WJEC into the new qualifications Wales body. That has proven to be something of a more complex proposal than was originally envisaged, first of all because the WJEC has charitable status, which makes things legally a little more complex than if you were dealing with an arm's-length body or an independent body, and also we have to bear in mind the fact, as Angela Burns has said, that it does have business in England, which introduces all sorts of positive elements into the picture. Of course, that is a revenue earner for a Welsh body, which is a good thing, and it also introduces some very curious questions about whether Ofqual in England should have any oversight of an independent Welsh qualifications Wales body. We cannot really proceed on that basis, I do not think, with Ofqual second-guessing what we are doing here in Wales. So, that is why I am proposing today that we phase our activity here, first of all looking at regulation, moving then towards awarding. However, I would say this: in terms of the future of the WJEC, and any other awarding body, one of the key motivating principles behind this piece of work is to simplify the system that we are engaged with here—as system that the Welsh educational establishments has to grapple with, if you like. Simplification is key. We are not looking towards a future where we have a multiplicity of awarding organisations. That would run counter to a great deal of the motivating factors behind the work that we are engaged with here, and the WJEC needs to understand that, as well as everyone else.

O ran y pwyntiau ynglŷn â CBAC a gweddill ei fusnes, a'r hyn yr ydych yn ei olygu yw'r busnes sydd ganddo yn Lloegr fel corff dyfarnu, bydd yr Aelodau'n ymwybodol mai'r cynnig gwreiddiol oedd y dylem uno CBAC â chorff cymwysterau newydd Cymru. Mae hynny wedi bod yn gynnig mwy cymhleth nag a ragwelwyd yn wreiddiol, yn gyntaf oll gan fod gan CBAC statws elusennol, sy'n gwneud pethau ychydig yn fwy cymhleth o safbwynt cyfreithiol na phe baech yn ymdrin â chorff hyd braich neu gorff annibynnol, a hefyd mae'n rhaid inni gofio bod ganddo fusnes yn Lloegr, fel y mae Angela Burns wedi'i ddweud, sy'n cyflwyno pob math o elfennau cadarnhaol i'r darlun. Wrth gwrs, mae hynny'n ennill refeniw i gorff yng Nghymru, sydd yn dda o beth, ac mae hefyd yn cyflwyno rhai cwestiynau rhyfedd iawn ynglŷn â p'un a ddylai Ofqual yn Lloegr gael trosolwg ar gorff cymwysterau annibynnol yng Nghymru. Ni allwn, yn fy marn i, fwrw ymlaen mewn gwirionedd ar y sail honno, gydag Ofqual yn rhagweld amcan yr hyn yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru. Felly, dyna pam yr wyf yn cynnig heddiw ein bod yn cyflwyno'n gweithgarwch yn raddol yma, yn gyntaf oll drwy edrych ar reoleiddio, a symud wedyn tuag at ddyfarnu. Fodd bynnag, dywedaf hyn: o ran dyfodol CBAC, ac unrhyw gorff dyfarnu arall, un o egwyddorion ysgogol allweddol y darn hwn o waith yw symleiddio'r system yr ydym yn ymwneud â hi yma—system y mae'n rhaid i sefydliadau addysgol Cymru fynd i'r afael â hi, os mynnwch. Mae symleiddio yn allweddol. Nid ydym yn edrych tuag at ddyfodol lle mae gennym nifer fawr o sefydliadau dyfarnu. Byddai hynny'n mynd yn groes i lawer iawn o'r ffactorau ysgogol y tu ôl i'r gwaith yr ydym yn ymwneud ag ef yma, ac mae angen i CBAC ddeall hynny, yn ogystal â phawb arall.

In terms of the independent sector, well, it is independent. As far as I am concerned, in the independent sector, these are schools run as businesses, and they will conduct themselves as their business mentality sees fit, I am sure.

O ran y sector annibynnol, wel, mae'n annibynnol. O'm rhan i, yn y sector annibynnol, ysgolion sy'n cael eu rhedeg fel busnesau yw'r rhain, a byddant yn ymddwyn fel y gwêl eu meddylfryd busnes yn dda, rwyf yn siŵr.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 17:28.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 17:28.*

17:28 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu datganiad y Gweinidog yn wresog heddiw. Rwy'n croesawu yn arbennig dau beth o bwys y mae wedi'i ddweud. Y cyntaf yw'r ffordd y bydd y corff newydd hwn yn annibynnol o'r Llywodraeth. Yr amcan gwreiddiol, os rwy'n cofio yn iawn, oedd y byddai Cymwysterau Cymru yn atebol, mewn rhyw ffordd, i'r Gweinidog, ond mae'r Gweinidog wedi dweud heddiw taw'r hyn y mae'n chwilio amdano yw iddo fod yn atebol i'r Cynulliad. Rwy'n croesawu hynny, ac rwy'n meddwl, i raddau, fod hynny'n tanlinellu ac yn cryfhau'r elfen annibynnol y mae Plaid Cymru wedi bod yn gyson yn gofyn amdano ers dros ddwy flynedd bellach.

I warmly welcome the Minister's statement today. I particularly welcome two important things that he has said. The first is the way in which this new body is to be independent of Government. The original aim, if I remember rightly, was that Qualifications Wales should be accountable, in one way or another, to a Minister, but the Minister has said today that what he is looking for is for it to be accountable to the Assembly. I welcome that, and I think that, to an extent, that highlights and enhances the independent element that Plaid Cymru has consistently been asking for over a period of two years now.

Yr ail beth rwyf eisiau ei groesawu yn eich datganiad, Weinidog, yw'r ffaith eich bod yn awr yn gweld y broses yn broses dreigl, gydag o leiaf dwy ran: sefydlu Cymwysterau Cymru yn gyntaf, fel corff annibynnol, ac wedyn symud, efallai, at agweddau sy'n ymwneud mwy â chyrff dyfarnu, megis Cyd-bwyllgor Addysg Cymru ac ati. Eto, mae Plaid Cymru wedi rhybuddio y byddai angen gwneud hyn, ac y byddai angen ystyried yn ofalus statws elusennol CBAC, a'r rhychwant o gyrff sy'n darparu cymwysterau yng Nghymru, a'u hawliau hwy hefyd. Felly, rwy'n meddwl eich bod wedi gosod allan y dynesiad cywir tuag at symud ymlaen â Chymwysterau Cymru. Rwy'n croesawu hynny, ond rwyf am ofyn ychydig o gwestiynau ynglŷn â'r ffordd y caiff ei ddarparu.

The second thing that I would like to welcome in your statement, Minister, is the fact that you now see this process as a rolling process, with at least two parts: the establishment of Qualifications Wales as an independent body first of all, and then moving, perhaps, towards aspects relating more to awarding bodies, such as the WJEC and so on. Again, Plaid Cymru had warned that this would need to be done, and that careful consideration would need to be given to the charitable status of the WJEC, and the range of bodies providing qualifications in Wales, and their rights also. Therefore, I think that you have set out the correct approach towards progressing with Qualifications Wales. I welcome that, but I will ask a few questions in terms of how this will now be provided.

Yn gyntaf, nodaf eich bod hefyd wedi dweud yn eich datganiad eich bod yn chwilio am ddiwygio lefel A yng Nghymru. Rwy'n meddwl bod hynny'n briodol gan fod cwestiynau wedi cael eu codi. Mae'r ffaith bod Lloegr yn datblygu'n wahanol—ac rwy'n cytuno'n llwyr taw y nhw sy'n datblygu'n wahanol—yn golygu ei bod yn briodol i ni sicrhau bod ein lefel A ni yn gredadwy ac yn gryf ac yn dderbyniol i brifysgolion a chyflogwyr ac ati. A wnewch chi ddweud ychydig mwy am rai o elfennau hynny, yn enwedig am rai agweddau ar lefel A sy'n bwysig i fyfyrwyr Cymru, megis y ffaith ein bod am gadw gwaith cwrs yng Nghymru, bod dysgu modiwlau yn gallu bod o gymorth mawr i nifer o fyfyrwyr, bod lefel A yn fwy synhwyrol yng Nghymru o bosibl nag y bydd yn Lloegr, ac y bydd yn asesu'n well holl allu a photensial disgybl?

First, I note that, in your statement, you say that you are seeking reform of A-levels in Wales. I think that that is appropriate as questions have been raised. The fact that England is diverging—and I agree that it is England that is diverging—means that it is appropriate that we should ensure that our A-levels are credible, robust and acceptable to universities, employers and so on. Can you tell us a little more about some of the elements related to that, particularly some aspects of A-level that are important to students in Wales, such as the fact that we want to retain course work in Wales, that modular learning can be of great assistance to many students, that A-level is a more sensible approach in Wales than is the case in England, and that it will better assess the abilities and potential of our pupils?

Yn ail, rwyf am holi am y ddarpariaeth alwedigaethol. Rwy'n meddwl bod cryn symud wedi bod dros y misoedd, ac yn y datganiad gennych heddiw, ers asesiad gwreiddiol Huw Evans yn ei adroddiad, a oedd yn edrych ar lawer o gymwysterau galwedigaethol hefyd yn dod mewn i Gymwysterau Cymru. Yn sicr, roedd yn edrych ar symleiddio ac ar nifer o gyrsiau galwedigaethol craidd yn cael eu darparu gan y corff newydd. Mae'n amlwg na fydd hynny'n newid dros nos gan nad ydych yn sefydlu corff o'r fath yn syth bin o leiaf. Rwyf o'r farn—ac rwy'n credu eich bod chi efallai wedi hintio at hyn—fod gormod o farchnadeiddio yn y system hon, bod gormod o gystadlu a dim digon o eglurdeb ynglŷn â'r hyn y mae pobl yn ei gael drwy wahanol gyrsiau. Mae i'w weld ar yr ochr academaidd, ac mae i'w weld yn waeth ar yr ochr alwedigaethol. Gan nad ydych yn symud yn llawn at sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff dyfarnu hefyd, a alwch chi ddweud ychydig yn fwy am sut rydych yn rhagweld y bydd yr ochr alwedigaethol yn cael ei rheoli ac y byddwn yn gallu symleiddio er lles myfyrwyr a disgyblion yng Nghymru ar yr ochr honno?

Secondly, I want to ask about the provision of vocational education. I think that there has been quite a bit of movement over the past few months, and in your statement today, from the original Huw Evans assessment, which looked at many vocational qualifications coming under Qualifications Wales. He looked at simplification and at a number of core vocational courses being provided by the new body. It is clear that that is not going to change overnight because you will not be establishing such a body immediately. I am of the opinion—and I think that you have hinted at this—that there is too much marketisation in the system and too much competition, without sufficient clarity in terms of what people get through the various courses. This applies to academic courses, but it appears to be worse in the case of vocational courses. Since you are not moving fully towards the establishment of Qualifications Wales as a full awarding body, can you tell us more about how you anticipate the vocational side will be regulated and how we will be able to simplify that for the benefit of students and pupils in Wales?

Rydych wedi sôn ychydig am ddyfodol cyrff fel CBAC aa eraill, felly ni wnaf ofyn mwy na hynny, ond hoffwn nodi bod angen ystyried yn ofalus iawn sut y bydd cyrff annibynnol, yn enwedig o natur elusennol, yn cael eu cadw yng Nghymru ac yn cydweithio â'r corff newydd. Rwy'n croesawu'r hyn rydych wedi ei ddweud am gydweithio â chyrff eraill a'r asesiad 'peer to peer', yn enwedig draw dros y môr yn Iwerddon.

You have mentioned the future of bodies such as the WJEC and others, so I will not ask anything further on that, but I would just note that we need to give careful consideration to how independent bodies, particularly those with charitable status, will be retained in Wales and will work with the new body. I welcome what you have said as regards collaboration with other bodies and the peer-to-peer assessment, particularly in looking towards Ireland.

Yn olaf, beth fyddwch yn ei wneud o ran cyhoeddusrwydd ar gyfer y corff newydd? Mae wedi cael ei gydnabod ers adroddiad Huw Evans y bydd angen cyhoeddusrwydd clir iawn ynglŷn â rôl y corff newydd a hygrededd y cymwysterau a fydd yn cael eu cymeradwyo gan y corff newydd. Mae hynny'n hollbwysig mewn cyd-destun lle mae'r rhan fwyaf o rieni a'u plant yng Nghymru yn darllen ac yn clywed newyddion o Loegr, sy'n cael ei drafod mewn cyd-destun cwbl wahanol i'r hyn yr ydych wedi ei osod allan heddiw.

Finally, what will you do in terms of publicising this new body? It has been known, since the Huw Evans report, that there will be a need for a very clear message on the role of the new body and the credibility of the qualifications that will be awarded. That is crucially important in a context where most parents and pupils in Wales read and hear news from England, which comes within an entirely different context to the one that you have set out today.

Yn olaf oll, a ydych dal yn hapus bod yr enw 'Cymwysterau Cymru' yn cynrychioli'r corff newydd?

Finally, again, are you still content that the name 'Qualifications Wales' represents the new body?

17:33

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Simon Thomas for those comments and his broad welcome for the thrust of today's statement.

Diolch i Simon Thomas am y sylwadau hynny a'i groeso cyffredinol i fyrdwn y datganiad heddiw.

He is also, in line with Angela Burns, quite right to stress the importance of the independence of the new body. It was a recurrent theme in stakeholder feedback that there is a preference among our partners for an independent regulator of qualifications, rather than for Government to act as regulator, as it certainly has done since the merger of ACCAC into the Welsh Government.

Mae yntau hefyd, fel Angela Burns, yn llygad ei le wrth bwysleisio pwysigrwydd annibyniaeth y corff newydd. Un o themâu cyson adborth y rhanddeiliaid oedd y byddai'n well gan ein partneriaid gael rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, yn hytrach nag i'r Llywodraeth fod yn rheoleiddiwr, fel y mae'n sicr wedi bod ers uno ACCAC â Llywodraeth Cymru.

It is worth pointing out that, in Scotland, the Scottish Qualifications Authority is independent of Government and has been operating successfully in that way. However, it is also worth pointing out that, for the SQA, Ministers have a role in terms of appointing its board. There are various models we could talk about here, but the operational independence of the new body is, in my view, beyond question.

Mae'n werth nodi, yn yr Alban, fod Awdurdod Cymwysterau'r Alban yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus yn y ffordd honno. Fodd bynnag, mae hefyd yn werth nodi, o ran yr SQA, fod rôl i Weinidogion o ran penodi ei fwrdd. Mae gwahanol fodelau y gallem siarad amdanynt yma, ond mae annibyniaeth weithredol y corff newydd, yn fy marn i, y tu hwnt i bob amheuaeth.

The reform of A-levels in Wales, as Simon Thomas mentioned, is a necessity in the current climate. It is a fast-changing world out there, although I would put on record some statements of principle, if you like, that will distinguish us from the way that things are developing in England. I am not convinced—and this has been publicly stated before now—that divorcing the AS-level from the overall worth of qualification is a wise move. We do not agree with the UK Government in that regard, so that will not be a feature of the way that we progress things in Wales. We will move forward, in partnership with stakeholders, through a properly consultative procedure that has at its heart the question of the worth and portability of this qualification to the learner—does it compare with the very best across the UK, across Europe and the wider world? If we can answer those questions in the affirmative, then we will have done our job.

Mae diwygio'r Safon Uwch yng Nghymru, fel y dywedodd Simon Thomas, yn angenrheidiol yn yr hinsawdd bresennol. Mae hwn yn fyd sy'n newid yn gyflym, er y byddwn yn rhoi rhai datganiadau o egwyddor ar gofnod, os mynnwch, a fydd yn ein gwahaniaethu oddi wrth y ffordd y mae pethau'n datblygu yn Lloegr. Nid wyf wedi fy argyhoeddi—ac mae hyn wedi ei ddatgan yn gyhoeddus cyn hyn—fod ysgaru'r Safon UG o werth cyffredinol y cymwysterau'n gam doeth. Nid ydym yn cytuno â Llywodraeth y DU yn hynny o beth, felly ni fydd hynny'n nodwedd o'r ffordd yr ydym yn datblygu pethau yng Nghymru. Byddwn yn symud ymlaen, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, drwy weithdrefn ymgynghorol briodol, ac wrth wraidd hynny bydd gwerth a hygludedd y cymhwyster hwn i'r dysgwr—a yw'n cymharu â'r gorau ar draws y DU, ar draws Ewrop a'r byd ehangach? Os gallwn ateb y cwestiynau hynny'n gadarnhaol, byddwn wedi gwneud ein gwaith.

In terms of vocational qualifications, I think that Simon Thomas was leaping ahead slightly here, in terms of work that goes way beyond today's statement. However, again, he puts his finger on some very important aspects of how that should be done. We do need to look at simplification, which has been called for almost unanimously by stakeholders for some time, and, of course, clarity. I would not like to go too much further in terms of the relationship of that subject matter to today's statement—although he is quite right to point it out as an area of concern.

O ran cymwysterau galwedigaethol, credaf fod Simon Thomas yn neidio yn ei flaen ychydig yma, o ran gwaith sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r datganiad heddiw. Fodd bynnag, unwaith eto, mae'n rhoi ei fys ar rai agweddau pwysig iawn ar y ffordd y dylid gwneud hynny. Mae angen inni edrych ar symleiddio, y mae rhanddeiliaid yn galw amdano bron yn unfrydol ers peth amser, ac, wrth gwrs, eglurder. Ni fyddwn yn hoffi mynd lawer ymhellach o ran y berthynas rhwng y mater hwnnw a'r datganiad heddiw—er ei fod yn llygad ei le wrth dynnu sylw ato fel maes sy'n peri pryder.

In terms of the WJEC and its future, I do not think that it is for me to hold forth on the organisation or destination—or destiny—of the WJEC as such. I will say one or two things that I hope are relevant and will inform the debate. One is that I do recognise that the WJEC is a repository of a great deal of expertise in Wales—a capacity that, frankly, we would find it very difficult to do without, particularly when it comes to Welsh-medium qualification development and assessment and so on. These things are very important. It is clear to me that the WJEC will continue—in partnership with us, and in partnership with the newly formed Qualifications Wales—to be a very important stakeholder and partner. I know that, in conversations with the WJEC, it has been very positive and reflected those commitments back to me. I am clear about that.

O ran CBAC a'i ddyfodol, nid wyf yn credu mai fy lle i yw siarad am drefniadaeth neu ben y daith—neu dynged—CBAC fel y cyfryw. Dywedaf un neu ddau o bethau yr wyf yn gobeithio eu bod yn berthnasol ac a fydd yn llywio'r ddadl. Un yw fy mod yn cydnabod bod CBAC yn storfa llawer iawn o arbenigedd yng Nghymru—gallu, a dweud y gwir, y byddem yn ei chael yn anodd iawn gwneud hebddo, yn enwedig o ran datblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg ac asesu ac yn y blaen. Mae'r pethau hyn yn bwysig iawn. Mae'n amlwg i mi y bydd CBAC yn parhau—mewn partneriaeth â ni, ac mewn partneriaeth â chorff newydd Cymwysterau Cymru—i fod yn rhanddeiliad ac yn bartner pwysig iawn. Gwn, mewn sgyrsiau â CBAC, eu bod wedi bod yn gadarnhaol iawn ac wedi adlewyrchu'r ymrwymiadau hynny yn ôl imi. Rwyf yn glir ynglŷn â hynny.

It is also very important that the WJEC works with us in the clear understanding that Qualifications Wales will become an awarding body. This is something that Wales, as a nation, needs. It is a national requirement. There is no organisational or institutional vested interest—no matter how sincerely it might be put—that can stand in the way of that. Whether that institution is the Welsh Government or the Assembly, whether it is any other awarding body, an arm of local government or Qualifications Wales itself, it does not matter as much as the primary concern, which is the vested interest of the learner. In my view, we will, if we are to operate a qualification system in Wales that makes sense in the twenty-first century, given the way that the UK landscape is developing, have to have an SQA-style organisation operating for the benefit of Welsh learners. There is no other way around this, unless we are to opt out of responsibility for this and ask someone else to come into Wales to do this for us. I do not think that that is an honourable or sensible position to take, and the Welsh public would condemn us for it immediately, and quite rightly so.

Mae hefyd yn bwysig iawn fod CBAC yn gweithio gyda ni â dealltwriaeth glir y bydd Cymwysterau Cymru'n dod yn gorff dyfarnu. Mae hynny'n rhywbeth sydd ei angen ar Gymru fel cenedl. Mae'n ofyniad cenedlaethol. Nid oes unrhyw fuddiant cyfundrefnol neu sefydliadol —waeth pa mor ddiffuant y cyflwynir hynny—a all sefyll yn ffordd hynny. P'un ai Llywodraeth Cymru neu'r Cynulliad yw'r sefydliad hwnnw, p'un a yw'n gorff dyfarnu arall, yn gangen o lywodraeth leol neu Gymwysterau Cymru ei hunan, nid yw hynny mor bwysig â'r brif ystyriaeth, sef buddiant breintiedig y dysgwr. Yn fy marn i, bydd yn rhaid inni, os ydym am weithredu system gymwysterau yng Nghymru sy'n gwneud synnwyr yn yr unfed ganrif ar hugain, ac o ystyried y ffordd y mae tirwedd y DU yn datblygu, gael sefydliad ar batrwm yr SQA yn gweithredu er budd dysgwyr Cymru. Nid oes ffordd arall o wneud hyn, oni ddewiswn optio allan o'r cyfrifoldeb am hyn a gofyn i rywun arall ddod i Gymru i wneud hyn ar ein rhan. Nid wyf yn credu bod hynny'n safbwynt anrhydeddus na synhwyrol, a byddai'r cyhoedd yng Nghymru yn ein condemnio ni am hynny ar unwaith, a hynny'n gwbl briodol.

Simon Thomas is also right to say that the communications work that will need to be done in terms of this process is critical. Confidence must be maintained among Welsh learners, their families and professionals out there in our schools, FE colleges and elsewhere. It is a very important job of work, and I have set aside resource for this, and I have set aside officials' time. There will be a plan around communications as we move forward step by step, because it is true that we are in an asymmetrical situation when it comes to getting any sort of message onto the airwaves as compared with what the UK Government is capable of doing, and there are people that are convinced that if the UK Government Minister makes some kind of utterance about the future of A-levels, it automatically applies to Wales and Northern Ireland, and, of course, it does not. Therefore, that job of work will be carefully addressed, and Simon Thomas is quite to raise it as a critical issue.

Mae Simon Thomas yn iawn hefyd i ddweud bod y gwaith cyfathrebu y bydd angen ei wneud o ran y broses hon yn hanfodol. Rhaid cynnal hyder ymhlith dysgwyr Cymru, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn ein hysgolion, ein colegau addysg bellach ac mewn mannau eraill. Mae'n waith pwysig iawn, ac rwyf wedi neilltuo adnoddau ar gyfer hyn, ac wedi neilltuo amser swyddogion. Bydd cynllun ynglŷn â chyfathrebu wrth inni symud ymlaen gam wrth gam, oherwydd mae'n wir ein bod mewn sefyllfa anghymesur o ran cyfleu unrhyw fath o neges o'i gymharu â'r hyn y gall Llywodraeth y DU ei wneud, ac mae rhai pobl sy'n argyhoeddedig, os yw'r Gweinidog yn Llywodraeth y DU yn dweud rhywbeth am ddyfodol Safon Uwch, fod hynny'n berthnasol yn awtomatig i Gymru a Gogledd Iwerddon, ac, wrth gwrs, nid dyna'r sefyllfa. Felly, bydd y gwaith yn cael sylw gofalus, ac mae Simon Thomas yn llygad ei le wrth ei godi fel mater allweddol.

17:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It has taken us half an hour to get through two sets of questions. I realise how important this subject is. Therefore, perhaps the half hour designated was always rather hopeful. I will call every Member that was asked to speak, but if you could speed things up, that would help the Chair at the moment. That includes you, Minister, in terms of some of the answers. You need not repeat information that has already been given.

Mae wedi cymryd hanner awr i fynd drwy ddwy set o gwestiynau. Rwyf yn sylweddoli pa mor bwysig yw'r pwnc hwn. Felly, efallai fod yr hanner awr a ddynodwyd braidd yn obeithiol. Byddaf yn galw pob Aelod y gofynnwyd iddynt siarad, ond pe baech yn gallu cyflymu pethau, byddai'n helpu'r Cadeirydd ar hyn o bryd. Mae hynny'n eich cynnwys chi, Weinidog, o ran rhai o'r atebion. Nid oes angen ichi ailadrodd gwybodaeth sydd wedi ei rhoi yn barod.

17:41 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the Minister agree that Scotland has a body that regulates and awards, that Northern Ireland has a body that regulates and awards and that, therefore, there is nothing wrong with Wales having a body that regulates and awards? Will he further agree that Wales cannot be dependent on an awarding body that is more worried about a commercial market in England and satisfying the regulator of that market than about the needs of learners in Wales? Finally, will he agree that we cannot have a regulator beholden to any organisation that it regulates?

A yw'r Gweinidog yn cytuno bod gan yr Alban gorff sy'n rheoleiddio ac yn dyfarnu, bod gan Ogledd Iwerddon gorff sy'n rheoleiddio ac yn dyfarnu ac, felly, nad oes dim o'i le ar i Gymru gael corff sy'n rheoleiddio a dyfarnu? A yw'n cytuno ymhellach na all Cymru ddibynnu ar gorff dyfarnu sy'n poeni mwy am y farchnad fasnachol yn Lloegr a bodloni rheoleiddiwr y farchnad honno nag am anghenion dysgwyr yng Nghymru? Yn olaf, a yw'n cytuno na allwn gael rheoleiddiwr sy'n ddyledus i unrhyw sefydliad y mae'n ei reoleiddio?

17:41 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leighton Andrews is quite right on all counts, in terms of the statement that he makes. If Scotland and Northern Ireland can make this work and make it transparent and can inspire confidence in learners and other stakeholder, then so can we. Commercial considerations of any awarding organisation are fine, and it is always good to see a Welsh organisation that can generate income across other parts of the UK, and that is a good thing. However, that is very much a subsidiary consideration, as I have said, when it comes to the primary concern here, which is the needs of the learner. I am convinced that we need an SQA-style organisation in Wales, similar to what has been happening in Scotland for some while. It will have to be tailored to Welsh needs, but we know already that such organisations can operate fairly and transparently, as it has happened in Scotland and Northern Ireland for some time now.

Mae Leighton Andrews yn llygad ei le ar bob cyfrif, o ran y datganiad y mae'n ei wneud. Os gall yr Alban a Gogledd Iwerddon wneud i hyn weithio a'i wneud yn dryloyw a sicrhau y gall ennyn hyder y dysgwyr a rhanddeiliaid eraill, gallwn ninnau wneud hynny hefyd. Mae ystyriaethau masnachol unrhyw sefydliad dyfarnu yn iawn, ac mae bob amser yn dda gweld sefydliad Cymreig sy'n gallu cynhyrchu incwm ar draws rhannau eraill o'r DU, ac mae hynny'n beth da. Fodd bynnag, mae hynny'n sicr yn ystyriaeth eilradd, fel y dywedais, o ran y brif ystyriaeth yn hyn o beth, sef anghenion y dysgwr. Rwyf yn argyhoeddedig bod angen sefydliad ar batrwm yr SQA, yng Nghymru, yn debyg i'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn yr Alban ers peth amser. Bydd yn rhaid ei deilwra i anghenion Cymru, ond rydym eisoes yn gwybod y gall sefydliadau o'r fath weithredu'n deg ac yn dryloyw, gan fod hynny'n digwydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ers peth amser bellach.

17:42 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be brief. I welcome the general direction of travel. I think that there were financial and legal reasons that made the second phase perhaps a little more difficult than was suggested at the outset, but I accept that if those legal and financial hurdles can be overcome, certainly, we can look to the Scottish and Northern Irish models. Although, I think that the context in which the Scottish and Northern Irish models operate may be somewhat more distant in terms of their compatibility with the English system, which is what we have here. While in no way trying to suggest anything about the path that the Welsh Government is going along, listening to the stakeholders, who are clearly saying that the retention of the AS-level is important as far as the universities are concerned, we, as a group, are quite comfortable to support that.

Byddaf yn gryno. Rwyf yn croesawu cyfeiriad cyffredinol hyn. Credaf fod rhesymau ariannol a chyfreithiol a wnaeth yr ail gam efallai ychydig yn anos na'r hyn a awgrymwyd ar y dechrau, ond rwyf yn derbyn, os gellir goresgyn y rhwystrau cyfreithiol ac ariannol hynny, y gallwn yn sicr edrych ar fodelau'r Alban a Gogledd Iwerddon. Er, credaf fod cyd-destun gweithredu modelau'r Alban a Gogledd Iwerddon braidd yn fwy pell o ran eu cydnawsedd â system Lloegr, sef yr hyn sydd gennym yma. Nid wyf mewn unrhyw ffordd yn ceisio awgrymu dim am y llwybr y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddilyn, o wrando ar y rhanddeiliaid, sy'n dweud yn glir bod cadw'r lefel UG yn bwysig o safbwynt y prifysgolion, rydym, fel grŵp, yn ddigon parod i gefnogi hynny.

I will ask three very quick questions. Given that you will be making this important statement on 11 December, will you feel by then that you will be in a position to put more meat on the bone as far as the remaining recommendations within the review are concerned? Do you have concerns that, even though you have identified resources to outline this communications strategy over the next 22 months—because we are looking at these qualifications being in place by September 2015—the timeline is sufficient given that there is a big job of work to be done in that 22-month period? Can you outline the activity as far as the communication strategy is concerned, because I have not picked up any activity with outside stakeholders in terms of that reassurance that we all require with regard to the portability of these new Welsh qualifications?

Gofynnaf dri chwestiwn cyflym iawn. O ystyried y byddwch yn gwneud y datganiad pwysig hwn ar 11 Rhagfyr, a fyddwch yn teimlo erbyn hynny y byddwch mewn sefyllfa i roi mwy o gig ar yr asgwrn o ran gweddill argymhellion yr adolygiad? A oes gennych bryderon, er eich bod wedi nodi adnoddau i amlinellu'r strategaeth gyfathrebu hon dros y 22 mis nesaf—oherwydd y bwriad yw y bydd y cymwysterau hyn ar waith erbyn mis Medi 2015—ynghylch â yw'r llinell amser yn ddigonol o gofio bod gwaith mawr i'w wneud yn ystod y 22 mis hynny? A wnewch chi amlinellu'r gweithgarwch o ran y strategaeth gyfathrebu, oherwydd nid wyf wedi clywed am unrhyw weithgarwch â rhanddeiliaid allanol o ran y sicrwydd sydd ei angen arnom i gyd o ran hygludedd y cymwysterau Cymreig newydd hyn?

17:44

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Aled Roberts for his remarks. He is right to stress the importance of ensuring compatibility with all systems, not just with the English system, in terms of the development of, for instance, A-levels in Wales. That runs right across the board. We do that by demonstrating that these are robust examinations of an internationally recognised level of quality. We can do that while being distinctive in terms of what we do. For instance, as Aled mentioned, we continue to regard AS-levels as having educational worth. We have some very distinguished bedfellows in that regard; Oxford University thinks so, Cambridge University thinks so and the Welsh Government thinks so, and I think that all political parties here—I have not heard anything to contradict this—think so too. So, that is a pretty good starting point in terms of making sure that the communication that we need to have and the clarity of purpose that we need to demonstrate to learners, their families and other stakeholders, is maintained throughout this process. In needs to be done carefully and deliberately.

Diolch i Aled Roberts am ei sylwadau. Mae'n iawn i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau cydnawsedd â phob system, nid dim ond â system Lloegr, o ran datblygu, er enghraifft, Safon Uwch yng Nghymru. Mae hynny'n wir drwyddi draw. Rydym yn gwneud hynny drwy ddangos bod y rhain yn arholiadau cadarn o ansawdd a gydnabyddir yn rhyngwladol. Gallwn wneud hynny a bod yn neilltuol o ran yr hyn a wnawn ar yr un pryd. Er enghraifft, fel y dywedodd Aled, rydym yn parhau i ystyried bod gwerth addysgol i'r safon UG. Mae gennym rai cymheiriaid nodedig iawn yn hynny o beth; mae Prifysgol Rhydychen yn credu hynny, mae Prifysgol Caergrawnt yn credu hynny ac mae Llywodraeth Cymru'n credu hynny, a chredaf fod pob plaid wleidyddol yma—nid wyf wedi clywed dim yn groes i hynny—yn credu hynny hefyd. Felly, mae hynny'n fan cychwyn eithaf da o ran sicrhau bod y cyfathrebu y mae angen inni ei gael a'r eglurder pwrpas y mae angen inni ei ddangos i ddysgwyr, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill, yn cael eu cynnal drwy gydol y broses hon. Mae angen gwneud hynny'n ofalus ac yn fwriadol.

There will be more announcements on 11 December. I will not be making those announcements prematurely here this afternoon. In terms of resources, I will ensure that they are sufficient. This is a priority for my Government department. This is absolutely critical in the development of the Welsh educational landscape as a whole, and not just in terms of the qualifications debate. It must be done right. I will ensure that the resources are sufficient.

Bydd rhagor o gyhoeddiadau ar 11 Rhagfyr. Nid wyf am wneud y cyhoeddiadau hynny cyn eu hamser yma y prynhawn yma. O ran adnoddau, byddaf yn sicrhau eu bod yn ddigonol. Mae hyn yn flaenoriaeth i'm hadran o'r Llywodraeth. Mae hyn yn gwbl hanfodol o ran datblygu tirlun addysgol Cymru yn ei chyfanrwydd, ac nid dim ond o ran y ddadl am gymwysterau. Rhaid gwneud hyn yn iawn. Byddaf yn sicrhau bod yr adnoddau'n ddigonol.

In terms of the timeline, I see no reason at present to be nervous around the timeline. There is a clock ticking in terms of the lengthy Assembly term and the legislative programme, and so on—all legislatures have to face up to that. Legislation is required in order to make this happen and to make it work, but I have not seen anything yet to convince me in conversations with officials or other partners that the timeline that we have outlined here, which essentially means that Qualifications Wales is fully operational by the end of 2015, is in any way unrealistic.

O ran y llinell amser, ni welaf ddim rheswm ar hyn o bryd dros fod yn nerfus ynghylch y llinell amser. Mae cloc yn tician o ran tymor hir y Cynulliad a'r rhaglen ddeddfwriaethol, ac yn y blaen—rhaid i bob deddfwrfa wynebu hynny. Mae angen deddfwriaeth er mwyn gwneud i hyn ddigwydd ac er mwyn gwneud iddo weithio, ond nid wyf wedi gweld dim eto i'm hargyhoeddi mewn sgyrsiau â swyddogion neu bartneriaid eraill fod y llinell amser yr ydym wedi'i hamlinellu yma, sydd yn ei hanfod yn golygu y bydd Cymwysterau Cymru'n gwbl weithredol erbyn diwedd 2015, yn afrealistig mewn unrhyw ffordd.

17:47

## Keith Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Rwyf i'n croesawu'r datganiad hefyd, Weinidog, ac mae nifer o'r pwyntiau roeddwn eisiau eu gwneud wedi cael eu gwneud barod, felly ni wnaf eu hailadrodd. Dywedodd Angela Burns bod yn rhaid inni gydweithio gydag asiantaethau yn Lloegr, Iwerddon a'r Alban, a chyda'r colegau ac yn y blaen. Nid ydym eisiau gweld yr hyn sy'n digwydd yn San Steffan, sef Michael Gove yn gwneud datganiadau unochrog ac yn newid ei feddwl yn gyson. Nid ydym eisiau hynny—rydym eisiau rhywbeth sy'n gallu para.

I, too, welcome the statement, Minister, and a number of the points that I wanted to make have already been made, so I will not repeat them. Angela Burns said that we will have to work with agencies in England, Ireland and Scotland, and with the colleges and so on. We do not want to see what has happened in Westminster, with Michael Gove making unilateral statements and changing his mind on a regular basis. We do not want that—we want something that will last.

Yr ail bwynt roeddwn eisiau ei wneud yw fy mod yn credu y dylai'r corff fod yn annibynnol ac awdurdodol, ac rydych wedi sôn am hynny. Roeddwn yn mynd i bwysleisio hefyd, fel y dywedodd Aled Roberts, yr hyn mae tiwtoriaid derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt yn ei ddweud am y cymhwyster uwchgyfrannol. Mae'n bwysig ein bod yn cadw'r cymhwyster hwnnw, oherwydd bydd colegau yn edrych ar beth mae plant wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn gyntaf yn y chweched dosbarth.

The second point that I wanted to make was that I believe that the body should be independent and authoritative, and you have mentioned that. I was also going to emphasise, as Aled Roberts said, what admissions tutors in Oxford and Cambridge are saying about the AS-level qualification. It is important that we retain that qualification, because colleges will look at what children did in the first year of the sixth form.

Yr hyn sydd yn fy mecso rhyw ychydig, achos rwyf wedi gweithio i nifer o fyrddau arholi, yw cyrsiau galwedigaethol. Mae cymaint o wahanol fyrddau fel nad wyf yn gweld sut y gallwch ymdrin â hynny. Rwyf yn edrych ymlaen i weld papur gennych am sut y byddwn yn sefydlu corff arholi.

What worries me a little, as I have worked for a number of examination boards, is vocational courses. There are so many boards that I cannot see how you will be able to deal with the situation. I look forward to seeing a paper from you on how you will set up an examination body.

17:48

## Huw Lewis [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank Keith Davies for those comments. He is quite right: it is imperative, for the sake of the learner, that we conduct ourselves responsibly. That means, among other things, that we speak to partners out there, whether they are in industry or in other administrations around the UK, to ensure that we are convinced at all times of the robust nature and portability of Welsh qualifications. All of this is for nought if we cannot have a young person from Llanelli with a clutch of A-levels in their hand who can access courses—higher education courses or otherwise—across the entire United Kingdom and beyond. That has to be our starting point.

Diolch i Keith Davies am y sylwadau hynny. Mae'n hollol iawn: mae'n hollbwysig, er mwyn y dysgwr, ein bod yn ymddwyn yn gyfrifol. Mae hynny'n golygu, ymysg pethau eraill, ein bod yn siarad â phartneriaid, p'un a ydynt ym myd diwydiant neu mewn gweinyddiaethau eraill o amgylch y DU, i sicrhau ein bod yn argyhoeddedig ar bob adeg o natur gadarn a hygludedd cymwysterau Cymru. Mae hyn i gyd yn ddiwerth os na fydd gennym berson ifanc o Lanelli â dyrnaid o gymwysterau Safon Uwch yn ei law y mae cyrsiau— cyrsiau addysg uwch neu fel arall—ar draws y Deyrnas Unedig gyfan a thu hwnt ar gael iddo. Rhaid i hynny fod yn fan cychwyn inni.

I cannot here this afternoon address the complexity around the vocational side of things, although Keith Davies is quite right to raise it as a concern. Simplification is the name of the game, and a lot of ongoing work needs to be undertaken in order to address that agenda. However, this will unfold as we move forward, obviously.

Ni allaf yma y prynhawn yma fynd i'r afael â'r cymhlethdod ynghylch yr ochr alwedigaethol, er bod Keith Davies yn llygad ei le wrth godi hyn fel pryder. Y diben yw symleiddio, ac mae angen llawer o waith parhaus er mwyn mynd i'r afael â'r agenda. Fodd bynnag, bydd hynny'n datblygu wrth inni symud ymlaen, yn amlwg.

17:50

## David Rees [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, most of my questions have already been asked, but I want to take you back to the vocational side of things. You did mention it in your statement, and I am glad that you mentioned it, because it is an important aspect. Qualifications Wales will be responsible for accrediting awarding bodies in the early stages for vocational work. Can you give some timescales for establishing vocational qualifications that it will have the responsibility for delivering and awarding itself, and what type of connection or responsibility do you think it will have with other awarding bodies? They are well-recognised qualifications throughout the UK and the rest of the world and it is important that we continue to ensure that our students in Wales are able to access those as well.

Weinidog, mae'r rhan fwyaf o'm cwestiynau eisoes wedi cael eu gofyn, ond rwyf am fynd â chi yn ôl at yr ochr alwedigaethol. Soniasoch amdani yn eich datganiad, ac rwyf yn falch eich bod wedi sôn amdani, oherwydd mae'n agwedd bwysig. Bydd Cymwysterau Cymru'n gyfrifol am achredu cyrff dyfarnu yn y camau cynnar ar gyfer gwaith galwedigaethol. A allwch roi rhai amserlenni ar gyfer sefydlu cymwysterau galwedigaethol y bydd yn gyfrifol am eu cyflwyno a'u dyfarnu ei hunan, a pha fath o gysylltiad neu gyfrifoldeb ydych chi'n meddwl y bydd ganddo â chyrff dyfarnu eraill? Maent yn gymwysterau a gydnabyddir ar draws y DU a gweddill y byd, ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i sicrhau bod ein myfyrwyr yng Nghymru'n gallu cael gafael ar y rheini yn ogystal.

17:50 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Once again, this is a complex picture, and there is much work yet to be done. However, I can say very clearly that, by the autumn term of 2015, for instance, the first Qualifications Wales GCSEs will be taught in schools, and that includes the two new mathematics GCSEs that I mentioned, the English language GCSE and the revised Welsh baccalaureate. By the end of 2015, Qualifications Wales should be up and running. Its quality assurance and regulatory functions will be operational and it will be an operational organisation. From that point onwards, it will be for Qualifications Wales to start those detailed discussions and to grapple with the overly complex vocational qualifications landscape and getting to grips with that, with the needs of the Welsh learner in mind, obviously. Our purpose is the simplification of that overly complex landscape. That might involve all sorts of discussions that, at the moment, it would be silly of me to prescribe in advance. However, every Member here and every stakeholder out there with a concern for how the vocational qualifications landscape ought to evolve will be a full and valued part of that process.

Unwaith eto, mae hwn yn ddarlun cymhleth, ac mae llawer o waith i'w wneud eto. Fodd bynnag, gallaf ddweud yn glir iawn, erbyn tymor yr hydref 2015, er enghraifft, y bydd cyrsiau TGAU cyntaf Cymwysterau Cymru'n cael eu dysgu mewn ysgolion, ac mae hynny'n cynnwys y ddau TGAU mathemateg newydd y soniais amdanynt, y TGAU iaith Saesneg a bagloriaeth Cymru wedi'i diwygio. Erbyn diwedd 2015, dylai Cymwysterau Cymru fod yn weithredol. Bydd ei swyddogaethau sicrhau ansawdd a rheoleiddio'n weithredol a bydd yn gorff gweithredol. O hynny allan, mater i Gymwysterau Cymru fydd dechrau'r trafodaethau manwl hynny ac ymgodymu â'r tirlun cymwysterau galwedigaethol gorgymhleth a mynd i'r afael â hynny, gan ystyried anghenion dysgwyr Cymru, wrth gwrs. Ein nod yw symleiddio'r tirlun gorgymhleth hwnnw. Gallai hynny gynnwys pob math o drafodaethau y byddai, ar hyn o bryd, yn wirion i mi eu rhagnodi ymlaen llaw. Fodd bynnag, bydd pob Aelod yma a phob rhanddeiliad allan yno sy'n pryderu ynghylch y ffordd y dylai'r tirlun cymwysterau galwedigaethol esblygu yn rhan lawn a gwerthfawr o'r broses honno.

17:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

17:52

Senedd.tv Fideo Video

## Datganiad: Y Cyfleoedd a'r Heriau y Mae'r Sector Coedwigaeth yng Nghymru yn eu Hwynebu

## Statement: Opportunities and Challenges Facing the Forestry Sector in Wales

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

The Welsh Government's strategy for trees and forestry, 'Woodlands for Wales', is a long-term vision of how we want woodlands to be fit for the future to meet the needs of Wales for the next 50 years and beyond.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coed a choedwigaeth, 'Coetiroedd i Gymru', yn weledigaeth hirdymor o sut yr ydym am i goetiroedd fod yn addas ar gyfer y dyfodol i ddiwallu anghenion Cymru am yr 50 mlynedd nesaf a thu hwnt.

There are 305,000 ha of woodland in Wales, of which 117,000 ha, almost 40%, are on the Welsh Government's woodland estate. Woodland-based industries are worth over £400 million per annum to the Welsh economy, employing around 9,500 people. Annual timber production is around 1.2 million cu m, with around 700,000 cu m of this coming from the public estate. The majority of wood is processed in Welsh saw mills and panel board factories, but the market is dominated by imports, which account for 10 million cu m net for the United Kingdom as a whole.

Mae 305,000 ha o goetiroedd yng Nghymru, ac mae 117,000 ha, bron i 40%, ar ystâd goetir Llywodraeth Cymru. Mae diwydiannau sy'n seiliedig ar goetiroedd yn werth dros £400 miliwn y flwyddyn i economi Cymru, ac yn cyflogi tua 9,500 o bobl. Mae tua 1.2 miliwn cu m o bren yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn, gyda thua 700,000 cu m o hyn yn dod o'r ystâd gyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o bren yn cael ei brosesu mewn melinau llifio a ffatrïoedd bwrdd panel yng Nghymru, ond mewnforion sydd â'r lle blaenllaw yn y farchnad, gan gyfrif am 10 miliwn cu m net ar gyfer y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

A thriving forestry industry is important, and we want to increase demand for Welsh wood products that are both locally and sustainably produced. There are large areas of currently unmanaged woodlands in Wales that provide an opportunity to increase the production of usable timber, especially for renewable energy and to support the development of small and local businesses. Now that the Pen y Cymoedd windfarm project in south Wales has received planning consent, construction will begin at the site in 2014, and 10 wind turbine engineer apprenticeships have been created. From 2016, a Pen y Cymoedd windfarm community fund will make available around £1.5 million per year to invest in projects that will benefit local communities over 25 years.

Mae diwydiant coedwigaeth ffyniannus yn bwysig, ac rydym yn awyddus i gynyddu'r galw am gynhyrchion coed o Gymru sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol ac yn gynaliadwy. Ceir ardaloedd mawr o goetiroedd heb eu rheoli ar hyn o bryd yng Nghymru sy'n darparu cyfle i gynhyrchu mwy o bren y gellir ei ddefnyddio, yn enwedig ar gyfer ynni adnewyddadwy ac i gefnogi datblygiad busnesau bach a lleol. Nawr bod prosiect fferm wynt Pen y Cymoedd yn ne Cymru wedi derbyn caniatâd cynllunio, bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ar y safle yn 2014, a chrëwyd 10 prentisiaeth peiriannydd tyrbin gwynt. O 2016, trwy gronfa gymunedol fferm wynt Pen y Cymoedd, bydd tua £1.5 miliwn y flwyddyn ar gael i fuddsoddi mewn prosiectau a fydd o fudd i gymunedau lleol dros 25 mlynedd.

Woodland also provides opportunities for recreation, leisure and tourism. The Coed-y-Brenin visitors' centre at Dolgellau is an excellent example of this, employing local people and using locally produced food in the cafe, providing a great day out for families and visitors to Wales.

Mae coetiroedd hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer adloniant, hamdden a thwristiaeth. Mae canolfan ymwelwyr Coed-y-Brenin yn Nolgellau yn enghraifft ardderchog o hyn, gan gyflogi pobl leol a defnyddio bwyd a gynhyrchir yn lleol yn y caffi, a chynnig diwrnod allan gwych i deuluoedd ac ymwelwyr i Gymru.

On behalf of the Welsh Government, Natural Resources Wales works with a range of partners to provide opportunities for people that unlock the full potential of our woodland areas. This will support jobs in enterprise bases around woodlands that channel economic benefits to communities and disadvantaged groups.

Ar ran Llywodraeth Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddarparu cyfleoedd i bobl sy'n datgloi potensial llawn ein coetiroedd. Bydd hyn yn cefnogi swyddi mewn canolfannau menter o amgylch coetiroedd sy'n sianelu buddion i gymunedau a grwpiau dan anfantais.

The Welsh Government provides well-designed, high-quality and welcoming facilities that lead the visitor into the natural environment, such as at Garwnant near Merthyr Tydfil, encouraging people from all sections of society to be more physically active and to enjoy the outdoors, contributing to the health agenda. In total, NRW manages 550 km of mountain-bike trails, 135 km of horse-riding trails, 450 km of walking trails, five visitor centres and 75 picnic sites on the public estate. Through its work on woodlands, Natural Resources Wales is encouraging more people and communities to use woodlands for a variety of activities, as well as supporting communities to become more actively involved in the decision making in relation to their own local woodland. The vision for forestry support in the next rural development plan between 2014 and 2020 is that, in the seven years of the programme, Welsh woodlands will expand and be better managed, more economically sustainable and more resilient to change.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyfleusterau croesawgar, o ansawdd uchel sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n arwain yr ymwelydd i mewn i'r amgylchedd naturiol, megis yn Garwnant ger Merthyr Tudful, gan annog pobl o bob rhan o'r gymdeithas i fod yn fwy egnïol yn gorfforol ac i fwynhau'r awyr agored, gan gyfrannu at yr agenda iechyd. Yn gyfan gwbl, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli 550 km o lwybrau beicio mynydd, 135 km o lwybrau marchogaeth, 450 km o lwybrau cerdded, pum canolfan ymwelwyr a 75 o safleoedd picnic ar yr ystâd gyhoeddus. Trwy ei waith ar goetiroedd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog mwy o bobl a chymunedau i ddefnyddio coetiroedd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, yn ogystal â chefnogi cymunedau i gymryd mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â'u coetiroedd lleol eu hunain. Y weledigaeth ar gyfer cefnogaeth goedwigaeth yn y cynllun datblygu gwledig nesaf rhwng 2014 a 2020 yw y bydd coetiroedd Cymru yn ystod saith mlynedd y rhaglen, yn ehangu ac yn cael eu rheoli'n well, yn fwy cynaliadwy yn economaidd ac yn gallu dygymod yn well â newid.

The climate change strategy for Wales recommended significant increases in the planting of new woodland by 2030, as part of a range of land use measures to support carbon sequestration and to mitigate carbon emissions. The target also has an important subsidiary arm of increasing the substitution of materials such as steel and concrete with sustainable wood products in building. We are aware that current planting rates are unlikely to deliver the target for new woodland. Our ambition, therefore, is to bring together a range of measures to make the progress that we both need and require. The woodlands strategy advocates a diversification of woodlands, using increased species to improve resilience. While damaging to existing woodland, the current disease outbreaks emphasise our focus on replanting with more resilient species, to develop healthier and more varied woodlands and to provide a greater variety of trees, to produce high-quality Welsh timber. There is support for the replanting of felled woodland through the Glastir woodland management scheme. Applications to Glastir for replanting woodlands affected by larch disease are being given a high priority by Welsh Government when they are assessed and scored. My officials are looking at ways to speed up the processing of these applications.

Roedd strategaeth Cymru ar y newid yn yr hinsawdd yn argymell y dylid plannu llawer mwy o goetiroedd newydd erbyn 2030, fel rhan o ystod o fesurau defnydd tir i gynorthwyo i ddal a storio carbon ac i liniaru allyriadau carbon. Mae gan y targed is-elfen bwysig o gyfnewid mwy o ddeunyddiau fel dur a choncrid â chynhyrchion pren cynaliadwy wrth adeiladu. Rydym yn ymwybodol bod y cyfraddau plannu presennol yn annhebygol o gyflawni'r targed ar gyfer coetiroedd newydd. Ein huchelgais, felly, yw dwyn ynghyd ystod o fesurau i gyflawni'r hyn y mae arnom ei angen ac sy'n ofynnol. Mae'r strategaeth coetiroedd yn argymell y dylid arallgyfeirio coetiroedd, gan ddefnyddio mwy o rywogaethau i'w gwneud yn fwy gwydn. Er yn niweidiol i goetiroedd presennol, mae'r clefydau sydd gennym ar hyn o bryd yn pwysleisio ein ffocws ar ailblannu gyda rhywogaethau mwy gwydn, er mwyn datblygu coetiroedd iachach a mwy amrywiol ac i ddarparu mwy o amrywiaeth o goed, i gynhyrchu pren o ansawdd uchel o Gymru. Ceir cefnogaeth ar gyfer ailblannu coetiroedd cwympiedig drwy'r cynllun rheoli coetiroedd Glastir. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth uchel, wrth asesu a sgorio, i geisiadau i Glastir ar gyfer ailblannu coetiroedd yr effeithir arnynt gan glefyd y llarwydd. Mae fy swyddogion yn edrych ar ffyrdd o gyflymu'r gwaith o brosesu'r ceisiadau hyn.

The health of our trees and woodlands is important and the large-scale felling in the south Wales Valleys has highlighted how trees and woodlands are an integral feature of our landscape and are valued by neighbouring communities. We will do all we can to ensure that we include and engage with local communities in the design of new planting, to ensure that the forests in these communities meet the needs of local people.

Mae iechyd ein coed a'n coetiroedd yn bwysig a thynnwyd sylw, yn sgil torri coed ar raddfa fawr yng Nghymoedd de Cymru, at sut y mae coed a choetiroedd yn nodwedd annatod o'n tirwedd ac yn cael eu gwerthfawrogi gan gymunedau cyfagos. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau ein bod yn cynnwys ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol wrth benderfynu ar gynlluniau plannu newydd, er mwyn sicrhau bod y coedwigoedd yn y cymunedau hyn yn diwallu anghenion pobl leol.

Phytophthora ramorum is now widespread across all of western Great Britain, assisted by recent warm and wet autumns. The long-term prognosis is that larch is likely to disappear from Wales. The Welsh Government established a steering group in July, comprised of private, public and voluntary sector forestry representatives, to develop an overarching strategy for the detection and management of tree diseases in Wales, including a specific strategy to management of Phytophthora ramorum. Subject to final confirmation of costs, I have agreed to the introduction of several measures with immediate effect, in order to assist woodland owners to act quickly to remove and replace infected larch and reduce the impact on their businesses. The measures are: lengthening the time available to woodland owners to fell infected larch in areas of heavy infection, maintaining the policy of rapid removal of new infection in areas of Wales where there is currently little infection in larch and controlling the movement of infected larch wood to maintain biosecurity and to slow the spread of the disease.

Mae phytophthora ramorum yn awr yn gyffredin ar draws gorllewin Prydain Fawr i gyd, wedi'i helpu gan hydrefau cynnes a gwlyb diweddar. Y prognosis hirdymor yw bod coed llarwydd yn debygol o ddiflannu o Gymru. Sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp llywio ym mis Gorffennaf, yn cynnwys cynrychiolwyr coedwigaeth y sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, i ddatblygu strategaeth gyffredinol ar gyfer canfod a rheoli clefydau coed yng Nghymru, gan gynnwys strategaeth benodol i reoli Phytophthora ramorum. Yn amodol ar gael cadarnhad terfynol o'r costau, rwyf wedi cytuno i gyflwyno nifer o fesurau ar unwaith, er mwyn cynorthwyo perchnogion coetiroedd i weithredu'n gyflym i gael gwared ar larwydd heintiedig a phlannu coed eraill yn eu lle, a lleihau'r effaith ar eu busnesau. Y mesurau yw: ymestyn yr amser sydd ar gael i berchnogion coetiroedd dorri coed llarwydd heintiedig mewn ardaloedd lle mae'r haint yn ddrwg, cynnal y polisi o gael gwared yn gyflym ar achosion newydd o'r haint mewn ardaloedd o Gymru lle nad oes llawer o haint ar hyn o bryd mewn llarwydd, a rheoli symudiad pren llarwydd heintiedig i gynnal bioddiogelwch ac i arafu lledaeniad y clefyd.

Woodlands provide a valuable contribution to our environment through water regulation, soil protection, air quality and as carbon sinks, as well as providing shelter, landscape features and havens for biodiversity. Targeting planting on floodplains and riparian areas or integrating woodland planting with other land uses has the potential to reduce flood risk, reduce the effects of agricultural run-off and protect soils, as well as providing on-farm timber for firewood, shelter for livestock and habitat for wildlife.

Mae coetiroedd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ein hamgylchedd trwy reoleiddio dŵr, amddiffyn pridd ac ansawdd yr aer, ac fel dalfeydd carbon, yn ogystal â darparu lloches, nodweddion tirwedd a hafanau ar gyfer bioamrywiaeth. Ceir potensial, trwy dargedu gwaith plannu ar orlifdiroedd ac ardaloedd glannau afon neu trwy integreiddio cynlluniau plannu coetiroedd gyda defnyddiau tir eraill, i leihau'r perygl o lifogydd, lleihau effeithiau dŵr ffo amaethyddol a diogelu priddoedd, yn ogystal â darparu pren ar y fferm ar gyfer coed tân, cysgod i'r da byw a chynefin ar gyfer bywyd gwyllt.

Many of our woodlands are rich in biodiversity and include native and ancient woodlands and priority woodland habitats, as well as parkland and hedgerow trees. My forestry officials are currently leading a task and finish group to look at whether there is scope to improve the protection that can be given to ancient and veteran trees. In the Glastir entry scheme, it is one of the requirements under the whole-farm code to protect and retain all in-field and veteran trees, and farmers are paid to do this. The commitment in our programme for government to become a one-planet nation embodies sustainable development and places it at the heart of everything that we seek to do. Trees and woodlands have a major role to play in that commitment and our woodland strategy will ensure that woodland delivers for green growth to improve our communities, to help in tackling the health, green energy and poverty agendas, and to make Wales a better place in which to live and work.

Mae llawer o'n coetiroedd yn gyfoethog mewn bioamrywiaeth ac yn cynnwys coetiroedd brodorol a hynafol a chynefinoedd coetir â blaenoriaeth, yn ogystal â choed parcdir a pherthi a gwrychoedd. Ar hyn o bryd mae fy swyddogion coedwigaeth yn arwain grŵp gorchwyl a gorffen i edrych a oes lle i ddiogelu coed hynafol a hen yn well. Yn y cynllun mynediad Glastir, mae'n un o'r gofynion o dan god y fferm gyfan i warchod a chadw pob coeden mewn caeau a choed hynafol, ac mae ffermwyr yn cael eu talu i wneud hyn. Mae'r ymrwymiad yn ein rhaglen lywodraethu i ddod yn genedl un blaned yn ymgorffori datblygiad cynaliadwy ac yn ei osod wrth wraidd popeth yr ydym yn ceisio ei wneud. Mae gan goed a choetiroedd ran bwysig i'w chwarae yn yr ymrwymiad hwnnw a bydd ein strategaeth goetiroedd yn sicrhau bod coetiroedd yn darparu ar gyfer twf gwyrdd i wella ein cymunedau, helpu i fynd i'r afael â'r agendâu iechyd, ynni gwyrdd a thlodi, a gwneud Cymru yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo.

18:00

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, thank you for your statement. I am a little disappointed, I must say, that you have not linked your statement to the outcomes, particularly the measurable targets, that were identified in the 2012 statement made by John Griffiths, your predecessor, in which specific targets were set for forestry.

Weinidog, diolch am eich datganiad. Rwyf braidd yn siomedig, mae'n rhaid imi ddweud, nad ydych wedi cysylltu eich datganiad â'r canlyniadau, yn enwedig y targedau mesuradwy, a nodwyd yn y datganiad a wnaed gan John Griffiths, eich rhagflaenydd, yn 2012 lle y gosodwyd targedau penodol ar gyfer coedwigaeth.

As you are aware, thousands of hectares of Welsh Government woodland are infected with Phytophthora ramorum. Over 3,000 ha have not been felled and the way in which the public estate is managed—previously by the Forestry Commission Wales and now by Natural Resources Wales—means that substantial areas of private woodland are likely to be infected by Phytophthora. Your assessment in this statement, Minister, is that, in due course, there will be no larch left in Wales. That is a pretty damning conclusion of a failure to tackle the disease in the Welsh Government's forestry estate.

Fel y gwyddoch, mae miloedd o hectarau o goetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u heintio â Phytophthora ramorum. Mae dros 3,000 ha heb gael eu torri ac mae'r ffordd y mae'r ystâd gyhoeddus yn cael ei rheoli—yn flaenorol gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ac yn awr gan Gyfoeth Naturiol Cymru—yn golygu bod ardaloedd sylweddol o goetir preifat yn debygol o gael eu heintio gan Phytophthora. Eich asesiad yn y datganiad hwn, Weinidog, yw na fydd unrhyw goed llarwydd ar ôl yng Nghymru maes o law. Mae hynny'n gasgliad eithaf damniol o fethiant i fynd i'r afael â'r clefyd yn ystâd goedwigaeth Llywodraeth Cymru.

There are concerns that Natural Resources Wales is, in effect, being cross-subsidised, being able to undertake action that other private owners would not be able to, and that there is a lack of transparency around how that management will be accounted for. In relation to the other woodland estate, if I can put it that way, the only way to get support for management of woodlands is through Glastir. The First Steps grant scheme was abolished, and the Glastir woodland scheme will not come into effect until 2014, so there is a hiatus of over a year and, for some woodland owners, of over two years before they can access any support, and the only way for them to access that support is through Glastir. Minister, there is real concern about that.

Mae pryderon bod Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn gwirionedd, yn cael traws-gymhorthdal, ac yn gallu cymryd camau na fyddai perchnogion preifat eraill yn gallu eu cymryd, a bod diffyg tryloywder ynghylch sut y rhoddir cyfrif am y rheolaeth honno. Mewn perthynas â'r ystâd coetir arall, os caf ei roi felly, yr unig ffordd i gael cymorth ar gyfer rheoli coetiroedd yw drwy Glastir. Diddymwyd y cynllun grant Camau Cyntaf, ac ni fydd y cynllun coetiroedd Glastir yn dod i rym tan 2014, felly mae bwlch o dros flwyddyn ac, ar gyfer rhai perchnogion coetiroedd, dros ddwy flynedd cyn y gallant gael gafael ar unrhyw gymorth, a'r unig ffordd iddynt allu cael y cymorth hwnnw yw trwy Glastir. Weinidog, mae pryder gwirioneddol ynglŷn â hynny.

The Welsh Government had a very good forestry scheme, which had some failings, called 'Better Woodlands for Wales'. I wonder whether you could look at some of the successes of that scheme, because nowhere in this statement do I see outcomes, nowhere do I see information on how you intend to support delivery of this, where the value for money is, and what money there is in your budget for this scheme. Given that the Glastir scheme will not start until 2014, what is going to happen in the meantime?

Roedd gan Lywodraeth Cymru gynllun coedwigaeth da iawn, a oedd â rhai gwendidau, o'r enw 'Coetiroedd Gwell i Gymru'. Tybed a allech chi edrych ar rai o lwyddiannau'r cynllun hwnnw, gan na welaf ganlyniadau unman yn y datganiad hwn? Ni welaf wybodaeth am sut yr ydych yn bwriadu cefnogi'r broses o gyflawni hyn, lle mae'r gwerth am arian, a pha arian sydd yn eich cyllideb ar gyfer y cynllun hwn. O gofio na fydd y cynllun Glastir yn dechrau tan 2014, beth sy'n mynd i ddigwydd yn y cyfamser?

In terms of replanting the areas, you have talked about giving forestry owners more time to fell infected larch. Are you talking about NRW when you say that, or is that across the woodland estate? Will that apply to Welsh Government and private owners? Are you going to let people replant with other conifer species, for example, Sitka spruce? At the moment, there is a concern that commercial forestry is required to be replanted with broadleaved woodland. Minister, you yourself have identified in your statement concerns that there are a substantial amount of imports into Wales in the panel industry that could, in fact, come from commercially grown forestry in Wales.

O ran ailblannu'r ardaloedd, rydych wedi sôn am roi mwy o amser i berchnogion coedwigaeth dorri coed llarwydd heintiedig. A ydych chi'n sôn am Gyfoeth Naturiol Cymru, ynteu a yw hynny ar draws yr ystâd coetiroedd? A fydd hynny'n berthnasol i Lywodraeth Cymru a pherchnogion preifat? A ydych chi'n mynd i adael i bobl ailblannu rhywogaethau conwydd eraill, er enghraifft, sbriws Sitka? Ar hyn o bryd, mae pryder bod angen i goedwigaeth fasnachol gael ei hailblannu â choetiroedd llydanddail. Weinidog, rydych chi eich hun wedi nodi pryderon yn eich datganiad bod llawer iawn o fewnforion i Gymru yn y diwydiant paneli a allai, mewn gwirionedd, ddod o goedwigaeth a dyfir yn fasnachol yng Nghymru.

I am delighted you mentioned Coed y Brenin. I agree with you that that is an excellent project and one well worth highlighting. There have been some excellent schemes delivered. However, there are very real concerns and I am worried that your statement does not really look at what it is that you are expecting to be achieved, how much you are going to spend on it, and what outcomes you want.

Rwyf wrth fy modd eich bod wedi crybwyll Coed y Brenin. Rwy'n cytuno â chi bod hwnnw'n brosiect rhagorol ac yn un sydd wir werth tynnu sylw ato. Rhoddwyd rhai cynlluniau ardderchog ar waith. Fodd bynnag, ceir pryderon gwirioneddol iawn ac rwy'n poeni nad yw eich datganiad wir yn edrych ar yr hyn yr ydych yn disgwyl iddo gael ei gyflawni, faint yr ydych yn mynd i'w wario arno, a pha ganlyniadau y mae arnoch eu heisiau.

The final point I wish to make is that there was an ambition that 100,000 ha of new woodland be planted in Wales. That 100,000 ha you have accepted now that you have downgraded it to an ambition, because you are so far off your target that you are nowhere near achieving it, and that is very disappointing, given the link to your climate change criteria. Perhaps you could comment on that as well, Minister.

Y pwynt olaf yr wyf am ei wneud yw bod uchelgais i blannu 100,000 ha o goetir newydd yng Nghymru. Rydych wedi derbyn y 100,000 ha nawr eich bod wedi'i israddio i uchelgais, oherwydd eich bod mor bell oddi wrth eich targed nad ydych unman yn agos at sicrhau hynny, ac mae hynny'n siomedig iawn, o ystyried y cyswllt â'ch meini prawf ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Efallai y gallech roi sylwadau ar hynny hefyd, Weinidog.

18:05 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Conservative spokesperson would perhaps be less disappointed if she took more time to read the documents provided to her. In the first sentence of your response, she referred to this statement as a strategy. It is not: it is an update on the strategy that exists. The outcomes are all outlined within that strategy and stand today, so I would suggest, with all due respect and very kindly, of course, that perhaps the Conservative spokesperson might have done a little more homework before she put some of those criticisms on the record.

Byddai llefarydd y Ceidwadwyr efallai yn llai siomedig pe byddai'n treulio mwy o amser yn darllen y dogfennau a ddarparwyd iddi. Ym mrawddeg gyntaf ei hymateb, cyfeiriodd at y datganiad hwn fel strategaeth. Nid strategaeth mohono: diweddariad ydyw i'r strategaeth sydd eisoes yn bodoli. Mae'r canlyniadau i gyd wedi'u hamlinellu yn y strategaeth honno ac maent yn parhau i fodoli, felly byddwn yn awgrymu, gyda phob dyledus barch ac yn garedig iawn, wrth gwrs, efallai y gallai llefarydd y Ceidwadwyr fod wedi gwneud ychydig mwy o waith cartref cyn rhoi rhai o'r beirniadaethau hynny ar y cofnod.

In terms of where we are with P. ramorum, she seems to be blaming the forestry commission and now NRW for the spread of this pathogen. Does she also blame NRW for its spread in western Scotland, in Northern Ireland, in the Republic of Ireland and in the south-west of England? Does she also believe that that is the fault of poor management by NRW? I find that an extraordinary statement. We are dealing with a pathogen that is being spread across the whole of the western part of the British isles, and each administration in the British isles has to deal with it. If she sees and reads the document on plant and tree health that I published earlier today, she will see that there is a very effective, in my view, but also interlocking, approach from the different administrations in the United Kingdom to deal with this disease. I discussed this with my counterparts in England in the UK Government in the Department for Environment, Food and Rural Affairs yesterday, and we agreed that we were both confident about the measures that we had put in place in our different administrations. We agreed that the biosecurity measures that we will be taking forward as a part of this strategy were sufficient to deal with that. That was agreed by her colleagues in Westminster yesterday, when we discussed these matters, and I hope that she will accept that today.

O ran ein sefyllfa â P. ramorum, mae'n ymddangos ei bod yn rhoi'r bai ar y comisiwn coedwigaeth ac yn awr ar Gyfoeth Naturiol Cymru am ledaeniad y pathogen hwn. A yw hi hefyd yn rhoi'r bai ar Gyfoeth Naturiol Cymru am ei ledaenu yng ngorllewin yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon, yng Ngweriniaeth Iwerddon ac yn ne-orllewin Lloegr? A yw hi hefyd yn credu mai bai rheolaeth wael gan Gyfoeth Naturiol Cymru yw hynny? Rwy'n ystyried hynny'n ddatganiad anhygoel. Rydym yn delio â phathogen sy'n lledaenu ar draws holl ran orllewinol ynysoedd Prydain, ac mae pob gweinyddiaeth yn ynysoedd Prydain yn gorfod delio ag ef. Os bydd hi'n gweld ac yn darllen y ddogfen ar iechyd planhigion a choed a gyhoeddais yn gynharach heddiw, bydd yn gweld bod gan wahanol weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig ddull effeithiol iawn, yn fy marn i, ond hefyd un cydgysylltiedig, o ddelio â'r clefyd hwn. Trafodais hyn gyda'm cymheiriaid yn Lloegr yn Llywodraeth y DU yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ddoe, ac roeddem yn cytuno ein bod yn hyderus ynghylch y mesurau yr ydym wedi eu rhoi ar waith yn ein gwahanol weinyddiaethau. Rydym yn cytuno bod y mesurau bioddiogelwch y byddwn yn eu datblygu fel rhan o'r strategaeth hon yn ddigonol i ddelio â hynny. Cytunwyd ar hynny gan ei chydweithwyr yn San Steffan ddoe, pan drafodwyd y materion hyn, ac rwy'n gobeithio y bydd yn derbyn hynny heddiw.

In terms of the support that we are providing for planting and other measures that are being taken forward, the greater time available for the felling of larch is across the board, for all businesses and all owners. The replanting will be with a diversity of species. We have made that clear in the documentation that I released today.

O ran y cymorth yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer plannu a mesurau eraill sy'n cael eu dwyn ymlaen, mae'r amser hirach sydd ar gael ar gyfer torri coed llarwydd ar gael i bawb, pob busnes a phob perchennog. Defnyddir amrywiaeth o rywogaethau ar gyfer yr ailblannu. Rydym wedi gwneud hynny'n glir yn y dogfennau a gyhoeddwyd gennyf heddiw.

In terms of our overall approach, I have said very clearly that we have targets and outcomes, and ambitions and visions outlined in the current strategies. Those stand. We are looking at the moment at how we can ensure that we will meet the full range of those ambitions, and I will be making further announcements on further support for planting in due course.

O ran ein hymdriniaeth gyffredinol, rwyf wedi dweud yn glir iawn bod gennym dargedau a chanlyniadau, ac uchelgeisiau a gweledigaethau wedi'u hamlinellu yn y strategaethau cyfredol. Mae'r rhain yn parhau. Rydym yn edrych ar hyn o bryd ar sut y gallwn sicrhau y byddwn yn cyflawni'r ystod lawn honno o uchelgeisiau, a byddaf yn gwneud rhagor o gyhoeddiadau ynghylch rhagor o gefnogaeth ar gyfer plannu maes o law.

18:08

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am eich datganiad chi. Rydych yn sicr wedi llwyddo i gwmpasu ystod eang iawn o agweddau ar goedwigaeth a choetiroedd yn eich datganiad. I fod yn glir, felly, o safbwynt y targedau hyn, rydych yn dweud nad yw'r raddfa blannu bresennol yn delifro'r targed ar gyfer creu coedwigoedd newydd a bod angen amser i gyflwyno ystod o fesurau i weld y cynnydd angenrheidiol. A allwch chi gadarnhau, felly, bod y targedau gwreiddiol dal i fod yn dargedau yr ydych yn eu hystyried yn rhai i'r Llywodraeth hon, neu a ydych yn ystyried bellach fod yn rhaid ailedrych ar y targedau hynny a chreu targedau newydd? Efallai y gallwch chi roi eglurder i ni ar hynny.

Thank you, Minister, for your statement. You have certainly covered a wide range of aspects of forestry and woodlands in your statement. To be clear, therefore, from the point of view of these targets, you say that the current planting rate does not deliver the target for creating new woodlands and that time is needed to introduce a range a measures to see the necessary increase. Can you therefore confirm that the original targets remain targets that you consider to be for this Government, or do you now think that those targets need to be reviewed and new targets need to be created? Perhaps you could provide some clarity on that.

Rydych yn dweud yn eich datganiad, fel sydd wedi cael ei gyfeirio ato eisoes, fod coed llarwydd yn debygol o ddiflannu o Gymru. Mae hwnnw yn ddatganiad eithaf ysgubol, ond rwy'n dueddol o gydymdeimlo â hynny, oherwydd, fel mae pethau'n sefyll, rwy'n meddwl mai mater o 'pryd' ac nid 'os' ydyw. Fodd bynnag, nid yw hynny i ddweud y dylem fod yn llaesu dwylo a pheidio â gwneud ein gorau i arafu'r modd mae'r clwyf hwn yn lledaenu na pheidio â sicrhau y gallwn wneud popeth y gallwn i ddatblygu ffyrdd i ymladd yn ei erbyn.

You say in your statement, as has already been mentioned, that larch are likely to disappear from Wales. That is something of a sweeping statement, but I tend to sympathise with that view, because, as things stand, I think that it is a matter of 'when' and not 'if'. However, that is not to say that we should not be doing very best to slow the spread of this pathogen and to ensure that we can do everything that we can to develop methods of fighting its spread.

Rwy'n croesawu, felly, y ffaith bod y grŵp llywio hwn a'r Llywodraeth yn dod â mesurau gerbron i fynd i'r afael â'r mater. Rydych yn dweud ei fod yn ddibynnol ar gost. A allwch chi ddweud wrthym pryd y cawn ni gadarnhad o'r gost a phryd y bydd y mesurau'n dod i rym ac yn cael eu gweithredu? Rydych yn dweud eich bod am ei wneud ar ei union, ond yn ddibynnol ar gost. Felly, byddai rhyw fath o syniad o amserlen o gymorth. A ydym yn sôn am ddyddiau, wythnosau neu fis neu ddau?

I welcome, therefore, the fact that the steering group and the Government are bringing measures forward to tackle this issue. You say that it is dependent on cost. Can you tell us when we will receive confirmation of the cost and when the measures will be in force and implemented? You say that you want to do it as soon as possible, but depending on the cost. Therefore, some idea of a timetable would be of assistance. Are we talking days, weeks, or a month or so?

Rydych yn cyfeirio at gyfraniad coetiroedd at fioamrywiaeth, ac, er mwyn delifro'r budd mwyaf i fioamrywiaeth, mae angen i goetiroedd fod mewn cyflwr da. Lle nad ydynt mewn cyflwr da, mae angen cymorth iddynt gyrraedd y lefel angenrheidiol. Felly, a allwch rannu gyda ni ba gynlluniau sydd gennych i wella ansawdd bywyd gwyllt coedwigoedd brodorol sydd yn bodoli yng Nghymru, a sut, yn enwedig, yr ydych yn gweld rôl y cynllun datblygu gwledig newydd yn cyfrannu at hyn?

You mention the contribution of woodlands to biodiversity, and, in order to deliver the maximum benefit to biodiversity, woodlands need to be in a good condition. Where they are not in good condition, assistance is required for them to reach the required level. Therefore, can you share with us what plans you have to improve the quality of wildlife in the indigenous woodlands that exist in Wales, and how, in particular, you see the role of the new rural development plan contributing to this?

Mae risg hefyd y gall targed o 100,000 ha o goetiroedd newydd niweidio cynefinoedd os ydynt yn cael eu plannu mewn lleoedd anaddas, er enghraifft ar dir agored ac ar safleoedd bridio adar hirgoes. Felly, a allwch roi sicrwydd i ni na fydd cynefinoedd na rhywogaethau blaenoriaeth yn cael eu heffeithio'n negyddol, ac y bydd unrhyw waith y mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn y maes hwn yn cynorthwyo rhywogaethau allweddol yn hytrach na fel arall?

There is also a risk that the target of 100,000 ha of new woodlands could damage habitats if they are planted in inappropriate sites, such as on open land and on breeding sites for wading birds. Therefore, can you give us an assurance that habitats and priority species will not be negatively affected, and that any work that the Government does in this area will assist key species rather than being detrimental to them?

Mae cyfeiriad at lifogydd yn eich datganiad hefyd. A ydym felly yn cymryd eich bod yn dweud bydd rhaglen benodol fydd yn targedu plannu coed er mwyn lleihau llifogydd yn cael ei datblygu? Rydym yn ymwybodol o gynlluniau fel Pontbren ym Mhowys, lle mae grŵp o ffermwyr cyfagos wedi gweithio gyda'i gilydd i blannu 120,000 o goed, heb golli cynhyrchiant amaethyddol. Rwy'n tybio y byddech yn awyddus i hyrwyddo hynny fel model i'w efelychu. Efallai gallech ddweud wrthym os bydd y cynllun datblygu gwledig newydd yn ei gwneud hi'n bosibl i eraill dilyn eu hesiampl os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Flooding is also mentioned in your statement. Do we therefore assume that you are saying that a specific programme to target the planting of trees in order to reduce flooding will be developed? We are aware of schemes such as Pontbren in Powys, where a group of local farmers have worked together to plant 120,000 trees, without losing agricultural output. I assume that you would be eager to promote that as a model to be emulated. Perhaps you could tell us whether the new rural development plan will make it possible for others to follow their example if they wish to do so.

Rydych hefyd yn cyfeirio at y grŵp gorchwyl a gorffen yr ydych wedi ei greu i edrych ar goed hynafol, sydd yn cael ei arwain gan swyddogion coedwigaeth yn eich adran. Efallai gallech roi syniad i ni bryd bydd y grŵp yn adrodd. Fy nealltwriaeth i yw nad oes amddiffyniad cyfreithiol ar hyn o bryd o ran coed hynafol sydd yn marw, wedi marw, neu sydd mewn cyflwr peryglus. Dyma'r adeg, wrth gwrs, pan fo eu cyfraniad a'u gwerth ar eu mwyaf yn aml. Felly, gofynnaf i chi ystyried creu eithriadau i goed hynafol sydd yn beryglus os oes modd i'w gwneud yn ddiogel.

You also refer to the task and finish group that you have created to look at ancient trees, which is being led by forestry officers in your department. Perhaps you could give us an idea of when the group will report. It is my understanding that there is no legal defence at present in relation to ancient trees that are dying, have died, or are in a dangerous condition. This, of course, is the time when their contribution and value are often at their peak. I therefore ask you to consider creating exceptions for ancient trees that are dangerous if they can be made safe.

18:12 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dechreuaf drwy ateb eich cwestiwn olaf. Byddaf yn hapus iawn i wneud hynny, os oes modd. Rwyf yn cytuno â chi yn llwyr. Os oes modd diogelu coed o'r fath, liciwn wneud hynny, a byddwn yn cymryd agwedd hynod o bositif tuag at wneud hynny.

I will start by dealing with your final question. I would be very happy to do so, if it is possible. I agree with you entirely. If there is a way of protecting trees of that kind, I would like to do so, and I would take an extremely positive attitude towards doing that.

I fynd yn ôl at y pwynt cyntaf, fel yr oeddwn yn ceisio egluro wrth ymateb i'r cyfraniad blaenorol, 'update' yw hwn, nid strategaeth newydd. Nid ydym yn symud i ffwrdd o'r strategaeth sydd gennym. Mae'r strategaeth yn aros fel y mae, ac mae'r targedau yn rhan o'r strategaeth. Felly, nes ein bod yn gwneud penderfyniad i ailymweld â'r strategaeth yn ei gyfanrwydd, ni fyddem yn newid y targedau sydd gennym. Fodd bynnag, rwy'n ceisio bod yn agored a honest gyda phobl yma ac yr wyf yn rhagweld bydd rhai targedau yn anodd eu cyraedd fel yr ydym yn symud ymlaen heddiw ac ar hyn o bryd. Dyna pam yr oeddwn yn ceisio dweud y byddem yn ystyried ffyrdd gwahanol, ac yr ydych wedi rhagweld rhai o'r ffyrdd y byddem efallai yn gwneud hynny drwy'r cynllun datblygu gwledig nesaf, a thrwy gynlluniau megis y gronfa £6 miliwn yr ydym wedi ei chreu ar gyfer cynefinoedd gwahanol ag ati. Felly, dyna sut y byddwn yn rhagweld y byddem yn mynd o gwmpas ysytried hyn a symud yn gyflymach tuag at sicrhau bod y targedau hynny yn gallu cael eu cyraedd mewn pryd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni newid yr hyn yr ydym yn ei wneud. Nid ydym yn gallu gwneud hyn drwy barhau â'r rhaglenni presennol. Dyna'r hyn yr oeddwn yn ceisio ei ddweud.

To go back to the initial point, as I was trying to explain in responding to the previous contribution, this is an update, not a new strategy. We are not moving away from the current strategy. The strategy will remain as it is, and the targets are part of that strategy. Therefore, until we take a decision to revisit the strategy as a whole, we will not change the targets that we have. However, I am trying to be open and honest with people here and I foresee that some of the targets will be very difficult to reach as we move forward today and as things currently stand. That is why I was trying to say that we will be considering different ways, and you have predicted some of those ways that we may do so through the next rural development plan, and through schemes such as the £6 million fund that we have created for various habitats and so on. Therefore, that is how I would predict that we will go about considering this and moving more rapidly towards ensuring that those targets are ones that can be reached in time. However, we need to change what we are doing. We cannot do this by continuing with the current programmes. That is what I was trying to say.

Roeddech yn hollol iawn eto pan wnaethoch sôn am y datganiad a wneuthum. Roedd y geiriau wedi cael eu dewis yn ofalus—rwyf yn gobeithio, o leiaf. Rwyf wedi gwneud y datganiadau yr wyf yn gallu eu gwneud heddiw, gan fy mod eisiau ystyried costau'r rhaglen P. ramorum. Nid oes gennym feddwl clir o ran pryd y byddaf mewn sefyllfa i wneud datganiad llawn ar hynny, ond dywedaf y prynhawn yma, os nad wyf wedi gwneud hynny cyn diwedd y mis, gwnaf ddatgan i chi pryd yn union bydd y datganiad yn cael ei gwneud. Byddwn yn gobeithio gwneud hynny yn ystod yr wythnosau nesaf.

You were quite right again when you talked about the statement that I made. The words had been carefully chosen—I hope that they were, at least. I have made the statements I was able to make today, because I want to consider the costs of the programme related to P. ramorum. I am not clear as to when I will be in a position to make a full statement on that, but I will say this afternoon that, if I have not done so before the end of this month, I will tell you when exactly that statement will be forthcoming. I would hope to do that within the next few weeks.

Os nad ydym yn gallu gwneud hynny, mi esboniwn yn union pam nad ydym a pha bryd y byddwn yn gwneud hynny. Felly, rwy'n gobeithio, drwy beidio ag ateb y cwestiwn, fy mod yn rhoi digon o sicrwydd i chi fod hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried.

If we are not able to do that, I will explain exactly why we are unable to do so, and when we are likely to do so. So, I hope that by not responding to the question I can give you enough assurance that that is something that we are considering.

Gan ddod â'r cwestiwn hwn i ben, mae Pontbren yn gynllun arbennig o dda. Rwyf wedi ymweld â'r ffermwyr ac â'r ffermydd sy'n rhan ohono, ac roeddwn yn hynod 'impressed' â'r gwaith y maent wedi ei wneud ac â'r ffordd y maent wedi mynd ati i wneud hynny. Roedd yr ymweliad â Pontbren yn rhan o'r meddwl y tu hwnt ac y mae wedi arwain at greu'r gronfa o £6 miliwn yr ydym wedi ei thrafod yn barod i alluogi tirfeddianwyr i gynllunio yn y ffordd orau iddynt ar eu tir eu hunain—trystio pobl i wybod beth sydd orau iddynt hwy. Dyna'r athroniaeth sydd y tu ôl iddo, a dyna sut yr wyf am fynd â'r peth yn ei flaen. Pan wnaf ddatganiadau am Glastir a'r RDP newydd yn y flwyddyn newydd, mi fydd dyfodol coetir Cymru yn rhan hanfodol bwysig ohonynt.

To bring this question to a close, Pontbren is an excellent scheme. I have visited the farmers and farms that are part of that scheme, and I was very impressed by the work that they have undertaken and the way that they have gone about doing it. The visit to Pontbren was part of thinking beyond this and has led to the creation of the £6 million fund that we already discussed to enable landowners to be able to plant in the way that is best for them on their own land—trusting people to know what is best for them. That is the philosophy behind it, and that is how I want to take this forward. When I give statements on Glastir and the new RDP in the new year, the future of woodlands in Wales will be a very important part of them.

18:16 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad heno.

Thank you, Minister, for this evening's statement.

I would also like to thank you for arranging the circulation of the tree health strategy to which you referred. It is a document of particular interest to me as co-owner of a small mixed plantation that includes larch and oak. In many ways, there are now two narratives for the state of Welsh forestry—one in which stocks are on the rise and expanding mixed native species planting is increasing resilience, and a second in which the spectre of tree disease is creating an uncertain future, as we have already heard emphasised. That is further exacerbated by what I understand are currently internal difficulties in NRW hampering commercial development. I shall return to that.

Hoffwn hefyd ddiolch ichi am drefnu i ddosbarthu'r strategaeth iechyd coed y cyfeiriwyd ati. Mae'n ddogfen sydd o ddiddordeb arbennig i mi fel cyd-berchennog planhigfa gymysg fechan sy'n cynnwys llarwydd a derw. Mewn sawl ffordd, ceir dau naratif am gyflwr coedwigaeth Cymru erbyn hyn —un lle mae stociau ar gynnydd a lle mae mwy o rywogaethau brodorol cymysg yn cael eu plannu gan gynyddu gwydnwch, ac ail un lle mae bwgan clefydau coed yn creu dyfodol ansicr, fel yr ydym eisoes wedi'i glywed yn cael ei bwysleisio. Caiff hynny ei waethygu ymhellach gan anawsterau mewnol yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, yn ôl yr hyn a ddeallaf, sy'n llesteirio datblygiad masnachol ar hyn o bryd. Dychwelaf at hynny.

I wanted to focus initially, however, on some of the more positive aspects. Minister, you are quite right: forestry plays a vital role in sustaining the rural ecosystem. As Rory Francis of Coed Cadw has recently written, it also acts as a key flood defence by reducing run-off and by increasing absorption in a catchment basin. Given this, I strongly welcome the continued commitment to the targeting of planting on floodplains and in riparian areas. Indeed, it is clear that forestry cover is increasing across Wales, and this growth is very encouraging. This change has taken a number of Assemblies to come about, and I hope that it will continue to develop. Yet, there remains a significant room for improvement in this area, despite our having one of Europe's most attractive locations for plantations, due to the Gulf Stream. Wales remains one of the least wooded countries in Europe, with only 15% coverage, compared with the EU average of some 37%. This statistic highlights just how much scope there is for forestry expansion and, equally, how there is no reason that there should be any conflict between our need to improve habitat on the one hand, and the need to foster a sustainable commercial forestry sector on the other.

Roeddwn i eisiau canolbwyntio i ddechrau, fodd bynnag, ar rai o'r agweddau mwy cadarnhaol. Weinidog, rydych yn llygad eich lle: mae coedwigaeth yn chwarae rôl hanfodol wrth gynnal yr ecosystem wledig. Fel yr ysgrifennodd Rory Francis o Goed Cadw yn ddiweddar, mae hefyd yn gweithredu fel amddiffynfa allweddol rhag llifogydd trwy leihau dŵr ffo a thrwy amsugno mwy o ddŵr mewn basn dalgylch. O ystyried hyn, rwy'n croesawu'n fawr yr ymrwymiad parhaus i dargedu gwaith plannu ar orlifdiroedd ac mewn ardaloedd glannau afon. Yn wir, mae'n amlwg bod gorchudd coedwigaeth yn cynyddu ar draws Cymru, ac mae'r twf hwn yn galonogol iawn. Mae'r newid hwn wedi cymryd sawl Cynulliad i ddigwydd, ac rwy'n gobeithio y bydd yn parhau i ddatblygu. Eto i gyd, mae lle sylweddol i wella yn y maes hwn, er ein bod yn un o leoliadau mwyaf deniadol Ewrop ar gyfer planhigfeydd, oherwydd Llif y Gwlff. Cymru yw un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop, gyda gorchudd o ddim ond 15%, o'i gymharu â chyfartaledd o ryw 37% trwy'r UE. Mae'r ystadegyn hwn yn tynnu sylw at faint o le sydd i ehangu coedwigaeth ac yn yr un modd, at y ffaith nad oes unrhyw reswm pam y dylai fod unrhyw wrthdaro rhwng ein hangen i wella cynefinoedd ar y naill law, a'r angen i feithrin sector coedwigaeth fasnachol gynaliadwy ar y llall.

With regard to the latter, and specifically referring to the 'driving green growth' section of your statement, I want to expand on the use of timber for renewables. You referenced the figure of 700,000 cu m of timber coming from the total public estate. However, concerns have been raised with me about how much of that figure is currently dedicated to biomass. Reports suggest that this could be over 60,000 cu m annually. While this is positive on the renewable side of things, timber dealers have highlighted to me that in dealings that they have had with NRW, 60,000 cu m may indeed be excluded from the total figure, and there is therefore a danger of double counting. As you can appreciate, counting the 60,000 cu m twice can lead to our timber contractors getting around 9% less timber per annum than they are planning for. This is a significant issue, particularly for a company on a tight budget. Would you, Minister, I agree to investigate this matter with NRW and ensure that we are in fact being given accurate information in this particular regard?

O ran yr olaf, a chan gyfeirio'n benodol at y rhan o'ch datganiad a oedd yn ymwneud â 'sbarduno twf gwyrdd', rwyf am ehangu ar y defnydd o bren ar gyfer ynni adnewyddadwy. Roeddech yn cyfeirio at y ffigur o 700,000 cu m o bren sy'n dod o'r ystâd gyhoeddus gyfan. Fodd bynnag, codwyd pryderon gyda mi ynghylch faint o'r ffigur hwnnw ar hyn o bryd sydd wedi'i neilltuo i fiomas. Mae adroddiadau'n awgrymu y gallai hyn fod dros 60,000 cu m bob blwyddyn. Er bod hyn yn gadarnhaol ar yr ochr adnewyddadwy, mae masnachwyr pren wedi tynnu fy sylw at y ffaith y gallai 60,000 cu m fod yn cael ei hepgor o'r ffigur cyflawn, mewn trafodion y maent wedi'u cael â Chyfoeth Naturiol Cymru, ac felly bod perygl o gyfrif yr un peth ddwywaith. Fel y gallwch werthfawrogi, trwy gyfrif y 60,000 cu m ddwywaith fe allai ein contractwyr pren dderbyn o gwmpas 9% yn llai o bren y flwyddyn nag y maent yn cynllunio ar ei gyfer. Mae hwn yn fater o bwys, yn enwedig i gwmni ar gyllideb dynn. A fyddech chi, Weinidog, yn cytuno i ymchwilio i'r mater hwn gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a sicrhau ein bod mewn gwirionedd yn cael gwybodaeth gywir yn hynny o beth?

While on the subject of NRW's forestry work, you may be aware that several former key employees at FCW have decided to leave the organisation due to the reduction in the availability of homeworking and the decision to centralise services in Aberystwyth. Are you concerned by the potential haemorrhaging of knowledge capital out of NRW's forestry section, which could impact adversely on the aims that you have set out today?

Gan ein bod yn trafod gwaith coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, efallai y byddwch yn ymwybodol bod nifer o gyn-weithwyr allweddol yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru wedi penderfynu gadael y sefydliad oherwydd bod llai o gyfleoedd ar gael i weithio gartref ac oherwydd y penderfyniad i ganoli gwasanaethau yn Aberystwyth. A ydych yn poeni y gallai cyfalaf gwybodaeth lifo allan o adran goedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, ac y gallai hynny gael effaith andwyol ar yr amcanion yr ydych wedi'u gosod heddiw?

Turning briefly to your comment on community engagement, I wanted to highlight the work of Lawrence Kitchen, who I am sure you are familiar with through his work with the Wales Rural Observatory. In his recent article on political ecology and environmental justice in the south Wales Valleys he was highly critical of previous community engagement exercises, highlighting how the community consultation programme both raised community expectations to an unrealistic level and encouraged individuals in the community to make unreasonable demands. He went on to say that community input did not materially affect our forestry development plans, and would shortly be forgotten. What assurances, Minister, can you give that history will not repeat itself in terms of our approach to engagement with our most vulnerable communities?

Gan droi yn fyr at eich sylw ar ymgysylltu â'r gymuned, rwy'n awyddus i dynnu sylw at waith Lawrence Kitchen, yr wyf yn siŵr eich bod yn gyfarwydd ag ef trwy ei waith gydag Arsyllfa Wledig Cymru. Yn ei erthygl ddiweddar ar ecoleg wleidyddol a chyfiawnder amgylcheddol yng Nghymoedd y de, roedd yn feirniadol iawn o ymarferion blaenorol i ymgysylltu â'r gymuned, gan dynnu sylw at sut y cododd y rhaglen ymgynghori ddisgwyliadau'r gymuned i lefel afrealistig yn ogystal ag annog unigolion yn y gymuned i wneud galwadau afresymol. Aeth ymlaen i ddweud nad yw cyfraniad y gymuned yn effeithio'n sylweddol ar ein cynlluniau i ddatblygu coedwigaeth, ac y byddai'n cael ei anghofio yn fuan. Pa sicrwydd, Weinidog, y gallwch ei roi na fydd hanes yn ailadrodd ei hun o ran ein dull o ymgysylltu â'n cymunedau mwyaf agored i niwed?

Finally, I want to touch upon the commendable tree health strategy itself. Clearly, no-one wishes to see a repeat of the kinds of devastation that we are currently seeing with ash dieback and indeed sudden oak death. These outbreaks have taken a massive toll on our woodland, and it is especially devastating to see ancient woodland suffering. All of us would have been devastated to hear of the demise of the Pontfadog oak just last April, a matter that I know is of particular concern to the Member for Clwyd South. Indeed, as I am sure that no-one would disagree with the objective to preserve the health and vitality of trees in Wales, what can we further do to improve the protection that exists for our veteran trees? The Glastir option you referred to is clearly to be welcomed.

Yn olaf, rwyf am grybwyll y strategaeth iechyd coed glodwiw ei hun. Yn amlwg, nid oes neb yn dymuno gweld ailadrodd y math o ddinistr yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd gyda chlefyd coed ynn ac yn wir farwolaeth sydyn y deri. Mae ein coetiroedd wedi gweld colledion enfawr yn sgil yr achosion hyn, ac mae'n arbennig o drist gweld coetiroedd hynafol yn dioddef. Byddai pob un ohonom wedi ei dristáu o glywed am dranc derwen Pontfadog fis Ebrill diwethaf, mater y gwn sy'n peri pryder arbennig i'r Aelod dros Dde Clwyd. Yn wir, gan fy mod yn siŵr na fyddai neb yn anghytuno â'r amcan i ddiogelu iechyd a bywiogrwydd coed yng Nghymru, beth arall allwn ni ei wneud i ddiogelu ein coed hynafol yn well? Mae'r opsiwn Glastir y cyfeiriwyd ato yn amlwg i'w groesawu.

Finally, I was hoping, Minister, that you would outline to what extent you have been made aware of the threat to Wales from the sitka spruce virus. Particular references to that in the strategy would be helpful.

Yn olaf, roeddwn yn gobeithio, Weinidog, y byddech yn amlinellu i ba raddau y'ch gwnaed yn ymwybodol o'r bygythiad i Gymru yn sgil y feirws sbriws Sitka. Byddai cyfeiriadau penodol at hynny yn y strategaeth o gymorth.

18:22

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your general welcome and your comments on the statement. I have formed this habit of answering the last question first. We will be providing strategies—the statement that I published and circulated earlier today is an overarching one, and there will clearly be individual strategies published on individual tree diseases and pathogens. I will be able to publish a strategy as you described in due course, when that is available, and I can write to you and let you know when that will be.

Diolch i chi am eich croeso cyffredinol a'ch sylwadau ar y datganiad. Rwyf wedi ffurfio'r arfer hwn o ateb y cwestiwn olaf yn gyntaf. Byddwn yn darparu strategaethau—mae'r datganiad a gafodd ei gyhoeddi a'i gylchredeg gennyf yn gynharach heddiw yn un cyffredinol, ac yn amlwg bydd strategaethau unigol yn cael eu cyhoeddi ar glefydau coed a phathogenau unigol. Byddaf yn gallu cyhoeddi strategaeth fel y disgrifiwyd gennych maes o law, pan fydd ar gael, a gallaf ysgrifennu atoch a rhoi gwybod i chi pryd y bydd hynny.

In terms of the general points that you make, you are absolutely right—there are two themes or stories, if you like, in Welsh woodland at the moment: the good and the bad, if you like. The bad we understand, and we know, in terms of the tree diseases that we are dealing with at the moment, that the good is a price increase in the timber sector, and I will be visiting BSW sawmills in Newbridge-on-Wye on Thursday, and speaking to them about how we can continue to increase Government support for those businesses. Although we have seen a significant increase in price recently, as I say—72% over the last decade or so—we also know that prices remain considerably below historical levels. So, although the sector is seeing something of a recovery, it is from a low level, and we do need to look at how we can continue to support that and nurture the industry as a whole in Wales.

O ran y pwyntiau cyffredinol a wnewch, rydych yn llygad eich lle—mae dwy thema neu stori, os mynnwch chi, yng nghoetiroedd Cymru ar hyn o bryd: y da a'r drwg, os mynnwch chi. Rydym yn deall y drwg, ac rydym yn gwybod, o ran y clefydau coed yr ydym yn delio â hwy ar hyn o bryd, mai'r da yw cynnydd mewn prisiau yn y sector pren, a byddaf yn ymweld â melinau llifio BSW yn y Bontnewydd-ar-Wy ddydd Iau, ac yn siarad â hwy am sut y gallwn barhau i gynyddu cymorth y Llywodraeth ar gyfer y busnesau hynny. Er ein bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn y pris yn ddiweddar, fel y dywedais—72% dros y degawd diwethaf fwy neu lai—rydym hefyd yn gwybod bod prisiau yn dal yn sylweddol is na'r lefelau hanesyddol. Felly, er bod y sector yn gweld rhywfaint o adferiad, mae'n cychwyn o lefel isel, ac mae angen inni edrych ar sut y gallwn barhau i gefnogi hynny a meithrin y diwydiant yn ei gyfanrwydd yng Nghymru.

In terms of the question that you asked on flood defence, I was glad that you asked that because it gives me the opportunity to answer the question from Llyr Huws Gruffydd that I neglected to answer as well. We are of course looking at woodlands as a means of water management, and in terms of flood defence. I think this is one of the more comprehensive views that we have to take when we are looking at ecosystems services, payment for ecosystems services, and when we are looking at the development of not just new habitats and recreation of habitats, but at how we manage water and deliver the water objective in totality, as well as our other ambitions on biodiversity. So yes, this strategy is very much central to that. We have had preliminary discussions about how we are able to take forward some of these issues in terms of water management. I have started work on a more comprehensive water strategy, which I will publish in the new year. The place of woodlands and tree planting will be identified as a part of that in terms of how we take it forward.

Roeddwn yn falch eich bod wedi gofyn y cwestiwn am amddiffyn rhag llifogydd, oherwydd ei fod yn rhoi cyfle imi ateb y cwestiwn gan Llyr Huws Gruffydd yr anghofiais ei ateb yn ogystal. Rydym wrth gwrs yn edrych ar goetiroedd fel modd o reoli dŵr, ac o ran amddiffyn rhag llifogydd. Rwy'n credu bod hwn yn un o'r safbwyntiau mwyaf cynhwysfawr y mae'n rhaid i ni eu cymryd wrth ystyried gwasanaethau ecosystemau, talu am wasanaethau ecosystemau, ac wrth ystyried datblygu cynefinoedd newydd ac ailgreu cynefinoedd, ond hefyd wrth ystyried sut i reoli dŵr a chyflawni'r amcan dŵr yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â'n huchelgeisiau eraill ar fioamrywiaeth. Felly ydy, mae'r strategaeth hon yn gwbl ganolog i hynny. Rydym wedi cael trafodaethau rhagarweiniol ynglŷn â sut y gallwn fwrw ymlaen â rhai o'r materion hyn o ran rheoli dŵr. Rwyf wedi dechrau gweithio ar strategaeth ddŵr fwy cynhwysfawr, a byddaf yn ei chyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Nodir cyfraniad coetiroedd a phlannu coed yn rhan ohoni, o ran sut yr ydym yn datblygu hynny.

You will, I hope, forgive me when I do not answer questions on the internal management of NRW and the decisions that it takes on staffing matters. It is a matter for the management, not for me. If you have concerns about those matters, I ask you to write directly to NRW. That is not something that I, as a Minister, would seek to involve myself in.

Byddwch, rwy'n gobeithio, yn maddau imi am beidio ag ateb cwestiynau ar reolaeth fewnol Cyfoeth Naturiol Cymru a'i benderfyniadau ar faterion staffio. Mater i'r rheolwyr yw hynny, nid i mi. Os oes gennych bryderon ynghylch y materion hynny, rwy'n gofyn i chi ysgrifennu'n uniongyrchol at Gyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw hynny'n rhywbeth y byddwn i, fel Gweinidog, yn ceisio ymwneud ag ef.

In terms of veteran trees, I am aware of the issue and it has been raised a number of times this afternoon. We are very open to looking at ways of addressing those issues. Fundamentally, I have some sympathy with the points that you make about community consultation and engagement. It is essential that we get these things right. It is essential that a consultation is not simply a box to tick, but a process that we take very seriously. We should be led and informed and should enter into a two-way dialogue with communities; it should not just be a one-way transmission of information. I will be taking that very seriously. I hope that you will accept my undertaking that I will ensure that, when we do undertake community engagement, it is a real process and not a PR process.

O ran hen goed, rwy'n ymwybodol o'r mater ac mae wedi cael ei godi nifer o weithiau brynhawn heddiw. Rydym yn agored iawn i edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hynny. Yn y bôn, mae gennyf rywfaint o gydymdeimlad â'r pwyntiau a wnewch ynghylch ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'n hanfodol ein bod yn cael y pethau hyn yn iawn. Mae'n hanfodol bod ymgynghoriad yn broses yr ydym yn ei chymryd o ddifrif, ac nid yn flwch i'w dicio yn unig. Dylem gael ein harwain a'n hysbysu a dylem gymryd rhan mewn deialog ddwy ffordd gyda chymunedau; ni ddylai fod yn fater o drosglwyddo gwybodaeth un ffordd yn unig. Byddaf yn cymryd hynny o ddifrif. Rwy'n gobeithio y byddwch yn derbyn fy addewid y byddaf yn sicrhau, wrth ymgysylltu â'r gymuned, ei bod yn broses go iawn ac nid yn broses cysylltiadau cyhoeddus.

18:26 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to welcome the Minister's statement. A strategy for Welsh woodland is central to a devolved Wales. It is not a once-and-forever strategy; it needs constant updating and it needs to evolve as our understanding, needs and opportunities also evolve. That is why, since 2001, the plan has been revised to take account of emerging issues, particularly climate change.

Rwy'n falch o groesawu datganiad y Gweinidog. Mae strategaeth ar gyfer coetiroedd Cymru yn ganolog i Gymru ddatganoledig. Nid yw'n strategaeth unwaith ac am byth; mae angen ei diweddaru'n gyson ac mae angen iddi esblygu wrth i'n dealltwriaeth, ein hanghenion a'n cyfleoedd hefyd esblygu. Dyna pam y mae'r cynllun, ers 2001, wedi cael ei ddiwygio i ystyried materion sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig newid yn yr hinsawdd.

If we describe climate change as a chronic condition, requiring long-term care, then every new wave of invasive species poses an acute risk to tree health. I welcome the establishment in July of the Wales tree health steering group. I believe that it demonstrates a commitment by the Minister to preserve the health and vitality of our trees and woodlands. Minister, you and others have already talked about the spread of larch disease across the area. I would like to ask you whether you can give an update on the work of the newly established steering group to us.

Os ydym yn disgrifio newid yn yr hinsawdd fel cyflwr cronig, sydd ag angen gofal tymor hir, yna mae pob ton newydd o rywogaethau goresgynnol yn peri risg difrifol i iechyd coed. Rwy'n croesawu'r ffaith y sefydlwyd grŵp llywio iechyd coed Cymru ym mis Gorffennaf. Rwy'n credu ei fod yn dangos ymrwymiad gan y Gweinidog i ddiogelu iechyd a bywiogrwydd ein coed a choetiroedd. Weinidog, rydych chi ac eraill eisoes wedi sôn am ledaeniad clefyd llarwydd ar draws yr ardal. Hoffwn ofyn i chi a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am waith y grŵp llywio a sefydlwyd yn ddiweddar.

The other issue that has been talked about is the role of trees in flood management. I would like to put on the table that trees do not only belong in fields. Strategic tree planting can help alleviate flooding and green-up concrete jungles. Will you be working with partners to take that approach forward? Will you particularly be working across portfolios, especially planning, to ensure that the need for housing takes due regard of the roles that trees can play in strategic flood management and carbon dioxide reduction?

Y mater arall sydd wedi cael ei drafod yw cyfraniad coed at reoli llifogydd. Hoffwn ddatgan nad caeau yn unig yw'r lle i goed. Trwy blannu coed mewn modd strategol, gellir helpu i liniaru llifogydd a rhoi gwyrddni mewn jynglau concrid. A fyddwch chi'n gweithio gyda phartneriaid i fwrw ymlaen â'r dull gweithredu hwnnw? A fyddwch chi, yn arbennig, yn gweithio ar draws sawl portffolio, yn enwedig cynllunio, er mwyn sicrhau bod yr angen am dai yn rhoi ystyriaeth briodol i'r rhan y gall coed ei chwarae mewn gwaith strategol i reoli llifogydd a lleihau allyriadau carbon deuocsid?

18:28 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to my good friend for those comments. In terms of an update on the tree health steering group, in many ways, the statement I published earlier today at lunchtime provides that update. We are looking at providing Members with not simply an overview of what those processes, structures and priorities will be, but I will seek to publish the individual elements of that, which address individual diseases or pathogens or difficulties. I published today an overview of where we are. I have spoken and answered questions on a number of occasions over the past few months on the approach that we are taking to these different tree diseases. I felt that it was important that Members have the full information in front of them in terms of the general approach that we are taking. As has already been referred to earlier in this session, it is also important that we publish the individual strategies and elements of that, and I give you an undertaking that I will do that.

Rwy'n ddiolchgar i fy ffrind da am y sylwadau hynny. O ran y wybodaeth ddiweddaraf am y grŵp llywio iechyd coed, mewn sawl ffordd, roedd y datganiad a gyhoeddais yn gynharach heddiw yn ystod amser cinio yn rhoi'r wybodaeth honno. Rydym yn bwriadu rhoi disgrifiad cyffredinol i Aelodau o'r prosesau, y strwythurau a'r blaenoriaethau hynny, ond byddaf hefyd yn ceisio cyhoeddi'r elfennau unigol, sy'n rhoi sylw i glefydau neu bathogenau neu anawsterau unigol. Cyhoeddais heddiw grynodeb o'r sefyllfa yr ydym ynddi. Rwyf wedi siarad ac ateb cwestiynau ar nifer o achlysuron yn ystod y misoedd diwethaf ynglŷn â'n hymdriniaeth o'r gwahanol glefydau coed hyn. Roeddwn i'n teimlo ei bod yn bwysig i'r Aelodau gael y wybodaeth lawn o'u blaenau ynglŷn â'n hymdriniaeth gyffredinol. Fel sydd eisoes wedi cael ei grybwyll yn gynharach yn y sesiwn hon, mae hefyd yn bwysig ein bod yn cyhoeddi'r strategaethau a'r elfennau unigol, ac rwy'n rhoi addewid i chi y byddaf yn gwneud hynny.

I agree and endorse the comments made on water management, flood defence and the place of woodlands in terms of climate change. They are all interlinked elements of what we seek to achieve. I will be publishing for consultation in the new year the plans for our new rural development plan, which will enable Members to review the actions we are proposing to take and to propose changes to them. I will also look at how we can use new and innovative means of not simply delivering planting, which we need to do, but also planting in the right places. That is the point that the Member made. That is why Pontbren was such an innovative and great example of individual landowners, farmers and others understanding their land and where planting is best, and then us, as a Government, working with them, trusting their knowledge, understanding, ambition and vision for their land, and working with people to deliver the sort of countryside and woodland environment in Wales that we all want to see.

Rwy'n cytuno ac yn cefnogi'r sylwadau a wnaed ynglŷn â rheoli dŵr, amddiffyn rhag llifogydd a lle coetiroedd o ran newid yn yr hinsawdd. Maent i gyd yn elfennau cydgysylltiol o'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Byddaf yn cyhoeddi'r cynlluniau ar gyfer ein cynllun datblygu gwledig newydd yn y flwyddyn newydd, ar gyfer ymgynghoriad, gan alluogi Aelodau i adolygu'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd ac i gynnig newidiadau iddynt. Byddaf hefyd yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio dulliau newydd ac arloesol o blannu, sef rhywbeth y mae angen ei wneud, ond hefyd o blannu yn y mannau cywir. Dyna'r pwynt a wnaeth yr Aelod. Dyna pam yr oedd Pontbren yn enghraifft mor arloesol a gwych o dirfeddianwyr, ffermwyr ac unigolion eraill yn deall eu tir a'r mannau gorau i blannu, ac yna ni, fel Llywodraeth, yn gweithio gyda nhw, gan ymddiried yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu huchelgais a'u gweledigaeth ar gyfer eu tir, a gweithio gyda phobl i ddarparu'r math o gefn gwlad ac amgylchedd coetir yng Nghymru yr ydym i gyd am ei weld.

18:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are two Members left, so I ask for lightning-quick questions now please.

Mae dau Aelod ar ôl, felly gofynnaf am gwestiynau cyflym iawn yn awr os gwelwch yn dda.

18:30

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of using resources efficiently, I notice that you hope to publish a document on Welsh softwoods in construction, and this demonstrates that there are at least six viable construction systems that are capable of using Welsh-grown softwoods. Will you tell us what funds you intend to use to develop that particular project?

O ran defnyddio adnoddau'n effeithlon, rwy'n sylwi eich bod yn gobeithio cyhoeddi dogfen ar brennau meddal Cymru mewn adeiladu, ac mae hon yn dangos bod o leiaf chwe system adeiladu hyfyw sy'n gallu defnyddio prennau meddal a dyfir yng Nghymru. A wnewch chi ddweud wrthym pa gyllid yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio i ddatblygu'r prosiect penodol hwnnw?

18:31

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those are exactly the sorts of conversations that I need to have, and I will report to Members when we have been able to do that. I will ensure that Members are kept abreast of all the developments on these matters.

Dyna'r union fath o sgyrsiau y mae angen i mi eu cael, a byddaf yn hysbysu'r Aelodau pan fyddwn wedi gallu gwneud hynny. Byddaf yn sicrhau bod Aelodau'n cael gwybod am yr holl ddatblygiadau ar y materion hyn.

18:31

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the timber companies that I have recently spoken to said that there is an issue regarding the lack of grant funding in Wales to support capital investment, in comparison with other parts of the UK, particularly the highlands of Scotland. What discussions have you had with your ministerial colleagues to examine this issue to see whether there are any avenues to lever in more money to improve grant funding and make the process more streamlined?

Dywedodd un o'r cwmnïau pren yr wyf wedi siarad â nhw yn ddiweddar bod problem ynghylch diffyg cyllid grant yng Nghymru i gefnogi buddsoddiad cyfalaf, o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, yn enwedig ucheldiroedd yr Alban. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda'ch cyd-Weinidogion i archwilio'r mater hwn i weld a oes unrhyw lwybrau i ddenu mwy o arian i wella cyllid grant a gwneud y broses yn symlach?

18:31

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Support for the timber industry can be delivered directly through general Government support of business, but also through individual elements of the rural development plan. The sort of funding stream that individual businesses might wish to access would be dependent on what they are seeking to achieve within that business. I would be more than happy to have discussions with you and the businesses that you have referred to on the basis of their individual needs and requirements. If you would like to write to me on that matter, I would be more than happy to take that forward.

Gellir cyflwyno cymorth ar gyfer y diwydiant pren yn uniongyrchol trwy gefnogaeth gyffredinol y Llywodraeth i fusnes, ond hefyd trwy elfennau unigol o'r cynllun datblygu gwledig. Byddai'r math o ffrwd gyllido y gallai busnesau unigol ddymuno manteisio arni yn dibynnu ar yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni o fewn y busnes hwnnw. Byddwn yn fwy na pharod i gael trafodaethau gyda chi a'r busnesau yr ydych wedi cyfeirio atynt ar sail eu hanghenion a'u gofynion unigol. Os hoffech ysgrifennu ataf ynglŷn â'r mater, byddwn yn fwy na pharod i fwrw ymlaen â hynny.

## Cymorth i'r Lluoedd Arfog yng Nghymru

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham, a gwelliannau 6, 7, 8, 9 a 10 yn enw Aled Roberts.*

## Support for the Armed Forces in Wales

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3, 4 and 5 in the name of William Graham, and amendments 6, 7, 8, 9 and 10 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5343 Lesley Griffiths

Motion NDM5343 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1.Yn nodi:

1.Notes:

a) gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog;

a) the Welsh Government's work to ensure that public services in Wales support members of the Armed Forces community;

b) y Pecyn Cymorth diweddaraf gan Lywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru;

b) the revised Welsh Government Package of Support for the Armed Forces Community in Wales;

c) y gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Grŵp Arbenigol Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar Anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

c) the work on-going through the Minister for Local Government and Government Business' Expert Group on the Needs of the Armed Forces Community in Wales.

18:32

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

This Assembly has, for a number of years, held a debate at this time of year, giving us an opportunity to commemorate those we have lost as a result of conflict. Tragically, last month, Lieutenant Corporal James Brynin from the 14th Signal Regiment, which is based in Cawdor barracks in Pembrokeshire, lost his life in the course of duty. My condolences go out to his family, friends and colleagues.

Mae'r Cynulliad hwn, am nifer o flynyddoedd, wedi cynnal dadl ar yr adeg hon o'r flwyddyn, gan roi cyfle inni goffáu'r rhai yr ydym wedi'u colli o ganlyniad i ryfel. Yn drasig, y mis diwethaf, collodd yr Is-gorporal James Brynin ei fywyd tra'r oedd ar ddyletswydd. Roedd yn aelod o 14eg Catrawd y Signalwyr, sydd wedi'i lleoli ym marics Cawdor yn Sir Benfro. Hoffwn estyn fy nghydymdeimlad i'w deulu, ei ffrindiau a'i gydweithwyr.

We all recognise the tremendous sacrifices our servicemen and women make on our behalf, both past and present. We must continue to show how much we value and appreciate the work that they do. Therefore, I am very happy to support amendments 1 and 2.

Rydym i gyd yn cydnabod yr aberth aruthrol y mae ein milwyr, yn ddynion a menywod, yn ei gwneud ar ein rhan, yn y gorffennol a'r presennol. Mae'n rhaid i ni barhau i ddangos cymaint yr ydym yn gwerthfawrogi'r gwaith y maent yn ei wneud. Felly, rwy'n hapus iawn i gefnogi gwelliannau 1 a 2.

On 28 October, the First Minister launched the framework programme for the commemoration of the centenary of the first world war. The programme will include a grant scheme managed by Cadw to ensure that local war memorials are maintained as a lasting memorial to the sacrifice of Welsh men and women. I do not support amendment 3. We have not promised to introduce a veterans identity card. In the Plenary debate in November 2011, my predecessor indicated that he was not convinced of the case for one, particularly given the introduction of the UK-wide defence discount card. He did not rule it out, but said that he wanted more information. In June, I informed Assembly Members that I had established a task and finish group to examine the value and viability of introducing an identity card for veterans in Wales. The group, which has representation from key service charities, will present its findings to me in December. I will not pre-empt the findings, but I can assure you that information and views have been sought from a wide range of people. The final report will not contain any recommendations imposed by the Welsh Government, but will represent the views of service charities and the armed forces community.

Ar 28 Hydref, lansiodd y Prif Weinidog y rhaglen fframwaith ar gyfer coffáu canmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf. Bydd y rhaglen yn cynnwys cynllun grant a reolir gan Cadw i sicrhau bod cofebion rhyfel lleol yn cael eu cynnal fel cofeb barhaol i aberth dynion a menywod o Gymru. Nid wyf yn cefnogi gwelliant 3. Nid ydym wedi addo cyflwyno cerdyn adnabod ar gyfer cyn-filwyr. Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2011, dywedodd fy rhagflaenydd nad oedd yn argyhoeddedig o'r achos dros gael un, yn enwedig o ystyried y cyflwynwyd cerdyn disgownt i aelodau a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog trwy'r DU gyfan. Nid oedd yn ei ddiystyru, ond dywedodd ei fod eisiau mwy o wybodaeth. Ym mis Mehefin, dywedais wrth Aelodau'r Cynulliad fy mod wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar werth a hyfywedd cyflwyno cerdyn adnabod ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru. Bydd y grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o elusennau allweddol y lluoedd arfog, yn cyflwyno ei ganfyddiadau i mi ym mis Rhagfyr. Nid wyf am achub y blaen ar y canfyddiadau, ond gallaf eich sicrhau bod gwybodaeth a barn wedi'u ceisio gan ystod eang o bobl. Ni fydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys unrhyw argymhellion a orfodwyd gan Lywodraeth Cymru, ond bydd yn cynrychioli safbwyntiau elusennau a chymuned y lluoedd arfog.

On 25 June, we published our new Welsh Government package of support for the armed forces community in Wales. In response to feedback from my expert group, it aims to be more user-friendly, providing information on accessing services and signposting to further support and advice. The package of support continues to reflect our commitments—those in place and ongoing, as well as those that are new and developing. I will refer to some examples in the key areas of education, health and housing. However, this is not a comprehensive list of the Welsh Government's commitments to the armed forces; this is far more wide-ranging and recognises the diverse needs of the armed forces community.

Ar 25 Mehefin, cyhoeddwyd pecyn newydd o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i gymuned y lluoedd arfog yng Nghymru. Mewn ymateb i adborth gan fy ngrŵp arbenigol, y nod yw iddo fod yn haws ei ddefnyddio, gan roi gwybodaeth am gael gafael ar wasanaethau a chyfeirio pobl at ragor o gymorth a chyngor. Mae'r pecyn cymorth yn parhau i adlewyrchu ein hymrwymiadau—rhai sydd ar waith ac yn barhaus, yn ogystal â'r rhai sy'n newydd ac sy'n datblygu. Rwyf am gyfeirio at rai enghreifftiau ym meysydd allweddol addysg, iechyd a thai. Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i'r lluoedd arfog; mae'r rhain yn llawer mwy eang eu cwmpas ac yn cydnabod anghenion amrywiol cymuned y lluoedd arfog.

On education, in 2012 we established an education standing committee for service children in schools to bring a strategic focus to the needs of service children. It now has an 18-month work programme in place. Our new schools admission code came into force in July 2013. In the 2014-15 academic year, when service children apply for a place at a school outside the normal admission round, they may now be admitted as an infant-class-size exception. This will ease the transfer to new areas and schools as a result of families rebasing. I therefore support amendment 4.

O ran addysg, yn 2012 sefydlwyd pwyllgor sefydlog ym maes addysg ar gyfer plant milwyr mewn ysgolion, er mwyn dod â phwyslais strategol i anghenion plant milwyr. Erbyn hyn mae rhaglen waith 18 mis wedi'i sefydlu. Daeth ein cod newydd ar gyfer derbyn plant i ysgolion i rym ym mis Gorffennaf 2013. Yn y flwyddyn academaidd 2014-15, pan fydd plant milwyr yn gwneud cais am le mewn ysgol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol, gellir eu derbyn yn awr fel eithriad i faint dosbarth babanod. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i deuluoedd drosglwyddo i ardaloedd ac ysgolion newydd o ganlyniad i newid gorsaf. Felly, rwy'n cefnogi gwelliant 4.

I also support amendment 5. The expansion of cadets in schools in Wales is a matter for individual schools and their governing bodies. We recognise that some young people enjoy learning and training with a military style or focus. Through work-based learning, we already support traineeships with a military focus through the Military Preparation College.

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliant 5. Mater i ysgolion unigol a'u cyrff llywodraethu yw ehangu cadetiaid mewn ysgolion yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod rhai pobl ifanc yn mwynhau dysgu a hyfforddi ag arddull neu bwyslais milwrol. Trwy ddysgu seiliedig ar waith, rydym eisoes yn cefnogi hyfforddiaethau â phwyslais milwrol trwy'r Coleg Paratoi Milwrol.

I support amendment 6. As a Government, we actively promote the community covenant grant scheme. I am very pleased that 19 of the 22 local authorities in Wales have now signed community covenants. Another two are signing this month, and I have a commitment from the final local authority that it will sign in the next few weeks. Good practice is happening, but I am conscious that different authorities are at different stages of development. I want to ensure that we are in a position where organisations are supporting each other and sharing good practice when they are developing their local proposals and initiatives.

Rwy'n cefnogi gwelliant 6. Fel Llywodraeth, rydym yn mynd ati i hyrwyddo cynllun grantiau'r cyfamod cymunedol. Rwy'n falch iawn bod 19 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru bellach wedi llofnodi cyfamodau cymunedol. Mae dau arall yn llofnodi'r mis hwn, ac mae gennyf ymrwymiad gan yr awdurdod lleol olaf y bydd yn llofnodi yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae arfer da yn digwydd, ond rwy'n ymwybodol bod gwahanol awdurdodau ar wahanol gamau o ddatblygiad. Rwyf am sicrhau ein bod mewn sefyllfa lle mae sefydliadau'n cefnogi ei gilydd a rhannu arferion da wrth ddatblygu eu cynigion a'u mentrau lleol.

In relation to amendment 7, we continue to provide annual support of almost £0.5 million for the veterans health and wellbeing service. Last month, I met with the Minister for Health and Social Services and the British Legion to discuss the profile of NHS mental health provision for veterans. We will be holding an event in the Senedd next year to raise awareness. The veterans health and wellbeing service continues to involve. It has established a unified care pathway, joining up statutory and non-statutory sectors, and acting as a single point of referral. A pathway to care for veteran prisoners will be published this month. In response to the Healthcare Inspectorate Wales report, 'Healthcare and the Armed Forces community in Wales', mental health clinical networks and local health board fora have been established. Care pathway guidance will be published this month for commissioners and treatment agencies through the Welsh Government's substance misuse delivery plan. The guidance aims to improve veterans' access to substance misuse treatment services.

O ran gwelliant 7, rydym yn parhau i ddarparu cymorth blynyddol o bron i £0.5 miliwn ar gyfer gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr. Y mis diwethaf, cyfarfûm â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Lleng Brydeinig i drafod proffil darpariaeth iechyd meddwl y GIG ar gyfer cyn-filwyr. Byddwn yn cynnal digwyddiad yn y Senedd y flwyddyn nesaf i godi ymwybyddiaeth. Mae'r gwasanaeth iechyd a lles ar gyfer cyn-filwyr yn parhau i esblygu. Mae wedi sefydlu llwybr gofal unedig, gan uno'r sectorau statudol ac anstatudol, a gweithredu fel un pwynt cyfeirio. Bydd llwybr gofal ar gyfer cyn-filwr sy'n garcharorion yn cael ei gyhoeddi'r mis hwn. Mewn ymateb i adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, 'Gofal Iechyd a chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru', sefydlwyd rhwydweithiau clinigol iechyd meddwl a fforymau bwrdd iechyd lleol. Bydd canllawiau llwybr gofal yn cael eu cyhoeddi'r mis hwn ar gyfer comisiynwyr ac asiantaethau triniaeth trwy gynllun cyflenwi camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru. Nod y canllawiau yw ei gwneud yn haws i gyn-filwyr gael gafael ar wasanaethau triniaeth ym maes camddefnyddio sylweddau.

With reference to amendment 9, the Minister for Health and Social Services wrote to local health boards on 25 October asking them to take forward the recommendations in the all-Wales military prosthetics working group's report 'Improved prosthetics services for military veterans'. This report recommended a formal commissioning policy for enhanced prosthetics service for military veterans, and a further phase of work on improvements to prosthetic services as a whole for civilians and veterans. Local health boards, through their joint work on the Welsh Health Specialised Services Committee, have adopted the commissioning policy and will complete the further phase of work by the end of next year.

Gan gyfeirio at welliant 9, ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at fyrddau iechyd lleol ar 25 Hydref i ofyn iddynt fwrw ymlaen â'r argymhellion yn adroddiad gweithgor prostheteg filwrol Cymru gyfan ar wella gwasanaethau prostheteg i gyn-filwyr. Mae'r adroddiad yn argymell polisi comisiynu ffurfiol er mwyn sicrhau gwell gwasanaethau prostheteg ar gyfer cyn-filwyr, a rhagor o waith ar welliannau i wasanaethau prosthetig yn eu cyfanrwydd i sifiliaid a chyn-filwyr. Mae byrddau iechyd lleol, trwy eu gwaith ar y cyd ar Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, wedi mabwysiadu'r polisi comisiynu a byddant yn cwblhau'r gwaith ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn nesaf.

In respect of amendments 8 and 10, we recognise the importance of maintaining and building on our links with the military and the Ministry of Defence. I am pleased that we have good foundations to build on at a UK level, and locally, where our local health boards are actively engaging with the military. We have put in place arrangements for NHS practitioners to record military service on medical records, and reminded them of the need to do this. Activity by the Ministry of Defence should further improve this system for the future. I recognise the need to do more to embed and promote this in primary healthcare. There is also a need to work with veterans themselves to ensure that they offer this information, as anecdotal evidence suggests a reticence on their part.

O ran gwelliannau 8 a 10, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cynnal ac adeiladu ar ein cysylltiadau â'r lluoedd arfog a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Rwy'n falch bod gennym sylfeini da i adeiladu arnynt ar lefel y DU, ac yn lleol, lle mae ein byrddau iechyd lleol yn mynd ati i ymgysylltu â'r lluoedd arfog. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith i ymarferwyr y GIG gofnodi gwasanaeth milwrol ar gofnodion meddygol, ac wedi eu hatgoffa o'r angen i wneud hyn. Dylai gweithgarwch gan y Weinyddiaeth Amddiffyn wella'r system hon ymhellach ar gyfer y dyfodol. Rwy'n cydnabod yr angen i wneud mwy i ymwreiddio a hyrwyddo hyn ym maes gofal iechyd sylfaenol. Mae hefyd angen gweithio gyda chyn-filwyr eu hunain i sicrhau eu bod yn cynnig y wybodaeth hon, gan fod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu amharodrwydd ar eu rhan.

Finally, on housing, in June the Minister for Housing and Regeneration announced funding of £2 million to provide affordable housing for armed forces service leavers in Wales. A task and finish group has developed the approach for the allocation of the funding, in consultation with the Welsh Local Government Association, Community Housing Cymru and armed forces representatives. The Ministry of Defence joint housing advice office has advertised the availability of this affordable housing in Wales through the various armed forces channels as part of its existing referrals scheme. We are on course to purchase the properties this financial year, and the referral scheme will ensure that the properties are immediately let once purchased.

Yn olaf, ym maes tai, ym mis Mehefin cyhoeddodd y Gweinidog Tai ac Adfywio gyllid o £2 filiwn i ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer pobl sy'n gadael y lluoedd arfog yng Nghymru. Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi datblygu dull o ddyrannu'r cyllid, trwy ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a chynrychiolwyr y lluoedd arfog. Mae swyddfa cyngor tai ar y cyd y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi hysbysebu'r ffaith fod y tai fforddiadwy hyn ar gael yng Nghymru trwy wahanol sianelau'r lluoedd arfog fel rhan o'i chynllun atgyfeiriadau presennol. Rydym yn bwriadu prynu'r eiddo y flwyddyn ariannol hon, a bydd y cynllun atgyfeirio yn sicrhau bod yr eiddo yn cael eu gosod yn syth ar ôl eu prynu.

In conclusion, I am pleased at the progress that we are making. However, it is important that we maintain momentum. Welsh Government will be working with the public sector to ensure that our commitments and the commitments set out in local community covenant agreements are delivered, and I very much look forward to the debate.

I gloi, rwy'n falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni hyd yma. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cynnal y momentwm. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus i sicrhau bod ein hymrwymiadau a'r ymrwymiadau a nodir yng nghytundebau'r cyfamodau cymunedol lleol yn cael eu cyflawni, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y ddadl.

18:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the 10 amendments to the motion, and I call on Mark Isherwood to move amendments 1 to 5, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol y 10 gwelliant i'r cynnig, ac rwy'n galw ar Mark Isherwood i gynnig gwelliannau 1 i 5, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Cynnwys is-bwynt a) newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new sub point a) and renumber accordingly:*

*pwysigrwydd Dydd y Cofio o ran ein hatgoffa am aberth yr unigolion hynny sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'r rheiny yn y boblogaeth sifil a gollodd eu bywydau neu a brofodd newid diwrthdro yn eu bywydau yn sgil gwrthdaro ers 1914;*

*the importance of Remembrance Day in reminding us of the sacrifice of those who have served in the armed forces and those in the civilian population, whose lives were lost or irreversibly changed by conflicts since 1914;*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Cynnwys is-bwynt a) newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new sub point a) and renumber accordingly:*

*bod Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ar y gorwel a bod angen diogelu ein Cofebion Rhyfel;*

*the forthcoming Centenary of the First World War and the need to safeguard our War Memorials;*

*Gwelliant 3—William Graham*

*Amendment 3—William Graham*

*Cynnwys is-bwynt b) newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new sub point b) and renumber accordingly:*

*ac yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflwyno Cynllun Cerdyn i Gyn-filwyr, yn unol â'r addewid a wnaed 2 flynedd yn ôl.*

*with regret the failure of the Welsh Government to introduce a Veterans Card Scheme, as promised 2 years ago;*

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new sub point at end of motion:*

*anghenion cymhleth ac amrywiol Cymuned y Lluoedd Arfog.*

*the varied and complex needs of the Armed Forces Community.*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod y gwaith rhagorol y mae mudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ei wneud o ran ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r gwaith hwn yn ei fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid.*

*Amendment 5—William Graham*

*Add as new point at end of the motion:*

*Recognises the outstanding work being undertaken by MoD-sponsored national youth voluntary organisations to engage with young people who are not in education, employment or training and calls on the Welsh Government to incorporate this work into their youth engagement and progression framework.*

18:40

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fresh from the poppy appeal last Monday and last Saturday's wonderful festival of remembrance at Llay Royal British Legion, I move amendments 1, 2, 3, 4 and 5. I will speak to amendments 1, 2 and 4.

We must remember the sacrifice of those who have served in the armed forces and those in the civilian population whose lives were lost or irreversibly changed by conflicts since 1914, and note the forthcoming centenary of the first world war and the need to safeguard our war memorials. The year 2014 will mark 100 years since the start of the first world war and we welcome UK Government plans to build a commemoration fitting of this significant milestone in world history, working alongside partners including the Imperial War Museums, the Heritage Lottery Fund and the Commonwealth War Graves Commission.

We also welcome the Welsh Government's programme for Wales's commemoration of the first world war, Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918, and the central role of education and community events in this. The First Minister's adviser on the first world war, Professor Sir Deian Hopkin, has stated that a wide range of activities will include the restoration of war memorials, and 8,015 war graves across Wales are being given a higher profile by the Commonwealth War Graves Commission to emphasise the local history on people's doorsteps.

Of the 700,000 British servicemen who lost their lives in the first world war, 35,000 are listed in the Welsh book of remembrance. The hundreds of local war memorials across Wales reflected the desire for an immediate and permanent reminder of the dead, as communities sought public acknowledgement of their loss. All communities in Wales were deeply affected by the great war. For example, at Mwrog Street in Ruthin, one man per 2.9 houses did not return.

Yn ffres ar ôl apêl pabi ddydd Llun diwethaf a'r ŵyl goffa gwych ddydd Sadwrn diwethaf yn y Lleng Brydeinig Frenhinol yn Llai, cynigiaf welliannau 1, 2, 3, 4 a 5. Byddaf yn siarad o blaid gwelliannau 1, 2 a 4.

Mae'n rhaid i ni gofio aberth y rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'r rhai yn y boblogaeth sifil y mae eu bywydau wedi cael eu colli neu eu newid yn llwyr gan ryfeloedd ers 1914, a nodi'r canmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf sydd ar ddod a'r angen i ddiogelu ein cofebion rhyfel. Bydd y flwyddyn 2014 yn nodi 100 mlynedd ers cychwyn y rhyfel byd cyntaf ac rydym yn croesawu cynlluniau Llywodraeth y DU i greu coffâd gweddus i'r garreg filltir bwysig hon yn hanes y byd, gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid gan gynnwys yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad.

Rydym hefyd yn croesawu rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer coffâd Cymru o'r rhyfel byd cyntaf, Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918, a rôl ganolog addysg a digwyddiadau cymunedol yn hyn. Mae cynghorydd y Prif Weinidog ar y rhyfel byd cyntaf, yr Athro Syr Deian Hopkin, wedi datgan y bydd ystod eang o weithgareddau yn cynnwys adfer cofebion rhyfel, ac mae 8,015 o feddau rhyfel ar draws Cymru yn cael proffil uwch gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad i bwysleisio hanes lleol ar garreg drws pobl.

O'r 700,000 o filwyr Prydain a gollodd eu bywydau yn y rhyfel byd cyntaf, mae 35,000 wedi eu rhestru yn llyfr coffa Cymru. Roedd y cannoedd o gofebion rhyfel lleol ar draws Cymru yn adlewyrchu'r awydd am goffâd uniongyrchol a pharhaol o'r meirw, wrth i gymunedau geisio cydnabyddiaeth gyhoeddus o'u colled. Cafodd pob cymuned yng Nghymru ei heffeithio'n ddwfn gan y rhyfel mawr. Er enghraifft, ar Stryd Mwrog yn Rhuthun, ni wnaeth un dyn o bob 2.9 o dai ddychwelyd.

Many war memorials are publicly recognised and in good repair, but concern has been expressed in recent years that a lack of awareness and regard for certain war memorials has resulted in their neglect, inappropriate disposal or destruction. Some have also been hit by metal thefts. Grant schemes to conserve war memorials in Wales are available from the War Memorials Trust and Cadw, and we must applaud the work of organisations such as Keep Wales Tidy, which is working with the drug and alcohol rehabilitation charity CAIS on its Change Step project to improve the Greenfield war memorial in Flintshire. Community groups can apply to the Heritage Lottery Fund for projects commemorating the first world war.

Mae nifer o gofebion rhyfel yn cael eu cydnabod yn gyhoeddus ac mewn cyflwr da, ond mynegwyd pryder yn y blynyddoedd diwethaf bod diffyg ymwybyddiaeth a pharch at rhai cofebion rhyfel wedi arwain at eu hesgeuluso, eu gwaredu'n amhriodol neu eu dinistrio. Mae rhai hefyd wedi cael eu taro gan ladron metel. Mae cynlluniau grant i warchod cofebion rhyfel yng Nghymru ar gael gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel a Chadw, a rhaid inni ganmol gwaith sefydliadau megis Cadwch Gymru'n Daclus, sy'n gweithio gyda'r elusen adsefydlu alcohol a chyffuriau CAIS ar ei brosiect Newid Cam i wella cofeb ryfel Maes-glas yn Sir y Fflint. Gall grwpiau cymunedol wneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiectau yn coffáu'r rhyfel byd cyntaf.

Every time we debate gaps in provision for the complex needs of the armed forces community, I quote the regimental medical officer of 2nd Battalion The Parachute Regiment in the Falkland Islands in 1982, who is himself an NHS consultant and who stated:

Bob tro y byddwn yn trafod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer anghenion cymhleth cymuned y lluoedd arfog, dyfynnaf swyddog meddygol catrodol 2il Fataliwn Catrawd y Parasiwtwyr yn Ynysoedd Falkland ym 1982, sydd ei hun yn ymgynghorydd yn y GIG ac a ddywedodd:

'With no disrespect to NHS Mental Health professionals ... If conventional Mental Health Services were so comprehensive there would not be such a high veteran rate of suicide, high prison population, and large number of veterans sleeping rough.'

Heb unrhyw amharch i weithwyr proffesiynol Iechyd Meddwl y GIG ... pe byddai Gwasanaethau Iechyd Meddwl confensiynol mor gynhwysfawr, ni fyddai cyfradd mor uchel o hunanladdiad ymhlith cyn-filwyr, cynifer ohonynt mewn carchardai, a chynifer yn cysgu ar y stryd.

I welcome the all-Wales veterans health and wellbeing service, but this still does not address the need for short-term residential treatment for those with complex needs. Although an estimated 8,000 ex-forces personnel in Wales suffer from complex military post-traumatic stress disorder, which represents 4% of the ex-forces population in Wales, only 158 veterans were referred to the service last year, only 100 of them were treated over a 12-month period, only 24 service-user feedback forms were completed by the 100 veterans seen, and only 39 veterans were discharged. That is not an evidence base.

Rwy'n croesawu'r gwasanaeth iechyd a lles trwy Gymru gyfan i gyn-filwyr, ond nid yw hyn yn mynd i'r afael o hyd â'r angen am driniaeth breswyl tymor byr ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth. Er bod tua 8,000 o gyn-bersonél y lluoedd arfog yng Nghymru yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma milwrol cymhleth, sef 4% o gyn-boblogaeth y lluoedd arfog yng Nghymru, dim ond 158 o gyn-filwyr gafodd eu hatgyfeirio at y gwasanaeth y llynedd, dim ond 100 ohonynt gafodd eu trin dros gyfnod o 12 mis, dim ond 24 o ffurflenni adborth defnyddwyr gwasanaeth gafodd eu llenwi gan y 100 o gyn-filwyr a welwyd, a dim ond 39 o gyn-filwyr a gafodd eu rhyddhau. Nid yw hynny'n sail tystiolaeth.

In last year's armed forces debate, I referred to the Healthcare Inspectorate Wales report, 'Healthcare and the Armed Forces Community in Wales'. This was based upon evidence from veterans themselves and recommended that the Welsh Government should consider the utility of establishing a form of residential facility in Wales. I am therefore very concerned that the Kennedy report commissioned by the Welsh Government, with terms of reference set by the Welsh Government, concluded that there is no evidence to warrant a residential facility that supports veterans with PTSD

Yn y ddadl ar y lluoedd arfog y llynedd, cyfeiriais at adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, 'Gofal Iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru'. Roedd hwn yn seiliedig ar dystiolaeth gan gyn-filwyr eu hunain ac roedd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa mor ddefnyddiol fyddai sefydlu math o gyfleuster preswyl yng Nghymru. Felly, rwy'n pryderu'n fawr bod adroddiad Kennedy a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chylch gorchwyl a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau cyfleuster preswyl i gefnogi cyn-filwyr sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma

'so long as sufficient capacity exists within existing NHS and Third Sector providers.'

cyn belled â bod digon o gapasiti yn bodoli o fewn darparwyr y GIG a'r Trydydd Sector presennol.

Clearly, it does not. A one-size-fits-all approach can never work for veterans needing person-centred treatment. Speaking at May's CAIS 'Change Step' launch in Wrexham, which recognised the need for veterans to support veterans in a peer mentoring, support and advisory service for ex-forces personnel in distress across north Wales, I stated that support for veterans in Wales must improve and improve dramatically. Veterans struggling with PTSD are haunted by images, sounds and smells of war and their wives, children, aunties and mothers are picking up the pieces.

Yn amlwg, nid yw'n bodoli. Ni all dull unffurf i bawb weithio ar gyfer cyn-filwyr y mae arnynt angen triniaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion. Wrth siarad yn lansiad 'Newid Cam' CAIS ym mis Mai yn Wrecsam, a oedd yn cydnabod yr angen i gyn-filwyr gefnogi cyn-filwyr trwy wasanaeth mentora cymheiriaid, cefnogaeth a chynghori ar gyfer cyn-bersonél y lluoedd arfog mewn trallod ar draws gogledd Cymru, dywedais fod yn rhaid i gefnogaeth i gyn-filwyr yng Nghymru wella a gwella'n ddramatig. Mae delweddau, synau ac arogleuon rhyfel yn hunllef i gyn-filwyr sy'n brwydro anhwylder straen wedi trawma, a'u gwragedd, eu plant, eu modrybedd a'u mamau sy'n gorfod gofalu amdanynt.

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu Cynllun Grantiau'r Cyfamod Cymunedol, gwerth £30 miliwn, y mae Llywodraeth y DU wedi'i lansio ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i gymunedau lleol gryfhau'r cyswllt a'r gyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog a'r gymuned ehangach y maent yn byw ynddi.*

*Welcomes the £30 million Community Covenant Grant Scheme launched by the UK Government and calls on the Welsh Government to promote the opportunities offered to local communities to strengthen the ties and mutual understanding between members of the Armed Forces Community and the wider community in which they live.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gapasiti o fewn y GIG i alluogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru sy'n dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma gael gofal priodol, gan gynnwys mynediad at arbenigwyr a chymorth brys a seibiant digonol.*

*Calls on the Welsh Government to ensure sufficient capacity in the NHS for members of the Armed Forces Community in Wales who suffer from PTSD to access suitable care, including access to specialists and adequate emergency and respite support.*

*Gwelliant 8—Aled Roberts*

*Amendment 8—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cael y driniaeth feddygol flaenoriaethol y mae ganddynt hawl iddi drwy drefnu bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn rhoi dull cyson ar waith ar gyfer adnabod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog; i sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo; ac i fonitro'r gwaith o ddarparu'r hawl honno.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that members of the Armed Forces Community in Wales receive the priority medical treatment to which they are entitled by implementing a consistent method of identification of members of the Armed Forces Community by Local Health Boards in Wales; to ensure that members of the Armed Forces Community are aware of their entitlement; and to monitor the delivery of this entitlement.*

*Gwelliant 9—Aled Roberts*

*Amendment 9—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen ar gyfer datblygu polisi comisiynu cam wrth gam ar gyfer darparu aelodau prosthetig o'r corff i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru a gwneud gwelliannau i'r gwaith o gynllunio, trefnu a darparu gwasanaethau prosthetig yn gyffredinol.*

*Calls on the Welsh Government to publish a timeline for the phased development of a commissioning policy for provision of prosthetics for members of the Armed Forces Community in Wales and of improvements to the planning, organisation and delivery of prosthetic services as a whole.*

*Gwelliant 10—Aled Roberts*

*Amendment 10—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn sefydlu perthynas â Chanolfan Adferiad Meddygol y Gwasanaeth Amddiffyn yn Headley Court.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that Local Health Boards in Wales establish relationships with the Defence Medical Rehabilitation Centre Headley Court.*

18:45

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 6, 7, 8, 9 and 10.

Cynigiaf welliannau 6, 7, 8, 9 a 10.

I welcome what is now turning into an annual debate on the armed forces. It is very appropriate. I join with the Minister in expressing my commiserations to the families of those who have lost their lives in combat, fighting for their country. These debates recognise the important service that armed forces personnel provide to the United Kingdom. They also enable the Assembly to consider the best ways that we as a nation can support armed service personnel and their families both during and after their service. They also provide an opportunity for the Welsh Government to inform us of how it will be supporting our armed service personnel and their families.

Rwy'n croesawu'r hyn sydd bellach yn troi'n ddadl flynyddol ar y lluoedd arfog. Mae'n briodol iawn. Rwy'n ymuno â'r Gweinidog i fynegi fy nghydymdeimlad â theuluoedd y rhai sydd wedi colli eu bywydau mewn brwydr, yn ymladd dros eu gwlad. Mae'r trafodaethau hyn yn cydnabod y gwasanaeth pwysig y mae personél y lluoedd arfog yn ei ddarparu i'r Deyrnas Unedig. Maent hefyd yn galluogi'r Cynulliad i ystyried y ffyrdd gorau y gallwn fel cenedl gefnogi personél y lluoedd arfog a'u teuluoedd yn ystod ac ar ôl eu gwasanaeth. Maent hefyd yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru roi gwybod i ni sut y bydd yn cefnogi personél ein lluoedd arfog a'u teuluoedd.

In terms of the motion before us, we are happy to support all the Conservative amendments that have been tabled. However, we have some reservations about amendment 3, in relation to the veterans card scheme. In principle, we think that it is a good idea, but the devil is in the detail in terms of the cost and how the scheme will operate. We need some clarity about exactly what the card will deliver for armed service veterans, what the cost will be and how it will be operated. Having said that, it is important that that is looked into, and I would certainly ask that the Government commits to investigating what this card can do and how it can improve the service for veterans in Wales. One issue that comes up constantly in terms of the provision of public services is the identification of veterans. They often do not identify themselves when they present to a public service and, clearly, the card will assist in that, which is one of the reasons why, in principle, we think that this is a particularly good idea.

O ran y cynnig ger ein bron, rydym yn hapus i gefnogi'r holl welliannau a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr. Fodd bynnag, mae gennym rai amheuon ynglŷn â gwelliant 3, a chynllun cerdyn y cyn-filwyr. Mewn egwyddor, rydym yn meddwl ei fod yn syniad da, ond y manylion sy'n bwysig o ran y gost a sut y bydd y cynllun yn gweithio. Mae angen rhywfaint o eglurder ynghylch beth yn union y bydd y cerdyn yn ei roi i gyn-filwyr y lluoedd arfog, beth fydd y gost a sut y bydd yn cael ei weithredu. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig ystyried hynny, a byddwn yn sicr yn gofyn i'r Llywodraeth ymrwymo i ymchwilio i'r hyn y gall y cerdyn hwn ei wneud a sut y gall wella'r gwasanaeth ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru. Un mater sy'n codi'n gyson o ran darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yw adnabod cyn-filwyr. Yn aml nid ydynt yn dweud eu bod yn gyn-filwyr wrth gyflwyno i wasanaeth cyhoeddus ac, yn amlwg, bydd y cerdyn yn cynorthwyo yn hynny o beth, a dyna un o'r rhesymau pam, mewn egwyddor, yr ydym yn meddwl bod hwn yn syniad arbennig o dda.

We welcome the revised Welsh Government package of support for the armed service community, particularly section 2 on information for the armed service community about services available in Wales. However, I would ask questions about how this information booklet has been made available to the armed forces community—how many see it and how it is distributed. This links to amendment 8. How can the armed forces access the services to which they are entitled, such as priority medical treatment, if they are not aware of its existence? That is also an issue within local health boards. It is stated in the package of support that health bodies are aware of this commitment, but do they action this commitment at every level? If you walk into a doctor's surgery or any other point of provision for a health service, is that priority offered to a member of the armed services?

Rydym yn croesawu pecyn diwygiedig Llywodraeth Cymru o gefnogaeth i gymuned y lluoedd arfog, yn enwedig adran 2 ar wybodaeth i'r gymuned lluoedd arfog am y gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn cwestiynau am sut y mae'r llyfryn gwybodaeth hwn wedi cael ei ddarparu i gymuned y lluoedd arfog—faint sy'n ei weld a sut y mae'n cael ei ddosbarthu. Mae hyn yn cysylltu â gwelliant 8. Sut y gall y lluoedd arfog fanteisio ar y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt, megis triniaeth feddygol â blaenoriaeth, os nad ydynt yn ymwybodol o'u bodolaeth? Mae honno'n broblem o fewn byrddau iechyd lleol hefyd. Nodir yn y pecyn o gymorth bod cyrff iechyd yn ymwybodol o'r ymrwymiad hwn, ond a ydynt yn gweithredu'r ymrwymiad hwn ar bob lefel? Os ydych yn cerdded i mewn i feddygfa neu unrhyw bwynt darpariaeth arall ar gyfer gwasanaeth iechyd, a yw'r flaenoriaeth honno'n cael ei chynnig i aelod o'r lluoedd arfog?

In terms of the armed forces covenant, that was first published in May 2011 by the coalition Government, setting out the relationship between the nation, the state and the armed forces. It recognised that the whole nation has a moral obligation to members of the armed forces and their families and it establishes how they should expect to be treated. It exists to redress the disadvantages that the armed forces community faces in comparison to civilians and recognises the sacrifices made. Clearly, I very much welcome the fact that the community covenant is being established at a local level and that the vast majority of local authorities in Wales have now signed up to it, and the Minister has indicated that other authorities are coming on board as well. What I would query, however, is how local authorities are implementing this covenant. I have come across examples in my own casework where certain departments of local authorities have not been aware of the existence of the covenant or the obligations it places on them in terms of providing flexibility and service for members of the armed forces.

O ran cyfamod y lluoedd arfog, cyhoeddwyd hwnnw gyntaf ym mis Mai 2011 gan y Llywodraeth glymblaid, yn nodi'r berthynas rhwng y genedl, y wladwriaeth a'r lluoedd arfog. Roedd yn cydnabod bod gan y genedl gyfan rwymedigaeth foesol i aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd ac mae'n sefydlu sut y dylent ddisgwyl cael eu trin. Mae'n bodoli i wneud iawn am yr anfanteision y mae cymuned y lluoedd arfog yn eu hwynebu o'u cymharu â sifiliaid ac yn cydnabod yr aberth a wnaed. Yn amlwg, rwy'n croesawu'r ffaith bod y cyfamod cymunedol yn cael ei sefydlu ar lefel leol a bod y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ymrwymo iddo, ac mae'r Gweinidog wedi nodi bod awdurdodau eraill yn gefnogol yn ogystal. Yr hyn y byddwn i'n ei holi, fodd bynnag, yw sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r cyfamod hwn. Rwyf wedi dod ar draws enghreifftiau yn fy ngwaith achos fy hun, lle nad yw rhai adrannau o awdurdodau lleol wedi bod yn ymwybodol o fodolaeth y cyfamod na'r rhwymedigaethau y mae'n eu gosod arnynt o ran darparu hyblygrwydd a gwasanaeth ar gyfer aelodau o'r lluoedd arfog.

An example of that in my region is the implementation of a new policy on school absence. It is very much sensible to try to reduce the number of unauthorised absences, but no flexibility has been offered to headteachers for example to make provision for members of the armed forces, who, of course, cannot always take their leave during conventional breaks and often have to take leave with their families at times that are not convenient to others and during school terms. It should be available to headteachers to have flexibility to offer to those members of the armed forces if their child has a good record of attendance to allow them to take an absence and go on holiday with their family at that particular time. That is not understood, it seems, by the education departments in my region. I am sure that that is just one example where this covenant is in place, but it has not permeated through the local authority and officers do not fully understand what obligations are placed on a local authority in terms of implementing it.

Un enghraifft o hynny yn fy rhanbarth i yw gweithredu polisi newydd ar absenoldeb o'r ysgol. Mae'n synhwyrol iawn i geisio lleihau nifer yr absenoldebau heb eu hawdurdodi, ond nid oes unrhyw hyblygrwydd wedi cael ei gynnig i benaethiaid er enghraifft, i wneud darpariaeth ar gyfer aelodau o'r lluoedd arfog, na allant, wrth gwrs, bob amser gymryd eu gwyliau yn ystod gwyliau confensiynol ac sy'n aml yn gorfod cymryd gwyliau gyda'u teuluoedd ar adegau nad ydynt yn gyfleus i eraill ac yn ystod tymhorau ysgol. Dylai penaethiaid allu cynnig hyblygrwydd i'r aelodau hynny o'r lluoedd arfog os oes gan eu plentyn gofnod presenoldeb da, i'w galluogi i fod yn absennol a mynd ar wyliau gyda'u teulu ar yr adeg benodol honno. Nid yw adrannau addysg yn fy rhanbarth i yn deall hynny, mae'n ymddangos. Rwy'n siŵr mai dim ond un enghraifft yw honno lle mae'r cyfamod hwn ar waith, ond nad yw wedi treiddio drwy'r awdurdod lleol ac nad yw swyddogion yn deall yn llawn pa rwymedigaethau sy'n cael eu gosod ar awdurdod lleol o ran ei weithredu.

I am running out of time, so I do not have time to go through all of the amendments, but time after time, we have debated the need for the Welsh NHS to support those in the armed forces community who suffer from PTSD. I know that we all recognise the need to provide this support, but how this support will be provided has not been decided. A lot needs to be improved in terms of provision for PTSD, and we need to review that and put it in place. We certainly need to make sure that there is proper provision in Wales for our veterans of the armed forces who have that particular problem.

Mae fy amser yn dod i ben, felly nid oes gennyf amser i fynd trwy bob un o'r gwelliannau, ond dro ar ôl tro, rydym wedi trafod yr angen i'r GIG yng Nghymru gefnogi'r bobl yng nghymuned y lluoedd arfog sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma. Gwn ein bod i gyd yn cydnabod yr angen i ddarparu'r cymorth hwn, ond ni phenderfynwyd sut y bydd y cymorth hwn yn cael ei ddarparu. Mae angen gwella llawer o ran y ddarpariaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma, ac mae angen inni ei hadolygu a'i rhoi ar waith. Yn sicr mae angen i ni wneud yn siŵr bod darpariaeth briodol yng Nghymru ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sydd â'r broblem benodol hon.

18:50

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Remembrance Sunday, which falls this week, is a very difficult time for many people. It is a time to remember and respect the sacrifices that have been made because of war—all wars. It is a time of commemoration and not a time of celebration. Next year is the one-hundredth anniversary of the outbreak of the first world war—a tragic war that lasted for four years. During that time, 30 million soldiers were killed or wounded. Last year, I visited some of the war graves in northern France. If anybody here has visited those graves, I am sure that you will agree with me that it was a very moving experience.

Mae Sul y Cofio, sy'n dod yr wythnos hon, yn gyfnod anodd iawn i lawer o bobl. Mae'n amser i gofio a pharchu'r aberth a wnaed oherwydd rhyfel—pob rhyfel. Mae'n gyfnod o goffâd ac nid yn amser o ddathlu. Y flwyddyn nesaf yw canfed pen-blwydd dechrau'r rhyfel byd cyntaf—rhyfel trasig a barhaodd am bedair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cafodd 30 miliwn o filwyr eu lladd neu eu hanafu. Y llynedd, ymwelais â rhai o'r beddau rhyfel yng ngogledd Ffrainc. Os oes unrhyw un yma wedi ymweld â beddau hynny, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi ei fod yn brofiad emosiynol iawn.

Many of those who were not killed in that war saw their lives changed irreparably by what they called at the time 'shell shock', a condition that we now call 'combat stress reaction'. A further 7 million civilians died during that conflict—a tragic waste of the lives and potential of so many young people. It is not the beginning of this terrible war that should be celebrated, but its conclusion in 1918.

Roedd llawer o'r rhai na chafodd eu lladd yn y rhyfel hwnnw wedi gweld eu bywydau'n newid am byth gan yr hyn yr oeddent yn ei alw ar y pryd yn 'sioc ffrwydron', cyflwr yr ydym nawr yn ei alw'n 'ymateb i straen brwydr'. Bu farw 7 miliwn o sifiliaid hefyd yn ystod y rhyfel hwnnw—gwastraff trasig ar fywydau a photensial cymaint o bobl ifanc. Nid dechrau'r rhyfel ofnadwy hwnnw y dylid ei ddathlu, ond ei ddiwedd ym 1918.

Years later, even though we now know so much more about the impact of military life upon those who train and serve, we still do not do enough to help those affected by their time in the forces. A recent report from Forces Watch found that younger recruits were significantly more likely to suffer post-traumatic stress disorder, to drink at levels harmful to health and to behave violently on their return from war. Damaging effects can be seen on some of the most vulnerable members of the armed forces, particularly the youngest and those without qualifications.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, er ein bod bellach yn gwybod llawer mwy am effaith bywyd milwrol ar y rhai sy'n hyfforddi ac yn gwasanaethu, nid ydym yn gwneud digon o hyd i helpu'r rhai yr effeithir arnynt gan eu hamser yn y lluoedd arfog. Roedd adroddiad diweddar gan Forces Watch wedi canfod bod recriwtiaid iau yn llawer mwy tebygol o ddioddef anhwylder straen wedi trawma, o yfed ar lefelau niweidiol i iechyd ac o ymddwyn yn dreisgar wedi iddynt ddychwelyd o ryfel. Gellir gweld effeithiau niweidiol ar rai o aelodau mwyaf agored i niwed y lluoedd arfog, yn enwedig yr ieuengaf a'r rhai sydd heb gymwysterau.

While recognising that, for many people, there are many positives to serving in the armed forces, we must also recognise the potential for harm. It is only common sense that those who go to war or who are trained for war are given as much support as possible, both emotionally and practically, when they leave the armed forces. Plaid Cymru has long called for one-stop shops, similar to those already introduced by the Scottish Government, to ensure that veterans are signposted to the right services without the need for repetition and duplication. Members from all sides here will be aware of the excellent work carried out by my colleague Elfyn Llwyd to improve the quality of care for veterans. Plaid Cymru's 2010 paper, 'Support for Veterans', suggested a number of initiatives that could be adopted. These included: mandatory mental health assessments as part of the discharge process; specialist support officers to conduct regular check-ups post discharge and to provide advice and support where needed; initiatives to tackle substance misuse and the drinking culture; and establishing a post for a Minister with responsibility for these issues.

Cydnabyddir bod llawer o bethau cadarnhaol ynghlwm wrth wasanaethu yn y lluoedd arfog, i lawer o bobl, ond rhaid i ni hefyd gydnabod y potensial ar gyfer niwed. Mae'n synnwyr cyffredin i'r rhai sy'n mynd i ryfel neu sy'n cael eu hyfforddi ar gyfer rhyfel gael cymaint o gefnogaeth ag y bo modd, yn emosiynol ac yn ymarferol, pan fyddant yn gadael y lluoedd arfog. Mae Plaid Cymru wedi galw ers amser am siopau un stop, yn debyg i'r rhai a gyflwynwyd eisoes gan Lywodraeth yr Alban, er mwyn sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau iawn heb yr angen am ailadrodd a dyblygu. Bydd aelodau o bob ochr yma yn ymwybodol o'r gwaith ardderchog a wnaed gan fy nghydweithiwr Elfyn Llwyd i wella ansawdd y gofal i gyn-filwyr. Awgrymodd papur gan Blaid Cymru yn 2010, 'Cefnogaeth i Gyn-filwyr', nifer o fentrau y gellid eu mabwysiadu. Roedd y rhain yn cynnwys: asesiadau iechyd meddwl gorfodol fel rhan o'r broses ryddhau; swyddogion cymorth arbenigol i gynnal archwiliadau rheolaidd ar ôl rhyddhau ac i ddarparu cyngor a chymorth lle bo angen; mentrau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau a'r diwylliant yfed; a sefydlu swydd Gweinidog i fod yn gyfrifol am y materion hyn.

While veterans' care is increasing in importance, there is still a great deal of work that must be done. However, what would be best, of course, would be to prevent the wars in the first place and to end the violence. That is why Plaid Cymru continues to support peace initiatives, including the setting up of a Welsh peace institute to research and advise on alternatives that would then prevent such suffering.

Er bod gofal i gyn-filwyr yn dod yn fwy a mwy pwysig, mae llawer iawn o waith ar ôl i'w wneud o hyd. Fodd bynnag, beth fyddai orau, wrth gwrs, fyddai atal y rhyfeloedd yn y lle cyntaf a rhoi terfyn ar y trais. Dyna pam y mae Plaid Cymru yn parhau i gefnogi mentrau heddwch, gan gynnwys sefydlu sefydliad heddwch Cymru i ymchwilio a chynghori ar ddewisiadau eraill a fyddai wedyn yn atal dioddefaint o'r fath.

As Harry Patch, the last surviving British soldier from the first world war said before his death,

Fel y dywedodd Harry Patch cyn ei farwolaeth, sef y milwr Prydeinig diwethaf a oroesodd y rhyfel byd cyntaf,

'Too many died. War isn't worth one life'.

Bu farw gormod. Nid yw rhyfel yn werth un bywyd.

As we remember them, let us keep Harry's words at the front of our minds.

Wrth i ni eu cofio, gadewch i ni gadw geiriau Harry ar flaen ein meddyliau.

18:55 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

On Saturday, I had the pleasure of taking part in the final leg of the Walk on Wales, which culminated here in the Senedd, with the Presiding Officer as part of the welcoming committee, along with the Treorchy male voice choir. The Walk on Wales was set up by two Welsh Guards who are Falklands veterans in order to raise money for the families of people who have lost their lives in Afghanistan, as well as those who have been injured in that war. It was a fantastic family affair of community remembrance and thanks, and it was very much a Welsh Guards affair, as the silver baton inscribed with the names of 50 Welsh Guards who have died since the second world war was laid on the steps of the Senedd.

Ddydd Sadwrn, cefais y pleser o gymryd rhan yng nghymal olaf y daith gerdded Walk on Wales, a ddaeth i ben yma yn y Senedd, gyda'r Llywydd yn rhan o'r pwyllgor croeso, ynghyd â chôr meibion Treorci. Sefydlwyd Walk on Wales gan ddau aelod o'r Gwarchodlu Cymreig, a frwydrodd yn Ynysoedd Falkland, er mwyn codi arian ar gyfer teuluoedd pobl sydd wedi colli eu bywydau yn Afghanistan, yn ogystal â'r rhai sydd wedi cael eu hanafu yn y rhyfel hwnnw. Roedd yn ddigwyddiad teuluol gwych o goffáu a diolch cymunedol, ac yr oedd i raddau helaeth yn ddigwyddiad i'r Gwarchodlu Cymreig, wrth roi ar risiau'r Senedd y baton arian wedi'i arysgrifio ag enwau'r 50 aelod o'r Gwarchodlu Cymreig sydd wedi marw ers yr ail ryfel byd.

I walked with a woman whose brother died on HMS Sir Galahad, one of 50 people who lost their lives on 8 June 1982 as a result of the fog of war. I personally spent several months trying to find out why the Welsh Guards were sent to Bluff Cove on the Sir Galahad—a landing ship with no anti-air defences, which made them sitting ducks when the Argentinian air force came calling. What goes on in our name is normally shrouded in secrecy and it is very difficult for the families of soldiers, never mind the general public, to understand what they have been through. The tragedy at Bluff Cove was captured by tv cameras, so it did give us some idea, but it is and it remains a very sobering fact, as Mark Isherwood has referred to, that more Falklands veterans have committed suicide after the war than were killed in the actual conflict.

Cerddais gyda menyw y bu ei brawd farw ar HMS Sir Galahad, un o 50 o bobl a gollodd eu bywydau ar 8 Mehefin 1982 o ganlyniad i niwl y rhyfel. Treuliais yn bersonol sawl mis yn ceisio darganfod pam fod y Gwarchodlu Cymreig wedi cael ei anfon i Bluff Cove ar y Syr Galahad—llong lanio heb unrhyw amddiffynfeydd gwrthawyrennau, oedd yn eu gwneud yn dargedau hawdd pan ddaeth llu awyr yr Ariannin. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ein henw fel arfer dan len o gyfrinachedd ac mae'n anodd iawn i deuluoedd y milwyr, heb sôn am y cyhoedd yn gyffredinol, ddeall yr hyn y maent wedi bod drwyddo. Cafodd y trychineb yn Bluff Cove ei gofnodi gan gamerâu teledu, felly roedd yn rhoi rhyw syniad inni, ond mae'n parhau i fod yn ffaith ddifrifol iawn, fel y mae Mark Isherwood wedi sôn, bod mwy o gyn-filwyr y Falklands wedi cyflawni hunanladdiad ar ôl y rhyfel nag a laddwyd yn y rhyfel ei hun.

My grandfather won many medals for bravery in the horror of the first world war, only to commit suicide a decade later, when my mother was only 13. I agree with Leanne Wood that it is not the beginning of the war in 1914 that we should celebrate, but its ending in 1918. Therefore, the efforts of the Welsh Government to provide the essential support that military veterans deserve, having gone to hell and back in our name, are extremely important.

Enillodd fy nhaid nifer o fedalau am ddewrder yn arswyd y rhyfel byd cyntaf, dim ond i gyflawni hunanladdiad ddegawd yn ddiweddarach, pan oedd fy mam yn ddim ond 13. Rwy'n cytuno â Leanne Wood nad dechrau'r rhyfel ym 1914 y dylem ei ddathlu, ond ei ddiwedd ym 1918. Felly, mae ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth hanfodol y mae cyn-filwyr yn ei haeddu, ar ôl mynd i uffern ac yn ôl yn ein henw ni, yn hynod o bwysig.

On a local level, I find the Welsh Government's approach to commissioning nurse-led community support groups across Wales through Combat Stress an important initiative, because Combat Stress understands what these people have gone through and also provides an important signpost for more specialist services for both veterans and their families. I note that one of the people who took part in the Walk on Wales, Paul Conlon, who led a group of ex-servicemen on one of the legs of the walk, has called for a Welsh residential centre to provide specialist help for traumatised servicemen and servicewomen. He was diagnosed with post-traumatic stress disorder after serving for 11 years in the army, including in the Falklands, and was successfully treated at a specialist residential centre in Shropshire. My question for the Minister is whether there are enough people who need in-patient care to justify a residential treatment centre in Wales. The figures provided by Mark Isherwood indicate that that might be the case, but I think that it is really important, when we are commissioning services, that people get the excellent specialist support that they need rather than, necessarily, having it as a local service in Wales. The same argument must also apply to prosthetic services. They need to be the best, rather than necessarily being provided locally, even if those services need to be locally delivered.

Ar lefel leol, rwy'n ystyried dull Llywodraeth Cymru o gomisiynu grwpiau cymorth cymunedol a arweinir gan nyrsys ar draws Cymru trwy Combat Stress yn fenter bwysig, gan fod Combat Stress yn deall yr hyn y mae'r bobl hyn wedi mynd drwyddo. Mae hefyd yn darparu arwyddbost pwysig i wasanaethau mwy arbenigol ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd. Sylwaf fod un o'r bobl a gymerodd ran yn y daith gerdded Walk on Wales, Paul Conlon, a arweiniodd grŵp o gyn-filwyr ar un o gymalau'r daith, wedi galw am ganolfan breswyl i Gymru i ddarparu cymorth arbenigol ar gyfer milwyr sydd wedi dioddef trawma. Roedd yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma ar ôl gwasanaethu am 11 mlynedd yn y fyddin, gan gynnwys yn y Falklands, a chafodd ei drin yn llwyddiannus mewn canolfan breswyl arbenigol yn Sir Amwythig. Fy nghwestiwn i'r Gweinidog yw a oes digon o bobl sydd ag angen gofal cleifion mewnol i gyfiawnhau canolfan driniaeth breswyl yng Nghymru. Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan Mark Isherwood yn awgrymu y gallai hynny fod yn wir, ond rwy'n meddwl ei bod yn wirioneddol bwysig, wrth gomisiynu gwasanaethau, bod pobl yn cael y cymorth arbenigol rhagorol y mae arnynt ei angen yn hytrach nag, o reidrwydd, ei gael fel gwasanaeth lleol yng Nghymru. Rhaid i'r un ddadl hefyd fod yn berthnasol i wasanaethau prosthetig. Mae angen iddynt fod y gorau, yn hytrach na chael eu darparu'n lleol o reidrwydd, hyd yn oed os oes angen cyflwyno'r gwasanaethau hynny'n lleol.

Some 2,500 people took part in the 870-mile Walk on Wales, although I think that only four of them did the whole walk. However, the fact that so many people did take part and welcomed people into their local communities when they came down the coast indicates the level of support and solidarity that people feel for war veterans. It is very important that the Government responds to that. Mr Conlon told reporters,

Cymerodd tua 2,500 o bobl ran yn y daith gerdded 870 milltir Walk on Wales, er fy mod yn meddwl mai dim ond pedwar ohonynt a wnaeth y daith gyfan. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod cynifer o bobl wedi cymryd rhan a chroesawu pobl i'w cymunedau lleol pan oeddent yn dod i lawr yr arfordir yn dangos y lefel o gefnogaeth a chydsafiad y mae pobl yn ei theimlo tuag at gyn-filwyr. Mae'n bwysig iawn bod y Llywodraeth yn ymateb i hynny. Dywedodd Mr Conlon wrth ohebwyr,

'I have friends that have committed suicide, and have turned to alcohol and pills. I look at myself and I'm glad that I've sorted myself out. This is my way of giving something back.'

Mae gennyf ffrindiau sydd wedi cyflawni hunanladdiad, ac wedi troi at alcohol a thabledi. Rwy'n edrych arnaf i fy hun ac rwy'n falch fy mod i wedi cael trefn arnaf fi fy hun. Mae hyn yn fy ffordd o roi rhywbeth yn ôl.

That is the outcome that we want for all service personnel and their families.

Dyna'r canlyniad yr ydym am ei gael i'r holl bersonél milwrol a'u teuluoedd.

19:00

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is at this particular time of year that we reflect on the valour, commitment, and gallantry of our armed forces in Wales. I, too, and I say with it humility, am much privileged to put on record my recognition, appreciation and support of our armed forces community in Wales, and also with due respect for the families of our brave men and women past and present. We reflect not just to remember those who have paid the ultimate sacrifice to preserve our freedoms but to honour those who continue to make that sacrifice with distinction in the name of peace and stability in the world. Irrespective of the debate on foreign interventions, our fighting men and women are the pride of our country and should be acknowledged and supported as such.

Ar yr adeg arbennig hon o'r flwyddyn rydym yn myfyrio ar ddewrder, ymroddiad a gwroldeb ein lluoedd arfog yng Nghymru. Rwyf innau, hefyd, a dywedaf hynny gyda gostyngeiddrwydd, yn freintiedig iawn i gael cofnodi fy nghydnabyddiaeth, fy ngwerthfawrogiad a'm cefnogaeth i gymuned ein lluoedd arfog yng Nghymru, a hefyd â pharch dyledus i deuluoedd ein dynion a menywod dewr yn y gorffennol a'r presennol. Rydym yn myfyrio nid yn unig i gofio am y rhai sydd wedi gwneud yr aberth eithaf i ddiogelu ein rhyddid, ond i anrhydeddu'r rhai sy'n parhau i wneud yr aberth hwnnw gyda chlod yn enw heddwch a sefydlogrwydd yn y byd. Beth bynnag fo'r ddadl ar ymyriadau tramor, ein dynion a menywod sy'n ymladd yw gogoniant ein gwlad, a dylid eu cydnabod a'u cefnogi fel y cyfryw.

It is heartening to hear of the 19 community covenants that have been signed up to by local authorities, but the point raised by Peter Black AM as to how these covenants are being actioned is most valid at this time. We all have a moral obligation and duty to recognise and provide for all those who have served in our name. Some 18,000 people will leave the armed forces each year. In Wales alone we have 220,000 members of the armed forces community, and our Welsh armed forces have been involved in 20 separate conflicts since the second world war. Unfortunately, however, a percentage of those in Wales are in need of mental health support for conditions such as PTSD, depression, anxiety and drug and alcohol addictions. Professor Kennedy's report of the veterans residential facility task and finish group states that delayed onset of these conditions means that they can often take up to 30 years to present in those who have served previously on active duty. In a Welsh Affairs Select Committee meeting in February, Professor Alan Hawley, a retired major general and military expert, said that, despite much support by charities, more could be done at Government level as regards health and housing.

Mae'n galonogol clywed am yr 19 cyfamod cymunedol y mae awdurdodau lleol wedi ymrwymo iddynt, ond mae'r pwynt a godwyd gan Peter Black AC ynghylch sut y mae'r cyfamodau hyn yn cael eu gweithredu yn ddilys iawn ar hyn o bryd. Mae gennym i gyd rwymedigaeth a dyletswydd foesol i gydnabod a darparu ar gyfer pawb sydd wedi gwasanaethu yn ein henw. Bydd rhyw 18,000 o bobl yn gadael y lluoedd arfog bob blwyddyn. Yng Nghymru yn unig mae gennym 220,000 o aelodau o gymuned y lluoedd arfog, ac mae lluoedd arfog Cymru wedi cymryd rhan mewn 20 gwrthdaro ar wahân ers yr ail ryfel byd. Yn anffodus, fodd bynnag, mae ar ganran o'r rheini yng Nghymru angen cefnogaeth iechyd meddwl ar gyfer cyflyrau megis anhwylder straen wedi trawma, iselder, gorbryder a dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Mae adroddiad yr Athro Kennedy o grŵp gorchwyl a gorffen y cyfleuster preswyl ar gyfer cyn-filwyr yn dweud y gall y cyflyrau hyn yn aml gymryd hyd at 30 mlynedd i ymddangos yn y rhai sydd wedi gwasanaethu yn flaenorol ar ddyletswydd weithredol. Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ym mis Chwefror, dywedodd yr Athro Alan Hawley, uwchfrigadydd wedi ymddeol ac arbenigwr milwrol, fod llawer o gefnogaeth ar gael gan elusennau, ond y gellid gwneud mwy ar lefel y Llywodraeth o ran iechyd a thai.

The work that has been undertaken by the All Wales Veterans Health and Wellbeing Service in Wales in supporting our forces community and veterans is to be welcomed, of course, but more can be done, should be done and must be done to support those who experience prolonged trauma or permanent injury. The Royal British Legion has campaigned for increased funding for veterans mental health services via the All Wales Veterans Health and Wellbeing Service and I hope that the Welsh Government will listen here and act on this call.

Mae'r gwaith a wnaed gan Wasanaeth Iechyd a Lles Cymru Gyfan ar gyfer Cyn-filwyr yng Nghymru o ran cefnogi cymuned ein lluoedd arfog a chyn-filwyr i'w groesawu, wrth gwrs, ond gellir gwneud mwy, dylid gwneud mwy ac mae'n rhaid gwneud mwy i gefnogi'r rheini sy'n dioddef trawma estynedig neu anaf parhaol. Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi ymgyrchu am fwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr trwy Wasanaeth Iechyd a Lles Cymru Gyfan ar gyfer Cyn-filwyr ac rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando yma ac yn gweithredu ar yr alwad hon.

Professor Kennedy's report has further highlighted the lack of dedicated residential accommodation for veterans in Wales and the lack of capacity within each health board to sufficiently progress assessments for mental health conditions. The fact that around 5% of those who have risked life and limb for their country find themselves living on its streets is a scourge on our society, so I do welcome the commitment of the Welsh Government to work with Cymorth Cymru to develop a directory of services for veterans at risk of homelessness.

Mae adroddiad yr Athro Kennedy wedi amlygu ymhellach y diffyg llety preswyl penodol ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru a'r diffyg gallu o fewn pob bwrdd iechyd i ddatblygu asesiadau ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl yn ddigonol. Mae'r ffaith bod tua 5% o'r rhai sydd wedi peryglu eu bywydau dros eu gwlad yn eu cael eu hunain yn byw ar y strydoedd yn warth ar ein cymdeithas, felly rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda Cymorth Cymru i ddatblygu cyfeiriadur o wasanaethau ar gyfer cyn-filwyr sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

It would be remiss of me not to highlight the work of a fantastic organisation that I am very proud to have within my own constituency, Blind Veterans UK. It is an organisation that provides support, care and compassion to ex-servicemen and women suffering sight loss and partial sight. The good news is that it has recently recruited 71 new members of staff. I remind the Chamber that Blind Veterans UK exists solely thanks to charitable donations, and I place on record my support for the staff and volunteers for the extraordinary work that they do for our armed forces community.

Byddai'n esgeulus imi beidio â thynnu sylw at waith mudiad gwych rwy'n falch iawn o'i gael o fewn fy etholaeth fy hun, Blind Veterans UK. Mae'n sefydliad sy'n darparu cymorth, gofal a thosturi i gyn-filwyr sy'n colli eu golwg yn llwyr neu'n rhannol. Y newyddion da yw ei fod yn ddiweddar wedi recriwtio 71 aelod newydd o staff. Hoffwn atgoffa'r Siambr fod Blind Veterans UK yn bodoli diolch yn unig i roddion elusennol, ac rwyf am gofnodi fy nghefnogaeth i'r staff a'r gwirfoddolwyr am y gwaith eithriadol y maent yn ei wneud ar gyfer cymuned ein lluoedd arfog.

However, I am disappointed, Minister, that you have just said now that you have no intention to pursue the veterans card, because in the much trumpeted report published in November last year, point 3.7 stated:

Fodd bynnag, rwy'n siomedig, Weinidog, eich bod newydd ddweud yn awr nad oes gennych unrhyw fwriad i fynd ar drywydd y cerdyn i gyn-filwyr, oherwydd bod pwynt 3.7 yn yr adroddiad a gyhoeddwyd â chryn ffanffer ym mis Tachwedd y llynedd, yn datgan:

'Through the Expert Group, reviews are being undertaken of advice services available to the Armed Forces community, and the value and viability of an Armed Forces card that would provide access to Public Services for members of the Armed Forces and veterans.'

'Trwy'r Grŵp Arbenigol, adolygir y gwasanaethau cyngor sydd ar gael i gymuned y lluoedd arfog a gwerth ac ymarferoldeb cerdyn Lluoedd Arfog a fyddai'n galluogi aelodau'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.'

So, less than a year later, and in this very poignant week, you actually tell this Chamber that you have now changed your mind on that and so this point is no longer relevant. That is clearly most disappointing. This card would extend the free bus scheme, free swimming, and free entrance to Cadw sites to veterans, as well as ensuring that our forces have priority access to health in the NHS for service-related injuries, conditions and adaptations. I just wonder why you are still left wanting as a Government on this. The Ministry of Defence in the UK has been able to play a leading role in providing opportunities for work and training for young people, which provides a safe, structured environment that imparts a wide-range of skills to young people.

Felly, lai na blwyddyn yn ddiweddarach, ac yn yr wythnos deimladwy iawn hon, rydych mewn gwirionedd yn dweud wrth y Siambr hon eich bod yn awr wedi newid eich meddwl ar hynny ac felly nad yw'r pwynt hwn yn berthnasol bellach. Mae hynny'n amlwg yn siomedig iawn. Byddai'r cerdyn hwn yn ymestyn y cynllun bws am ddim, nofio am ddim, a mynediad am ddim i safleoedd Cadw i gyn-filwyr, yn ogystal â sicrhau bod ein lluoedd yn cael mynediad â blaenoriaeth i iechyd yn y GIG ar gyfer anafiadau, cyflyrau ac addasiadau sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth. Tybed pam eich bod yn dal yn ddiffygiol fel Llywodraeth ar hyn? Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn y DU wedi gallu chwarae rhan flaenllaw o ran darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl ifanc, gan ddarparu amgylchedd diogel, strwythuredig sy'n rhoi ystod eang o sgiliau i bobl ifanc.

It should not only be on one day or during one week a year that we reflect on the significance of our armed forces community. It is not enough to simply wear a poppy, or to hold an annual debate. The commitment to our armed forces will be demonstrated in the coming weeks, months and years, creating a Wales that is worthy of our armed forces, our veterans, and of their unstinting service.

Nid ar un dydd neu yn ystod un wythnos y flwyddyn yn unig y dylem fod yn myfyrio ar arwyddocâd cymuned ein lluoedd arfog. Nid yw'n ddigon i wisgo pabi, neu i gynnal dadl flynyddol. Bydd yr ymrwymiad i'n lluoedd arfog yn cael ei ddangos yn yr wythnosau, y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, gan greu Cymru sy'n deilwng o'n lluoedd arfog, ein cyn-filwyr, a'u gwasanaeth diflino.

19:05

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I, too, welcome the opportunity to contribute to this debate as we near Remembrance Sunday 2013. It is only right that we should be discussing the selfless service that members of the armed forces provide to their country. It is a deep shame that we must debate the fact that, in so many ways, we are failing them.

Rwyf innau, hefyd, yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon wrth i ni agosáu at Sul y Cofio 2013. Mae'n iawn inni fod yn trafod y gwasanaeth anhunanol y mae aelodau'r lluoedd arfog yn ei ddarparu i'w gwlad. Mae'n warthus fod yn rhaid inni drafod y ffaith ein bod, mewn cymaint o ffyrdd, yn eu siomi.

There are 220,000 veterans in Wales, and they are the responsibility of the NHS, as is the care and the support of their families and the bereaved. It is imperative that we ensure that we properly support those who rely on such services. Minister, like Janet Finch-Saunders, I heard you say that you were not taking the veterans card forward. If I am mistaken, I would very much welcome clarification on that. The last time that we debated this, it was indicated that it was a simple way to give our armed forces the priority services and benefits that they need. The benefits and the simplicity of such a card were recognised and spoken about publicly in a previous debate in this Chamber. The fact that, after two years of promising its implementation, it still has not been taken forward is, to my mind, a very great shame, and a grave disappointment to those veterans, who deserved it.

Mae 220,000 o gyn-filwyr yng Nghymru, a'r GIG sy'n gyfrifol amdanynt hwy ac am ofal a chefnogaeth eu teuluoedd a'r rhai mewn profedigaeth. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau ein bod yn cefnogi'n briodol y rhai sy'n dibynnu ar wasanaethau o'r fath. Weinidog, fel Janet Finch-Saunders, clywais i chi'n dweud nad ydych yn mynd i ddatblygu'r cerdyn ar gyfer cyn-filwyr. Os wyf yn camgymryd, byddwn yn croesawu eglurhad ar hynny yn fawr iawn. Y tro diwethaf inni drafod hyn, nodwyd ei bod yn ffordd syml o roi iddynt y gwasanaethau â blaenoriaeth a'r buddion sydd eu hangen ar ein lluoedd arfog. Cafodd manteision a symlrwydd cerdyn o'r fath eu cydnabod a'u trafod yn gyhoeddus mewn dadl flaenorol yn y Siambr hon. Mae'r ffaith ei fod yn dal heb gael ei ddatblygu, ar ôl dwy flynedd o addo ei weithredu, yn fy marn i, yn drueni mawr iawn, ac yn siom ddifrifol i'r cyn-filwyr hynny a oedd yn ei haeddu.

I am delighted that Jenny Rathbone mentioned the Walk on Wales walk. I have joined that twice. That charity was set up to highlight the fact that, despite the enormous numbers of Welsh servicemen, and the enormous number of Welsh men and women who join our armed services, there is no post-traumatic stress disorder treatment centre here in Wales. Jan Koops, from the Welsh Guards, and Dai Davies, set up this charity to try to raise funds so that they could build a treatment centre here in Wales. It is of real concern, in particular, that Welsh-speaking soldiers may have to go over the border and be treated by people with whom they cannot communicate in the language of their choice.

Rwyf wrth fy modd bod Jenny Rathbone wedi sôn am y daith gerdded Walk on Wales. Rwyf wedi ymuno â honno ddwywaith. Sefydlwyd yr elusen honno i dynnu sylw at y ffaith nad oes canolfan driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma yma yng Nghymru, er gwaethaf y nifer enfawr o filwyr Cymreig, a nifer enfawr y dynion a'r menywod o Gymru sy'n ymuno â'n lluoedd arfog. Jan Koops, o'r Gwarchodlu Cymreig, a Dai Davies, a sefydlodd yr elusen hon i geisio codi arian fel y gallent adeiladu canolfan driniaeth yma yng Nghymru. Mae'n bryder go iawn, yn arbennig, y gallai rhai milwyr sy'n siarad Cymraeg orfod mynd dros y ffin a chael eu trin gan bobl nad ydynt yn gallu cyfathrebu â hwy yn yr iaith o'u dewis.

More veterans from the Falklands and the Gulf wars committed suicide than died in action. That is a shocking fact. I accept that the Welsh Government has invested in some PTSD treatment with the production of the All Wales Veterans Mental Health and Wellbeing Service. However, that treatment remains patchy across Wales, and that service cannot respond to emergency referrals. PTSD has been described as a ticking time bomb, which can lead to a myriad of social and substance abuse issues, and it needs proper, targeted help as soon as it is identified. That is why four people spent months walking the Wales coastal path—870 miles—to highlight the lack of a PTSD treatment centre here in Wales, and to highlight the importance of that service being provided by having a treatment centre, and to raise the money to try to get it built, because it is not being provided by the Welsh Government. The funds raised from that walk will go jointly to the Welsh Guards' Afghanistan appeal, and to Combat Stress.

Mae mwy o gyn-filwyr o ryfeloedd y Falkland a'r Gwlff wedi cyflawni hunanladdiad nag a fu farw yn brwydro. Mae honno'n ffaith syfrdanol. Rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn rhywfaint o driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma trwy sefydlu Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Lles Cymru Gyfan ar gyfer Cyn-filwyr. Fodd bynnag, mae'r driniaeth yn parhau'n anghyson ar draws Cymru, ac ni all y gwasanaeth ymateb i atgyfeiriadau brys. Mae anhwylder straen wedi trawma wedi cael ei ddisgrifio fel bom sy'n tician, a all arwain at fyrdd o broblemau cymdeithasol ac o ran camddefnyddio sylweddau, ac mae angen cymorth priodol, wedi'i dargedu cyn gynted ag y caiff ei nodi. Dyna pam y treuliodd pedwar o bobl fisoedd yn cerdded llwybr arfordir Cymru—870 milltir—i dynnu sylw at ddiffyg canolfan driniaeth yma yng Nghymru, ac i dynnu sylw at bwysigrwydd darparu'r gwasanaeth hwnnw trwy gael canolfan driniaeth, ac i godi arian i geisio ei hadeiladu, gan nad yw Llywodraeth Cymru'n ei darparu. Bydd yr arian a godir o'r daith yn mynd ar y cyd at apêl Afghanistan y Gwarchodlu Cymreig, ac at Combat Stress.

In 2011, Combat Stress saw a 10% rise in the demand for its services. As Janet Finch-Saunders has already mentioned, there is a long delay, often of many years, before the symptoms and signs of PTSD emerge. Minister, after committing two years ago to bring forward an armed forces card, will you give us a timetable today as to when that will be carried through? Minister, will you give consideration, in honour of the sacrifice of those servicemen who need help, to the feasibility of establishing a post-traumatic stress disorder centre in Wales, so that Welsh servicemen can receive treatment in Wales that is appropriate to their needs?

Yn 2011, gwelodd Combat Stress gynnydd o 10% yn y galw am ei wasanaethau. Fel y mae Janet Finch-Saunders eisoes wedi crybwyll, ceir oedi hir, yn aml am nifer o flynyddoedd, cyn i symptomau ac arwyddion anhwylder straen wedi trawma ddod i'r amlwg. Weinidog, ar ôl ymrwymo ddwy flynedd yn ôl i gyflwyno cerdyn y lluoedd arfog, a wnewch chi roi amserlen inni heddiw ar gyfer cyflawni hynny? Weinidog, a wnewch chi, er anrhydedd i aberth y milwyr hynny sydd ag angen help, ystyried ymarferoldeb sefydlu canolfan anhwylder straen wedi trawma yng Nghymru, fel y gall milwyr Cymru gael triniaeth yng Nghymru sy'n briodol i'w hanghenion?

19:10

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I thank Members for their contributions to this very important debate. I want to refer to Members' contributions and also to highlight some of the developments that are being processed and progressed through my expert group on the needs of the armed forces community in Wales.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl bwysig iawn hon. Rwyf am gyfeirio at gyfraniadau Aelodau a hefyd am dynnu sylw at rai o'r datblygiadau sy'n cael eu prosesu a'u datblygu trwy fy ngrŵp arbenigol ar anghenion cymuned y lluoedd arfog yng Nghymru.

Mark Isherwood referred to the centenary of the first world war, and to the programme that we will have in Wales that aims to encourage everyone to participate in events and activities in their local communities and nationally. It is really important that this transformational period in Welsh history is appropriately commemorated, that key events are interpreted and that the sacrifice of Welsh people is recognised.

Cyfeiriodd Mark Isherwood at ganmlwyddiant y rhyfel byd cyntaf, ac at y rhaglen a fydd gennym yng Nghymru sy'n ceisio annog pawb i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau yn eu cymunedau lleol ac yn genedlaethol. Mae'n bwysig iawn bod y cyfnod trawsnewidiol hwn yn hanes Cymru'n cael ei goffáu'n briodol, bod digwyddiadau allweddol yn cael eu dehongli a bod aberth pobl Cymru'n cael ei gydnabod.

Peter Black referred to raising awareness of services, which is very important. In the Royal Welsh Show this year, the armed forces were represented, and that was something that came across very much to me regarding the need for this when I spoke to the people there. I mentioned in my opening speech that Mark Drakeford and I met with the Royal British Legion last month, and that it was something that we were taking forward. There has been an increase in the use of our service, and I do not know whether that is because we are making sure that there is that level of awareness out there.

Cyfeiriodd Peter Black at godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau milwrol, sy'n bwysig iawn. Roedd y lluoedd arfog yn cael eu cynrychioli yn Sioe Frenhinol Cymru eleni, ac roedd hynny'n rhywbeth a ddaeth drosodd yn eglur iawn i mi ynghylch yr angen am hyn pan siaradais â'r bobl yno. Soniais yn fy araith agoriadol fod Mark Drakeford a minnau wedi cwrdd â'r Lleng Brydeinig Frenhinol y mis diwethaf, a'i fod yn rhywbeth yr ydym yn ei ddatblygu. Bu cynnydd yn y defnydd o'n gwasanaeth, ac nid wyf yn gwybod a yw hynny oherwydd ein bod yn gwneud yn siŵr bod y lefel honno o ymwybyddiaeth yn bodoli.

Peter also referred to the community covenants, and it is very important that 19 of the 22 local authorities have signed up to them; we will have two more authorities signed up in the next couple of weeks, and the final one before the end of the year. Next week, on 14 November, I am hosting an event in north Wales to provide an opportunity for armed forces champions from local authorities to get together, along with lead officers. That is very important so that we can see what work they are doing, and also to share best practice as we go forward.

Cyfeiriodd Peter hefyd at y cyfamodau cymunedol, ac mae'n bwysig iawn bod 19 o'r 22 awdurdod lleol wedi ymrwymo iddynt; bydd dau awdurdod arall wedi ymrwymo yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, a'r un olaf cyn diwedd y flwyddyn. Yr wythnos nesaf, ar 14 Tachwedd, rwy'n cynnal digwyddiad yng ngogledd Cymru er mwyn rhoi cyfle i hyrwyddwyr y lluoedd arfog o'r awdurdodau lleol ddod at ei gilydd, ynghyd â swyddogion arweiniol. Mae hynny'n bwysig iawn, fel y gallwn weld pa waith y maent yn ei wneud, a hefyd er mwyn rhannu arfer gorau wrth inni symud ymlaen.

19:12

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that it is very important that local authorities have signed up to this, but unless they permeate this throughout the whole of their services, it becomes a bit tokenistic. It is important, when local councils are setting policies, that they take account of the flexibilities in the covenant as part of the process.

Credaf ei bod yn bwysig iawn bod awdurdodau lleol wedi ymrwymo i hyn, ond oni bai eu bod yn sicrhau bod hyn yn treiddio trwy eu holl wasanaethau, mae braidd yn arwynebol. Pan fydd cynghorau lleol yn gosod polisïau, mae'n bwysig eu bod yn ystyried yr hyblygrwydd yn y cyfamod fel rhan o'r broses.

19:13

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree wholeheartedly, and the whole purpose of having this event is to make sure that we get that through right across the public sector.

Cytunaf yn llwyr, a holl bwrpas cael y digwyddiad hwn yw gwneud yn siŵr ein bod yn cyfleu hynny ar draws y sector cyhoeddus.

Leanne Wood referred to visiting the war graves, and I completely agree—I am the daughter of a D-day veteran and I have visited the beaches as well; there is nothing more moving than seeing that. I think it is very important that as many people as possible do that.

Cyfeiriodd Leanne Wood at ymweld â'r beddau rhyfel, ac rwy'n llwyr gytuno—rwy'n ferch i gyn-filwr dydd-D ac rwyf wedi ymweld â'r traethau hefyd; nid oes dim yn fwy emosiynol na gweld hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod cymaint o bobl ag y bo modd yn gwneud hynny.

Jenny Rathbone referred to the Walk on Wales walk, which the First Minister started off, and it is very good that you were there on Saturday along with the Presiding Officer and maybe other Members at the end of that.

Cyfeiriodd Jenny Rathbone at y daith gerdded Walk on Wales, a gafodd ei chychwyn gan y Prif Weinidog, ac mae'n dda iawn eich bod yno ddydd Sadwrn ynghyd â'r Llywydd ac Aelodau eraill efallai ar y diwedd.

Janet Finch-Saunders and Antoinette Sandbach were obviously either not listening to my opening remarks, or just carried on reading their prepared speeches. What I said was that I had established a task and finish group to examine the value and viability of introducing an identity card for veterans in Wales. The group, which has representation from key service charities, will present its findings to me in December. I will not pre-empt the findings, but I can assure you that information and views have been sought from a wide range of people. The final report will not contain any recommendations imposed by the Welsh Government, but will represent the views of service charities and armed forces communities. I really hope that you have both heard that now.

Mae'n amlwg bod Janet Finch-Saunders ac Antoinette Sandbach naill ai ddim yn gwrando ar fy sylwadau agoriadol, neu wedi parhau i ddarllen eu hareithiau parod. Yr hyn a ddywedais oedd fy mod wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar werth a hyfywedd cyflwyno cerdyn adnabod ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru. Bydd y grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o elusennau allweddol y lluoedd arfog, yn cyflwyno ei ganfyddiadau i mi ym mis Rhagfyr. Nid wyf am achub y blaen ar y canfyddiadau, ond gallaf eich sicrhau bod gwybodaeth a safbwyntiau wedi'u ceisio gan ystod eang o bobl. Ni fydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys unrhyw argymhellion a orfodir gan Lywodraeth Cymru, ond bydd yn cynrychioli safbwyntiau elusennau a chymunedau'r lluoedd arfog. Rwyf wir yn gobeithio eich bod eich dwy wedi clywed hynny yn awr.

We have also identified veterans as a potential priority group within the all-Wales reducing reoffending strategy, and that has been refreshed with a view to establishing a Wales veteran offenders pathway.

Rydym hefyd wedi nodi cyn-filwyr fel grŵp blaenoriaeth posibl o fewn strategaeth lleihau aildroseddu Cymru gyfan, ac mae honno wedi cael ei hadfywio gyda'r bwriad o sefydlu llwybr i Gymru ar gyfer cyn-filwyr sy'n droseddwyr.

Jenny Rathbone and others referred to Professor Rosemary Kennedy's report on the need for a dedicated veterans residential facility in Wales. That was published in September, and I very much welcomed, along with the Minister for Health and Social Services, the findings of this independent review. While the report did not find evidence supporting the need for a therapeutic residential facility for veterans, it made wider recommendations about co-ordinated support for veterans. We will be considering those recommendations across various Welsh Government portfolios in the coming months.

Cyfeiriodd Jenny Rathbone ac eraill at adroddiad yr Athro Rosemary Kennedy ar yr angen am gyfleuster preswyl pwrpasol i gyn-filwyr yng Nghymru. Cyhoeddwyd hwnnw ym mis Medi ac roeddwn i, ynghyd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn croesawu canfyddiadau'r adolygiad annibynnol hwn yn fawr. Er na wnaeth yr adroddiad ddod o hyd i dystiolaeth i gefnogi'r angen am gyfleuster preswyl therapiwtig i gyn-filwyr, fe gyflwynodd argymhellion ehangach ynglŷn â chymorth cydlynol ar gyfer cyn-filwyr. Byddwn yn ystyried yr argymhellion hynny ar draws gwahanol bortffolios Llywodraeth Cymru yn y misoedd nesaf.

19:15

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking an intervention, Minister. I have also been asking about residential care. If a centre in itself is not called for in this report, perhaps you can agree to look at the provision of residential facilities, particularly for emergency cases and for respite care to support families in local community settings in Wales instead.

Diolch ichi am gymryd ymyriad, Weinidog. Rwyf innau hefyd wedi bod yn holi ynglŷn â gofal preswyl. Os nad oes galw am ganolfan ynddi ei hun yn yr adroddiad hwn, efallai y gallwch gytuno i edrych ar ddarpariaeth cyfleusterau preswyl, yn enwedig ar gyfer achosion brys ac ar gyfer gofal seibiant i gefnogi teuluoedd mewn lleoliadau yn y gymuned leol yng Nghymru yn lle hynny.

19:15

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I said, several Ministers will be considering the recommendations that came forward from Professor Kennedy's report over the coming months.

Fel y dywedais, bydd nifer o Weinidogion yn ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd yn adroddiad yr Athro Kennedy dros y misoedd nesaf.

Janet Finch-Saunders also said that it is really important that we honour everyone. I think that it is very important that we remember those who ensure that we have our freedom now. I pay tribute to everyone within armed forces families. Also, I have to say that, since I became responsible for this portfolio in March, I have met many veterans and, unlike Antoinette Sandbach, they do not say that we are failing them. They are very grateful for what we provide. All the veterans who I have spoken to have said that to me. On Sunday, we will come together as a nation to remember them.

Dywedodd Janet Finch-Saunders hefyd ei bod yn bwysig iawn ein bod yn anrhydeddu pawb. Credaf ei bod yn bwysig iawn inni gofio'r rhai a sicrhaodd y rhyddid sydd gennym yn awr. Rwy'n rhoi teyrnged i bawb o fewn teuluoedd y lluoedd arfog. Hefyd, rhaid imi ddweud, ers i mi ddod yn gyfrifol am y portffolio hwn ym mis Mawrth, rwyf wedi cwrdd â llawer o gyn-filwyr ac, yn wahanol i Antoinette Sandbach, nid ydynt yn dweud ein bod yn eu siomi. Maent yn ddiolchgar iawn am yr hyn yr ydym yn ei ddarparu. Mae pob un o'r cyn-filwyr yr wyf wedi siarad â hwy wedi dweud hynny wrthyf. Ddydd Sul, byddwn yn dod at ein gilydd fel cenedl i'w cofio.

19:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch ichi, Weinidog. Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:16

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? There is objection, so I defer all further voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais arall tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

19:16

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Voting time will now follow. Are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will move straight to voting time.

Bydd yr amser pleidleisio yn dilyn yn awr. A oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly symudwn yn syth at y cyfnod pleidleisio

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5343.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5343.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 37, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 37, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5343.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5343.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5343.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5343.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 43, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 43, Against 10, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5343.

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5343.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 43, Yn erbyn 0, Ymatal 10.*

*Amendment agreed: For 43, Against 0, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5343.

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5343.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnig NDM5343.

Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5343.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 43, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 43, Against 10, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnig NDM5343.

Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5343.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10 i gynnig NDM5343.

Result of the vote on amendment 10 to motion NDM5343.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 43, Yn erbyn 0, Ymatal 10.*

*Amendment agreed: For 43, Against 0, Abstain 10.*

Cynnig NDM5343 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig NDM5343 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ar y gorwel a bod angen diogelu ein Cofebion Rhyfel;

b) pwysigrwydd Dydd y Cofio o ran ein hatgoffa am aberth yr unigolion hynny sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'r rheiny yn y boblogaeth sifil a gollodd eu bywydau neu a brofodd newid diwrthdro yn eu bywydau yn sgil gwrthdaro ers 1914;

c) gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog;

d) y Pecyn Cymorth diweddaraf gan Lywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru;

e) y gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Grŵp Arbenigol Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar Anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

f) anghenion cymhleth ac amrywiol Cymuned y Lluoedd Arfog.

2. Yn cydnabod y gwaith rhagorol y mae mudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ei wneud o ran ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r gwaith hwn yn ei fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid.

3. Yn croesawu Cynllun Grantiau'r Cyfamod Cymunedol, gwerth £30 miliwn, y mae Llywodraeth y DU wedi'i lansio ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i gymunedau lleol gryfhau'r cyswllt a'r gyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog a'r gymuned ehangach y maent yn byw ynddi.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gapasiti o fewn y GIG i alluogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru sy'n dioddef o Anhwylder Straen WediTrawma gael gofal priodol, gan gynnwys mynediad at arbenigwyr a chymorth brys a seibiant digonol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cael y driniaeth feddygol flaenoriaethol y mae ganddynt hawl iddi drwy drefnu bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn rhoi dull cyson ar waith ar gyfer adnabod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog; i sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo; ac i fonitro'r gwaith o ddarparu'r hawl honno.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes:

a) the forthcoming Centenary of the First World War and the need to safeguard our War Memorials;

b) the importance of Remembrance Day in reminding us of the sacrifice of those who have served in the armed forces and those in the civilian population, whose lives were lost or irreversibly changed by conflicts since 1914;

c) the Welsh Government's work to ensure that public services in Wales support members of the Armed Forces community;

d) the revised Welsh Government Package of Support for the Armed Forces Community in Wales;

e) the work on-going through the Minister for Local Government and Government Business' Expert Group on the Needs of the Armed Forces Community in Wales.

f) the varied and complex needs of the Armed Forces Community.

2. Recognises the outstanding work being undertaken by MoD-sponsored national youth voluntary organisations to engage with young people who are not in education, employment or training and calls on the Welsh Government to incorporate this work into their youth engagement and progression framework.

3. Welcomes the £30 million Community Covenant Grant Scheme launched by the UK Government and calls on the Welsh Government to promote the opportunities offered to local communities to strengthen the ties and mutual understanding between members of the Armed Forces Community and the wider community in which they live.

4. Calls on the Welsh Government to ensure sufficient capacity in the NHS for members of the Armed Forces Community in Wales who suffer from PTSD to access suitable care, including access to specialists and adequate emergency and respite support.

5. Calls on the Welsh Government to ensure that members of the Armed Forces Community in Wales receive the priority medical treatment to which they are entitled by implementing a consistent method of identification of members of the Armed Forces Community by Local Health Boards in Wales; to ensure that members of the Armed Forces Community are aware of their entitlement; and to monitor the delivery of this entitlement.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn sefydlu perthynas â Chanolfan Adferiad Meddygol y Gwasanaeth Amddiffyn yn Headley Court.

6. Calls on the Welsh Government to ensure that Local Health Boards in Wales establish relationships with the Defence Medical Rehabilitation Centre Headley Court.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5343 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5343 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion as amended agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.*

19:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 19:20.*

*The meeting ended at 19:20.*